# Teithiau'r Meddwl

# Teithiau'r Meddwl

ysgrifau llenyddol

Kate Bosse-Griffiths

casglwyd a golygwyd gan

J. Gwyn Griffiths

y Lolfa

Argraffiad cyntaf: Rhagfyr 2004

Hawlfraint: Robat a Heini Gruffudd a'r Lolfa Cyf., 2004

*Mae hawlfraint ar gynnwys y llyfr hwn ac mae'n anghyfreithlon i atgynhyrchu unrhyw ran ohono at unrhyw bwrpas heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwyr ymlaen llaw.*

Rhif Llyfr Rhyngwladol: 0 86243 747 4

y Lolfa

Argraffwyd a chyhoeddwyd yng Nghymru
gan Y Lolfa Cyf., Talybont, Ceredigion SY24 5AP;
*ffôn* (01970) 832 304, *ffacs* 832 782
*e-bost* ylolfa@ylolfa.com
*gwefan* www.ylolfa.com

# Cynnwys


7 Gyrfa a Gwaith

23 **I. DIRGELION YNYSOEDD HAWAII**

**II. CREFYDDAU**
37 Doethion o'r Dwyrain: Lao-Tse
43 Dwy santes: dau draddodiad
50 John Penry a Bendith y Mamau
56 Y Fam-gu sanctaidd yn Llydaw
63 Yn Wyneb Haul
68 Y Roced a aeth i chwilio am Dduw
71 Y Sgrôl o Lyfr Esther

**III. ARLOESWYR**
77 Rhagair
83 Ernst Toller: bardd a gwleidydd (1893–1939)
90 Madame Curie
98 Lenin
105 Henri Bergson

**IV. HEDDYCHIAETH**
110 Rhagair
111 Cymod a chasineb
115 Mudiadau Heddwch yn yr Almaen
143 George Davies – yr 'Heddychwr Mawr'

**V. ACHLYSURON**

146 Mrs Pandit yng Nghymru
150 Arian Cymreig
153 Hywel Dda a John Voss
157 Y Pasg yn Vienna
159 Taith i Hwngari, gwlad yn y canol
161 Darganfod "Beirdd Cymru" yn Hwngari
165 Y Celtiaid yn Stuttgart
169 Dwyrain a Gorllewin yn Sweden
175 Pryd Gwerinol ym Moscow
178 Gomer Jones mewn Ffilm Rwsiaidd
181 Bonn ar y Groesffordd
186 Sgwrs gyda gwleidydd yn Nulyn
189 Ar Lwybrau'r Dr William Price, Llantrisant

**VI. LLYFRAU A LLEOEDD**

193 Mi a fûm gyda Kazantzakis yn chwilio am ryddid
204 Euros Bowen a'r Gaeaf Caled
209 *Y Foel Fawr* gan R. Gerallt Jones
213 *Brad* (Saunders Lewis)
221 Ysgrifennu Llenyddiaeth (Islwyn Ffowc Elis)

224 Nodiadau Golygyddol
244 Llyfryddiaeth

# GYRFA A GWAITH

Ganed Kate Bosse-Griffiths yn Wittenberg-an-der-Elbe (Lutherstadt), yr Almaen, ar Orffennaf 16, 1910, ac wrth gynnig braslun o'i bywyd a'i gweithgarwch mae dyn yn sylweddoli mor sylfaenol oedd dylanwad ei thref a'i gwlad enedigol. Mae hynny'n cynnwys dylanwad ei theulu. Treuliodd lawer o'i hoes mewn gwledydd eraill, yn enwedig yng Nghymru, ond roedd y cwlwm teuluol yn dal yn gryf yn ei phrofiad. Roedd amryw eraill o'r teulu wedi cartrefu ymhell o'r Almaen – yn Sweden, yr Unol Daleithiau, a Tsieina – ond gwnaed ymdrech i gadw'r cysylltiad yn gadarn. Byddai'r teulu yn cynnal cyfarfod unol yn weddol gyson. Yr un olaf i Kate ei fynychu (a minnau gyda hi) oedd yr un yn Würzburg ym mis Medi 1996. Roedd pedwar ugain a mwy yn bresennol. Ym mis Ebrill 1999 bu cyfarfod ger cartref ei brawd, Dr Günther Bosse, yn Karlshamn, Sweden, lle bu'n gweithio fel meddyg ar ôl ffoi o'r Almaen adeg yr erlid. Roedd rhif y cynulliad yno dipyn yn llai – rhyw ddeugain efallai. Ac erbyn hynny, roedd Kate wedi ein gadael. Hi yn aml iawn oedd canolbwynt cynhesaf y cyfarfodydd. Byddai'n holi'n ddyfal am hynt a helynt pawb o'r teulu. Bu hi farw ar Ebrill y 4ydd, 1998, ac ar fore Sul, Ebrill y 4ydd, 1999, bu Robat a minnau yn cofio amdani yn eglwys fawreddog a deniadol y Lutheriaid yn Karlshamn. Bore Sul y Pasg oedd hwn.

Käthe Julia Gertrud Bosse: dyna'r enw bedydd sy'n adleisio enw ei mam, Käthe Gertrud Levin. Merch o deulu Iddewig oedd hi; cyfreithiwr oedd ei thad, Max Levin, a hanai o Frankfurt an der Oder, ac roedd sôn bod y teulu wedi dod yn wreiddiol i'r

Almaen o Sbaen. Mewn oes gynharach bu Iddewon Sbaen yn enwog am eu diwylliant llenyddol, ac roedd diddordeb mewn llenyddiaeth yn nodweddu gwraig Paul Bosse. Meddyg oedd ef, a bu'n brif lawfeddyg ysbyty Wittenberg, y Paul Gerhard Stift. Arbenigodd yn y maes gynecolegol, a phan gafodd ei ddiswyddo gan y Natsïaid, sefydlodd glinig ar gyfer genedigaethau; yng nghyfnod Comiwnyddol Dwyrain yr Almaen enillodd glod arbennig am safon ei waith. Ym 1935, pan oedd y Natsïaid yn rheoli, bu damwain erchyll mewn ffatri ffrwydron heb fod ymhell o Wittenberg a bu Dr Paul Bosse yn egnïol yn ceisio eu helpu. Cafodd glod aruchel am hyn, a bu Adolf Hitler yn yr ysbyty i'w longyfarch (gweler y llun). Nid testun ymffrost yw hyn bellach, yn arbennig o gofio'r gofid a'r gwae a ddaeth i ran y teulu yn ddiweddarach oherwydd yr erlid creulon a barodd Hitler.

*Adolf Hitler yn ymweld ag ysbyty Wittenberg i longyfarch Dr Paul Bosse, tad Kate, prif lawfeddyg yr ysbyty, ar ei waith.*



Credaf fod Heini Gruffudd, yn *Taliesin* 102 (Haf, 1998), 100–9, wedi cyfleu cefndir Wittenberg yn ffyddlon. Cafodd Käthe a Paul Bosse bedwar o blant: Dorothea (Doli); Käthe; Günther; a Fritz. Bu Doli yn feddyg yn Baden-Baden; meddyg oedd Günther yn Sweden. Ffermio yn ardal Lübecke oedd hanes Fritz, y plentyn ieuengaf; bu ef farw ym 1966, ar adeg pan oedd Kate a minnau'n treulio blwyddyn yn Cairo. Roedd Wittenberg yn cynnig addysg uwchradd o safon sylweddol, yn Gymnasium Melanchthon, ysgol a enwyd ar ôl un o ysgolheigion pennaf y Diwygiad Protestannaidd a'r Dadeni. Roedd Melanchthon yn ysgolhaig Groeg o fri, yn brif gyfaill i Luther yn Wittenberg, ac yn grëwr y math yma o ysgol glasurol. Pan oedd Kate yn yr ysgol hon, roedd yn ffodus mai Dr Kaulbach oedd Athro'r Clasuron yno. Roedd ei waith fel athro yn ysbrydoledig, a soniai Kate lawer amdano. Yn yr ysgol hon y cymerodd yr *Abitur,* arholiad tebyg i Lefel A, ond yn ehangach ei faes, gan gynnwys rhai o'r gwyddorau.

Digwyddiad arall a wnaeth argraff ddofn arni oedd defod y Conffirmasiwn yn yr Eglwys Lutheraidd. Bu amryw eraill, yn naturiol, yn derbyn hyfforddiant gyda hi cyn y ddefod hon, ac roedd rhai o athrawon Ysgol Melanchthon yn cymryd rhan hefyd, yn ogystal ag yn y swper dathlu yn dilyn y cyfarfod crefyddol. Cofiaf iddi ofyn i mi a oeddwn i wedi profi cyffro tebyg pan gefais fy medyddio a'm derbyn yng nghapel Moreia, Pentre, Rhondda. Wrth gwrs, cefais innau brofiad cofiadwy yn y ddefod (fy nhad oedd yn gweinyddu, a gwnâi hynny, fel bob amser, gyda gwefr arbennig cyn y gytgan 'Dilyn Iesu'), ond y gwahaniaeth oedd nad oedd gan yr Ysgol Ramadeg unrhyw gysylltiad â'r peth ac nad oedd unrhyw swper dathlu. Credaf fod y Catholigion mewn sawl gwlad yn rhoi pwys ar yr amgylchiad, fel y cefais wybod gan Rae Halligan, merch o Adran Glasurol Prifysgol Lerpwl yr oeddwn yn gyfeillgar â hi pan oeddwn yno.



*Sgwâr y Farchnad, Wittenberg*

Peth poblogaidd yn Hwngaria, fel y sylwais fwy nag unwaith, yw dangos lluniau o ddosbarth y 'Cymundeb Cyntaf'.

Pan ddaeth cyfle i ddechrau gyrfa golegol, Prifysgol München oedd y prif ddewis, ac yno hefyd y bu ei brawd Günther. Roedd ef wedi dewis meddygaeth fel ei faes, gan ddilyn gyrfa ei dad. Y Clasuron oedd dewis Kate, gan iddi ragori eisoes yn y pwnc hwn. Ond cyplysodd Eifftoleg â'r Clasuron. Roedd hynny'n bosibl yn y prifysgolion mwyaf. Yn yr Almaen mae'n arferiad cyffredin i rannu'r amser rhwng nifer o brifysgolion, a bu Kate yn astudio hefyd yn Bonn a Berlin cyn gorffen ei gradd ym München. Golygai hyn y medrai flasu doniau'r ysgolheigion disgleiriaf yn y meysydd dewisol. Un o'i hoff athrawon oedd Wilhelm Spiegelberg, a fu farw'n sydyn ym München ym 1930 wedi triniaeth lawfeddygol. Testun ei gwaith ar gyfer doethuriaeth oedd 'Y Ffigurau Dynol yng ngherfluniaeth y Cyfnod Eifftaidd Diweddar'. Cafodd y gwaith ei gymeradwyo ym 1935, a'i gyhoeddi yn Glückstadt ym 1936, a'i ailargraffu ym 1978. Mae llawer o luniau yn y llyfr, a bu'r awdur yn teithio ynglŷn â'r ymchwil yn yr Eidal, Groeg, a'r Aifft, gan astudio yn arbennig mewn amgueddfeydd yn Berlin, Bologna, Fflorens a Torino. Ymysg y pynciau cysylltiol y bu'n efrydu ynddynt yr oedd Arabeg (y ffurf glasurol), celfyddyd y Groegiaid (gyda Buschor), a hanes yr hen fyd. Hanes celfyddyd yw'r prif bwnc, a hwn fu dewis faes Kate fel ysgolhaig, er bod ffactorau ieithyddol yn aml yn gefndir iddo. Dywedodd Bernard Bothmer wrthyf (a chyflawnodd ef lawer o waith gwych ar gerfluniaeth ddiweddar yr Hen Aifft) fod llyfr Kate wedi bod yn sylfaen i ran fawr o'r ymchwil a ddigwyddodd wedi hynny.

Yn y Rhagair i'r llyfr dywed Kate fod llawer o'r lluniau wedi eu tynnu gan 'Herr cand. Phil von Mossolow'. Roedd ef wedi cyrraedd München yr un pryd â Kate; daeth ei brawd Günther flwyddyn ar ôl hynny, a bu'r tri lawer yng nghwmni ei gilydd.

Dros Sul cyntaf y tymor aeth y tri ar wibdaith i'r Zugspitze, mynydd uchaf yr Almaen, yn yr Alpau Bafaraidd. Bu'r cyswllt rhwng Kate a Nikolaus von Mossolow yn un agos iawn; arweiniodd yn wir at ddyweddïad, er i'r Verlobung ddarfod cyn i Kate adael yr Almaen. Mab i gadfridog Rwsiaidd, a benodwyd yn oes y Tsariaid, oedd Nikolaus ('Niki' yn y dyddiaduron). Er na fu yn llwyddiant academaidd ei hun (methodd orffen ei ddoethuriaeth), bu ei gymorth yn werthfawr, a'i ddylanwad yn bwysig mewn dwy ffordd. Yn wleidyddol, mae'n debygol iddo gryfhau'r duedd o blaid Marxiaeth a Rwsia Sofietaidd a oedd gan Kate eisoes. Yn ieithyddol bu'n sbardun iddi ddysgu Rwsieg, ei darllen a'i siarad, a hefyd Eidaleg. Ar eu teithiau academaidd yn Rwsia a'r Eidal bu'r ieithoedd ar waith yn egnïol. Yr ysgrif gyntaf a gyhoeddodd Kate ar ôl ei llyfr cyntaf oedd un yn ymwneud ag ymchwil yn amgueddfa'r Ermitage yn Leningrad (St. Petersburg eto yn awr). Buasai'n ddiwyd o'r cychwyn yn astudio ieithoedd. Yn ei gwaith ymchwil roedd wedi darparu'r seiliau yn drylwyr drwy ddysgu ieithoedd yr hen fyd – Groeg, Lladin, Eiffteg, Copteg ac Arabeg Clasurol. Dysgodd Hebraeg heb hyfforddiant swyddogol, ac yn ddiweddarach bu'n astudio Gramadeg Accadaidd Von Soden. Parthed yr ieithoedd modern roedd gwaith at yr *Abitur* yn cynnwys Almaeneg, Ffrangeg a Saesneg. Wedyn ychwanegodd Rwsieg ac Eidaleg at y rhestr; hefyd Groeg Modern, a pheth Swedeg drwy ei chyfathrach â pherthnasau yn Sweden. Byddai'n astudio'r ieithoedd yn drefnus ramadegol, er bod acen yr Almaeneg yn aml yn lliwio'r llefaru, nes peri peth anhawster i'w deall. Roedd ei theulu yng Nghymru yn cynefino â hynny, yn naturiol, a gwnaeth Julia Neuberger sylw tebyg am ei mam, pan ddaeth o'r Almaen i Lundain. Betws-y-coed oedd y lle cyntaf i Kate ymweld ag ef yng Nghymru; ymweliad byr ydoedd, ond nid heb gymryd gyda hi lyfryn Caradar, *Welsh Made Easy.* Wedi ein priodas ar Fedi 13, 1939, buom yn byw am



*Cartref y teulu: y Klinik Bosse*



*Dr Paul Bosse, tad Kate*



*Kate gartref gyda'i chwaer, Doli*



*Dysgu'r feiolin*



*Portread stiwdio*



*Gwyn, gŵr Kate, gyda Günther, un o'i dau frawd*

ychydig gyda'm rhieni yn Bryn Hyfryd, Pentre, Rhondda, cyn symud i Cadwgan yn yr un stryd. Sgrifennodd Kate at ei brawd yn Sweden, *'Jetzt muss ich Walisisch lernen'* ('Yn awr rhaid imi ddysgu Cymraeg'); eglurodd wedyn fod y teulu i gyd yn medru Saesneg, ond mai Cymraeg oedd yr iaith gyntaf, ddewisol. Roedd ei hymroddiad yn fater o egwyddor, fel pe bai am ddweud gyda Rwth, 'Dy bobl di fydd fy mhobl i, a'th Dduw di fy Nuw innau.'

Cyn hyn, fodd bynnag, roedd stormydd erledigaeth wedi taro'r teulu yn yr Almaen. Daeth yn eglur, i ddechrau, yn achos Kate ei hun. Cafodd ei phenodi ym 1936 i swydd yn Amgueddfeydd Gwladol Berlin, yn fuan wedi cyhoeddi ei llyfr cyntaf, ond cyn diwedd y flwyddyn cafodd ei diswyddo oherwydd bod ei mam yn Iddewes. Cyd-weithiwr iddi yn yr un adran, Alfred Hermann, a gododd y mater. Tynnodd sylw pennaeth yr adran at y ffaith fod tad Kate yn Ariad, ond ei mam yn Iddewes. Roedd y pennaeth, Rudolf Anthes, yn anfoddog, ond ildiodd i ddeddf y Natsïaid. Roedd ymgyrch Hitler yn erbyn yr Iddewon wedi dechrau. Eisoes ym 1933 aed ati i losgi llyfrau gan Iddewon, ac erbyn 1938 bu ymosod cyffredinol ar eu heiddo a'u synagogau. Ym mis Tachwedd 1938 bu'r *'Kristallnacht',* noson pan fu torri ffenestri'r Iddewon yn eu tai a'u siopau a'u synagogau, gyda dinistr a lladrata ffyrnig.

Gwasanaethai ei thad, Paul, yn y fyddin Almaenig yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac ennill Croes Haearn, a wisgodd yn ddiweddarach yn angladd ei wraig ac roedd hefyd yn un o'r meddygon a wasanaethai yng Ngêmau Olympaidd Berlin, 1936, ond ym merw gwrth-Iddewiaeth y cyfnod gorfodwyd Paul i adael ei waith yn yr ysbyty, a chychwynnodd ei glinig ei hun yn y dref, sy'n dal i ddwyn ei enw. A'i wraig o dras Iddewig, gwaharddwyd hi rhag cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysbyty, ond gofalai am randir i ddarparu bwyd i'r cleifion.

Ni chafodd brawd Kate, Fritz, barhau ei addysg yn yr ysgol

uwchradd leol, a phrynodd Paul dir er mwyn iddo allu dysgu crefft ffermio.

Cafodd Hans, brawd mam Kate, ei garcharu yn Buchenwald am gyfnod, a'i rybuddio i adael y wlad. Treuliodd y rhyfel yn gyfreithiwr yn Shanghai. Bu gwaharddiad wedyn ar Almaenwyr rhag mynychu meddygfa ei chwaer, Doli, yn Wittenberg.

A'i gŵr yn gadfridog yn y fyddin, cyflawnodd Eva, modryb i Kate, hunanladdiad er mwyn diogelu ei yrfa yntau. Yn sgil hyn cafodd merched y teulu hwn eu derbyn yn Ariaid, ond bu farw'r mab mewn tân mewn tanc ddechrau'r rhyfel, a bu farw'r tad wedyn mewn gwersyll i garcharorion rhyfel yn America.

Nid oedd Paul wedi derbyn cynnig a gafodd i ffoi i Brasil, a gwrthododd Kaethe ei wraig hefyd gynnig i ffoi i Loegr.

Er bod brodyr Kate, Fritz a Günther, wedi gwasanaethu am gyfnod yn y fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd (Günther fel swyddog meddygol), cafodd y teulu ei erlid ymhellach. Wedi'r ymgais i ladd Hitler yn 1944, carcharwyd rhieni Kate, ynghyd â'i dau frawd a'i chwaer Doli, ar 22 Gorffennaf 1944.

Cymerwyd Kaethe i garchar Halle, ac yna i wersyll garchar Ravensbrück lle y'i lladdwyd ar 16 Rhagfyr 1944. (Afiechyd truenus oedd yr honiad swyddogol, ond darganfuwyd wedi'r rhyfel fod yr honiad hwn yn a roddwyd i lu o rai a fu farw yno.)

Cafodd Fritz a Günther wasanaethu yn y pen draw'n swyddogion iechyd mewn gwersyll i garcharorion tramor yn yr Almaen, mewn amgylchiadau enbyd, gan ddioddef ill dau o deiffoid. Tua diwedd y rhyfel gwacawyd y gwersyll, a bu gorchymyn i ladd y ddau, ond ni chyflawnodd swyddog y fyddin Almaenig y gorchymyn.

Cafodd Doli ei rhyddhau ar ôl pump wythnos mewn carchar, wedi i'r awdurdodau gael llythyr gan ei gŵr Georg yn ymbil arnynt, a hithau'n fam i bump o blant (buasai farw un eisoes mewn damwain).





*Ni fyddai gwisgo lifrai'r fyddin yn ddigon i achub Günther rhag erledigaeth*

*Ar daith: disgwyl mewn gorsaf*



*Bad Wimpfen, y dref hynafol y ffodd Doli iddi, lle y bu'n byw am gyfnod*

Cafodd Paul ei ryddhau hefyd, ac am gyfnod ar ôl y rhyfel, rhoddwyd gofal ysbyty Quedlinborg i Paul a Günther.

Ddiwedd y rhyfel a'r Rwsiaid yn cyrraedd Wittenberg, roedd gwaharddiad ar bawb rhag gadael y dref. Penderfynodd Doli ffoi, a dyna a wnaeth gyda'i phlant gan gael lloches gan rai yn gyfnewid am wasanaeth meddygol; serch hynny, gorfu iddynt fyw ar eu cythlwng, heb na bwyd na tho. A hwythau'n ffoi, ymosodwyd yn ddidrugaredd ar drên ffoaduriaid gan awyren fomio.

Cafodd wedyn le yn Bad Wimpfen yn feddyg. Nid oedd yr Americaniaid, fwy na'r Rwsiaid, yn ddieuog o droseddau yn erbyn dinasyddion. Saethwyd mam cyfaill i Doli gan filwr heb unrhyw reswm, a hynny o flaen un o blant Doli.

Wedi deng mlynedd, symudodd Doli a'r plant i Baden-Baden, i dŷ a brynwyd flynyddoedd cyn hynny gan Paul, a'r tŷ bellach wedi ei ryddhau ar ôl bod ym meddiant milwyr Ffrainc.

Yn y blynyddoedd wedi'r rhyfel, llwyddodd Doli i sefydlu gwasanaeth meddygol tra phoblogaidd yn Selbach, ger Baden-Baden, a daeth pedwar o'i phlant hithau'n feddygon. Daeth Fritz, ei brawd, yn ffermwr a dyfeisiwr peiriannau, ac ymsefydlodd Günther yn nhref fach Karlshamn, Sweden, gan gychwyn meddygfa lwyddiannus. Buasai Paul farw'n fuan wedi'r rhyfel.

Ar ôl colli ei swydd yn Berlin dihangodd Kate i Brydain, yn gyntaf i St. Andrews yn yr Alban, lle bu'n ysgrifennydd academaidd i ddau ysgolhaig – Syr D'Arcy Thompson, swolegydd a chlasurwr, ac yna yr Athro H.J. Rose, clasurwr (a fu wedi hynny yn Aberystwyth). St. Andrews, gyda llaw, yw cefndir ei stori fer 'Wrth Afonydd Babilon'. Ond yn Llundain y cafodd ei swydd nesaf: ysgrifennydd i'r Dr A.S. Yahuda, ysgolhaig Hebraeg ac Arabeg. Ac mae ef, mewn ffordd, yn rhan o'r un stori! Swyddi dros dro oedd y rhain. Daeth cyfle mwy addawol drwy gymorth

caredig y Society for the Protection of Science and Learning. Roedd yr Athro J.B. Skemp, Caer-grawnt, a mam Robin Llywelyn, Port Meirion, ymysg yr hyrwyddwyr.

Drwy'r cymorth hwn daeth cyfle iddi weithio o dan yr Athro Stephen Glanville yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain. Pennaeth yr Adran Eifftoleg oedd ef, a bu Kate yn cynorthwyo fel darlithydd a hefyd mewn gwaith ymchwil yn Amgueddfa Petrie yn yr un coleg. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n aelod selog o'r Bloomsbury Left Book Club, lle bu'n gyfeillgar iawn â Stanley R., dyn ifanc o Sheffield a raddiodd tua 1932 mewn Ffrangeg a Sbaeneg yn Rhydychen. Methodd gael swydd o werth er hynny; am beth amser bu'n drefnydd ysgolion haf i'r Left Book Club, a bu'n marcio papurau ar gyfer Coleg Gohebol. Ond daeth cryn newid pan gafodd Kate wahoddiad i weithio yn Adran Eifftaidd Amgueddfa Ashmolean yn Rhydychen; gwahoddwyd hi yn fuan wedyn i fod yn aelod uwch o Goleg Somerville, gyda lle wrth y Ford Uchel ac ystafell iddi ei hun. Roeddwn i ar y pryd yn fyfyriwr ymchwil yng Ngholeg y Frenhines, a byddwn yn treulio tipyn o amser yn Sefydliad Eifftolegol Griffith (a enwyd ar ôl yr ysgolhaig F. Llewellyn Griffith) a oedd yn rhan o adeilad yr Ashmolean. Cefais fy nghyflwyno i Kate gan fy nghyfaill o Eifftiwr Abd el-Mohsen Bakir. A oedd ef wedi ymserchu ynddi ei hun? Digon tebyg. Ond ni phallodd ein cyfeillgarwch. Cyfeillion eraill yn Rhydychen oedd Dr Elise Baumgarten, awdurdod ar y cyfnod cynhanesyddol yn yr Aifft, a Rosemarie Wolff, nyrs a ddaeth wedi hynny yn wraig i Pennar Davies.

Ym mis Medi, 1939, wedi ein priodas, bu symud i'r Pentre, Rhondda, a gellir nodi lleoliad gweddill ei hoes fel hyn:

### 1940–43: Cadwgan, Pentre, Rhondda

| | |
|---|---|
| 1940 | Geni merch, yn farw-anedig |
| 1941 | Ei nofel *Anesmwyth Hoen,* yn ennill Cystadleuaeth Nofel Fer Llyfrau'r Dryw (beirniad, E. Tegla Davies) |
| 1942 | Ei stori fer, 'Y Bennod Olaf', yn ennill yn Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi (beirniad, Kate Roberts) |
| 1943 | Geni mab, Robat (Robert Paul) |
| | Cylch Cadwgan yn blodeuo |

### 1943–46: Y Bala (Manod, Stryd Aran)

| | |
|---|---|
| 1943 | *Mudiadau Heddwch yn yr Almaen* |
| 1944 | *Fy Chwaer Efa a Storïau Eraill* |
| | Cymorth i Euros Bowen gyda'r FFLAM |
| 1946 | Geni ail fab, Heini (Gwilym Heinin) yn Nolgellau |

### 1946–64: Abertawe

| | |
|---|---|
| 1947 | Ei phenodi yn Guradur Anrhydeddus Adran Archaeoleg y Sefydliad Brenhinol yn Abertawe. Roedd yr Adran hon, yn Amgueddfa'r Dref, yn cynnwys deunydd cynhanesyddol a Rhufeinig ac Eifftaidd, a pheth hefyd o'r Oesoedd Canol. Cafodd Kate gymorth brwd gan ei chyfaill Gwladwen Gwent Jones a'r brodyr dawnus y Doctoriaid Gwent a Iorwerth Jones. |
| 1951 | *Bwlch yn y Llen Haearn* |
| 1957 | *Mae'r Galon wrth y Llyw* (nofel) |
| 1962 | *Trem ar Rwsia a Berlin* (profiadau yn dilyn Cyngres yr Orientalwyr ym Moscow a Leningrad) |

### 1965–6: Blwyddyn yn yr Aifft, ym Mhrifysgol Cairo yn bennaf. Ymweld â phob man o bwys ar y map archaeolegol.

### 1967–76: Abertawe (ac eithrio tymor ym 1969)

| | |
|---|---|
| 1969 | Prifysgol Bonn. Tymor ymchwil yn y Seminarau Clasurol ac Eifftolegol |

| | |
|---|---|
| 1971 | Ei phenodi yn Guradur Anrhydeddus Amgueddfa Wellcome yng Ngholeg y Brifysgol. Craidd yr amgueddfa hon oedd y deunydd o'r Hen Aifft a roddwyd i'r Coleg gan Ymddiriedolwyr Wellcome drwy law Dr David Dixon o Goleg y Brifysgol, Llundain. Daliodd Kate y swydd hon hyd at 1995. |
| 1970 | *Tywysennau o'r Aifft* (ffrwyth y flwyddyn a dreuliwyd yno) |

### 1976: Rhydychen a Tübingen

Coleg yr Holl Eneidiau, Rhydychen, gydag ystafell yn y Coleg a fflat yn Beechwood House, Iffley. Semester yr haf ym Mhrifysgol Tübingen, o dan nawdd yr Athro Hellmut Brunner a'i wraig, Emma.

### 1976–98: Abertawe

| | |
|---|---|
| 1977 | *Byd y Dyn Hysbys* |
| 1978 | *Gwaith Gleiniau: Lluniau o Gasgliad Wellcome/Beadwork: Pictures from the Wellcome Collection* |
| | Darlith i Gyngres yr Eifftolegwyr, Toronto |
| 1985 | Taith Ymchwil yn Ynysoedd Hawaii |
| | Darlith i Gyngres yr Eifftolegwyr, München |
| 1991 | Darlith i Gyngres yr Eifftolegwyr, Torino, yr Eidal |
| 1994 | *Five Ways of Writing between 2000 BC and AD 200* |
| 1995 | *Cariadau* (storïau byrion) |
| 1996 | *The Papyrus of Hapi-Ankh', Zeitschrift für Ägyptische Sprache* 123 (1996), 97–102. With 1 Plate. (Dogfen sy'n cynnwys gweddïau ac emynau i Dduw'r Haul, o Frenhinlin XXVI, tua 570 CC yn ôl pob tebyg; mae'n awr yn Amgueddfa Wellcome Abertawe (y Ganolfan Eifftaidd). Cyhoeddwyd yn gyntaf yma. |
| 1998 | 4 Ebrill. Marw yn Ysbyty Treforys. Cyn hynny bu'n dioddef gartref am rai misoedd o ddolur y galon. Bu oedfa'r angladd yn y Tabernacl, Cwmrhydyceirw, o dan arweiniad y Parchg. Guto Prys ap Gwynfor, ac yna yn y Gladdfa, Treforys. |

1999 Cyhoeddwyd wedi'r angau:

'Gwaith gan Rilke a fu'n Sail i Opera Fodern yn Dresden',

*Ysgrifau Beirniadol XXV,* gol. J.E.Caerwyn Williams (Dinbych, 1999), 126–9.

Yn yr un rhifyn ceir dwy astudiaeth gan Nia Mai Williams, 86–111, o gynnyrch cynnar Cylch Cadwgan.

Cofnodwyd uchod nifer o'r prif weithiau llenyddol. Roedd gweithgarwch Kate yn deillio o ddau ysgogiad, sef awydd i wneud gwaith llenyddol creadigol a dymuniad i gyflawni'r tasgau ysgolheigaidd a seiliwyd ar ei disgyblaeth academaidd. Gallai ddweud, yn ôl y geiriau a roddodd Goethe yng ngenau Faust,

> *Zwei Seelen wohnen, ach, in meiner Brust*
> (Dau enaid, och, sy'n trigo yn fy mron)

O'r ail ysgogiad daeth nifer o lyfrau a llu o ysgrifau, fel y dengys y Llyfryddiaeth. Roedd cyfraniad Kate i Gylch Cadwgan yn allweddol. Mae rhestrau Nia Mai Williams o'r cynnyrch mewn cyfnodolion yn dangos, yr un pryd, gymaint oedd ein dyled i'r golygyddion a'n sbardunodd, yn neilltuol Aneirin Talfan Davies a Dafydd Jenkins gyda *Heddiw.* Nid wyf yn sicr a fentrodd Kate i'r maes llenyddol cyn dod i Gymru. Cawsom beth dylanwad arni i'r cyfeiriad hwn; ond wrth gwrs roedd ganddi, cyn hynny, ddiddordeb enfawr mewn llenyddiaeth. Roedd hi'r un mor selog gyda gweithgarwch Cadwgan y tu allan i faes llenyddiaeth. Byddai'r Cylch yn gweithredu hefyd, gyda chymorth rhai nad oeddent yn aelodau, fel cangen o ddau fudiad: Plaid Cymru a Chymdeithas y Cymod.

**J. Gwyn Griffiths**


# I. DIRGELION YNYSOEDD HAWAII

Penderfynasom y dylem fynd i Hawaii wedi'r cyfan. Am fwy na deng mlynedd daethai llif o lythyrau a gwahoddiadau a llenyddiaeth berthnasol o gyfeiriad Ynysoedd Hawaii. Eu neges oedd pwyso arnom i ddod ac edrych yn feirniadol ar yr arwyddluniau dirgel a geir ar y creigiau yno – y petrogluffau, filoedd ohonynt. I goroni'r cyfan, ac yn ddirybudd, anfonwyd grant hael mewn doleri gan y Gymdeithas Epigraffig yn San Diego. Daeth llythyr wedyn yn gofyn inni ymweld â Hawaii tua chanol mis Ionawr 1985 ac aros yno am fis. Ymweld ag Ynysoedd yr Haul! Dianc o ganol gaeaf caled i gyflawni tasg arbennig. Ond nid mewn ysbryd dihidio am yr amgylchiadau yng Nghymru ar y pryd. Eto taith gyflym i hanner arall y byd.

Tybed ai magl oedd hyn wedi ei llunio ar ein cyfer gan dynged? Onid oedd eiddgarwch a haelioni Americanaidd wedi bod yn gyfrifol, i raddau mawr, am ddiwedd sydyn Dylan Thomas a Vernon Watkins, y ddau fardd o Abertawe?

'Felly, rydych yn bwriadu hedfan at y Merched Hwla yn Honolwlw?' ebe'r ddau fab dan chwerthin. A ninnau'n ateb yn ddwys, 'Enw arall yw Honolwlw am Pearl Harbour, lle difrodwyd rhan fawr o lynges America gan fomiau Japan.'

Wyddem ni ddim ar y pryd mai Japaneaid oedd perchenogion y gwesty moethus yn Honolwlw lle'r oeddem yn aros i ddechrau, a'r arwyddion yno wedi eu sgrifennu yn ddwyieithog, sef Japanaeg a Saesneg. Wrth edrych ar fap (a ddangosir mewn llyfryn am Polynesia) gwelir bod Honolwlw yr un mor bell o Japan ag o Califfornia. Mae tua dwy fil o filltiroedd



*Petrogluffau ar un o glogfeini Ynys Lanái. Darlunnir llong ac anifeiliaid a dynion.*



*Artist cyfoes yn darlunio Capten Cook yn cael ei ladd.*

rhwng Ynysoedd Hawaii a Tsieina ac Awstralia a'r Unol Daleithiau. Mae Ynysoedd Hawaii yn gorwedd yn y canol yn dwt.

Gwybodaeth gyffredin yw bod hinsawdd Honolwlw yn heulog drwy'r flwyddyn heb fod byth yn rhy boeth, a bod dŵr y môr yno'n gynnes. Bydd yr ymwelwyr yno'n gwisgo crysau a gwisgoedd lliwgar yn llawn o flodau mewn modd siriol ac anffurfiol. Yno hefyd mae Prifysgol ac Amgueddfeydd a gwestai sy'n 'crafu'r nen'; ac wrth gwrs ceir Merched Hwla.

Honolwlw yw'r brifddinas ac mae ar Ynys Ohau. Er bod rhai petrogluffau yn yr ynys hon, doedd y rhain ddim o bwys i ni. Yn yr 'Ynys Fawr', sef Hawaii, y mae'r rhai pwysicaf a mwyaf niferus. Yn yr ynys hon y byddai'r brenhinoedd brodorol yn teyrnasu. Ceir petrogluffau pwysig hefyd ar yr ynys fach, Lanái, sy'n cynhyrchu'r myrdd pinafalau.

## Cyn Dyfod Columbus

Ni all cymdeithasau tebyg i'r Gymdeithas Epigraffig gyflawni llawer heb arweiniad egnïol. Yn ein profiad ni yr oedd yno ddau aelod afieithus yn chwilio drostynt eu hunain am wreiddiau hanesyddol dyfnach na'r rhai a blethir o gwmpas Columbus neu yr 'Indiaid Cochion', sef y bobl a ddaeth i America dros gulfor Bering er cyfnod Oes yr Iâ. Un o'r ddau oedd Barry Fell, sy'n awr yn byw yn San Diego yn ymyl ffin Mecsico. Bu'n Athro Bioleg ym Mhrifysgol Havard; cawsai radd ym Mhrifysgol Caeredin, ac yno daeth yn hoff o'r Celtiaid a'u hanes. Yn awr mae'n dal i chwilio, ymysg pethau eraill, am olion pobl o dras Geltaidd a allai fod wedi dod ar draws Môr Iwerydd ymhell cyn amser Columbus a hyd yn oed cyn amser y Sgandinafiad Bjarni Herjolfison (heb sôn am 'longau Madog'!).

Y llall oedd Ruth Knudsen Hanner, sy'n byw yn awr yn Honolwlw. Ganed hi yn Ynysoedd Hawaii yn aelod o deulu o arloeswyr Norwyaidd a ymsefydlodd yno yng nghanol y

bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cafodd radd o Brifysgol Columbia, Efrog Newydd, a gwnaeth lawer o ymchwil i betrogluffau Hawaii. Ei diddordeb arbennig hi oedd y nifer cyfyngedig ohonynt sy'n dangos tebygrwydd mewn ffurf i rai o hierogluffau'r Hen Aifft. Roedd hi'n awyddus i gael gwybod ai dilys oedd y tebygrwydd a awgrymwyd. Hefyd, tybed a oedd hi'n bosibl i longwyr o'r Aifft groesi'r Môr Tawel a chyrraedd Ynysoedd Hawaii a gadael yno rai o'r arwyddion hynod hyn ar greigiau folcanig? Byddai'r ffaith, pe gellid ei phrofi, yn arbennig o syfrdanol gan na ddarganfuwyd yr Ynysoedd gan Ewropeaid ond ddwy ganrif yn ôl (ym 1778), sef gan y Capten Cook. Ar y dechrau cyfarchodd y brodorion y Capten fel un o'r duwiau, ond yn nes ymlaen cafodd ei ladd ganddynt oherwydd anghydfod parthed rhai gwrthrychau haearn a gipiwyd gan y brodorion. Yn eu hanes hwy hwn oedd y trobwynt o Oes y Cerrig i Oes yr Haearn (yn annhebyg i Indiaid America, nid oedd ganddynt wybodaeth am fetel o unrhyw fath). Wedi inni gyrraedd yr 'Ynys Fawr', Hawaii, dangoswyd i ni weddillion teml frodorol lle y lladdwyd y Capten. Aethpwyd ati wedyn i fwyta ei gorff – o barch iddo, ac er mwyn ennill ei nerth.

**Petrogluffau**

Cafwyd y petrogluffau a welsom ni mewn lleoedd tra amrywiol. Ar yr 'Ynys Fawr' 'sgrifennwyd rhai ar feysydd agored o garreg folcanig yn uchel uwchben y môr. Cafwyd rhai eraill mewn ogof ar ffurf tiwb a luniwyd gan lif o lafa. Er mwyn cyrraedd yr ogof rhaid oedd torri ffordd â bilwg drwy dwf trofannol trwchus ac ynddo bob math o goed a phlanhigion a ffrwythau. Mewn man arall yr oedd hen 'deml noddfa'. Heb fod ymhell yr oedd gwastadedd eang yn llawn creigiau isel wedi eu gorchuddio ag arwyddion. Weithiau ceid y rhain mewn cylchau neu sgwarau gydag awgrym efallai eu bod wedi eu trefnu ar gyfer teuluoedd.

Yn anffodus roedd gwesty newydd tra ffasiynol yn agos hefyd a'r gwesteion yn chwarae golff neu'n hedfan mewn hofrennydd. Tybed a fydd maes y petrogluffau yn ddiogel yno'n hir? Gwahanol eto mewn ffurf a lleoliad oedd y rhai a welsom ar ynys fach Lanái. Cerfiwyd y rhan fwyaf ohonynt ar glogfeini mawr ar lethr mynydd. Dylid cofio bod yr arfer o dorri arwyddion a lluniau ar garreg yn gyffredin iawn ar draws y byd. Ymdrech ydyw, fel rheol, i gofnodi pethau, a hynny cyn bod dynion yn gallu 'sgrifennu. Mae rhai o'r arwyddion ar gael mewn mannau lle y byddai carafannau yn aros, eraill (fel yn Sgandinafia) mewn mannau lle y byddai helwyr yn ymgasglu i gael cymorth swyn-gyfaredd ar gyfer eu gwaith. Yn aml gwelir cynnyrch arbenigwyr a fedrai lunio patrymau arwyddocaol, fel yn Valcamonica ger Brescia yng ngogledd yr Eidal, lle y buom unwaith mewn cyngres yn ymwneud â'r deunydd yma. O'u cymharu â'r rhain mae petrogluffau Hawaii yn rhoi'r argraff eu bod yn rhyw fath o law fer: llawer o ddynion bach a chylchau, a rhai anifeiliaid. Ni fyddai cynifer o'r rhain ar gael, o bosibl, mewn cynifer o leoedd oni bai am ryw ysfa arbennig i gofnodi pethau mewn ffordd arhosol ar y garreg galed – gwaith nid hawdd o gofio'r offer syml, cyntefig a oedd ganddynt. Ac yn fwy na hyn: pwy tybed oedd y dynion cyntaf a ddechreuodd y traddodiad yn Ynysoedd Hawaii?

**Dr Evan Cyfeiliog Evans**

Yn yr 'Ynys Fawr' buom yn aros yn gyntaf yn y Motel Shirakawa yn Waiohino. Amgylchwyd y cabanau gan blanhigion o dwf trofannol: llwyni uchel o flodau coch y Blodeuyn Nadolig, y Poinsettia, yn agos i goed gyda blodau gwyn, 'Trwmpedi'r Angylion'; coed banana yn tyfu'n wyllt, a ffa-caffe gwyrdd ar y llawr. Gwelsom hefyd y 'goeden sy'n cerdded', y Pandanus, a'i ffrwythau'n ffugio bod pinafalau'n tyfu ar ben coeden. Roedd Dr Evan Cyfeiliog Evans, ein harweinydd a'n 'Doctor Universalis', yn

gwybod eu henwau i gyd. Wrth ei alwedigaeth ymchwilydd oedd ar 'iaith cyfrifiadur'. Roedd yn ymffrostio yn y ffaith ei fod yn hanu o dywysogion Powys, a'i enw canol, meddai ef, yn arwydd o hynny. Roedd yn arbenigo hefyd yn y gwaith o yrru jîp ar lwybrau cul a charegog a throellog, a hynny'n gyflym. Gyda Dr Evans a'i wraig Joan yr aethom yn gyntaf i weld canolbwynt y llosgfynydd mawr, 'Pair Kilauea'. I ni yr oedd y pair yn ymddangos fel llyn mawr a thonnau o fwg yn codi ohono yn ddibaid, a'r meysydd o'i amgylch yn felyn o bwdr gan sylffur. Yn ymyl roedd poster yn adrodd peth o'i hanes: mor ddiweddar â 1924 roedd y llyn yn llawn o lafa wedi toddi. Yn y llyn hwn y bydd ffrwydriadau'r folcano yn dechrau. Yma roedd yn hawdd dychmygu tarddiad folcanig Ynysoedd Hawaii. Mewn gwirionedd nid yw'r ynysoedd i gyd ond pennau mynyddoedd uchel folcanig a'u hanner isaf wedi ei drochi yn y môr. Ond yr 'Ynys Fawr' yw'r unig un sy'n dal i dyfu drwy weithredoedd ei llosgfynydd effro.

Mae hynny'n golygu bod popeth sy'n byw ar yr ynysoedd wedi dod yno rywbryd o rywle arall: y planhigion, yr anifeiliaid, y bobl, ar wahân efallai i anifeiliaid a phlanhigion y môr. Yn ffodus mae iaith y brodorion yn datgelu peth am eu tarddiad, gan fod yr un iaith, yn sylfaenol, gan bobl Polynesia i gyd. Gellir eu dilyn yn ôl y ffordd hon hyd at Malaia a chyfandir Asia. Mae'r iaith yn soniarus, fel pe bai wedi ei chreu ar gyfer barddoniaeth a chanu. Gellir damcaniaethu hefyd am gyfnod dyfodiad cyntaf y bobl i'r ynysoedd hyn. Gyda chymorth arbrofion Carbon 14 penderfynodd doethion yn yr Amgueddfa Genedlaethol, y Bishop Museum, fod y mewnfudo wedi dechrau tua 800 o Oed Crist, neu efallai ychydig yn gynt. Mae'n bosibl mai offeiriaid o Ynysoedd Marquesas (i'r deau) a ddaeth â chelfyddyd y petrogluffau i Ynysoedd Hawaii. Neu tybed a gyrhaeddodd yno rai pobl o wledydd eraill o'u blaen? O Tsieina hwyrach – neu o'r Aifft?

**Lanái: Ynys y Pinafalau**

Ar ôl rhyw wythnos yn yr 'Ynys Fawr' gadawsom mewn awyren i fynd i Lanái, ynys y pinafalau. Aethom o faes awyr bach lleol Waimea yng ngogledd yr ynys gyda'r Royal Hawaiian Air Service. Dim ond lle i ddeg o bobl oedd yn yr awyren, a chyn esgyn rhaid oedd datgelu nid yn unig bwysau ein bagiau ond hefyd ein pwysau ein hunain! Dyn ifanc oedd y peilot, ac yn eiddgar i roi cyfle i ffotograffydd dynnu llun morfil a oedd yn ysbeidiol yn neidio i fyny o ddŵr tawel y môr. Oherwydd yr adeg yma o'r flwyddyn bydd morfilod yn dod o'r gogledd yn ystod eu cyfnod o epilio. Roedd yr awyren bron â chyffwrdd â'r tonnau. Eto ychydig yn gynt roedd bron â chrafu pennau'r mynyddoedd uwchben ceunant dwfn, cul. Doedd dim rhyfedd i Ruth gael pwl o'r bendro. Ar y cyfan, fodd bynnag, roeddem yn llifo drwy'r awyr yn esmwyth iawn fel pe baem yn eistedd ar 'garped hud'.

Nid oedd yn bosibl amau'r gwaith caled a llwyddiannus a aeth ymlaen yn Lanái byth er yr amser pan sefydlodd disgynyddion rhai o'r cenhadon blanhigfa fawr o binafalau ym 1922. Adroddodd Mr Saul, ein gyrrwr y tro hwn, ffeithiau am dechnoleg y gwaith; newydd ymddeol y mae fel rheolwr y maes enfawr. Dyn brodorol yw ef (a Saesnes wedi bod yn hen-hen fam-gu iddo) ac aeth â ni y noson gyntaf i ddangos lleoliad y clogfeini ar lethr mynydd sy'n cynnwys cerfiadau. Yn ei amser hamdden byddai Mr Saul yn mynd at ei gyfeillion ymysg y brodorion a chofnodi storïau ar dâp am hen draddodiadau'r fro. Roeddem yn aros yn unig westy'r ynys; ychydig dros ddwy fil yw'r holl boblogaeth. Ar y ffordd yn ôl ataliodd Mr Saul ei jîp yn sydyn i ganiatáu i res o geir fynd heibio. Roedd Japaneaid ym mhob un ohonynt. Mynd i angladd cyfaill yr oeddent.

Er mwyn cael gweithwyr ar gyfer planhigfa pinafalau Lanái bu'n rhaid (fel mewn planigfeydd eraill ar yr ynysoedd) mofyn

dynion a theuluoedd o lawer gwlad arall gan eu gorfodi i weithio drostynt am bum mlynedd. Ond wedi i'r cyfnod yna fynd heibio byddai llawer o'r estroniaid yn aros ar yr ynys. Deuai myfyrwyr hefyd o sawl gwlad, ond ar delerau gwahanol. Y llynedd bu cannoedd o blant Mormoniaid yma. Ffanaticiaid haul yw llawer o'r ieuenctid, ebe Mr Saul. Trueni yw gweld eu croen yn llosgi. Tsieineaid oedd perchenogion y stôr lle byddem yn prynu amrywiaeth o bethau. Dwyf fi ddim yn siŵr pwy oedd biau ein gwesty ar lethr mynydd a choed pinwydd yn tyfu o'i gwmpas. Roedd y bwyd yn dda, a chawsom gyfle yno i gwrdd â merch swynol o Hawaii a oedd yn gweini arnom a thorch o flodau yn ei gwallt. Gyda llaw, mewn drôr yn ein hystafell wely roedd dau lyfr yn daclus ar ein cyfer; un oedd y Beibl, y llall *The Teaching of the Buddha*.

**Y Clogfeini**

Aeth Dr Evan Cyfeiliog Evans â ni yn ei jîp at y clogfeini. Rhoddodd law i ni wrth ddringo'r llethr a oedd yn llawn o glogfeini gyda phetrogluffau. Ond yn wahanol i'r rhai a welsom yn yr 'Ynys Fawr' roedd yma fwy o luniau gwirioneddol a oedd yn amcanu, yn ôl pob golwg, at gofnodi digwyddiadau pendant. Gwelwyd yno ddynion ar gefn ceffyl, er enghraifft, a dynion gyda drylliau; hefyd rai yn arwain cŵn a llongau. Nid yr un fath o arddull a ddefnyddid bob tro, ac weithiau dodid nifer o luniau y naill ar ben y llall. Roedd hi'n ymddangos mai lle sanctaidd oedd hwn a fyddai'n peri llwydd arbennig i'r rhai a adawodd y lluniau.

Ymddangosiad y ceffylau oedd y peth mwyaf syfrdanol. Nid oedd pobl Hawaii yn gwybod dim am geffylau cyn dyfod Capten Cook. Ond wedi iddynt ddod i gyswllt â nhw roeddent yn eiddgar iawn i'w defnyddio, merched yn ogystal â dynion. Roeddent yn gyflym i gydnabod y rhyddid i symud o le i le mewn gwlad fynyddig a ddaeth gyda'r ceffylau (yn debyg i'r pleser a gaiff amryw ohonom ni wrth yrru ei gar ei hun).

Mae'n ymddangos felly fod yno bobl, mor hwyr â dechreuad y ddeunawfed ganrif, a oedd yn gyfarwydd â'r grefft o dorri petrogluffau. Ac nid hynny'n unig; roedd y gallu ganddynt hefyd i ddatblygu'r traddodiad a chreu lluniau newydd. Diflannodd y gallu'n fuan ar ôl i'r cenhadon gyrraedd. Byddai'r cenhadon yn awyddus i gofnodi iaith a chaneuon a storïau'r brodorion, ond byddent hefyd yn eu rhwystro rhag glynu wrth eu traddodiadau. Aeth y jîp hefyd â ni i lawr at y traeth a'r môr glas mewn hanner-cylch o greigiau cwrel. Llesmair oedd cael ymdrochi yno. Aethom wedyn i fwynhau picnig mewn coedwig fach yn ymyl y môr: Dr Evans a'i wraig Joan a Gwyn a minnau. Dyna Hawaii ein breuddwydion.

**Y Cludo**

Heddiw nid oes cymaint o geffylau ar gael yn Ynysoedd Hawaii. Fe gymerodd y car modur eu lle. A heb gar modur mae hi'n anodd iawn o hyd symud o gwmpas, ond bod modd mynd yn yr awyr o ynys i ynys. Roedd yn ffodus iawn i ni fod Ruth Hanner wedi cael gafael ar ddigon o ffrindiau o fodurwyr â diddordeb mewn petrogluffau, rhai oedd yn fodlon hefyd i fynd gyda ni. Ar wahân i Dr Evan Cyfeiliog Evans (roedd ei wraig Joan hithau yn medru gyrru), rwy'n cofio'n ddiolchgar am Renée Fell, gwraig Barry Fell, a ddangosodd i ni sawl llecyn hardd yn San Diego; wedyn Jim Pool, y cenhadwr, a arhosodd amdanom y noson gyntaf yn Honolwlw wedi canol nos, i'n cludo o'r maes awyr at Westy Traeth Kaimana. Diolch hefyd i Wallace Doty, cyn-beilot gyda'r Llynges Americanaidd; ef a'n cymerodd at yr ogof fawr lle mae petrogluffau arbennig iawn; i Bob Black, perchen gwaith pysgota, a'n cludodd ni i faes awyr Waimea yn yr 'Ynys Fawr'; ac i Mrs Young, athrawes gelfyddyd, ein gyrrwr ar y daith i'r parti olaf a drefnwyd gan Ruth Hanner – taith a felyswyd gan ei hatgofion am Hololwlw ddeugain mlynedd yn ôl cyn dyfodiad y

gwestai enfawr. Ac ar ein diwrnod olaf yn Honolwlw cawsom gyfle i fynd yng nghar yr Athro Michael Speidel, Athro'r Clasuron Groeg a Lladin ym Mhrifysgol Hawaii ym Manoa. Er na fu ef gyda ni yn yr ymchwil am y petrogluffau, dangosodd ddiddordeb mawr. Peth diddan oedd cael siarad â'r bobl yma i gyd a'u cyfeillion am eu bywydau, a hynny yn y ffordd rwydd o siarad sydd yn rhinwedd Americanaidd.

Rhaid sôn yma am un person arall, sef cyfnither i Ruth Hanner: merch olygus ag aeliau trwchus tywyll, a'i merch yn ferch frodorol. Cwrddais â hi yn 'Amgueddfa Genedlaethol Hawaii', sef y Bishop Museum, a chefais yr argraff nad oedd angen arni hi, beth bynnag, chwilio am wreiddiau hanesyddol dyfnach ymysg yr Eifftiaid a'r Celtiaid.

**Mesur a Phwyso**

Cyn inni gyrraedd Ynysoedd Hawaii ym mis Ionawr 1985 roeddem wedi bod mewn cyswllt â Ruth Knudsen Hanner. Roedd hi'n byw yn Honolwlw, ond yn ymwneud llawer hefyd ag Amgueddfa Peabody yn Salem (Mass.). Roedd hi eisoes wedi cyhoeddi astudiaeth o'r petrogluffau yn Lushiwa ar Ynys Lanái; gweler ei hysgrif yn *Epigraphic Society Occasional Publications 2* (1975), No. 37. Yn yr ysgrif hon mae hi'n cyfeirio at y tebygrwydd a welodd mewn ffigurau ar greigiau yn yr Aifft yn ôl cyfrolau Hans A. Winkler, *Rock-drawings of Southern Upper Egypt*, Vols. I and II (Llundain 1938 a 1939). Mae hi'n cyfeirio'n arbennig at y ffigurau sy'n portreadu cŵn, badau, marchogion ar geffylau, a'r dduwies Isis. Mae hi'n ceisio esbonio sut y daeth y tebygrwydd yma i fod. Gellir ei olrhain, meddir, i 'waith morwyr neu ymfudwyr o'r Aifft, neu i waith pobl o Hawaii a gafodd eu dylanwadu gan ymwelwyr neu hynafiaid o'r Aifft'. Mae'r ddau esboniad, sylwer, yn eithaf gwahanol. O graffu ar y cymar-iaethau, gwelir bod Mrs Hanner yn ofalus i gymharu teipiau

tebyg eu dull. Mewn llawer gwlad mae arysgrifau ar greigiau yn tueddu i fod yn symlach ac yn fwy amrwd na cherfluniaeth swyddogol ei statws. Mae ffigurau o ddynion ac anifeiliaid yn haws eu cymharu, oherwydd hynny, mewn trwch o enghreifftiau eang eu tarddiad.

Un o'r cymariaethau mwyaf manwl a phenodol yn ysgrif Ruth Hanner yw'r un sy'n cyfeirio at y dduwies Isis. Rwy'n sylwi yma ar y ffigurau a roir ar dud. 5 o'r ysgrif. Yn y ffurf ar graig yn Luahiwa, Ynys Lanái, dangosir llong a buwch y tu ôl iddi; o dan y fuwch mae pump o ddynion â'u breichiau ar led, ond yn cyfeirio i lawr. O dan hyn rhoir darlun petrogluffaidd o long Eifftaidd; tu ôl i'r llong mae darlun o fuwch, hefyd o graig yn yr Aifft, ond nid, sylwer, mewn cysylltiad â'r llong; sgythriadau ar wahân ydynt yn wreiddiol. Yn y cyfnod Groegaidd-Rufeinig daeth Isis i amlygrwydd oherwydd ei chysylltiadau â llongau a morwriaeth. Cafodd ei haddoli fel Isis Pelagia ac Isis Pharia; mae Apuleius yn *Yr Asyn Aur* (Metam. XI), tua 170 OC, yn rhoi sylw mawr i'r defodau lliwgar perthnasol. Gweler esboniad J. Gwyn Griffiths (1975); 219–21; hefyd ei esboniad ar lyfr Plwtarch, *De Iside et Osiride* (1970), 450.

Mae Kenneth P. Emory, swyddog yn Amgueddfa Bernice Bishop, Hawaii, yn gwrthod pob damcaniaeth Eifftaidd yn bendant; gweler Bwletin 12 o'r Amgueddfa (1924, ail argr. 1969). Ei ddadl ef yw mai cynnyrch canrifoedd diweddar (y ddeunawfed ac wedyn) yw'r petrogluffau; nid yw Ruth Hanner yn gwadu'r posibilrwydd hwn, ond gall eu bod, medd hi, eto'n adlewyrchu traddodiadau llawer hynach. Yn adeg y Ptolemeaid byddai morwyr o'r Aifft yn medru cyrraedd y Môr Indiaidd ac yn ôl pob tebyg y Môr Pasiffig a'i ynysoedd. Bu cyfathrach fasnachol fywiog rhwng Alexandria ac India; a thua chanol y ganrif gyntaf cyn Crist cyfeirir at swyddog Eifftaidd fel Rheolwr y Môr Coch a Môr yr India. Mae'n wir nad yw'r llongau ar y creigiau yn cyfateb

o gwbl i longau cymhleth yr Eifftiaid yn yr oes Helenistig. Efallai mai ffasiwn symlach y petrogluffau sy'n esbonio'r gwahaniaeth mawr. Dangosir cŵn a cheffylau weithiau, ac mae'r ffigurau hyn yn ddigon tebyg i'r rhai a geir ar greigiau yn yr Aifft, er nad oedd yr Eifftiaid yn gyfarwydd â cheffylau cyn tua 1550 cyn Crist. Wrth gwrs, nid yw'r tebygrwydd yn y pethau hyn yn profi cysylltiad. Ni thrinnir gan Ruth Hanner y ffigurau aml sy'n dangos cylch, neu nifer o gylchau, a phwynt yn y canol. Yn hierogluffau'r Aifft mae cylch gyda phwynt mewnol yn aml yn dynodi'r haul neu dduw'r haul (Re). Mewn craig-ddarluniau yn Ewrop, ar y llaw arall, mae darlun tebyg yn gallu dynodi baban yn y groth. Dangosodd Marija Gimbutas hyn i ni mewn cynhadledd ar ddiwylliant cynhanesyddol yn Valcamonica, Brescia, gogledd yr Eidal, ym 1972. Gweler hefyd ei llyfr, *The Goddesses and Gods of Old Europe, 6500–3500 BC* (Llundain, 1982, ail argr.), 205–8.

Mae cwestiwn sylfaenol yn codi yma. Beth yw'r ffin (os oes ffin) rhwng dull y petrogluffau o ddweud stori a dull yr ieithoedd cynnar? Mae'n bur debyg fod creigiau Hawaii yn ceisio coffáu digwyddiadau a phrofiadau arbennig, fel glaniad llwyth neu deulu neilltuol ar ynys benodol, a dyma'r llongau a'r ceffylau a'r cŵn oedd yn eiddo iddynt. Cofier mai darluniadol yw sylfaen system sgrifennu yr Hen Eifftiaid, ond mae tipyn o fwlch rhwng hyn a dull y petrogluffau. O'r darluniau hierogluffig mae geiriau'n medru siarad â ni. Nid felly'r petrogluffau. Bydd epigraffwyr yn tynnu gwahaniaeth rhwng y ddau ddull. Maent yn barod i gydnabod bod 'arwydd sgrifenedig' neu 'neges' yn medru cyrraedd atom o'r graffiti mwyaf carbwl ar fag neu declyn personol, pe bai'n unig i nodi i bwy y mae'n perthyn. Yr un modd bydd twristiaid sy'n ymweld â hen fangre adnabyddus yn hoffi nodi'r ffaith eu bod wedi ymweld â'r lle. Ond mae'r petrogluffau yn methu croesi'r ffin rhwng darlunio a mynegi. Cymharer

sylwadau A.G. Woodhead, *The Study of Greek Inscriptions* (Ail argr., Caer-grawnt, 1981), 5 a 47, wrth drafod graffiti.

Mae iaith pobl Hawaii heddiw yn perthyn i'r ieithoedd sydd yn ffynnu ar nifer o'r ynysoedd Polynesiaidd ym Môr y Pasiffig. Bu Barry Fell yn astudio iaith y Maori yn Zealand Newydd (brodor oddi yno ydyw ef ei hun) a beiddiodd honni cysylltiad rhyngddi a iaith y Libyaid yng Ngogledd Affrica. Mae pob hawl ganddo i drafod Libyeg fel iaith gytras â'r Hen Eiffteg, ond nid yw'n llwyr argyhoeddi wrth hawlio cysylltiad rhyngddi a iaith y Maori (gan honni hefyd gyfatebiaeth rhwng Maori a Mauri yng Ngogledd Affrig). Mae tua chant o arysgrifau Libyeg yn deillio o'r bedwaredd ganrif cyn Crist, mewn ardaloedd o gwmpas hen ddinas Carthago: gweler H.F. Wendt, *Sprachen* (Frankfurt am Main, 1961), 265. Yn ei lyfr *Saga America* (Efrog Newydd, 1980), 301, mae Barry Fell yn tynnu sylw at ddarganfyddiad a wnaeth dau Americanwr, Robert Heizer a Martin Baumhoff, yn Allen Springs, Nevada:

> The Ancient Alphabet Stone of Allen Springs, Nevada, gives the sequence of letters in the pre-Islamic Libyan alphabet … clear testimony that the ancient Libyans came here, not as visitors, but as permanent settlers who established schools and reared their children as Americans …

Gyda chymorth ysgolheigion ym Mhrifysgol Tripoli mae Fell yn lleoli'r arysgrif yn yr ail ganrif cyn Crist, gan fod arddull yr ysgrifen yn awgrymu cyfnod y Brenin Masinissa. Bu brenhinoedd o Libya yn rheoli'r Aifft, a chred Fell fod eu llongau wedi hwylio i borthladdoedd gorllewinol Sbaen ac oddi yno wedi croesi Môr Iwerydd ac ymsefydlu mewn rhannau o'r ddwy America (ac nid o gyfeiriad y Môr Pasiffig). Mae'r honiadau hyn braidd yn ysgubol, a'r hyn sy'n absennol yw tystiolaeth fanylach am ddiwylliant Libya yn y tiroedd a nodir.

Fe gofir bod Ruth Hanner yn cynnig dau esboniad neu ddull

o ddylanwad Eifftaidd ar Hawaii:

(1) 'gwaith morwyr neu ymfudwyr o'r Aifft';

(2) 'gwaith pobl o Hawaii a gafodd eu dylanwadu gan ymwelwyr neu hynafiaid o'r Aifft'.

Gwelsom fod modd derbyn y posibilrwydd fod morwyr o'r Aifft yn medru cyrraedd y broydd hyn. Ond rhaid gwrthod yr awgrym (yr un cyntaf) eu bod wedi ymgartrefu i fyw yn Hawaii. Pe bai hynny wedi digwydd, byddai dyn yn disgwyl gweld olion helaeth o'u presenoldeb yn y ffurf o demlau a beddau ac arwyddion eraill o ddiwylliant materol. Tipyn mwy penagored yw'r awgrym arall, gan ei fod yn dynodi dylanwad llawer mwy anuniongyrchol ac efallai ysbeidiol. Wrth drafod petrogluffau mewn rhannau o Ogledd America dywed Heizer a Baumhoff (yn Fell, *Saga America*, 297) fod anifeiliaid sydd o ddiddordeb i helwyr yn cael eu darlunio. Ceir ganddynt yr awgrym felly, mai mannau gwersyllu dros dro ('temporary camping places') oedd y mannau hyn, a'r darluniau yn portreadu gweithgarwch yr helwyr. Ond anodd yw cymhwyso yr awgrym atyniadol hwn at ffigurau Hawaii. Ceir anifeiliaid yma, bid sicr, yn cynnwys cŵn, ond rhoir amlygrwydd i'r llongau hefyd, ac yn arbennig i'r cylchau heulog.

Efallai y dylem adael y drws yn agored, heb dderbyn y ddamcaniaeth Eifftaidd ar hyn o bryd, ac eto heb ei gwrthod. Profiad hudol oedd cael crwydro yn ynysoedd rhyfeddol Hawaii. Roedd persawr a lliw eu blodau llachar yn cystadlu â dirgelion astrus eu creigiau; ac mor siriol bob amser oedd caredigrwydd hyfryd eu pobl.

*Barn*, 296, Mehefin 1985

# II. CREFYDDAU

## Doethion o'r Dwyrain: Lao-Tse

*'Digyfnewid yw Duw, ac nid oes iddo enw.'*

*I'r da gweithredaf ddaioni:*
*I'r drwg hefyd gweithredaf ddaioni:*
*Felly sylweddolir daioni.*

'Pa mor effeithiol bynnag y bo arfau rhyfel … nid oes iddynt le yng nghyfundrefn y gwleidydd sy'n seilio ei weithredoedd ar egwyddorion dwyfol.'

Ysgrifennwyd y geiriau hyn, sy'n mynegi safon foesol dipyn uwch nag y medrwn ni ei hawlio yn bresennol, gan Lao-Tse, yr athronydd Tsheineaidd enwog a sylfeinydd crefydd y Tao. Yr oedd ef yn byw yn y chweched ganrif CC, a da fydd inni gofio i'r ganrif hon weled rhai o'r meddylwyr a'r arweinwyr crefyddol mwyaf a gododd o blith dynoliaeth: Thales, Heracleitos, a Pythagoras; yr Ail Eseia ac Eseciel; Confucius, Lao-Tse, a'r Bwdha.

Un llyfryn tenau yw'r cyfan sy gennym o ddysgeidiaeth Lao-Tse; hefyd, ni wyddom ddim i sicrwydd am ei fywyd, er bod storïau amrywiol amdano, yn naturiol a goruwch-naturiol, wedi ffynnu ymhen amser ar ôl ei farw. Hyd y gwyddom, ef oedd yn cadw'r cofnodion brenhinol yn llys Tshow-cing, un o blith tywysogion niferus ei ddydd. Felly cafodd gyfle digonol i ddarllen ac astudio hen lawysgrifau, gan gynnwys y doethineb a draddodwyd gan y tadau, ac yn fynych cawn ef yn siarad am hen ddiarhebion ac am 'ddelfryd uchaf y tadau'. Ond nid aeth mor

bell yn y cyfeiriad hwn ag yr aeth Confucius, a gyfaddefai mai ei unig amcan oedd ailsefydlu rhinweddau'r Oes Aur a aethai heibio. Yr oedd gan Lao-Tse ei ddisgyblion, ac adroddir stori arbennig ynglŷn â tharddiad ei unig lyfr. Pan oedd wedi ymddeol o'i swydd, dechreuodd deithio o amgylch y wlad, er ei fod erbyn hyn yn hen. Daeth unwaith i Fwlch Hesien. Yno yr oedd un o'i hen ddisgyblion yn gofalu am y lle, ac erfyniodd hwnnw ar i Lao-Tse beidio â gadael ei wlad cyn ysgrifennu cronicliad o'i ddysgeidiaeth. Cymerth yr athronydd ei ddarbwyllo gan yr apêl, ac felly yr ysgrifennwyd un o'r llyfrau gwerthfawrocaf yn llenyddiaeth y byd.[1]

Y mae iaith y llyfr hw'nn mor gymhleth fel na chaiff y meddwl gorllewinol byth, hwyrach, ei ddeall yn gyflawn, a hyd yn oed yn Tsheina ei hun tywyllwyd ei synnwyr gan fynyddoedd o esboniadau. Yn ychwanegol at hynny, aed i ystyried Lao-Tse fel duw, a'i boblogeiddio i'r fath raddau ag i wneud yr athronydd hanesyddol bron yn anadnabyddus. Enw'r llyfr yw *Tao-The-Cing*, yr hyn o'i gyfieithu yw 'Y Llyfr Clasurol am Natur y "Ffordd Gywir" [h.y. Tao]'. Y mae a fynno'r awdur yn gyntaf â'r gofyniad oesol ynglŷn â'r ffordd gywir o reoli gwlad ac â'r ffordd gywir o fyw, hynny yw, byw yn unol â'r 'Tao', gair sy'n dynodi'n llythrennol 'Y Ffordd', ond a drosir yn well yn aml trwy ddweud 'Duw'.

Yn ei ymchwil am Dduw ac yn ei ddehongliad ohono, gellir galw Lao-Tse yn gyfrinydd. Diflin yw ei ymdrech i dreiddio drwy'r 'llen faterol' rhyngom a'r 'ffynhonnell dragwyddol'; diflin hefyd yw ei ymchwil am yr Achos Cyntaf.

'Anfaterol yw Duw, ac o'r anfaterol y creodd ef bopeth.' O'r un ffynhonnell y daw pethau materol ac anfaterol, ac i ddangos eu perthynas edrydd yr athronydd gymhariaeth enwog y Tŷ a'r Llestr: byddai muriau tŷ yn hollol ddi-fudd heb y gwacter y tu mewn; byddai'r llestr clai yn ddiwerth oni bai am y gofod gwag

o'i mewn. Dengys hynny nad y materol, ond y vacuum, yr anfaterol, yw'r peth hanfodol.

Wrth ymholi am synnwyr ac ystyr y byd hwn, dychmyga Lao-Tse am Dduw di-nwyd a di-amcan:

> Y mae'r dylanwadau uchaf yn oddefol a diamcan. Y mae'r dylanwadau isaf yn egnïol, a gweithiant gydag amcan.

O bydd i ddyn weddïo ar y Duw hwn, gwna hynny o gymhelliad mewnol, nid er mwyn derbyn ffafrau:

> Nid cymhellion o garedigrwydd a bair i'r nefoedd a'r ddaear weithredu.

Eto cydnebydd derfynau ei allu i ddeall. Fel Socrates, cenfydd yn y diwedd mai un peth yn unig a ŵyr, sef nad yw'n gwybod dim.

> Y mae'r mwyafrif o ddynion yn medru canfod rheswm am bopeth, ond ffôl a diwerth yw fy meddyliau i. Paham yr wyf yn wahanol i eraill fel hyn ac yn sefyll yn unig? Am fy mod yn anrhydeddu ac yn parchu Duw – y Fam fawr – i'r hon yr ydym yn ddyledus am ein bywyd ac am bopeth sy'n cynnal bywyd.

Unrhyw â'r ymchwil am Dduw yw'r ymchwil am y ffordd i fyw yn yr iawn berthynas â'r cyfanfyd. Nid bod yn hunanddigonol yw'r nod ond bod yn ymwybodol bob amser o'n perthynas bawb i'w gilydd ac o'r hyn sydd am hynny yn ddyledus oddi wrthym.

> Y dyn na wêl ddim y tu allan iddo ef ei hun, ni ddaw hwn byth yn ddeallus. Y dyn sy'n meddwl ei fod yn iawn bob amser, ni chyfyd ef byth o ddinodedd.

Ar ostyngeiddrwydd y dylid seilio pob gweithred. Ni ddylem amcanu at fod yn ddysgedig ond at wneud y pethau lleiaf yn raenus:

> Y mae cymaint o ofal yn ofynnol i goginio pysgodyn bychan ag i lywodraethu gwlad fawr.

Ond ni chymeradwyir unrhyw reol gaeth ar gyfer buchedd. Nid oes 'Na wna' a 'Gwna' mewn deng air deddf i'n bygwth.

> Ni bydd y dyn o uchel fryd yn mabwysiadu rheol gaeth mewn ymddygiad; y mae'n ymddwyn yn unol â golygiadau y rheini a osodir oddi tano.

Dylai purdeb a thangnefedd fod yn safonau mewnol iddo. Ond fel y mae'r plentyn ieuanc a'r coed ieuainc yn wan ac yn hydrin, eithr gydag henaint a marwolaeth yn tyfu'n galed ac yn anhyblyg, felly y mae ystwythder a thynerwch yn sefyll yn uwch na chaledrwydd a grym. Nid gwendid moesol, ar unrhyw gyfrif, yw'r ildio hyn; fel cymhariaeth i ddisgrifio nerth sy'n ildio defnyddia Lao-Tse ddwfr, y mwyaf symudol ac ansefydlog o'r elfennau, ond elfen eto a all ddifodi creigiau cedyrn.

> Gwybod hyn a'm harweiniodd yn gyntaf i ganfod mantais y peth y gellir ei alw yn egni'r anegnïol, a'r cyfarwyddyd sydd i'w gyfleu trwy ddistawrwydd. 'Ond,' ychwanega Lao-Tse yn ofalus, 'ychydig iawn o bobl yn y byd sy'n gallu derbyn y ffaith o werthfawredd yr anegnïol.'

Y mae'n syndod gymaint o'i lyfr a rydd Lao-Tse i drafod y ffordd y dylai tywysog reoli ei wlad. Yn ei gyfnod ef yr oedd rhyfeloedd cartref rhwng y tywysogion Tsheineaidd yn y taleithiau bychain yn andwyo bywyd Tsheina; a rhaid bod hiraeth am weld 'Trefn Newydd' i'w wlad, yn unol â'r TAO, yr egwyddor ddwyfol, wedi ei lethu. Sieryd gyda dirmyg am y tywysogion hynny sydd â phalasau mawrion ganddynt a digonedd o gyfoeth a bwyd, tra bod eu gwlad orthrymedig yn gorwedd mewn doluriau. Ni ddylai brenin, ebe fe, ddefnyddio ei bobl yn unig fel moddion i gynhyrchu cyfoeth, ac ni ddylai wasgu cynifer o drethi allan ohonynt nes iddynt syrffedu ar fywyd; dylai reoli'n hytrach drwy egwyddorion seiliedig ar gariad a chyfiawnder. Dylai ochel rhag meithrin uchelgais a dymuniadau drwg.

> Pan na ddodir gwerth ar y pethau hynny sy'n anodd eu cael, ni thraffertha lladron i'w lladrata.

Yn wahanol i ddysgeidiaeth Cristionogaeth, ni esyd iachawdwriaeth yr enaid unigol fel ei nod, eithr bodlondeb y mwyafrif fel torf. Y mae'n anodd rheoli gwlad, dywaid ef, pan fo'r bobl yn gwybod gormod:

> Felly y mae'r gŵr hwnnw sy'n ceisio llywodraethu teyrnas trwy ychwanegu at wybodaeth y bobl yn elyn i'w wlad, ac y mae ef sy'n ceisio llywodraethu teyrnas heb ymdrechu i wneud pawb yn ddoeth yn gymwynaswr iddi.

Eithr hefyd ni ddylai'r brenin ymyrryd gormod. Gwell iddo ddysgu trwy ei esiampl ei hun fanteision y bywyd syml a bodlon. 'Bydd y brenin,' meddai, 'fel iâr yn gori, yr hon sy'n dwyn ei gwaith ymlaen mewn cyflwr o orffwystra perffaith.' Gweddai i'r doeth gynghori'r brenin. Yn y bennod olaf ond un, rhydd Lao-Tse ddisgrifiad o'r drefn a sefydlai ef pe byddai'n frenin.

> Ceisiwn beri i ddynion ddychwel i gyflwr o ddiniweidrwydd cyntefig fel yn yr amser pan ddefnyddid clymau rheffynnau yn lle ysgrifennu.

Ond byddent hwy'n byw yn fodlon, 'caffent eu bwyd yn felysach a'u bywydau'n llonnach'. Cedwid rhai milwyr, ond nid arddangosid arfau, ac ni byddai rhyfel.

Bu dylanwad Taoistiaeth ar ddiwylliant Tsheina yn eang. Er enghraifft, yng nghelfyddyd y wlad honno, nid yw'n arferiad rhoi'r holl fanylion yn llawn mewn darlun neu ddarn o farddoniaeth; gadewir vacuum y gallwn ni ei lenwi â'n dychymyg ein hunain, modd y byddom ninnau yn y diwedd yn rhan o'r cyfanwaith celfyddydol. Goddefiaeth am ysbaid hir yw'r egwyddor a ddilynir yn 'Ju-Jitsu'; anegni yn trechu egni. Un o hoff symbolau'r Taoistiaid yw'r Ddraig. Gwnaed duw o Lao-Tse ei hun, ac addolir ef fel un o'r 'Tri Pur' yn y temlau Taoaidd. Ond prif rodd Taoistiaeth yw ei dysgeidiaeth: celfyddyd yr addasu a'r ymgymhwyso, a chyda hynny y gelfyddyd o fyw. Mynegir y prif bwyslais yn alegori'r Tri a Yfodd Finegr (Finegr oedd yn arwyddo

Bywyd.) Safai Bwdha a Confucius a Lao-Tse unwaith o flaen llestr a finegr ynddo. Dododd pob un ei fys ynddo a phrofi blas y finegr. Dywedodd Confucius, y realydd, ei fod yn sur. Galwodd y Bwdha ef yn chwerw, ond Lao-Tse a fynnai ei fod yn felys.[2]

1. Yn yr ysgrif hon defnyddiais drosiad G.G. Alexander yn ei lyfr *Lao-Tse, The Great Thinker* (Llundain, 1895).

2. Gweler ymhellach D.C. Lau, *Lao Tzu, Tao Te Ching* (Penguin, 1963); Cyril G.Williams, *Crefyddau'r Dwyrain* (Caerdydd, 1968), 307–16; Cedric Maby, *Y Cocat Coch* (Caerdydd, 1987), 26–34; J. Gwyn Griffiths, *The Divine Verdict* (Leiden, 1991), 148–54.

*Seren Gomer,* Mai 1942

# Dwy santes: dau draddodiad

Ychydig wythnosau yn ôl ymunais â chynhadledd benwythnos a gynhaliwyd dan yr enw: Cyngres Crefyddau'r Byd *(World Congress of Faiths)*. Denwyd fi yn arbennig gan brif destun y gynhadledd, sef 'Cyfrinwyr benywaidd a'u pwysigrwydd heddiw'. Roeddwn yn gobeithio, yn dawel fach, ddarganfod yma ryw fath o ateb o rywle i'r cwestiwn sydd wedi fy anesmwytho i erstalwm: pwy sy'n gyfrifol am y corryn a'i wawn anhygoel o brydferth sy'n fagl i bryfyn diniwed? – heb sôn am sawl corryn o ferch sydd yn bwyta ei chymar yn union ar ôl y briodas. Y tro nesaf y caf ymweliad eto gan ddau genhadwr ifanc (wedi eu gwisgo yn ddinam ac wedi eu heillio'n esmwyth) sydd am achub fy enaid gyda'u neges o'r Llyfr Da, byddaf yn gofyn y cwestiwn iddynt: 'Tybed ai Duw Cariad a greodd y corryn?'

Disgwyliwn mai cwestiynau fel yma a ddylai gythryblu cyfrinwyr. Ond nid felly y mae hi, fel y gwn yn dda yn awr. Nid hwn oedd y dyrysbwnc a boenai Ann Griffiths, y ferch-gyfrinydd o Gymru, pan gyfansoddodd y llinellau hiraethus:

*Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd,*
*Wrthrych teilwng o'm holl fryd;*
*Er o ran yr wy'n ei 'nabod*
*Ef uwchlaw gwrthrychau'r byd:*
*Henffych fore!*
*Caf ei weled fel y mae.*

Nid hon chwaith oedd problem y Santes Teresa, y ferch-gyfrinydd enwocaf o Sbaen, a fu farw bedair canrif yn ôl (ym 1582). Cafodd ei chydnabod fel santes yn fuan ar ôl iddi farw.

Cafodd ei dyrchafu'n Doctor Ecclesiae (yn gymar i Awstin Sant) yn ddiweddar, yr unig ferch i dderbyn yr anrhydedd hon. Ond roedd hi'n adnabod Creawdwr y Byd.

Bydd rhai o ddarllenwyr *Barn* yn cofio bod Pennar Davies wedi ei henwi hi, yn ei stori fer, 'Y Tri a'r Un', fel un o'r ychydig bersonau sydd wedi derbyn y weledigaeth brin o'r 'Drindod yn Undod':

> Y mae llawer wedi hawlio eu bod wedi gweld y Crist neu'r Forwyn, ond yr oedd Juana (arwres y stori) yn hawlio ei bod hi'n derbyn gweledigaeth brinnach, sef gweld y Drindod yn Undod. (t.10) … Mae wedi digwydd i grefyddes (arall) hefyd, i'r Santes Teresa – Teresa'r Iesu, Teresa o Avila (t.14).

A dyna ail gwestiwn y disgwyliwn ateb iddo o'r Gyngres – sef yn yr anerchiad am y Santes Teresa o Avila a oedd ar y rhaglen: a oedd Pennar wedi dweud y gwir, neu ai cynnyrch ei ddychymyg chwareus oedd ei siarad am weledigaeth o'r fath?

Y chwaer Teresa, diacones o Urdd y siaconesau o Sant Andreas, a siaradodd am y Santes Teresa o Avila a'i Threftadaeth.

**Merched yn Bennaf**

Dylwn ddweud yma, mai merched yn bennaf oedd yn gyfrifol am drefnu'r Gyngres, Dr Ursula King, Darlithydd Uwch mewn Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol ym Mhrifysgol Leeds, oedd y Cadeirydd. Cefais yr argraff annelwig weithiau iddynt dderbyn y Santes Teresa a'r Fam Sanctaidd Sarada Devi hefyd fel nawddsantesau i Women's Lib. Ond mewn gwirionedd roedd y Gyngres yn fath o enciliad crefyddol a oedd yn uno crefyddau'r Dwyrain pell a'r Gorllewin. Yr oedd Spode House, lle'r Gynhadledd, yn eiddo i fynachod o'r Urdd Fenedictaidd ac yr oedd eu gynau gwyrdd a gwyn yn rhoi cefndir o ŵyl grefyddol. Lleianod yn eu gwisgoedd du oedd yn cynnal y gwasanaeth Gosber yn Eglwys Abaty'r Santes Fair yn Colwich. Ond

canolbwynt gweladwy'r Gyngres oedd Swami Bhavyananda, pennaeth Indiaidd o Ganolfan Ramakrishna yn Llundain, yn ei wisgoedd llaes lliw saffron: ef a roddodd yr anerchiad am 'Sarada Devi', sef cymar a gwraig gyfreithlon Ramakrishna.

Ar y bwrdd hysbysebion glynwyd cartŵn awgrymog: Rwyt ti mor gymhleth! Santa Teresa, Cubele, Jeanne d'Arc, Margaret Thatcher wedi eu gwasgu yn un.

Wrth ymyl y cartŵn roedd mynegiant arall i broblem y rhywiau, sef y symbol YIN-YANG Sineaidd: cylch sydd yn dangos y ddau ryw wedi eu huno ac wedi eu rhannu'n dragwyddol. O dan yr YIN a'r YANG gosodwyd rhai o'r gwerthoedd y maent yn eu cynrychioli: o dan YIN sgrifennwyd DYN; DU; DA; IFANC; GENEDIGAETH; GOLEUNI; UNIGRWYDD. Ac o dan YANG: BENYW; GWYN; DRWG; HEN; MARWOLAETH; TYWYLLWCH; CYMDEITHAS.

Tybiais mai dyn braidd yn faleisus a oedd yn gyfrifol am y dewis gan fod YIN a YANG yn cynrychioli pethau eraill hefyd. Gall YIN, er enghraifft, gynrychioli: mynydd, dŵr, gwynt, daear; gall TANG gynrychioli: taranau, tân, llyn, nefoedd.

Dadleuwyd yn y Gynhadledd yn ysbeidiol am wir arwyddocâd y gair CYFRINYDD. Gallwn dderbyn yma mai Cyfrinydd yw'r enw am berson sydd yn chwilio am gymundeb uniongyrchol â Duw; a'r ffordd gyffredin i gyrraedd y nod yw drwy weddïo, ymprydio ac ymgosbi. Y gwahaniaeth arbennig rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin yw mai mynachod a lleianod sydd yn gyffredin yn y traddodiad Cristnogol o Gyfriniaeth: arbenigwyr felly; ond mae myfyrdod cyson yn agored i bawb yn y Dwyrain. Nod eithaf y myfyrdod yw'r ymuno gorfoleddus â'r Duwdod. Prin yw'r rhai a gafodd brofiad o'r fath. Maent i gyd yn cytuno mai amhosibl iddynt yw disgrifio'r profiad, fel y mae'n amhosibl disgrifio mewn geiriau, aroglau, neu ddolur, neu liw. Ond eto 'mae'r rhai a gafodd brofiadau o'r fath yn mynnu siarad



*'Gorfoledd y Santes Teresa' – cerflun Bernini*

amdanynt yn ddi-baid', eithr siarad mewn arwyddluniau a chymariaethau sy'n aros yn dywyll i'r bobl gyffredin.

**Cerflun Bernini**

Mae'n haws synhwyro'r profiadau eithafol a gafodd y Santes Teresa wrth edrych ar y cerflun ohoni a grëwyd gan y cerflunydd tra enwog Bernini fel un o'i gampweithiau aeddfetaf o amgylch 1650. Roedd y Santes Teresa yn arbennig o enwog hefyd am sefydlu nifer helaeth o leiandai i Urdd y Carmelitiaid. Ac felly y mae'n gymwys fod y cerflun enwog ohoni yn sefyll hefyd mewn eglwys fach Garmelitaidd, sef 'Santa Maria della Vittoria' yn Rhufain. Adwaenir y llun o dan yr enw 'Gorfoledd y Santes Teresa'. Mae Teresa yn derbyn gweledigaeth ddwyfol a'i llygaid wedi eu cau; mae angel yn treiddio ei chalon â gwaywffon.

Siaradodd y chwaer Teresa nid yn unig am fywyd y santes ond hefyd am ei phriodas ysbrydol ac am ei gweledigaeth ddeallol o'r Drindod Sanctaidd. Oedd, yr oedd Pennar o ddifrif ac yn fanwl gywir wrth honni am brofiadau a gafodd Teresa o Avila (t. 15):

> Fe ddywedodd hi na allai weld dim â'i golygon corfforol na thrwy unrhyw fath o olwg fewnol chwaith, ond bod y Tri Pherson Tra Moliannus yn ymgymuno â'i henaid ac yn cyflwyno iddi wirionedd y Drindod a'r Undod. Nid gweledigaeth i'r cnawd mo'i gweledigaeth hi.

Mae digon o brawf ar gael hefyd yn y llyfr am fywyd Santa Teresa a sgrifennwyd ganddi ei hun mewn Sbaeneg cyhyrog, naturiol (fe'i darllenais mewn cyfieithiad). Gofynnodd awdurdodau'r Chwil-lys Crefyddol i'w Pater Confessor i fynegi ei farn am hunanfywgraffiad Teresa o Avila, ac yr oedd hwnnw'n cyfaddef y posibilrwydd iddi gael ei thwyllo mewn rhai pethau:

> A barnu wrth y gweledigaethau a dderbyniwyd ganddi, nid yw'r fenyw hon yn twyllo, er ei bod yn bosibl iddi gael ei thwyllo mewn rhai pethau…

Mewn man arall y mae yn ei chanmol am ei hawdurdod wrth drafod y ffordd iawn o weddïo, am ei bod hi'n siarad o brofiad personol ac nid fel y dynion dysgedig sydd heb brofiad digonol.

Mewn gwirionedd, y mae'r llyfrau a sgrifennwyd gan Teresa o Avila ar orchymyn ei thad-gyffeswr yn perthyn i drysorau llenyddiaeth Sbaen.

**Sarada Devi**

Fe gafodd Teresa o Avila gymundeb gyda Duw a'r Iesu yn ei gweledigaethau. Ond fe gafodd Sarada Devi gymundeb â Duw yn y cnawd. Mae'r stori'n ymddangos yn rhyfedd i ni. Ond heb ddadlau fe geisiaf adrodd rhai o'r pethau yr wyf wedi eu clywed neu wedi eu darllen amdani.

Darllenais am Sri Ramakrishna mewn llyfr gan Anne Bancroft, un o'r darlithwyr yn y Gyngres, sydd yn trafod Crefyddau'r Dwyrain heddiw. Mae'n llyfr arbennig o ddiddorol gan ei bod hi'n trafod hefyd rai o'r cenhadon sydd wedi dod oddi yno i'r Gorllewin. Dywedir yno (t. 63): 'Un o'r athrawon mawr y bu ei ddylanwad yn gryf yn y Gorllewin drwy gymorth awduron o California yw Sri Ramakrishna.'

Ganwyd Sri Ramakrishna ym 1836, yn fab i deulu Hindwaidd. Yn y diwedd fe gafodd ei ystyried fel Avator, sef ymgnawdoliad o'r Gwirionedd Terfynol, yn debyg i Bwdha ac yn debyg i'r Iesu.

Ganwyd Sarada Dewi ym 1853. Fe'i hunwyd mewn priodas â Ramakrishna pan oedd hi'n ddim ond chwe blwydd oed. Daeth i fyw gydag ef pan oedd hi'n bedair ar ddeg oed, ond yr oeddent yn dal i fyw gyda'i gilydd fel brawd a chwaer. Roedd Swami Bhavyananda yn ei chanmol hi fel delfryd o'r hyn y dylai gwraig fod yn ôl y traddodiad Indiaidd: yn ddwys, yn dduwiol, yn fam i bawb, heb deimlad o gasineb at neb. Ond fe ddangosodd hi hefyd gymeriad cryf: ar ôl marw Ramakrishna, hi, i raddau

mawr, oedd yn gyfrifol am dwf a pharhad Urdd Ramakrishna. Roedd ymarferion ysbrydol yn rhan annatod o'i bywyd hi.

Edrychai Ramakrishna arni fel ymgnawdoliad o'r dduwies Kali, sydd yn arwyddlun o'r gwirionedd real; edrychir arni fel rhoddwr bywyd a marwolaeth. Y mae'n dysgu i dderbyn y prydferth a'r dychrynllyd fel mynegiant o'r Brahman, y Duwdod sydd yn sail i bopeth … Mae'r Indiaid, fel y dywedodd y siaradwr, yn gallu meddwl am y Duwdod fel Mam.

Caiff Sarada Devi ei hystyried fel y Fam Sanctaidd. Casglwyd llawer o'i dywediadau. Wrth edrych ar lun ohoni y mae'r gwrthdaro rhyngddi hi a Theresa o Avila yn dod yn amlwg. Ond yr oedd y ddwy yn edrych ar fywyd fel peth poenus, twyllodrus.

Dywedodd Santa Teresa wrth ei lleianod mai ymdrechu hyd at farwolaeth oedd ystyr eu bywyd. Ac fe ddywedodd Sarada Devi wrth wraig a oedd yn bwriadu mabwysiadu plentyn: 'Peidiwch â chymryd cam o'r fath. Gwnewch eich dyletswydd i bawb yn wastad; ond ni ddylech chi garu neb ond Duw. Mae caru pethau bydol yn dod bob tro ag adfyd truenus … Mae caru dynion yn dod â dioddefaint. Gwyn ei byd yw'r hon sydd yn caru Duw yn unig.'

Tybed a fyddai hi wedi siarad yr un fath pe bai hi wedi profi'r teimlad dwys o ddal ei phlentyn ei hun yn ei breichiau?

Wrth ailfeddwl, nid yw y Women's Lib chwaith yn dweud llawer am y fraint o gael plentyn.

*Barn*, Tachwedd 1981

# John Penry a Bendith y Mamau

Yn y flwyddyn 1587 anfonodd John Penry lythyr o ymbil at y Frenhines ac at Uchel-lys y Senedd yn Llundain yn gofyn am drefniant i bregethu'r Efengyl yng Nghymru. Pan sgrifennodd y cais yr oedd John Penry yn bedair ar hugain oed a newydd adael colegau Caer-grawnt a Rhydychen. Yr oedd yn llawn o ofn y byddai Cymru yn golledig am byth oherwydd prinder pregethwyr a oedd yn gallu pregethu'r ysgrythur. Nid oedd hawl gan y Cymry, bellach, i addoli fel Catholigion, ac yr oeddent heb ddysgu eto sut i fod yn Gristnogion heb gymorth y saint.


> *Our people learn one of another most blasphemous prayers,* meddai. *This they do so much the rather because in them they commend themselves, families, etc. unto the tuition of some saint whom they think most favourable unto them, and best able to grant their petitions … If they meet with any who can write and read, they will demand of him whether he can teach them ever a good prayer against such a disease in man or beast.*

(Diweddarwyd yr orgraff yn y dyfyniad hwn a'r rhai eraill.) Ac yng nghanol ei ddisgrifiad o gyflwr truenus Cymru, dyma'r frawddeg sy'n profi iddo gwrdd â phobl a oedd yn cymryd y tylwyth teg neu 'bendith y mamau' o ddifrif:

> *… Hence flow our swarms of soothsayers and enchanters, such as will not stick openly to profess that they walk on Tuesdays and Thursdays at nights, with the fairies, of whom they brag themselves to have their knowledge. These sons of Belial, who should die the death, Lev.20.6, have stroken such an astonishing reverence of the fairies into the hearts of our silly people, that they dare not name them without honour. We call them bendith y mamau eu hun, that is their mothers' blessing … as though they were not to be named without reverence.*



*Y Brenin James yn holi menywod a gyhuddwyd o fod yn wrachod, ym 1590. Ym 1597 argraffwyd llyfr o'i eiddo,* Demonology, *sy'n ceisio profi bod 'rheibio' ar gael.*



Hwmfforddied I alw ar yspudion a
Elwir tolwuthteg.
Rhaid i'r lle y bech yn galw arnunt
ffod yn lwr lanweth a chadaich wedi ei
dannu ar lawr neu ar vaus ynghylch i
troudfedd oddiwrth y culch neu ur Sircil
ar lawr a bod llw iar neu rhiw aderyn
arall wedi ei rostio yn [illegible] a [illegible] neu
ddesgil wen fechen ai llond o ddwr glan
Rededog a haner Peint o Sec mewn Bottel
a chwart o gwrw Da a ffeint o hufen [illegible]
mewn Desgil yr hun fydd yni gwneud
hwunt yn gydnabadd ufach ag yn mwu
Cyffillgar I wnuthur eich Dyminied ur
Rhai hun Seff yr Dysklau ni chwrddant ar
Culch wrth ei galw mau yn raid eich [illegible]
gwedi ymmolchie yn lan ag yn hardd

*'Hyfforddiant i alw ar ysprydion a elwir Tylwyth Teg': tudalen o lyfr cyfrin yn eiddo i Ddyn Hysbys o Sir Ddinbych a ysgrifennwyd o amgylch 1800.*

Y peth rhyfedd yn y gosodiad hwn yw, nid yn gymaint bod pobl yn dal i gredu ym modolaeth y Tylwyth Teg, ond eu bod yn credu mewn cyfathrach rhwng y Tylwyth Teg a dynion cyffredin sy'n ei gwneud hi'n bosibl iddynt dderbyn gwybodaeth gyfrin oddi wrthynt a hynny wrth gerdded gyda'r Tylwyth Teg ar ddyddiau arbennig. Yma, am wn i, cawn yr unig dystiolaeth bendant a hollol ddifrifol o'r gred honno yng Nghymru yn y cyfnod.

> Roedd canrifoedd wedi mynd heibio, bellach, er yr amser pryd y cododd morwyn allan o Lyn-y-Fan-Fach i briodi dyn meidrol a magu plant a hyfforddi mab yn y grefft feddygol.

Mae'r stori a adroddodd yr offeiriad Elidyr wrth Esgob Dewi yr Ail o Dyddewi yn disgrifio'r Tylwyth Teg fel pobl fach sy'n byw o dan y ddaear yn llawn o chwerthin a moethau. Ni fwytaent na chig na physgod, gan ymborthi'n bennaf ar fwydydd llaeth wedi eu coginio. Nid oedd dim a gasaent gymaint ag anwireddau.

Coleddwyd, felly, yng Nghymru y gred mewn bodau uwchnaturiol, ond heb fod yn ysbrydion, a oedd yn gallu rhoi hyfforddiant mewn meddyginiaeth, pobl a oedd yn dal i fyw o dan y ddaear ac yn y bryniau, yn foethus ac yn foesol. Nhw oedd y 'fairies' yr oedd John Penry yn cyfeirio atynt, 'Bendith y Mamau' a fyddai'n rhoi gwybodaeth i rai pobl ar nos Fawrth a nos Iau.

Bydd yn haws credu yn niffuantrwydd John Penry wrth sylwi ar yr hyn a ddigwyddodd yn yr Alban tua'r un pryd, sef yn ystod rhan olaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Teimlodd John Penry yn ddigon cas i ddymuno marwolaeth i'r 'soothsayers' yng Nghymru, ond yn yr Alban fe erlidiwyd pobl a'u crogi a'u llosgi (ar ôl eu crogi) am wneud dim byd gwaeth na chael gwybodaeth oddi wrth y 'Fairies' a'i defnyddio er daioni i'w cymdogion.

Yn y flwyddyn 1578 cyhuddwyd Bessie Dunlop o reibio, defnyddio coelgan a galw ar ysbrydion dieflig gan aros yn gyfeillgar gyda'r ysbrydion am gyfnod hir. Yn ôl yr adroddiad am

yr achos (a gofnodwyd yn iaith lafar yr Alban) daw'n amlwg bod Bessie Dunlop wedi bod o gymorth i lawer iawn o bobl. Byddai Bessie yn darganfod pethau a ddygid ac a gollid. Byddai pobl yn dod ati pan oedd plentyn yn sâl neu anifail yn dioddef oddi wrth saethau y dyneddon (elf-gripped). Byddai Bessie yn paratoi ar eu cyfer eli neu ddiod o lysiau arbennig ac yr oedd boneddigesau adnabyddus ymysg ei chwsmeriaid. Fel gwobr rhoddid iddi bethau defnyddiol fel sached o flawd neu ddarn o gaws.

Rhyw fath o 'fenyw hysbys' felly ydoedd, ond bod un peth eithriadol amdani: fe fynnodd ddweud nad hi ei hun oedd biau'r wybodaeth. Honnodd ei bod yn derbyn cyngor cyson oddi wrth Thom Reid, un a oedd mewn cysylltiad agos â'r Tylwyth Teg (*gude wychtis*) a oedd yn byw yng Nghaersidi ('The Court Elfame'). Pan ofynnodd erlynydd y Llys Barn iddi a oedd hi wedi gofyn cymorth Thom Reid i roi help iddi ei hun neu unrhyw berson arall, fe atebodd:

'Pryd bynnag y byddai rhywun yn dod ataf i ofyn am gymorth ar gyfer ei anifeiliaid, buwch neu famog, neu ar gyfer plentyn (sy'n sâl drwy chwa gwynt neu saeth dyneddon (elf-gripped), fe fyddwn yn mynd at Thom a gofyn beth a allai fod o gymorth iddynt. A byddai Thom yn tynnu llysieuyn a'i roi i mi.'

'Allan o'i law ei hun?' gofynnodd Holwr y Llys.

'Ie, o'i law ei hun,' atebodd Bessie, 'ac fe rodd gyngor imi hefyd sut i'w gymysgu â llysiau eraill a'u rhidyllu ac agor ceg yr anifail a'i osod i fewn. Ac mi fyddai'r anifail yn gwella.'

'A pha driniaeth y byddet ti yn ei rhoi i bobl?' gofynnodd Holwr y Llys.

Ac fe atebodd Bessie yn amyneddgar: 'Fe roddai Thom i mi, â'i law ei hun, rywbeth yn debyg i wreiddyn betys a gorchymyn i mi naill ai i'w ferwi a pharatoi eli ohono neu ei sychu a gwneud pylor a'i roi i'r bobl ac mi fyddent yn gwella.'

Fe ymdrechodd Thom nifer o weithiau, yn ôl ei hadroddiad

hi, i hyrwyddo cysylltiad rhyngddi a phobl Caersidi (Elfame). Fe ddywedodd i Thom ddod ati hi yn hytrach nag at neb arall, ar orchymyn Brenhines Caersidi, a hynny fel gwobr am weithred dda a wnaeth: unwaith, pan oedd Bessie yn disgwyl genedigaeth fuan plentyn, fe ddaeth benyw dew ati ac eistedd ar sedd yn ei hymyl a gofyn am ddiod.

Rhoddodd Bessie y ddiod iddi, ac fe ddywedodd y fenyw y byddai'r plentyn yn marw ond y byddai gŵr Bessie'n gwella o'i glefyd. A'r fenyw ddieithr hon, meddai Thom, oedd Brenhines Caersidi.

Dro arall cydiodd Thom yn rhuban ei ffedog a'i harwain i weld y Tylwyth Teg (*gude wychtis*) sy'n byw yng Nghaersidi gan orchymyn iddi i beidio â siarad gair nac ofni chwaith, beth bynnag y byddai hi yn ei weld. Ac mi welodd, heb fod yn rhy bell oddi wrth ei thŷ ei hun, ddeuddeg o bobl, wyth merch a phedwar dyn, wedi eu gwisgo yn ddeniadol *(seemely lyke to see)* gyda'i gilydd. Rhoesant groeso i Bessie gan ddywedyd: 'Croeso Bessie, a wyt ti am ddod gyda ni?' Ond nid atebodd Bessie air, ac fe ddiflannodd y cwmni yn fuan.

Gwadodd Bessie yn bendant iddi gael cyfathrach rywiol gyda Thom (nid rheibes mohoni) ond mynnodd ailadrodd bod Thom wedi cydio yn rhuban ei ffedog a cheisio ei pherswadio i ddod gydag ef i Gaersidi.

Wedi cymryd pob math o dystiolaeth arall, fe osododd Holwr y Llys Barn gwestiwn cyfoes iddi, cwestiwn sy'n datgelu yn sydyn yr ysgogiad crefyddol a oedd tu cefn i'r erledigaeth (a gan hynny yn gwneud math o ferthyres o Bessie druan): gofynnodd i Bessie beth roedd hi'n ei feddwl am y 'Ddeddf newydd' a'r grefydd ddiwygiedig.

'Rwyf wedi siarad gyda Thom am y mater yma,' meddai Bessie, 'ac mi ddywedodd Thom nad yw'r Ddeddf Newydd yn dda i ddim. Fe fydd yr Hen Grefydd yn dychwelyd, ond nid fel yr

oedd hi gynt.'

Dyfarniad y Rheithgor oedd iddynt gael Elizabeth Dunlop, gwraig briod a mam i deulu, yn euog ar bob pwynt yn y cyhuddiad.

Ar ymyl tudalen yr adroddiad ychwanegwyd tri gair:

*Convicted and burnt (conuict and brynt)*

Roedd tymer grefyddol yr oes yn wyllt ac yn ddisynnwyr. Llai nag ugain mlynedd yn ddiweddarach fe grogwyd yn Llundain y Cymro John Penry, gwladgarwr, penteulu, amddiffynnydd eiddgar y grefydd ddiwygiedig a gelyn argyhoeddedig 'Bendith y Mamau'. Ddwy ganrif yn ddiweddarach sgrifennodd Dyn Hysbys o Sir Ddinbych yn ei lyfr cyfrin, 'Hyfforddiant i alw ar ysbrydion a elwir Tylwyth Teg'. Fe sgrifennodd yn yr iaith Gymraeg mewn llaw lefn ac mewn orgraff afreolaidd. A hyd yn oed yma y mae'r Tylwyth Teg yn dal i hoffi lle 'pur lanwaith', bwyd da a phobl 'wedi ymolchi yn lân ac yn hardd'.

## RHAI LLYFRAU

*Three Treaties Concerning Wales by John Penry with an Introduction by David Williams*, Caerdydd, 1960.

*Gerallt Gymro, Hanes ei Daith Trwy Cymru*, wedi ei gyfieithu o'r Lladin gan Thomas Jones, Caerdydd, 1938.

Robert Pitcairn, *Criminal Trials in Scotland II*, Edinburgh, 1833.

Llun 1: Y Brenin James I yn holi menywod a gyhuddwyd o fod yn wrachod, ym 1590. Ym 1597 argraffwyd llyfr o'i eiddo, *Demonology*, sy'n ceisio profi bod 'rheibio' ar gael. Fe gymerwyd y llun o lyfr cyfoes, *News from Scotland* (1591).

Llun 2: 'Hyfforddiant i alw ar ysbrydion a elwir Tylwyth Teg'. Tudalen o lyfr cyfrin yn eiddo i Ddyn Hysbys o Sir Ddinbych a sgrifennwyd o amgylch 1800. Mae fy niolch am y llun yn ddyledus i Llinos Davies, Aberystwyth.

*Barn*, Mai 1974

# Y Fam-gu sanctaidd yn Llydaw

Fel rhagarweiniad gosoder cwestiwn: 'Pwy oedd y ferch a wnaethpwyd yn santes o achos ei bod yn fam-gu?'

Wedi bwrw wythnos mewn cyngres ddysgedig yn Paris, aethom ymlaen i Carnac yn Llydaw i gael gweld yno y meini hirion a'r rhyfeddodau eraill o'r cynfyd. Gan nad oedd y car gyda ni roeddem yn ansicr am y ffordd orau i gyrraedd y lle anghysbell. Mewn gwirionedd, roedd y daith yn ddigon syml: mynd mewn trên o orsaf Montparnasse yn syth i ran ddeheuol Llydaw. Aros yn Vannes (wrth lan y Morbihan = Môr bychan) a symud oddi yno mewn bws i Auray yn gyntaf a mewn bws arall o Auray i Carnac. Wedi cyrraedd Carnac gallem weld ar unwaith: *Hotel du Dolmen; Hotel du Tumulus; Hotel des Megaliths; Hotel-Restaurant-Bar des Alignements; Fabrique des Meubles des Menhirs*.

Ond ar ôl chwilio ychydig, a llai na milltir y tu allan i'r dref, daethom o hyd i nod pennaf ein pererindod: miloedd o feini hirion yng nghanol y grug mewn caeau llydain a hir wrth ymyl coedwig; y rhan fwyaf ohonynt yn sefyll fel byddin o filwyr mewn rhesi hirion neu fel pererinion mewn gorymdaith; eraill wedi pentyrru i ffurfio dolmen (yn atgoffa dyn am Faen Ceti yng Ngŵyr); yn agos i'r dref roedd bryncyn gwyrdd gyda beddau o Oes y Pres yn ei ganol ac eglwys Sant Michel ar ei ben a oedd yn weladwy o bellter. Wrth gael ein tywys i mewn i berfeddion tywyll y twyn roeddwn yn meddwl am y Brenin Arthur yn dal i gysgu mewn lle tebyg.

Yn ddiamau, yr 'Alignements', y miloedd ar filoedd o feini hirion mewn rhesi hirion, a barodd y syndod dyfnaf: yno, yn

deimladwy o hyd, roedd nerth rhyw feddwl beiddgar a threfnus, a ysgogwyd gan grefydd orfodol. Hwyrach y gwelir cysylltiad rhwng digwyddiad hanesyddol (sef pobl yn dod ar draws y môr i'r wlad) a'r ysgogiad crefyddol a anogodd y goresgynwyr i gyflawni gwaith diffrwyth yn lle canolbwyntio ar ddarparu tai a bwyd ar gyfer y werin. Neu tybed a yw bwyd i'r enaid yn fwy hanfodol na bwyd i'r corff er mwyn goroesi?

### *Le Grand Pardon*

Heblaw yr ymweliad yn Carnac roedd gennym reswm arall dros ddod i'r ardal hon ar ddiwedd mis Gorffennaf. Darllenais, cyn dod, am ŵyl grefyddol a fyddai'n digwydd yn Auray ym mis Gorffennaf, sef '*Le Grand Pardon de Sainte-Anne d'Auray*'. Dywedwyd y byddai pererinion yn dod o bob rhan o Lydaw a llawer o ferched yn eu gwisgoedd traddodiadol, heblaw ugain o esgobion, i gymryd rhan yn y gwasanaeth. Roedd achos felly i ddisgwyl rhyw gyfuniad o Gyrddau Mawr eithafol ac Eisteddfod.

Wrth fynd yn gyntaf i Auray, ar y 25ain o Orffennaf (y dyddiad a enwyd gan Ambrose Bebb yn ei lyfr deniadol *Pererindodau*), cawsom ein siomi gan nad oedd dim byd arbennig i'w weld yn Auray ar wahân i ryw Basilica fawreddog a oedd yn sefyll mewn gardd, eglwys a oedd yn ymddangos yn llawer rhy fawr ar gyfer tref fach wledig.

Ond pan oeddem yn dychwelyd i'r un lle yn gynnar y bore dilynol (gan fwriadu mynd ymlaen i Quiberon i gael diwrnod braf yn yr haul ar lan y môr), roedd y cyfan wedi gweddnewid fel drwy swyn: roedd hi fel ffair, y lle yn llawn o bobl, stondinau siriol wrth ymyl yr heol fawr hir, a rhagor o bobl yn cyrraedd mewn cerbydau mawr a arweinid i le parcio arbennig. A dyna hefyd y merched o'r wlad yn gwisgo eu capiau gwynion o frodwaith rhyfeddol mewn ffurfiau gwahanol ar gyfer pob ardal. Disgynasom o'r bws wrth ymyl y Basilica dim ond mewn pryd i

ymuno â'r orymdaith fawreddog gyda baneri ac offeiriaid a chanu swynol hiraethus. Ac yng nghanol yr orymdaith cludwyd cerflun euraid o dan orchudd: santes goronog ac o'i blaen ferch fach a oedd yn gwisgo coron yr un fath â'i mam, sef Santes Anna gyda'i merch y Forwyn Fair. Nid oedd modd amau oherwydd dyna a ddywedwyd hefyd yn un o'r caneuon yn yr iaith Lydaweg a glywyd yn yr orymdaith, cân syml yn hawdd ei chanu gan gerdded ar yr un pryd:

> *Santez Anna, mamm d'ar Werhez,*
> *Hon eus choazet da Patronez,*
> *Mamm goz Jezuz, Salver ar bed,*
> *A zo Mamm goz d'ar Vretoned.*
>
> (Santes Anna, mam y Forwyn,
> A ddewiswyd gennym fel noddwraig,
> Mam-gu'r Iesu, Gwaredwr y Byd,
> A hefyd Mam-gu y Llydawiaid)

A dyna, ar yr wyneb beth bynnag, ateb i'r cwestiwn a ofynnwyd ar y dechrau. I fi, peth rhyfedd ac atyniadol oedd y syniad o weld mam a'i merch fach fel prif wrthrych addoliad. Yr unig enghraifft debyg yr oeddwn yn gallu meddwl amdani oedd y Duwiesau Groegaidd, Dehmeter a Korê, a addolid yn y defodau cyfrin yn Elewsis.

Aethpwyd ymlaen heibio'r eglwys fawr hyd at gofadeilad ar gyfer y Llydawiaid a fu farw yn y Rhyfel. Dyna lle yr oedd yr Esgobion yn eistedd ar lwyfan a rhai ohonynt â meitr ar eu pen. Ond yr oedd eu gwisgoedd yn ddirodres, dim ond ambell flodeuyn mawr fel addurniad.

Yn rhyfedd iawn, roedd y gwasanaeth, a gynhaliwyd yn yr iaith Ffrangeg, yn methu rhoi testun o'r Beibl a oedd yn enwi Anna, Mam Mair. Yn lle hynny darllenwyd am ddwy Anna (neu Hanna), arall a oedd yn ferched o gymeriad cryf: y naill oedd Hanna, mam Samuel, a oedd yn cynnig ei mab i'r Arglwydd: 'A Hanna a weddïodd ac a ddywedodd: Llawenychodd fy nghalon

yn yr Arglwydd; fy nghoron a ddyrchafwyd yn yr Arglwydd …'
(1 Samuel 1:2).

A'r llall oedd Anna'r broffwydes, merch Phanuwel, merch oedrannus iawn, 'yr hon nid âi allan o'r deml ond gwasanaethu Duw mewn ymprydiau a gweddïau ddydd a nos'. Honno foliannodd yr Arglwydd gyda Simeon wrth weld y baban Iesu yn y deml yn Jerwsalem. (Luc II 36–38). Yn wir ni cheir enwau tad a mam Mair ond mewn llyfr apocryffaidd, sef Proto-efengyl Iago, sy'n adrodd hanes bywyd Mair, o'i geni ymlaen. Ond nid oedd modd amau'r dwyster a'r gorfoledd a oedd yn ymledu drwy'r dyrfa enfawr.

Roedd llyfr bach ar werth ar y maes a oedd yn cynnwys Litani i'r Santes Anna ('*Pour usage privé*'), ac mae'r Litani'n bendant:

*Santes Anna, mam Mair,*
*Santes Anna, mam-gu'r Iesu,*
*Santes Anna, gwraig Joachim,*
*Santes Anna, mam-yng-nghyfraith Joseph,*
*Santes Anna, disgynnydd o Jesse …*

ond yn yr un llyfr hefyd nodwyd caneuon sydd yn ei hannerch fel:

*Patronez ar Vretoned ha Rouanez Breiz-Izel'*
*(Noddwraig y Llydawiaid a Brenhines Llydaw Isel)*

neu:

*O Rouanez karet en Arvor,*
*O mam lan a druhâ,*
*Ar en doar ar er mor*
*Goarnet hon Pugalê.*

(O Frenhines a gerir yn Arfor [sef yr ardal yn ymyl Vannes]
O Fam lân a thrugarog,
Ar y ddaear, ar y môr
Gwarchod ein plant).

Yn yr iaith Ffrangeg hefyd:

*'De toute la Bretagne*
*Tu vois venir vers toi*
*Des villes des campagnes*
*Tes fils remplis de foi*

(O Lydaw gyfan rwyt yn gweld yn dod atat,
o'r trefi o'r wlad, dy feibion yn llawn o ffydd).

Mae chwedl ar gael yn Porzay (yn agos i Kemper) sy'n pwysleisio ei chysylltiad â Llydaw; yn ôl y chwedl hon roedd y Santes Anna yn enedigol o Lydaw lle roedd hi'n byw mewn castell gyda'i phriod. Dyn eiddigeddus iawn oedd ei phriod; roedd yn anfodlon hyd yn oed i rannu ei serch â'r plentyn a oedd heb gael ei eni eto ac fe anfonodd ei wraig i ffwrdd, ond fe ddaeth angylion i'w chynorthwyo a'i chludo i Jwdea lle rhoddodd enedigaeth i'r Forwyn Fair. Wedi byw yn hir yno, tua diwedd ei hoes fe hiraethodd Anna am ei gwlad ei hun ac fe ddaeth angylion y môr a'i chludo yn ôl i Lydaw.

Nid mor syml, felly, yw cael ateb i'r cwestiwn *pwy* mewn gwirionedd oedd y ferch a addolid yn Auray ar yr un pryd fel Anna, mam-gu'r Iesu ac fel Brenhines y Llydawiaid. Mae'n ymddangos fod rhywbeth wedi digwydd yma sy'n debyg i'r hyn a wnaed yn Carnac lle gosodwyd eglwys Sant Michel ar ben bryncyn yn llawn o feddau, a hytrach hefyd o ysbrydion. Hwyrach, wedi Oes y Pres, bod y Santes Anna wedi cymryd lle rhyw Fam-dduwies a addolwyd ac a garwyd yma ers y cyfnod cyn-Gristnogol. Ac o bosib roedd hi yno'n barod cyn i'r ymfudwyr gyrraedd o Ynysoedd Prydain o dan arweiniad 'saint' yn ystod y bumed a chweched ganrif o Oed Crist.

Beth bynnag yw'r gwir amdani, mae gan bobl Auray eu traddodiad eu hunain am gychwyniad y 'Pardwn Mawr' yn y lle arbennig hwn, ac mae rhyw debygrwydd rhwng eu stori nhw a'r stori dipyn hwyrach am y digwyddiadau yn Lourdes. Dywedir mai yn y flwyddyn 1623 ac wedi hynny, y daeth gweledigaethau

o'r Santes Anna at y gweithiwr Yvez Nicholazic, a oedd yn byw yn agos i Keranna yn ymyl Auray, gan ymddangos iddo ar y pumed ar hugain o fis Gorffennaf 1624 yn ffurf gwraig fonheddig, mewn goleuni disglair, a dywedyd:

> Yvez Nicholazic, peidiwch ag ofni: myfi yw Anna, mam Mair. Dywedwch wrth eich rheithor mai yn y lle a enwir Bocenno yn awr, yr oedd unwaith gapel bach yn eiddo i mi, sef naw cant wyth deg o flynyddoedd yn ôl. Fy nymuniad yw i'r capel hwn gael ei ailadeiladu ar unwaith ac i chi gymryd gofal ohono, oherwydd ewyllys Duw yw i mi gael fy anrhydeddu yno.

Doedd hi ddim yn hawdd argyhoeddi'r rheithor o ddilysrwydd stori Ivez Nicholazic. Ond yn y diwedd fe ddarganfuwyd hen gerflun pren yn y lle a enwyd, ac fe ymdrechodd Yvez Nicholazic i godi yno'r adeilad cyntaf ar gyfer 'Sainte-Anne d'Auray'; yn fuan wedyn fe ddaeth cleifion o bob cwr o'r wlad yno a chael eu hiacháu.

> Nid oes Gwyliau Pardwn ar gael ond yn Llydaw; ac nid oes Llydaw ar gael heb ei Gwyliau Pardwn.

Y mae'r rhan fwyaf o'r pererindodau crefyddol a elwir yn *pardons* yn ddigwyddiadau lleol yn unig, yn gydnaws â Gwyl Mabsant yng Nghymru gynt. Ond mae hi'n wahanol braidd gyda'r *Grand Pardon* sy'n eiddo i Sainte-Anne d'Auray. Oherwydd bydd pererinion yn cyrraedd yno o bob rhan o Lydaw a hyd yn oed o diroedd tramor. Yr oedd rhai o'r esgobion ar y llwyfan yn frodorion o'r ardal a aeth i wledydd tramor fel cenhadon. Mae'r cyfan wedi'i drefnu ar raddfa fawr. Mae'r maes y tu allan i'r eglwys fel llwyfan lle mae pawb yn gallu actio ei ran ei hun mewn drama grefyddol: rhai yn esgyn y scala sanctaidd a adeiladwyd yno yn arbennig, gan weddïo'n ddwys; eraill yn ymgasglu o amgylch y ffynnon sanctaidd gan lanw eu poteli â'r dŵr sy'n iacháu neu yn golchi eu hwyneb a'u traed yn y dŵr rhedegog; llawer yn eistedd ar y borfa yn yr haul gan sgwrsio

gyda ffrindiau a rhannu eu bwyd a gorffwys a gwylio'r maes; pob un yn ymweld o leiaf unwaith â Basilica'r Santes-Anna i gynnau canhwyllau hirion a chymryd rhan yn yr offeren.

Mewn stondin yn union y tu allan i'r eglwys y prynais y llawlyfr bach sy'n esbonio pob agwedd ar y bererindod. Ac yr oedd hyd yn oed y papur dyddiol a brynwyd yn Vannes yn rhoi amserlen fanwl:

> *Aujourd'hui grand pardon de Sainte Anne d'Auray: programme des offices et ceremonies: 6h, 7h, 7h30, 8h messes à l'autel Ste Anne...*

gan addo y byddai wyth o esgobion a thri abad gyda meitr yn bresennol.

* * *

Wrth feddwl yn ôl, rwy'n cofio'n neilltuol am un fam-gu o'r wlad a'i hwyres a oedd yn eistedd wrth ein bwrdd ni mewn gwesty lle paratowyd bwyd blasus a ffestys arbennig ar gyfer y pererinion, a phawb yn teimlo fel un teulu mawr. Rwy'n cofio hefyd y bara crwn mawr o faint olwyn, bara'r pentre, a werthid ar un o'r stondinau a minnau'n gresynu nad oeddwn yn gallu mynd ag un o'r rhain gyda fi.

Yn Aberystwyth, y mis dilynol (wrth ddathlu canmlwyddiant y Coleg), esboniodd yr Athro Mary Williams (Abertawe gynt) wrthyf mai camddehongliad oedd y gair PARDON mewn gwirionedd o'r gair PATRON, neu PATRONA. Credais yn fodlon inni gymryd rhan yn Auray mewn dathliad yn eiddo i Patrona fawr y Llydawiaid. Ond mae amheuaeth yn aros o hyd yn fy meddwl am wir natur y Patrona: pwy yw hi? Y Santes-Anna, mam y Forwyn Fair, mam-gu'r Iesu? Neu ynteu y Frenhines Fawr sy'n rheoli'r ddaear ac yn gofalu am bopeth sy'n tyfu ac yn marw, sydd yn trugarhau wrth ei phlant, gan ofalu'n arbennig am y Llydawiaid?

*Barn*, Tachwedd 1973

# Yn Wyneb Haul

Fis Mawrth diwethaf darganfuwyd yn Llanfor ger y Bala ar y fferm 'Bryn Ethol', garreg fawr ac arni sgythriadau cyntefig yn ffurf gwadn a chylch (gweler *Y Cymro*, 29 Mawrth 1973). Gallai berthyn i'r oes gyn-hanesyddol, ac nid yw'n annhebyg i'r *statues-menhirs* yn Ne Ffrainc, sef 'meini hirion' gyda lluniau.

Drwy fath o gyd-ddigwyddiad gwelais y llynedd yn yr Eidal, yn Valcamonica, garreg sy'n perthyn i'r un dosbarth. Sylwais gyda diddordeb arbennig ar lun canolog arni sy'n rhyfeddol o debyg i'r addurniad aur, y *gorget*, y bydd yr Archdderwydd yn ei wisgo ar ei ddwyfron ar ddyddiau eisteddfodol. Uwchben y *gorget* y mae llun o'r haul pelydrol ac odano y mae dyn gydag aradr a dynnir gan ddau o wartheg. Mae hefyd nifer o arfau ac o anifeiliaid ar ddwy ochr y *gorget* …darluniad cymwys ar gyfer digwyddiad yn *Breuddwyd Rhonabwy Jones* gan Rhydwen Williams (t. 63), lle mae Dai Twll, llygoden fawr, yn ymosod ar Archdderwydd yr anifeiliaid drwy honni bod yr holl syniad am Orsedd y Beirdd yn wiriondeb o'r mwyaf gan ymosod ar y syniad o ryw dduw yn yr haul.

Gallai ateb i'r cwestiwn sut a pham y daeth y *gorget* ar ben y garreg yn Valcamonica (sef 'La stela di Bagnolo II') fod yn eglurhad hefyd sut y digwyddodd i Archdderwydd yng Nghymru wisgo'r fath addurniad ar eu ddwyfron.

Wrth reswm, mae'n bur adnabyddus i'r holl wisg arch-dderwyddol gael ei dyfeisio yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond rhaid cofio hefyd i'r artist ddewis patrwm hynafiaethol o Iwerddon ar gyfer y *gorget*, gan efelychu yn

weddol ffyddlon addurniad o aur Oes yr Efydd a ddarganfuwyd rhwng creigiau Glenisheen a sy nawr yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn Nulyn. Mae gogoniant arbennig yn nodweddu crefftwaith y *gorget* Gwyddelig gyda'i ffurf hanner crwn a'i gylchoedd mawr terfynol, er na wyddom pa un, ai brenin neu offeiriad, fyddai yn ei wisgo. Ond cyn i mi ymhelaethu ar y *gorget* sydd ar y garreg o Valcamonica gwell i mi ddweud ychydig am Valcamonica ei hun.

Valcamonica yw'r enw a roddwyd i gwm mynyddig yn yr Alpau: gwely i un o'r afonydd iâ a greodd y llynnoedd mawrion yng ngogledd yr Eidal, fel Lago di Garda a Lago Maggiore a Lago d'Isleo. Mae'n perthyn i'r ardal a oedd unwaith yn Gallia Cisalpina (Gallia ar ochr ddeheuol yr Alpau). Ni wyddwn ddim byd am Valcamonica a'i chyfoeth o ddarluniau cyn-hanesyddol ar ei chreigiau hyd nes i ni dderbyn gwahoddiad – mewn tair iaith – i gymryd rhan yno mewn wythnos o drafod rhyngwladol ar grefyddau cyn-hanesyddol. Argraffwyd y gwahoddiad ar bapur gydag arwyddlun mewn patrwm swrealaidd a ddarganfuwyd ar graig yn y cwm: arfau, llinellau crynion, carw a'r haul pelydrol. Addawyd i ni y caem ymweld â'r prif fannau lle roedd darluniau ar greigiau, ac yr oedd hyn yn ddigon o atynfa i wneud i ni fynd i Valcamonica ym mis Medi 1972 yn llawn disgwyliadau. Ond yn wir yr oedd y ffeithiau yn rhagori hyd yn oed ar ein disgwyl-iadau: hollol amhosib i ni oedd rhag-weld y cyfoeth hanesyddol a oedd yn ein disgwyl, sef dros gan mil o ffigurau wedi eu sgythru ar wyneb y creigiau gogwyddol ac ar gerrig a wnaed yn llyfn gan rewlif Oes yr Iâ. Dim ond yn ddiweddar iawn y daethpwyd ar draws y darluniau a oedd yn guddiedig o dan borfa a mwswgl am dros ddwy fil o flynyddoedd. Mae'r clod am ddarganfod y lluniau yn perthyn yn bennaf i'r Athro Emmanuel Anati, a sefydlodd ganolfan arbennig yn y cwm ar gyfer ymchwil archaeolegol. A gyda balchder dangoswyd i aelodau'r Gyngres

ffigurau ar greigiau a ddarganfuwyd dim ond ychydig o wythnosau yn gynt.

Mae'r lluniau'n amrywio rhwng patrymau haniaethol a ffigurau syml o ddynion, anifeiliaid ac arfau. Yn rhywle yno roedd hyd yn oed lun tebyg iawn i'r Duw Celtaidd Cernunnos gyda chyrn carw yn coroni ei ben a thorch Celtaidd ar ei fraich. Mewn ysgytiad o syndod gofynnais i mi fy hun beth oedd arwyddocâd y gweithgareddau hynny i gyd. Pwy a drafferthodd, ofydd neu offeiriad, i sgythru arwyddion mor gyson drwy'r canrifoedd? Pa fath o orfodaeth ysbrydol oedd y tu ôl iddynt? Beth allwn ni ei ddysgu ohonynt?

Yn ddiamau y mae'r ysgogiad i adael marc ar eu hôl yn gyffredin iawn ymysg dynion: naddu calon ar risgl coeden; nodi enw annwyl ar seddau'r parc; sgrifennu'n llachar ar wyneb mur, *RHYDDID I GYMRU*, a datgelu llawer o syniadau cudd ar furiau'r tai bach cyhoeddus. Gellir gofyn hefyd pa un, ai celf ai crefydd, a roddodd yr ysbrydoliaeth bennaf? Rhaid gwahaniaethu hefyd rhwng darluniau sy'n adrodd stori ac eraill sydd ag ystyr symbolaidd gudd.

Mynnodd Marija Gimbutas (a hanai o Iwgoslafia) mai ystyr y 'dot mewn cylch' oedd 'baban yng nghroth ei fam'; ac esboniodd yr Athro Anati ystyr y sbiral ddwbwl mewn ffurf sbectol fel symbol y ddau ryw, menyw a gwryw. Ar y cyfan roeddwn yn fodlon derbyn yr honiad bod arwyddocâd crefyddol-swyngyfareddol i'r darluniau ar y creigiau, gyda'r amcan isymwybodol o nerthu ysbryd cydweithredol yn y llwyth.

Ond wrth ailystyried: tybed a oedd y darluniau ar y creigiau yn golygu rhyw fath cyntefig o sgrifennu, gan fod nifer o ffigurau arbennig yn ymddangos byth a hefyd? Lluniau oedd ffurf y sgrifennu cyntaf yn yr Aifft ac ym Mesopotamia ac yn Tsieina. Dim ond gydag amser y cymerodd y ffigurau ffurf ac ystyr haniaethol. Tybed a fynnai'r offeiriaid a'r arweinwyr llwythol o

Valcamonica gofnodi fel yma brif ddigwyddiadau'r flwyddyn: hela ceirw; rhyfela; ymweliad gof; aredig caeau newydd; dydd gŵyl Duw arbennig; derbyn pobl ifainc fel aelodau cyfrifol yn y llwyth?

Yn ddiamau fe lwyddodd ysgolheigion ein hoes ni i ddarllen hanes y llwyth drwy ddehongli'r sgrifen ar y creigiau yn Valcamonica: sut y daeth yr helwyr yno yn gyntaf, yn ystod Oes y Cerrig; sut y cafwyd gwybodaeth am arfau newydd gan gymdogion mewn cymoedd eraill; sut y dysgwyd trin y tir; masnachu wedyn gyda phobl Mucenau yn Oes yr Efydd. Ar ôl hynny, yn ystod yr Oes Haearn, cyrhaeddodd yr Etrwsciaid, ac wedyn y Celtiaid; ac ar ôl y Celtiaid daeth Rhufain. Y Rhufeinwyr a ddysgodd iddynt sut i ddarllen ac adeiladu ffyrdd. Rhoddodd Rhufain iddynt wladwriaeth ganolog gan ddinistrio eu hunanlywodraeth a'u harfer o fynegi eu hunain ar wyneb y creigiau. Ond oni bai am y darluniau cynnar ar y creigiau ni fyddai neb yn gwybod am fodolaeth y llwyth hwn yn Valcamonica. Ar ôl dyfod Rhufain nid oedd iddynt bellach eu hanes eu hunain. Fe aeth y lluniau ar y creigiau ar goll am ddwy fil o flynyddoedd hyd nes i'r Athro Anati a'i gyd-weithwyr chwilfrydig ddatgelu'r neges ar y creigiau am fodolaeth a hanes y cyndadau.

Mae canolfan yr ymchwil yn y dref fach Capo di Ponte yn Valcamonica. Yno cafodd aelodau'r Gyngres groeso cynnes gan gynrychiolwyr y dref (gyda phosteri mewn tair iaith tu allan i neuadd y dref). Roeddynt yn mynegi eu pleser arbennig wrth weld cynrychiolwyr llawer o genhedloedd yn cymryd diddordeb ynddynt mewn ysbryd o heddwch. Ac nid drwy eiriau yn unig y mynegwyd eu croeso ond mewn prydau o ffestys a oedd yn cynnwys cerddoriaeth a chyngerdd hwyrol gyda gitarau ac offerynnau tebyg mewn hen eglwys ar ben bryn: prawf llachar o ysbryd croesawgar y brodorion a oedd wedi parhau drwy'r oesoedd.

Ar y creigiau yn yr awyr agored y gwelsom y rhan fwyaf o'r sgythriadau, a llawer o'r rhain mewn lleoedd anghysbell, yn anodd eu cyrraedd; ond yr oedd yno hefyd nifer o gerrig eraill yn debycach i feini hirion neu gofgolofnau, a chedwid nifer o'r rhain mewn amgueddfa fach. Ar y garreg a gafodd yr enw 'Bagnolo II' (yr ail garreg o'r fath a ddarganfuwyd yn Bagnolo yn Valcamonica) y mae'r *gorget* sydd mor debyg i'r addurniad aur ar ddwyfron yr Archdderwydd. Hyd yn hyn y mae'r Athro Anati yn gwrthod rhoi dehongliad pendant o'r lluniau sydd o amgylch y *gorget*, sef yr haul, a'r anifeiliaid a'r arfau a'r dyn sydd yn aredig. Ond er mwyn rhoi cynnig arni, gallwn esbonio'r *gorget* fel gwrthrych aur sanctaidd yr edrychid arno fel symbol o'r bywyd newydd sy'n dod gyda'r haul ac a ddangosir yn gyhoeddus yn y gwanwyn, amser yr aredig cyntaf, er mwyn rhoi nerth newydd i'r tir ac i'r bobl.

Ar y dechrau roeddwn yn fodlon tyngu mai o Iwerddon y daeth y gwrthrych gwreiddiol ar draws yr Alpau gyda masnachwyr … ond nid wyf mor siŵr yn awr gan fod y doethion a ddylai wybod yn honni bod y garreg o Bagnolo tua 800 o flynyddoedd yn hŷn na'r *gorget* a ddarganfuwyd rhwng y creigiau yn Glenisheen. Eto ni ellir gwadu'r tebygrwydd clòs rhwng y ddau, a'r un cysylltiad â'r haul. Gan gymryd yn ganiataol i'r offeiriad neu'r tywysog yn Iwerddon wisgo'r *gorget* yr un fath â'r Archdderwydd yng Nghymru, sef yn hollol weladwy ar ei ddwyfron, cofiais wedyn am addurniad tebyg yn cael ei wisgo yn yr un ffordd yn union, sef ar fwgwd aur enwog y Brenin Eifftaidd Twtanchamŵn yn Amarna. Hwyrach mai yn y cyfnod hwnnw roedd y syniadau am yr haul yn lledaenu o'r Aifft i Asia Leiaf ac oddi yno i Valcamonica ac i Iwerddon, a gyda'r syniadau y symbol, y coler aur, y *gorget*.

# Y Roced a aeth i chwilio am Dduw

Felly y mae'r peth wedi digwydd. Fe aeth Rwsiad ac Americanwr i'r gwagle, a dychwelyd. Ond y Rwsiad a aeth bellaf. Roedd y derbyniad a gafodd Yuri Gagarin yn deilwng o'i fenter. Yn yr orymdaith ar draws y Sgwâr Coch ym Moscow i ddathlu Calan Mai fe roddwyd rhan amlwg i rocedi a phethau tebyg. Dringodd plant mewn "dillad gwagle" allan o fodel y *Fostoc* (y llong-roced a ddefnyddiwyd gan Yuri) a rhoddi blodau'r gwanwyn fel anrheg i Yuri, ac i Nikita a'i gyfeillion, a oedd yn eistedd ar lwyfan uwchben cyrff Lenin a Stalin.

Codwyd roced dau gan troedfedd o uchder ar y crogle gyferbyn â'r Cremlin yn y fan lle llifodd gwaed cannoedd a miloedd o ddynion ar orchymyn y Tsariaid Ifan yr Erchyll a Phedr Fawr.

Ni fu taith dyn i'r gwagle yn annisgwyl. Gwnaeth nofelau gwyddonol eu gwaith yn dda i baratoi ein meddwl ar gyfer y digwyddiad. Eto, y mae'r gwir weithiau yn rhyfeddach na'r dychymyg. Nid oedd llongau-roced y nofelau, er mor rhyfedd eu hanturiaethau ar y planedau, byth yn colli eu natur sylfaenol faterol. Rhywbeth i'w gweld, a'u teimlo a'u mesur oeddent.

Ond nid felly y rocedi Sofietaidd, y rhai a grëwyd gan faterolwyr heb na Duw na chythraul. Wrth fy ymyl y mae llun a dynnwyd bum mis yn ôl ar sgwâr Wittenberg, tref ddiwydiannol yn rhanbarth Sofietaidd yr Almaen, lle cefais fy magu. Yno rhwng cofgolofnau Luther a Melanchthon fe godwyd model o roced tua hanner can troedfedd ei hyd.

Wrth ddefnyddio'r chwyddwydr gallaf ddarllen yr ysgrifen arni*: VORWARTS MIT RAKETEN TEMPO ZUR PLANER-FULLUNG*: "Ymlaen gyda chyflymder roced i gwblhau gwaith y cynllun." Fe saif dwy dabled o dan y roced. Ar y naill fe enwir y ffatrïoedd sy wedi cyfrannu "ynni i'r roced" trwy orffen eu gwaith gosodedig; ar y llall y mae enwau'r ffatrïoedd sy wedi "atal y roced" trwy fod ar ôl gyda'u gwaith. Codwyd y model o'r roced yma yn barod yn 1959.

Y mae gan blant ysgol hefyd eu siâr yn y cynllun. Yn ôl erthygl ddi-enw gan athrawes yn y rhanbarth Sofietaidd (a ddarllenais mewn papur Almaeneg), gofynnwyd i blant dorri allan o bapur rocedi bychain a sgrifennu arnynt y dyletswyddau y maent yn addo eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ganlynol. Wedi casglu'r addewidion fe'u dodwyd hwy i gyd i mewn i "Roced o'r Lleuad" a yrrwyd i Berlin ar ôl clywed llawer o anerchiadau dwys i ddathlu'r amgylchiad.

Os yw hyn yn rhyfedd, fe geir mwy fyth o reswm i synnu wrth ddarllen yr ateb a roddodd Yuri pan ofynnwyd iddo "yn ddigywilydd" gan ohebwyr papurau newyddion, ble oedd lle cychwyn ei "long-wagle" a beth oedd nerth y peiriant a'i gyrrodd i ffwrdd.

"Y Gwrthryfel Mawr yn 1917," meddai, "a'i gwthiodd i fyny, a'r Gwrthryfel a roddodd yr ynni sy wedi galluogi ein mamwlad i arwain dynoliaeth."

Pan oedd y Spwtnic cyntaf yn crwydro yn y gwagle, gofynnodd rhywun: "Am beth y mae'n chwilio yno, tybed?"

Fe atebodd dyn ffraeth: "Mae'n chwilio am Dduw." Tra mae'r roced Americanaidd, yn ôl pob golwg, yn aros yn delpyn o fater a gafodd ei lunio gan ddeheurwydd ac arian ac uchelgais, fe brofodd y roced Sofietaidd ryw newid rhyfedd nad oedd y nofelau gwyddonol yn breuddwydio amdano. Trwy ryw wyrth dialectaidd, gweddnewidiodd y roced i fod yn rhywbeth sydd yn

groes i'w natur: fe'i troes i fod yn ynni moesol, i fod yn symbol ac yn chwedl. Mewn ffaith mae wedi mynd ymhell yn barod ar y ffordd i chwilio am Dduw.

*Y Cymro*, Ionawr 1961

# Y Sgrôl o Lyfr Esther

Roedd Anti Esther yn byw yng Nghaer. Roedd hi'n chwaer – un o lawer – i'r Parchedig Robert Griffiths, tad fy ngŵr. Hi oedd yr ieuengaf o'r deuddeg o blant a anwyd i Ioan a Jane Griffiths, y Ponciau, rhwng 1875 a 1896.

Nid gwaith hawdd yw'r gorchwyl o ddarganfod enwau cymwys ar gyfer deuddeg o blant heb gymorth *Enwau Cymraeg i Blant*, y llyfryn sydd ar gael i rieni ifanc nawr. Ond o ble y daeth yr ysgogiad i roi i'r ferch fach yr enw 'Esther', un o'r enwau mwyaf haerllug yn y Beibl – onid oes yna gysylltiad rhwng Esther ac Isher y Babyloniaid, sef y Dduwies a oedd ar yr un pryd yn Dduwies Caru a Duwies Rhyfel?

Synnais yn fawr wrth glywed mai sgrôl o Lyfr Esther oedd y sgrôl memrwn yn y Casgliad Eifftolegol sydd o dan fy ngofal yng Ngholeg y Brifysgol Abertawe, sef testun cyfan o Lyfr Esther wedi ei sgrifennu â llaw ar femrwn (sef croen anifail) yn yr iaith Hebraeg.

Hynny yw, y stori gyffrous am y Frenhines Esther, a oedd o dras Iddewig ac yn wraig honedig i Xerxes, Brenin y Mediaid a'r Persiaid. Daeth hi'n enwog fel gwaredwr ei chenedl rhag dinistr. Gallwch ddarllen yn y Beibl Cymraeg gyfieithiad o'r stori a roddwyd yn y sgrôl. Ond dydw i ddim yn credu bod llawer o weinidogion yn cymryd eu testun allan o Lyfr Esther. Oherwydd dyna'r unig lyfr yn y Beibl sydd heb enwi Duw o gwbl.

**Y Sgrôl**

Ffurf gynnar ar lyfr yw sgrôl. Y mae'n debyg i'r rholiau o

bapurws a ddefnyddiwyd gan ddynion dysgedig yr Hen Aifft. Wrth agor y sgrôl gwelir bod ganddi golofnau o faint tudalennau. Y mae gan ein sgrôl ni o Lyfr Esther wyth ar hugain o golofnau; y mae deunaw llinell ym mhob colofn. Sgrifennwyd y geiriau mewn llythrennau sgwâr, sy'n hawdd eu darllen. Y mae hyd y memrwn dros dair medr a'r cyfan wedi ei droi o amgylch un rôl o bren.

Yn groes i'n harfer ni o sgrifennu, darllenir yr ysgrifen o'r dde i'r chwith. Byddai'n rhaid cael dwy rôl bren i ddadrolio'r llawysgrif yn daclus, ond dim ond un rôl sydd ar gael nawr a honno wedi ei gwneud o bren caled ac wedi ei haddurno â choron ifori. Er mwyn cael un darn o femrwn gwnïid darnau byr o ledr gyda'i gilydd. Fel canlyniad y mae'r sgrôl yn ddigon cryf i allu parhau am ganrifoedd lawer.

Peth prin yw cael mewn amgueddfa sgroliau ysgrifenedig gyda thestunau ysgrythurol. Yn rhyfedd iawn, daeth y sgrôl o Lyfr Esther i'r Coleg yn Abertawe o Lundain gyda'r casgliad o bethau'r Hen Aifft a oedd unwaith yn perthyn i Syr Henry Wellcome. Mae'n debyg bod rhywun wedi gwerthu'r sgrôl yn ystod amser erledigaeth yr Iddewon dros hanner canrif yn ôl. Yn dilyn arfer yr Iddewon, mae cynnwys y Llawlyfr yn cadw'n glòs iawn at y testun traddodiadol fel y mae'n ymddangos yn yr Ysgrythur Hebraeg. Roedd yn bosibl i mi ei gymharu mewn Beibl sy'n rhoi'r testun Hebraeg gyda Saesneg wrth ymyl y dudalen.

Dyma sut mae stori Esther yn dechrau yn yr ysgrythur:

> Digwyddodd y pethau a ganlyn yn amser Ahasferus, yr Ahasferus oedd yn teyrnasu ar gant, deuddeg a saith o daleithiau, o India i Ethiopia. Yn ystod y cyfnod hwnnw, yn nhrydedd flwyddyn ei deyrnasiad, ac yntau yn teyrnasu ar ei orsedd yn Susan, y brifddinas, gwnaeth y brenin Ahasferus wledd i'w holl dywysogion a'i weinidogion …



*Sgrôl memrwn gydag ysgrifen Hebraeg yn yr Amgueddfa Eifftaidd yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe.*

Felly nid Babylon ond Susan oedd y brifddinas. Mae'r stori'n dechrau fel pe bai yn adroddiad o ffeithiau hanesyddol. Ond mae'n rhaid i ni dderbyn bod y stori ei hun wedi cael ei sgrifennu ganrifoedd ar ôl teyrnasiad y Brenin Ahasferus (sef Xerxes), a oedd yn byw yn y bumed ganrif cyn Crist. Eto mae'r ffaith yn aros mai Susan oedd ei brifddinas. Ac i ni heddiw mae rhyw arwyddocâd yn agosrwydd Susan, prifddinas y Persiaid, i'r Gwlff Persaidd. Mae yn galw i ni ar gof erchyllterau Rhyfel y Gwlff.

Caiff prif ddigwyddiadau'r stori eu crynhoi yn y pennau a roddwyd yn y Beibl Cymraeg Newydd i'r penawdau (ond sydd heb fod yn y testun Hebraeg):

> Diswyddo'r Frenhines Fasti … Esther yn Frenhines … Mordecai yn darganfod cynllwyn … Haman yn ceisio difa'r Iddewon … Mordecai yn ceisio cymorth Esther … Cais Esther i'r Brenin … Dicter Ham an ar Mordecai … Y Brenin yn anrhydeddu Mordecai … Crogi Haman … Gwŷs y Brenin ynglŷn â'r Iddewon … Dialedd yr Iddewon ar eu gelynion … dathlu'r Pwrim …

### Dathlu'r Pwrim

Mae stori Esther yn gorffen gyda'r gorchymyn i ddathlu'r Pwrim er cof am y digwyddiadau gan ddweud fel hyn yn y nawfed bennod a'r ugeinfed adnod:

> Rhoddodd Mordecai y pethau hyn ar gof a chadw ac anfonodd lythyrau at yr holl Iddewon ym mhob un o daleithiau'r Brenin Ahasferus ymhell ac agos yn galw arnynt i gadw'r pedwerydd ar ddeg a'r pymthegfed o'r mis Adar ***bob blwyddyn*** fel y dyddiau pan gafodd yr Iddewon lonydd gan eu gelynion a'r mis pan drowyd eu tristwch yn llawenydd a'u galar yn ŵyl. Yr oeddent i'w cadw yn ddyddiau o wledd a llawenydd a phawb yn anfon anrhegion i'w gilydd ac i'r tlodion.

A dyna beth a wnaethpwyd byth wedyn, hyd heddiw. A hwn yw'r rheswm pam y mae'r stori gyffrous am yr arwres Esther a adroddir yn y Beibl yn fwy na stori. Mae dathliad y Pwrim yn ddolen gyswllt rhyngddi hi a'r oes bresennol.

Math o garnifal yw'r Pwrim gyda llawer o weithredodd eithafol sy'n groes i ddulliau syber bywyd beunyddiol yr Iddewon; fel gwisgo ffansi, yfed i ormodedd ac ymddygiad afreolus. Fel y dywedais o'r blaen, does dim byd crefyddol yn perthyn i'r dathliadau yn y dechrau. Ond fe newidiwyd hyn gydag amser ac fe gododd yr arfer o ddarllen holl gynnwys y sgrôl unwaith yn y Synagog yn ystod yr ŵyl. A hwn, mae'n bur debyg, yw'r rheswm pam y mae cynifer o sgroliau Esther ar gael ar draws y wlad. Mae'r arfer yn parhau hyd heddiw. Cefais brawf ohoni mewn Calendr Iddewig ar gyfer y flwyddyn 5739, hynny yw 1978/79. Prynais y calendr pan oeddwn yn Efrog Newydd yn 1978.

Ar ddiwedd y calendr rhoddir rhestr o'r Dathliadau yn ystod y flwyddyn. Gwelir bod Purim ar fis yr Adar (sef mis Mawrth, mis olaf blwyddyn yr Iddewon). Nodir hefyd:

> *Additional reading: Book of Esther…*
> *Theme or major element: giving gifts; giving charity; overcoming duality.*
> *Biblical, historical significance: victory of Jews over Haman through the intercession of Esther and Mordecai.*
> *Seasonal significance: spring rites festival.*
> *Mood/setting: breaking of inhibitions. Getting so drunk as not to distinguish 'Bless Mordecai and curse Haman.'*
> *Selected customs: blotting out Haman's name with 'graggers'. Sending gifts of food to friends; giving to the poor.*

Ond nid dyna'r cyfan. Fel y dywedais yn barod: nid oedd Duw yn cael ei enwi yn ffurf gyntaf y stori yn yr iaith Hebraeg (fel y mae'n ymddangos yn y sgrôl yn Abertawe). Ond y mae ail adroddiad o stori Esther ar gael yn y Beibl, a hwnnw yn yr iaith Roeg, yn yr Apocryffa*:* mae presenoldeb Duw yn amlwg yno ym mreuddwyd Mordecai ac yng ngweddi Esther sy'n aros yn ffyddlon i fywyd crefyddol yr Iddewon. Ac y mae'n ddiamau mai Duw sy'n gyfrifol am achub ei genedl rhag dinistr.

Defnyddiodd Saunders Lewis fersiwn y stori yn yr Apocryffa fel sail i'w ddrama *Esther* ac fel canlyniad mae ynddo le cryf i'w frwydr dragwyddol rhwng y Da a'r Drwg.

Nid oedd Saunders Lewis ond un ymysg llawer o lenorion ac artistiaid a cherddorion a gafodd eu hysbrydoli gan y stori am Esther a Mordecai a Haman; yn eu mysg Lopes de Vela, Racine, G.F. Handel, Filippo Lippi.

Yn ddiamau mae stori Esther yn aros fel patrwm bob tro y mae'r Iddewon yn cael eu herlid at yr eithaf ac yn cael eu hachub gan mai pobl etholedig Duw ydynt.

*Y Faner*, Mawrth 1992

# III. ARLOESWYR

## Rhagair

Ym 1940 a 1941 cyhoeddwyd yn *Seren Cymru* gyfres o ysgrifau o dan y pennawd *Proffwydi'r Ganrif Hon*. Golygwyd y gyfres gan J. Gwyn Griffiths gyda chroeso brwd Golygydd y *Seren*, y Parch. R. S. Rogers. Fel y gwelir oddi wrth y rhestr isod, dehonglwyd y gair 'Proffwyd' yn weddol rydd. Pwysigrwydd a dylanwad eu neges a gafodd y sylw cyntaf, ac weithiau ni phetruswyd i gondemnio'r neges, fel yn ysgrif Marian Phillips (yn awr M. Henry Jones) ar Alfred Rosenberg. Y cyfranwyr yn aml a ddewisai'r gwrthrych. Yr adeg honno byddai Cylch Cadwgan yn cyfarfod yn gyson, ac nid yw'n syndod bod yr aelodau, gan gynnwys Kate Bosse-Griffiths a Pennar Davies (Davies Aberpennar i ddechrau) wedi cyfrannu yn frwd. Dewis cyntaf Pennar, yn y bumed ysgrif, oedd D.H. Lawrence, ac nid oedd hynny chwaith yn syndod.

Cefais gyfle yn ddiweddar i groniclo'r gyfres, a diolchaf i'r Parchg. Peter Dewi Richards a'i gyd-weithwyr yng Ngwasg Ilston am gymorth i gyhoeddi'r manylion; hefyd i'r Parch. Ivor Thomas Rees. Drwy hyn ceir syniad o'r gymdeithas amrywiol yr oeddem mewn cyswllt â hi; amryw ohonynt yn gyfoedion mewn colegau ac eglwysi, ac wedi parhau i gyfrannu'n sylweddol i'r meysydd diwinyddol a llenyddol sydd yn amlwg yn y gyfres.

Nid wyf yn sicr a fentrodd Kate i'r maes llenyddol cyn dod i Gymru. Cawsom beth dylanwad arni i'r cyfeiriad hwn, ac wrth gwrs roedd ganddi cyn hynny ddiddordeb enfawr mewn

llenyddiaeth. Roedd hi'r un mor selog gyda gweithgarwch Cadwgan y tu allan i lenyddiaeth bur. Byddai'r Cylch yn gweithredu hefyd, gyda chymorth rhai nad oeddent yn aelodau, fel cangen o Blaid Cymru ac o Gymdeithas y Cymod.

## Cyfres 'Proffwydi'r Ganrif Hon' yn Seren Cymru, 1940–41

1940

| | | |
|---|---|---|
| Hydref 4 | | Rhagarweiniad gan J. Gwyn Griffiths. |
| 1. | Hydref 11 | Kate Bosse-Griffiths: 'Ernst Toller: Bardd a Gwleidydd' |
| 2 | Hydref 18 | John Hughes: 'Ieuan Gwyllt' |
| 3. | Hydref 25 | Marian Phillips: 'Alfred Rosenberg' |
| 4. | Tachwedd 1 | John S. Williams: 'Karl Barth' |
| 5 | Tachwedd 8 | Davies Aberpennar: 'D.H. Lawrence' |
| 6 | Tachwedd 15 | Dewi Watkin Powell: 'Thomas Masaryk' |
| 7. | Tachwedd 22 | W.D. Davies: 'Soren Kierkegaard' |
| 8. | Tachwedd 29 | Harri Williams: 'John Macmurray' |
| 9. | Rhagfyr 6 | Nefydd Owen: 'Georges Sorel' |
| 10. | Rhagfyr 13 | J. Gwyn Griffiths: 'D.J.Williams, Abergwaun' |
| 11. | Rhagfyr 27 | Elizabeth Jones: 'George Lansbury' |

1941

| | | |
|---|---|---|
| 12. | Ionawr 3 | Eirwyn Morgan: 'Sigmund Freud' |
| 13. | Ionawr 10 | Dafydd Jenkins: 'Eric Gill' |
| 14. | Ionawr 17 | Rosemarie Wolff: 'Martin Niemöller' |
| 15. | Ionawr 24 | Davies Aberpennar: 'George Santayana' |
| 16. | Ionawr 31 | Kate Bosse-Griffiths: 'Madame Curie' |
| 17. | Chwefror 7 a 14 | Hugh Jones: 'B.H. Streeter' |
| 18. | Chwefror 21 | Frank Lee: 'H.G. Wells' |

| | | |
|---|---|---|
| 19. | Chwefror 28 | Dewi Watkin Powell: 'John Middleton Murry' |
| 20. | Mawrth 14 | Robert Wynne: 'Mary Baker Eddy' |
| 21. | Mawrth 21 | Aneirin ap Talfan: 'T.S. ELIOT' |
| 22. | Mawrth 28 | T. Griffith-Davies: 'Ffeodor Bashkin' |
| 23. | Ebrill 4 | Wynne Samuel: 'Y Mahatma Gandhi' |
| 24. | Ebrill 11 | Rachel Davies: 'Ifan ab Owen Edwards' |
| 25. | Ebrill18 | 'Ming' (Tsheinead): 'Sun Yat-Sen' |
| 26. | Ebrill 25 | Harri Williams: 'Albert Schweitzer' |
| 27. | Mai 2 | 'B.A. (Cymru)': 'E.K. Jones' |
| 28. | Mai 9 | Alban Lloyd: 'Ivan Meshtrovik' |
| 29. | Mai 16 | Gertrude Owen (Kate B-G): 'Henri Bergson' |
| 30. | Mai 23 | Gwynfor Evans: 'George M. LL. Davies' |
| 31. | Mai 30 | 'Ardwyn': 'D. Miall Edwards' |
| 32. | Mehefin 13 | J. Gwyn Griffiths: 'Paul Robeson' |
| 33. | Mehefin 20 | T. Vaughan Lewis: 'Mary Slessor' |
| 34. | Mehefin 27 | D. Wyre Lewis: 'Gwili' |
| 35. | Gorffennaf 4 | W. Lliedi Williams: 'Toyohiko Kagawa' |
| 36. | Gorffennaf 11 | Augusta Davies: 'Helen Keller' |
| 37. | Gorffennaf18 | Kate Bosse-Griffiths: 'Lenin' |
| 38. | Gorffennaf 25 | Isaac Thomas: 'Nicholas Berdyaev' |
| 39. | Rhagfyr 14 | R.S. Rogers: 'Iesu, Proffwyd Pob Canrif' |

Daeth y gyfres i ben, i bob pwrpas, gydag ysgrif Isaac Thomas ar Berdyaev (un o hoff feddylwyr Waldo Williams), a hynny oherwydd marwolaeth sydyn fy nhad, y Parch. Robert Griffiths, ar ddiwedd oedfa ar Nos Sul, 20fed o Orffennaf, 1941. Cafwyd gwerthfawrogiad o'i fywyd yn *Seren Cymru* ar Awst 1af. Syniad hapus oedd cyfraniad y Golygydd, y Parchg. R.S. Rogers, ar Ragfyr 14 – 'Iesu, Proffwyd Pob Canrif'.

Awgrymais i Wasg Gee (Kate Roberts a Morris Williams y pryd hwnnw) y byddai'n beth da cyhoeddi'r gyfres fel llyfr, ond gwrthodwyd yr awgrym. Pe buasai Emlyn Evans yn berchen y wasg honno ar y pryd, buasai ef, o bosibl, wedi derbyn yr awgrym, oherwydd yn ddiweddarach cyhoeddodd ef gyfres o lyfrau, *Y Meddwl Modern,* gyda Dafydd Glyn Jones a W. Gareth Jones yn olygyddion. Athronwyr yn bennaf oedd testunau'r gyfres werthfawr hon. Yn naturiol roedd modd manylu mwy, er bod y llyfrau yn rhai byrion; mantais oedd medru cynnwys llyfryddiaeth fer. Yn sicr ceir budd o ddefnyddio'r dull bywgraffyddol wrth astudio hanes syniadau. Ymgais atyniadol a wnaeth Cyril Williams yn ei lyfr *Clywsoch yr Enw: Arweiniad at ddeuddeg dysgawdwr* (Abercynon, 1966). Dysgawdwyr crefyddol sydd ganddo gan mwyaf, ond yn eu plith y mae Freud a Jung. Deniadol hefyd yw'r amryw o luniau a rydd.

Wrth edrych yn ôl ar 'Broffwydi'r Ganrif Hon', teimlaf erbyn hyn fod y cyflwynwyr, ar ryw ystyr, yn bwysicach na'r proffwydi. Yn bwysicach, hynny yw, i mi. Roeddwn yn eu hadnabod bob un, a daw gwefr o bleser ysbrydol i mi wrth gofio eu doniau a'u cynhesrwydd fel personau. Yn yr ysgrifau ceir llawer o ffeithiau buddiol, a neilltuol o ddiddorol yw sylwi ar yr egwyddorion a'r gweithredoedd a apeliodd fwyaf at y llenorion a'u portreadodd. Fel arfer hwy oedd wedi eu dewis. Yn achos Kate mae ei dewis yn ddadlennol – Ernst Toller, Madame Curie, Henri Bergson, a Lenin. Mae'r ysgrif ar Marie Curie yn dangos bod pwysigrwydd meddygaeth yn ei theulu (gyda thad a chwaer a brawd yn feddygon) yn gwneud y dewis yn naturiol. Roedd pwyslais Bergson ar egni creadigol yn apelio ati ac yn wir yn amlwg ynddi hi ei hun, ond nid wedi ei ddidoli oddi wrth reswm a deall. Mae'r ysgrifau ar Ernst Toller a Lenin yn adlewyrchu ei ffydd gynnar mewn delfrydau Comiwnyddol, a'r un pryd yn dangos yr afael a gafodd heddychiaeth arni. Eilun arbennig oedd Rosa

Luxemburg, y ferch ddisglair a laddwyd ym 1919 wedi ymgyrch o blaid chwyldro ac yn erbyn rhyfel.

Roedd y dylanwadau personol yn cynnwys Nicholas von Mossolow a'i chwaer Doli. Byddai Doli (chwaer Kate) yn edmygu Gandhi yn fawr, y gŵr a garcharwyd gan Loegr ym 1942 (a llawer tro arall) oherwydd ei wrthodiad i gydweithio â Lloegr yn yr Ail Ryfel Byd. Yn ddiweddarach roedd Doli yn gweld y perygl mawr i'r ddynoliaeth a ddeilliai o arfau niwclear; cefnogai fudiad *Greenpeace* yn frwd. Mae ysgrif Kate ar Lenin yn gwneud honiadau eang o'i blaid, ac eto'n wynebu problem y dulliau treisgar: 'Yn fynych yr oedd y llywodraeth newydd yn un waedlyd.' Cyfeiria at amddiffyniad Lenin: lladdwyd llawer mwy yn y rhyfeloedd cyfalafol ac imperialaidd. Wrth drafod gweithiau Toller mae Kate yn dadansoddi yr heddychiaeth a barodd iddo gefnu ar y syniad o chwyldro gwaedlyd. Cafodd hi ei hun gymorth parod yng Nghymru i ddyfnhau ei chred heddychol; gyda Pennar Davies, Rhydwen Williams, Gareth Alban Davies, D.R. Griffith; Edna a Gwilym Griffith, ac eraill o'r Cylch, roedd her y rhyfel yn galw am ymateb clir.

Dylwn nodi bod y croeso brwd a roddodd i genedlaetholdeb Cymru wedi peri peth syndod i'w chyfeillion yn yr Almaen. Onid cenedlaetholdeb yr Almaen a barodd ei gofidiau mwyaf? Mae Dr Marion Löffler, sy'n deillio hefyd o ddwyrain yr Almaen, wedi galw sylw at y broblem hon: gweler ei hysgrif yn *Barn* (Mai 1998, 36–38) a'i darlith yn Bonn (29 Mai 1999), lle mae'n arfer y term 'perverted nationalism' am fudiad yr Almaen, yn hollol gywir. Imperialaeth reibus mewn gwirionedd a gaed yno, wedi ei seilio ar ddulliau amrwd o dreisgar. Nid anodd oedd synhwyro'r gwahaniaeth mawr yng Nghymru. *O quae mutatio rerum!* Mudiad yn cofleidio dulliau di-drais, ac eto yn heriol yn ei weithredoedd, fel yn y weithred yn Llŷn ym 1936 pan ddangosodd Saunders Lewis, D.J. Williams, a Lewis Valentine eu

parodrwydd i ddioddef ac aberthu heb beri dioddefaint i eraill. Wedi hynny bu Gwynfor Evans, fel arweinydd y mudiad, yn arddel gweithredoedd tebyg, gan gynnwys parodrwydd i wynebu angau. Heddychiaeth heriol – dyna'r nod achubol. Yn y mater hwn roedd amryw eraill, wrth reswm, yn haeddu clod mawr. Ymhen amser bu ein cyfaill agos, Waldo Williams, yn batrwm.

**J. Gwyn Griffiths**

# Ernst Toller: bardd a gwleidydd
**(1893–1939)**

Ychydig cyn yr Ail Ryfel Byd bu ffilm boblogaidd yn ymddangos yn yr Unol Daleithiau ac ym Mhrydain o dan yr enw *Pastor Hall.* Seiliwyd y ffilm hon ar ddrama gan yr Almaenwr Iddewig Ernst Toller, a gymerodd ei fywyd ei hun yng ngwanwyn 1939 yn Efrog Newydd. Dywedai yr hysbysiadau am y ffilm hon fod y prif gymeriad, Pastor Hall, wedi ei seilio ar batrwm Pastor Niemöller, yn erbyn yr erlid ar yr Eglwys yn yr Almaen, ac yn erbyn y driniaeth greulon a di-reol a gâi carcharorion yng ngwersylloedd y llywodraeth. Gellir deall y byddai llawer, ar ôl gweld y ffilm hon, yn tybio mai prif arwyddocâd yr awdur Toller oedd ei frwydr yn erbyn Hitler a Natsïaeth. Cyfiawnheir hyn i raddau gan y geiriau a osododd Toller yn ei ragair i gyhoeddiad Saesneg o ddramâu ganddo – *Seven Plays* (Llundain, 1935):

> The increasing persecution of the products of the mind indicates that the dictators of this world have realized the power of the word and the moral nature of art – and are afraid of it.

### Carchar ac erlid

Ond dechreuodd ymdrech Toller am ddynoliaeth newydd lawer yn gynt. Os mewn carchar y sgrifennodd ei weithiau gorau, eto carchar y Kaiser ydoedd (1918), ac wedi hynny carchar Gweriniaeth Weimar (1919–24); ac yn 1932 ffodd i'r Almaen cyn i Hitler gael amser i wahardd ei lyfrau a'u llosgi'n gyhoeddus, fel y llosgodd y Pab unwaith lyfrau Luther.

Eithr pwy yw'r gŵr erlidiedig hwn, Ernst Toller, a beth yw ei athrawiaeth sydd mor beryglus fel na chaniateir gwrando arni na

darllen amdani? Yn hanes llenyddiaeth yr Almaen adwaenir ef fel sefydlydd y Ddrama Fynegiadol ('Expressionismus'). Troswyd ei weithiau i lawer iaith; cynhyrchwyd ei ddramâu gan y cynhyrchydd enwog, Reinhard, yn Berlin. Cafodd lawer o efelychwyr, ac yr oedd ei ddylanwad ar y ddrama yn y cyfnod wedi'r rhyfel yn fawr.

Sosialydd ydoedd, a chymerodd ran amlwg yn yr ymdrech i wneud Bafaria, yn ystod Chwyldro Almaenaidd 1918, yn Weriniaeth Sofietaidd. Am hyn cosbwyd ef â phum mlynedd o garchar. Sgrifennwyd ei ddrama *Masse–Mensch (Y Dyrfa a Dyn*: 'Rhan o Chwyldro Cymdeithasol yr Ugeinfed Ganrif') yn y caethiwed hwn. Gwelir un o'i brif syniadau yn y Cyflwyniad:

> Chwyldro Byd:
> Mam y grym a'r sigl newydd
> Mam y cylchoedd gwerinol newydd!
> Coch yw fflamau'r ganrif yng ngwaed y gosb gyfiawn.
> Mae'r ddaear yn croeshoelio'i hun.

Bu'n filwr. Ymladdodd fel gwirfoddolwr yn Rhyfel 1914–18, a hynny'n groes i gyngor ei feddygon. Addysg yn ôl patrwm Prwsia a gawsai, ac ni thybiai yn amgen na'i bod yn ddyletswydd gysegredig iddo ymladd dros ei wlad.

**Ei dröedigaeth**

Ond bu dychrynfeydd y rhyfel yn gyfrwng i'w droi i fod yn heddychwr brwd. Yn un o'i ddramâu y mae'n disgrifio'r milwyr yn y ffosydd yn clywed un noswaith lefain milwr clwyfedig a oedd wedi ei ddal gan y wifren bigog. Fe'i clywent am oriau yn llefain. Ni wyddent ai Almaenwr ai Ffrancwr ydoedd. O'r diwedd ymlusgodd un milwr o'r ffosydd i'w ryddhau. Saethwyd ef. Ceisiodd un arall wneud yr un peth. Ni ddaeth ef chwaith yn ôl. Yna rhoesant y gorau i'r ymdrech. Parhaodd y llefain truenus am ddau ddydd a dwy noswaith. O'r diwedd tawelodd. Ac o'r foment

hon y mae Ernst Toller yn ymdeimlo â'r frawdoliaeth fawr sy'n clymu'r holl ddynolryw, yn gyfeillion ac yn elynion. Iddo ef nid oes elyniaeth mwyach:

> Ac yn sydyn, fel golau mewn tywyllwch, torrodd y gwir ar fy meddwl: y ffaith seml am ddyn; y syniad o gymuned, o unoliaeth. Roedd yr holl ddynion marw hyn, yn Ffrancwyr ac Almaenwyr, yn frodyr i'w gilydd, ac roeddwn i yn frawd iddynt oll.

Yn ei ddrama *Gweddnewidiad* (*Wandlung*), disgrifir ei brofiadau mewn ffurf farddonol: Efrydydd, Milwr, Proffwyd y Bobl. Mewn araith i'r bobl sydd i raddau yn adleisio'r Bregeth ar y Mynydd, y mae'r prif gymeriad, Friedrich (ystyr yr enw yw 'cyfoethog mewn heddwch', yn crynhoi ei neges wrth orffen, fel hyn: mae'n eu cyfarch i gyd, ac mewn geiriau byr a chynnes darlunia eu cymeriadau a'u dioddefiadau unigol – y Plentyn, y Ferch, y Wraig, y Gŵr, y Dyn Ifanc, y Dyn Cyfoethog, y Wraig Unig, y Milwr. Y mae fel pe dywedai, 'Deuwch ataf fi, bawb ar y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch.'

> Ac felly y mae gyda phawb ohonoch,
> Delweddau cam o wir ddynoliaeth!
> Yn ymladd am anadl, yn ddi-hoen, yn chwerw,
> Yn unig am eich bod wedi claddu'r ysbryd yn fyw …
> Mae peiriannau enfawr yn taranu ddydd a nos,
> Mae miliwn o rofiau ar waith yn ddi-baid
> Yn pentyrru mwy fyth o laid ar fedd yr ysbryd,
> A'ch calonnau yn sych a chrin.

Y canlyniad, medd ef, yw mai casineb sy'n rheoli bywyd:

> Rydych yn hau casineb yng nghalonnau eich plant, gan na wyddoch ddim bellach am gariad. Rydych wedi cerfio ffigur Crist mewn pren a'i hoelio ar groes o bren, gan eich bod eich hunain yn gwrthod mynd ar lwybr croeshoeliad, yr unig ffordd i gyrraedd gwaredigaeth … O, pe baech ond yn ddynion a merched – dynion a merched dilyffethair – dynion a merched rhydd!

### Proffwydo'r dyfodol

Nid breuddwydiwr yn unig oedd Ernst Toller. Fel proffwyd

gwirioneddol gwyddai'n berffaith i ba gyfeiriad yr oedd y llif yn mynd ym mywyd ei bobl, a chyhoeddodd mewn ffordd ryfeddol yr hyn a fyddai'n digwydd, er na chredwyd ynddo fwy nag yn Cassandra. Yn ei *Lythyrau o Garchar* mae hynny'n gwbl glir. Mewn llythyr a sgrifennodd ar Fehefin 28, 1923, ddeng mlynedd cyn i Hitler afael yn awenau'r llywodraeth, proffwydodd ei ddyfod â manylder anghysurus:

> Mae grymoedd yr adwaith heddiw yn ymuno'n frwd â'r dosbarth canol isaf i alw am unbennaeth, ac wrth hynny golygant unben gyda grym absoliwt. Mae'r alwad hon yn mynegi teimlad ysbrydol sy'n peri dychryn, gan ei fod yn gafael ar y werin bobl hefyd. Maent yn aros yn dawel a digyffro am arwyddair – heb arwyddair ni ellir dyfeisio na gweithredu o gwbl. Mae'r alwad am unben yn ddymuniad am sbaddiad, am gaethwasaeth, neu, a rhoi'r gair sy'n boblogaidd heddiw, yr awydd i fod yn ddilynwyr.

Yn ei esboniad pellach mae'n egluro bod y dymuniad hwn i ufuddhau yn ganlyniad i'r rhyfel. Mae'n rhaid i filwyr ufuddhau; felly maent yn rhydd oddi wrth unrhyw gyfrifoldeb personol:

> Peth cysurus yw byw heb gyfrifoldeb, ie, hyd yn oed marw heb gyfrifoldeb. Mae gwir ddemocratiaeth yn dwyn anghysur … Dyma'r system sy'n caniatáu i'r unigolyn ddatblygu hyd yr eithaf.

Brwydr fawr Toller oedd o blaid democratiaeth wirioneddol. Ond yr oedd ganddo'r ddawn beryglus i weld y gwirionedd ac i'w gyhoeddi. Gwelodd drwy anwireddau'r rhai a ddywedai fod yn rhaid i filiynau farw dros eu gwlad yn lle byw dros eu gwlad a gweithio drosti. Ceir yr ateb i hyn yn y geiriau a osododd yng ngenau gwraig yn ei ddrama *Gweddnewidiad*:

> Dros ein gwlad? Ein gwlad ni? Dros ddyrnaid o ddynion cyfoethog sy'n gloddesta ac yn byw bywyd aflan ac yn gamblo â chynnyrch ein llafur.

Dro ar ôl tro ni flina gyhoeddi i'r byd yr argyhoeddiad hwn – i fyd na fyn ei ddeall na gwrando arno, byd a arllwysodd ei ffafrau arno am dymor byr, ac yna ei anghofio yn gyflym iawn.

### Y rhyfel dosbarth

Yn ei ddrama *Difodwyr y Peiriannau*, sy'n trafod hanes Luddites Lloegr, datgenir meddyliau tebyg gan Arglwydd Byron, a saif yn unig ymysg aelodau Tŷ'r Arglwyddi yn ei amddiffyniad o hawliau'r gweithwyr, a chael chwerthin am ei ben, fel y gellid disgwyl, am fod yn ddelfrydwr ac yn fardd:

> Mae'r cleddyf, fel bob amser, yn gynllwyn ffyliaid i guddio eu ffolineb … Ar gyfer rhyfeloedd roedd eich pwrs yn gyson yn agored iawn. Buasai'r ddegfed ran o'r arian a roesoch i Portwgal 'yng ngwasanaeth dynoliaeth' yn ddigon i leddfu'r holl bangau gartref a rhoi llonydd i'r crocbren.

Gydag amser daethai Toller i ddeall y gweithwyr a'r bobl gyffredin. Gŵr synhwyrus ydoedd wrth natur, un o'r bobl hynny a hoffai ymlynu wrth gylch bychan er mwyn ymdoddi'n llwyr i wasanaethu harddwch a chynghanedd, un o'r rheiny y dywed y bardd Awstriaidd Hoffmannsthal amdanynt eu bod yn cael eistedd fry gyda'r llyw ac adnabod ehediad yr adar a thiroedd y sêr, tra bod llawer yn gorfod marw obry, lle bydd y rhwyfau trymion yn taro'r llong. Yn y carchar, daeth y gŵr a ordeiniwyd i eistedd fry gyda'r llyw i adnabyddiaeth o eneidiau'r rheiny sydd yn marw obry gyda'r rhwyfau trymion, yn eu holl noethni, yn eu holl gyfoeth, yn eu holl eiddilwch.

O'r adnabyddiaeth hon daeth iddo siomedigaeth fawr. Pan ymdaflodd ef, fel myfyriwr dibrofiad, i fudiad chwyldroadol, gwnaeth ymgais, yn ei araith gyhoeddus gyntaf, i ddarbwyllo gweithwyr mewn ffatri i ymuno mewn streic gyffredinol a fwriadwyd i ddwyn diwedd buan i'r rhyfel; credodd y pryd hwnnw y byddai'r gweithwyr yn mynnu cymryd yr arweiniad eu hunain, cyn gynted ag y caent gyfle. Dengys fwy nag unwaith yn ei ddramâu nad oedd hyn yn wir amdanynt, ac iddo gael ei siomi'n fawr gan anaeddfedrwydd y bobl y gobeithiai eu rhyddhau. Yma eto daw ei ddiffuantrwydd a'i gariad at

wirionedd i'r amlwg, er ei fod yn gwanhau ei achos. Dywed Jimmy, arweinydd y gweithwyr yn *Nifodwyr y Peiriannau,* wrth ei gymrodyr:

> Credais mai dynion rhydd oeddech, ond caethion ydych. Caethion i gyd! Y weithred a wnaethoch heddiw, gweithred yw gan gaethion sy'n gwrthryfela. Beth a fynnwch ei gael? Grym eich meistri? Dyna agwedd caethion!

Ac os mynegir ganddo y gobaith y bydd y 'caethion' hyn yn abl i'w rhyddhau eu hunain ryw ddiwrnod o'r iau mewnol sy'n pwyso arnynt, y mae ei ffordd galon-agored o gydnabod eu methiant yn profi ei fod yn wir yn broffwyd yn ystyr yr Hen Destament: ymesyd ar eu diffygion yn ddidrugaredd, a dengys ffordd y glanhad a'r rhyddhau. Felly y dywed yn un o'i lythyrau:

> Gallaf adnabod hunan-dwyll peryglus yr awduron hynny sy'n credu bod modd iddynt addysgu'r proletariad drwy ebychu, 'O broletariad santaidd, O werin ddwyfol, rwyt yn blentyn cyfiawnder a bywyd a phurdeb!', a thrwy hynny ymgreinio'n addolgar mewn dull Byzantinaidd o flaen y proletariad.

Ond nid y werin yn gymaint â deallusion y mudiad chwyldroadol a barodd anawsterau iddo, a hynny oherwydd ei heddychiaeth ddigyfaddawd. Tuedd y Comiwnyddion uniongred oedd dirmygu ei heddychiaeth fel gwendid y dyn bwrdais, parchus. Y gwir yw, wrth gwrs, nad oedd ganddo ronyn o gred yn rhaglen y chwyldro gwaedlyd. Ymunodd â Grwp yr Heddychwyr Chwyldroadol o gwmpas Tucholsky ac Ossietsky. Eto roedd yn edmygydd bywiog o'r Undeb Sofietaidd a bu'n teithio yno ym 1926 a 1934. Daw peth anghysondeb i'r golwg yma, gan nad yw'n condemnio'r agweddau totalitaraidd a oedd yn amlwg yn y system Sofietaidd.

### Ei safle fel llenor

Ni ellid disgwyl i Toller ennill llawer o barch ymysg beirniaid llenyddol cyfnod Hitler. Yn wir, ymhen amser, gwaharddwyd ei

weithiau gan y Natsïaid. Dywed rhai nad oes digon o rym argyhoeddiad yn ei ddramâu, yn enwedig yn y rhannau lle ymddengys y dyrfa werinol. Yn ei ddramâu cynnar dilynodd y dulliau Mynegiadol sy'n amrywio'r golygfeydd – rhai yn broffwydol farddonol ac eraill yn hollol realaidd; yr ail gyfrwng sy'n amlwg yn y dramâu diweddarach, fel *Pastor Hall*. Mae apêl yr ail ddosbarth yn fwy uniongyrchol, wrth reswm. Mae un peth yn amlwg: sgrifennodd Toller yn gyson am ei fod yn teimlo'n angerddol fod ganddo genadwri. Llenwir pob gair o'i lythyrau, ei farddoniaeth, a'i ddramâu gan yr un ysbryd tanbaid. Yr oedd ganddo ddychymyg. Gallai ddeall yn rhyfeddol ddwfn-deimladau ei gyd-ddynion a hyd yn oed eneidiau dau aderyn a nythodd yng nghell ei garchar – gweler *Llyfr y Gwenoliaid (Schwalbenbuch),* casgliad o gerddi a gyhoeddwyd ym 1924. Dylwn nodi hefyd iddo gyhoeddi hunanfywgraffiad byr ym 1933, *Ieuenctid yn yr Almaen (Eine Jugend in Deutschland)*. Clymid ef gan ryw gyd-waedoliaeth â phopeth byw, a siomid ef yn fawr wrth weld bod llawer yn bodoli yn unig er eu mwyn eu hunain. Ei ddymuniad yw concro diogi ein calonnau. Mewn cynhadledd o awduron yn Dubrovnik dywedodd am ddyletswydd y llenor:

> I'r ysbryd y mae dyletswydd gyntaf y llenor. Pob un sy'n credu bod bywyd o dan reolaeth deddf foesol yn hytrach na grym treisiol, nid oes hawl ganddo i fod yn dawel … Mae argyhoeddiad ym mhawb ohonom y dylai'r ddynoliaeth fod yn rhydd o anghyfiawnder cymdeithasol a gormes.

Mynega ei ffydd mewn dynoliaeth yn y llinellau cryfion:

> *Am ddaioni y bydd dynion*
> *Yn ymbalfalu;*
> *Mae hyd yn oed eu hactau drwg*
> *Yn gwisgo mwgwd daioni.*

*Seren Cymru*, Hydref 1940

# Madame Curie

Yn y flwyddyn 1921, bu cyffro mawr yn y Wasg Americanaidd, ac yn wir yn America ei hun drwyddi draw. Disgwylid ymwelydd o Ewrop, darganfyddwr *Radium*, gwraig a enillasai Wobr Nobel ddwywaith. Gwyddid mai 'Radium' oedd yr unig gyfrwng at wella'r cancr. Fe ddaeth hi: hen greadures glaf a wahoddwyd i dderbyn oddi wrth Arlywydd America un gram o 'Radium', rhodd a oedd yn werth tua chan mil o ddoleri. Casglasid y swm hwn gan werin y wlad gyda brwdfrydedd ieuanc o dan arweiniad newyddiadures o'r enw Mrs William Brown-Meloney, gan fod Madame Curie wedi aberthu holl arian ei Gwobr mewn buddsoddion rhyfel i helpu Ffrainc (ac yn Ffrainc collasai'r buddsoddion hyn eu gwerth). Yr oedd Monsieur Curie, a fu farw yn 1905, hefyd wedi datgan nad teilwng o wyddonydd cydwybodol oedd gwneud monopol o'u darganfyddiad, hyd yn oed pe bwriadent ennill miliynau trwy'r monopol hwnnw ar gyfer adeiladu ysbytai a gweithdai meddygol.

Ei hateb hithau i'r broblem hon ar ôl ei theithiau yn America oedd hyn:

> Y mae ar ddynoliaeth angen pobl ymarferol sy'n tynnu o'u gwaith yr elw mwyaf ac yn cadw ym mhob cyfeiriad eu diddordeb unigol, os na thramgwyddant y diddordeb cyffredinol trwy wneud hynny. Ond y mae ar ddynoliaeth hefyd angen breuddwydwyr sy'n ymgolli mor drylwyr yn eu gweledigaeth a'u gwaith fel nad yw'n bosibl iddynt feddwl am eu helw personol. Yn ddi-os, nid yw y breuddwydwyr hyn yn ennill cyfoeth, yn un peth am nas mynnant. Er hynny, dylai cymdeithas drefnus roddi digon o fodd i'r gweithwyr di-hunan hyn i'w galluogi i fyw heb bryderon ariannol, yn llwyr ymroddedig i'w gwaith ymchwil, fel y gallont orffen eu gwaith.

## Rhai gofyniadau

Pwy sy'n gwneud Hanes? Yr arianwyr mawr neu'r gwleidyddion, y gwyddonwyr neu'r bobl y gweithiant drostynt? A ydym ar ddiwedd gwareiddiad neu'n unig ar ei ddechrau? Tebyg yw'r gofyniadau hyn i'r gofyniad dyrys, Pa un a ddaeth gyntaf, y fesen neu'r dderwen?

Fel optimydd, temtir fi i honni ein bod ar ddechrau gwareiddiad, gan fod hanner dynoliaeth, sef y gwragedd, yn byw o hyd mewn caethwasiaeth ysbrydol. Ceisiasant eu rhyddhau eu hunain mewn ffordd blentynnaidd: awyddant wneud popeth yr un ffunud â dynion, er enghraifft, hyd yn oed ymladd mewn rhyfel fel dynion (megis y paratoir yn Rwsia). Fel optimydd mawr, hoffwn honni: doe darganfuasom y peiriant, ac nid yw'r peiriant dda i ddim yn awr ond i ddarostwng dynoliaeth i gaethwasiaeth ysbrydol, o dan unbennau a miliynyddion; eithr o'i iawn ddefnyddio, gall ryddhau gwragedd y byd o'r israddolder ysbrydol a wthiwyd arnynt gan feichiau gormodol gwaith cartref. Byddai'r ferch, sydd â dyddiau ei hanterth gymaint yn fyrrach na dyddiau anterth dyn, yn cael amser i feddwl drosti ei hun, i'w darganfod ei hun. Daw posibiliadau bywyd merch yn glir iawn i'm meddwl wrth sylwi ar y cyferbyniad mawr rhwng safle'r ferch yn yr Almaen a'i safle yng Nghymru: yn yr Almaen, gormes y gŵr sy'n mynnu cadw gwraig ddi-addysg fel math o eiddo personol (i fynegi'r peth yn fras ac mewn egwyddor); yng Nghymru, sofraniaeth y wraig, y teulu, rhyddid llafar cydradd yn yr eglwysi ymneilltuol i wŷr a gwragedd; ac fel y dengys haneswyr, gorwedd y cyferbyniad hwn ar sail traddodiadau hen.

## Merch o wlad Pwyl

I ferched Cymru hoffwn gynnig yr amlinelliad hwn o fywyd Manya Sklodowska, merch y werin Bwylaidd orthrymedig, fel

esiampl o'r hyn sy'n bosibl i un â chanddi ddelfrydau uchel. Y mae'n wir, ni allwn oll wneud darganfyddiadau gwyddonol pwysig. Ond gallwn ymdrechu i ddarganfod y ddawn a roddwyd inni. Os mynnwn hunanfynegiant, os glynwn at y ddawn hon er gwaethaf y byd ac er cryfed ein cariad at ŵr, plant, a rhieni, yna caiff bywyd ystyr newydd inni, bydd yn bosibl inni'r gwragedd lunio'r byd, fel plentyn yn y groth.

Ysgrifennwyd hanes bywyd *Madame Curie*, drama un a fu'n llwyddiannus ryfeddol, gan ei merch ieuengaf, Eve Curie, mewn llyfr a gyfieithwyd, ymhlith ieithoedd eraill, i'r Saesneg a'r Almaeneg. Gyferbyn â thudalen 416 o'r llyfr hwn y mae pum wyneb-bortread o Madame Curie, o bum adeg yn ei bywyd: dengys y llun cyntaf hi yn fyfyriwr seithmlwydd ar hugain ym Mharis yn 1894. Yr oedd newydd ennill yr ail ddosbarth yng ngradd 'Magister' mewn Mathemateg, ar ôl cael y dosbarth cyntaf mewn Ffiseg yn 1893. Merch ifanc lwyddiannus o fyfyriwr ydyw ar adeg pan na bydd llawer o ferched yn myfyrio; wyneb irfwyn a llygaid mawrion wedi eu cysgodi gan aeliau tywyll, gwallt cyrliog yn cuddio'r talcen uchel: wyneb hudol a deallus. Efallai y tueddir chwi i genfigennu at ei llwyddiant, am ei bod yn gallu dilyn ei hawyddfryd a chael myfyrio ym Mharis yn y Sorbonne. Efallai yn wir y dylwn genfigennu wrthi am fod gallu uwchnaturiol y gallwn ei alw yn Dduw wedi rhoddi nerth iddi i ymryddhau o'i hamgylchedd cyntaf. Rhyw bum mlynedd cyn hynny, ni buasai neb wedi credu'n ddifrifol y byddai Manya Sklodowska yn cael dyfodol a'i gwnâi'n enwog. Wedi'r cyfan, pwy oedd hi? Athrawes fach gyffredin a ddysgai ferched tirfeddianwyr cyfoethog, ac a oedd yn awyddus i ennill digon o arian i gynorthwyo ei chwaer hynaf i barhau gyda'i hefrydiau meddygol ym Mharis. Merch ydoedd i athro yn Warsaw, a pherthynai i genedl o gaethion. Ceisiai llywodraeth Rwsia gadw pob mudiad cenedlaethol i lawr. Nid oedd caniatâd swyddogol i ddysgu yn yr

ysgolion namyn iaith Rwsia a hanes y Tsariaid. Rhoes Manya ei hunan, gydag un o'i disgyblion hynaf, mewn perygl o gael eu caethgludo i Siberia, pan geisiasant drefnu gwersi mewn darllen a sgrifennu Pwyleg i blant gweithwyr a gwladwyr. Y pryd hwnnw yr oedd yn rhy dlawd i allu priodi mab tirfeddiannwr Pwylaidd.

## Gŵr a gwraig

Gwelir hi ddeng mlynedd yn hŷn yn yr ail lun, yn 1904. Dyna newid dychrynllyd a ddarfu! Wyneb bychan a llygaid hiraethus, llywethau byrion o gylch y talcen agored; ffurfir gwên swil gan gornelau ei gwefusau. Ai hon yw'r ferch sy newydd dderbyn Gwobr Nobel, gyda'i gŵr, am ddarganfod *Polonium* a *Radium*, elfennau newyddion a fedd briodoleddau rhyfeddol? Yn nes ymlaen caiff yr elfennau hyn effaith chwyldroadol ar wybodau gwyddonol. Ai hon yw gwraig Pierre Curie? Ie, cymerodd ei bywyd dro fel chwedl ramantus. Yn Pierre Curie cafodd, yn 1895, gymar delfrydol: un y rhannodd ag ef ei bywyd meddyliol i'r fath raddau fel na ddichon neb ddweud heddiw pa un ohonynt a wnaeth fwyaf tuag at ddarganfod *Radium*. Yn eu holl draethodau gwyddonol, eu harfer oedd sôn am ei gilydd fel 'un ohonom', heb roi'r enw. Yn y gwyliau yr oedd Pierre yn gydymaith dedwydd ar eu teithiau beisicl drwy Ffrainc. Gyda hi ymladdodd yn erbyn arafwch a styfnigrwydd swyddoglyd yr awdurdodau Ffrengig, yn erbyn safbwynt llwgr y gwyddonwyr Ffrengig. Ef oedd tad ei thair merch, er y bu un ohonynt farw pan aned hi. Er hyn i gyd, wyneb gwraig anhapus ydyw hwn. Sut y digwyddodd hynny? Gall ymddangos yn rhyfedd iawn, ond y gwir yw mai llwyddiant a effeithiodd ar Madame Curie fel hyn. Cyn iddynt ennill Gwobr Nobel ac enwogrwydd byd-eang, yr oedd Monsieur a Madame Curie wedi gweithio o dan anfanteision, ac wedi gweithio'n galed iawn, ond nid aflonyddid arnynt gan neb pwy bynnag. Gallent ddilyn eu hymchwiliadau

mewn heddwch. Ond yn awr gwelir yn un o lythyrau Pierre Curie y dywediad hynod a ganlyn:

> Rwy'n hiraethu am wlad lle y gwaherddid darlithiau cyhoeddus gan y gyfraith a lle y dodir newyddiadurwyr dan glo.

Ceir Madame Curie yn sgrifennu:

> Byth a beunydd yr un rhuthr anhrefnus! Y mae pobl yn aflonyddu ar ein gwaith gymaint byth ag y medrant… Difethwyd ein bywyd yn llwyr gan anrhydeddau a gogoniant y byd.

Yn ystod y cyfnod hwn fe'i ceir hi yn mynegi'r meddylfryd hwn am flynyddoedd lawer. Yn unig ar ôl bod yn America y daw i feddwl yn wahanol:

> Y mae a fynno gwyddoniaeth â phethau ac nid dynion.

Rhagfyr 6, 1904, ganed ei merch ieuengaf a sgrifennodd hanes ei bywyd wedi hynny – Eve Curie. Dywedodd Manya am y digwyddiad:

> Pa fudd yw rhoddi i'r byd hwn greadur newydd? Y mae bywyd yn llawer rhy galed ac anodd i'w osod yn faich ar fod diniwed.

## Yng nghadair prifysgol

Tynnwyd y trydydd llun eto ddeng mlynedd yn ddiweddarach pan oedd Madame Curie yn chwech a deugain: wyneb clir, difrifol, tawel, penderfynol. Y fath dynged a orwedd y tu ôl iddo! Lladdwyd Pierre Curie gan ddamwain ar stryd yn 1906 a gadael ar ôl Maria (newidiasai Manya i Maria ar ôl priodi) a dau blentyn bychan a threftadaeth eu gwaith gwyddonol. Dylem gofio ddarfod i'r Frenhines Victoria fynnu ugain mlynedd, ar ôl marwolaeth gynnar ei hannwyl ŵr, i'w hailfeddiannu ei hunan wedi ei galar ac i gofio ei dyletswyddau tuag at ei phobl. Ym mlwyddyn marw ei gŵr, ymgymerodd Maria Curie â'r dasg anodd iawn o dderbyn cadair yn y Sorbonne fel y wraig gyntaf i fod yn athro yno, y gadair a lanwasai Pierre Curie am amser byr,

gan na allai neb arall barhau ei waith ef. Yn 1911 derbyniodd Wobr Nobel am yr ail waith. Llywiai addysg ei merched yn ôl ei hegwyddorion ei hun. Dangosir hi yn y llun hwn flwyddyn cyn y Rhyfel Mawr, yn 1913.

**Yn y rhyfel**

Tynnwyd y pedwerydd llun yn 1921. Y mae ei gwedd yn fwy llariaidd nag yn y llun blaenorol; ei llygaid yn fwy mewn-edrychol. Yn ystod y Rhyfel gwnaethai ddaioni difesur. Er gwaethaf pob gwrthwynebiad swyddogol, trefnodd lawer o orsafoedd X-ray mewn ysbytai yn agos i feysydd yr ymladd; dysgodd bobl sut i drin yr offer ac felly achubodd fywydau miloedd. Yr oedd newydd ddychwelyd o'i hymweliad cyntaf ag America, y soniais amdano ar y dechrau (wedi hynny bu yno'r ail waith i gael gram arall o *Radium* ar gyfer y Sefydliad Radium yn Warsaw). Dysgodd na ddylai gwyddonydd ymgilio oddi wrth y byd yn llwyr, a bod gwyddoniaeth yn ymwneud nid yn unig â phethau ond hefyd â bodau dynol.

Yn y llun olaf dangosir Madame Curie yn 1929, bum mlynedd cyn ei marw: wyneb gwynfydedig, dwfn-ysbrydol. Y mae'r gwaith ynglŷn â Radium wedi dinistrio ei hiechyd, wedi peryglu ei golwg hyd yn oed. Ni chaiff fyw i weled ei merch hynaf a'i mab-yng-nghyfraith yn derbyn Gwobr Nobel gyda'i gilydd. Er gwaethaf ei hoedran, y mae'n gweithio ymlaen yn ddiflino yn ei gweithdy meddygol, lle y mae'n cyfarwyddo disgyblion newydd mewn ffordd hollol anhunanol, a lle y sgrifenna ei gwaith ei hun.

Dywedwyd yn aml nad yw athrylith namyn gweithgarwch. Hoffwn osod y dywediad mewn golau ychydig yn wahanol. Gall person di-ddawn fod mor weithgar ag y mynno ond ni bydd byth yn athrylith. Mewn athrylith y mae gallu creadigol Duw yn weithgar. Teimla athrylith ynddo'i hun y nwyd anwrthwyneb-

adwy i greu, i greu ar unrhyw gost ac ar ba ddeunydd bynnag y byddo'n gweithio. Dywed Eve Curie yn ei llyfr fod mam Madame Curie wedi arfer gwneud ei hunan esgidiau i'w phlant; a bod Madame Curie bob amser wedi arfer cynllunio mewn patrwm a gwneud yn gyflawn holl wisgoedd ei merched. A wnaethant hyn er mwyn arbed arian? Ni chredaf felly, er y dichon iddynt hwy feddwl fel yma eu hunain. Nwyd mewnol creadigol a'u hysgogodd i'r gwaith, y nwyd sy mor amlwg mewn artistiaid a phlant. Maddeuer imi yma am fynegi meddwl hereticaidd: efallai bod yr un nwyd yn weithgar yn y gwragedd hynny sy'n ddiorffwys o brysur drwy'r dydd drwyddo, gwragedd, efallai, y mae meibion dawnus ganddynt. Onid oes maes amgenach ar gyfer y nwyd hwn? Gallwn ddychmygu y byddai'n gymorth mawr yn y gwaith o ddwyn heddwch i'r byd ac o ddwyn rhaniad mwy cyfiawn o feddiannau'r byd, fel y gallem fyw mewn byd hapusach ac unionach.

Ym mis Tachwedd, 1940, gwelais yn y *Western Mail* yr hysbysiad canlynol. Llefara drosto'i hun am y modd y mae rhyfel yn dylanwadu ar gynnydd cymdeithasol:

> *CANCER TREATMENT: NEW MOVE AT CARDIFF*
>
> *Renewed efforts will probably be made to set in motion a scheme for the radio-therapeutic treatment of cancer patients in South Wales, which after being considered for a couple of years has been allowed to drop because the scheme-making authorities were unable to agree on administration …*
>
> *Tentative agreement was reached just before the outbreak of war upon a scheme for the seven counties and four county boroughs of South Wales … Originally the scheme was to have cost about £60,000 but in view of the war there was a general desire to launch out on a less costly scheme, one for about £20,000, which would be sufficiently elastic to allow of expansion after war. The Cardiff Royal Infirmary was to have been the radium-centre for the South Wales scheme, and in the grounds of the institution it was proposed*

*to establish the headquarters.*

*There are no facilities for treatment by radio-therapy available in Wales on the desired scale. One of the first essentials to the treatment is a radio-therapy machine, and a machine of this character, costing between £3,000 and £4,000 has been promised by an un-named South Wales man. So far there is no body in a position to take advantage of the offer.*

Byddai'n felys gallu gobeithio na fydd effeithiau daionus gwaith Madame Curie a'i gŵr yn cael eu gadael i golli, hyd yn oed os anghofir eu henwau yn fuan.

*Seren Cymru,* Ionawr 1941

# Lenin

Gellir diffinio proffwyd fel dyn sy'n gafael mewn syniad ymhell cyn y bobl gyffredin ac sydd hefyd yn trefnu ei fywyd ei hun drwyddo fel y dygo'r syniad yn nes, i'w sylweddoliad ymarferol. Bydd y proffwyd cywir yn glynu wrth ei syniad hyd yn oed os bydd pawb yn ei erbyn. Bydd yn arwain ei bobl i fyny at yr hyn sydd, yn ei farn ef, yn dda. Os derbyniwn y diffiniad hwn, yna yr oedd Lenin yn broffwyd diamheuol.

Ganed Vladimir Ilyich Ulianov – canys dyna oedd ei wir enw cyn iddo fabwysiadu Lenin fel *nom de guerre* – yn Simbirsk yn Ebrill, 1870. Mab ydoedd i arolygydd ysgolion, ac ef oedd y trydydd o chwech o blant. Dichon i'w gymeriad gael ei ffurfio i raddau helaeth gan amgylchedd ei fywyd cynnar. Saif Simbirsk i'r gogledd o Samara, a heb fod ymhell o Fynyddoedd Ural. Hinsawdd yn llawn o eithafion a geir yno: 115 gradd o wres yn yr haf, ac i lawr i 45 gradd o rew yn y gaeaf. Cysylltir hanes y lle fwy nag unwaith â chwyldroadau. Gwrthryfelwr enwog yn ei hanes oedd y Cosac Stenka Rasina, a gyneuodd fflam gwrthryfel ymhlith y gwladwyr mor bell yn ôl â 1670. Lladdodd yr uchelwyr, fflangellodd gasglwyr trethi, ond o'r diwedd trechwyd ef gan filwyr y llywodraeth yn Simbirsk. Eithr ar ei ôl gadawodd draddodiad y byddai Tsar cyfiawn yn codi rywbryd yn y dyfodol, ac y byddai ef yn lladd y cyfoethog ac yn rhyddhau'r tlawd.

Ar wahân i hynny, yr oedd Rwsia yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn faes toreithiog i chwyldroadwyr, nihilistiaid, anarchwyr, neu wrth ba enw bynnag y mynnir eu hadnabod. Yn 1881, llofruddiwyd y Tsar Alecsander yr Ail yn Petrograd. Cafodd

canlyniadau'r llofruddiaeth hon ddylanwad anuniongyrchol o'r pwys mwyaf ym mywyd Lenin. Perthynai'r llofruddion i Blaid Rhyddid y Werin, ond rhoddwyd pen ar weithgarwch y Blaid hon yn awr. Gwelodd Plechanov, arweinydd Plaid Ddu yr Ailranwyr, a oedd mewn cydymdeimlad â Phlaid Rhyddid y Werin, fod yn well iddo ffoi i'r Swistir yn y cyfwng hwn. Yno daeth i gyffyrddiad â Sosialwyr Ewropeaidd ac â Marcsiaeth Ewropeaidd. O'r adeg hon peidiodd y Chwyldro Rwsiaidd â bod yn wrthryfel arwahanol Rwsiaidd yn erbyn llywodraeth ddrwg yr uchelwyr yn Rwsia. O'r Swistir trefnodd Plechanov gylchoedd o Ddemocratiaid Sosialaidd ar hyd a lled Rwsia. Trwy lofruddiaeth Alecsander yr Ail, dysgasai mai ofer yw lladd dihiryn o deyrn os nad oes gennych lywodraeth well i'w gosod yn ei le. Dysgasai fod newid ysbryd y werin yn hanfodol i chwyldro llwyddiannus. A gweithred gyntaf Lenin o blaid y Chwyldro oedd cynorthwyo cynnydd y Democratiaid Sosialaidd a arweinid gan Plechanov.

**Colli brawd**

Bu gan ddigwyddiad arall ddylanwad uniongyrchol ar feddwl ac ymagwedd Lenin. Cafodd Alecsander Ulianov, brawd hynaf Lenin, ei ddienyddio fel aelod o gymdeithas gyfrin a gynlluniai sut i ladd y Tsar Alecsander y Trydydd. Yr oedd colli brawd annwyl iddo yn loes o'r dwysaf i Lenin. O hyn ymlaen yr oedd y teulu i gyd yn agored i'w drwgdybio gan y plismyn, ac y mae'n werth nodi bod holl frodyr a chwiorydd Vladimir, ac eithrio un chwaer a fu farw'n ifanc, wedi cymryd rhan mewn trefniadau chwyldroadol.

Dau fis wedi dienyddiad ei frawd, gadawodd Lenin yr ysgol. Yn ei arholiadau terfynol enillodd y wobr gyntaf. Barn ei brifathro amdano oedd fel a ganlyn: “Bachgen o ddoniau anghyffredin. Gweithiai'n ofalus bob amser, a bu'n gyson iawn yn mynychu'r ysgol.”

Am beth amser wedyn bu'n efrydu'r gyfraith ym Mhrifysgol Kazan, ond ar ôl ychydig fisoedd diarddelwyd ef o'r Brifysgol am iddo gymryd rhan mewn rhyw gynnwrf a drefnwyd gan rai o'r myfyrwyr. Aeth i dŷ ei fam-gu yn y wlad, a'i baratoi ei hun yno ar gyfer yr arholiad. Darllenodd yn awr, ymhlith llyfrau eraill, *Kapital* Marx, a bu ganddo ran, fel y dywedwyd yn barod, mewn ymgais i ledaenu cylchoedd y Sosialwyr Democrataidd a drefnid gan Plechanov o'r Swistir.

Yn 1892, llwyddodd yn ei arholiad terfynol fel efrydydd allanol yn St. Petersburg, ac yn 1893 ymsefydlodd fel cyfreithiwr yn y ddinas honno. Trwy gydol yr amser hwn gweithiai mewn cymdeithasau cudd a oedd yn anelu at ryddhau'r werin o iau y Tsariaid a'r cyfoethogion. Cyfarfu yma â'r ferch a briododd wedi hynny – Nadeshda Konstantinova Krupskaya (sy'n adnabyddus yn gyffredin fel Krupskaya). Yr oedd hithau, cyn cwrdd â Lenin, â'i holl galon ar y Chwyldro.

Tua'r amser hwn ysgrifennodd Lenin ei lyfr cyntaf. Argraffwyd y llyfr yn anghyfreithlon, a diweddai gyda'r geiriau proffwydol sy'n dangos fel yr oedd bywyd Lenin hyd yn oed yr amser hwnnw, wedi ei ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar un nod, a dim ond un – nod hefyd a gyrhaeddodd, o leiaf parthed Rwsia ei hun:

> Fe gyfyd gweithwyr Rwsia ar flaen yr holl elfennau democrataidd, a dymchwel absoliwtiaeth [y gair Rwsiaidd yw *absoliwtizm*], ac arwain proletariat Rwsia (gyda phroletariat pob gwlad) ar hyd ffordd uniawn y frwydr wleidyddol agored i fuddugoliaeth y Chwyldro Comiwnyddol.

**Teithio**

Yn 1895 aeth Lenin o Rwsia am y tro cyntaf. Bu yn Awstria, y Swistir, Ffrainc, yr Almaen, a daeth yn naturiol i gyswllt â ffoaduriaid o Chwyldroadwyr. Y mae nodiad ar gadw o'r argraff

a wnaeth ar Azelrod, a fu wedi hynny'n elyn iddo:

> Teimlais y pryd hwnnw fy mod yn ymwneud ag arweinydd dyfodol y Chwyldro Rwsiaidd. Nid yn unig yr oedd yn Farcsydd diwylliedig—yr oedd y rhain yn ddigon cyffredin—ond gwyddai ef beth y mynnai ei wneud a sut y dylai ei wneud. Yr oedd arogl tir Rwsia o'i gwmpas.

O'i daith yn y gwledydd dygodd Lenin beiriant argraffu gydag ef yn gudd. Â hwn gobeithiai argraffu papur chwyldroadol: *Achos y Gweithwyr*. Ond cyn i'r papur allu ymddangos, cipiwyd Lenin gan yr awdurdodau, a chymerwyd ei beiriant ymaith. Am flwyddyn bu'n garcharor. Yna danfonwyd ef i alltudiaeth yn Siberia am dair blynedd. Eithr pan oedd mewn carchar, yr oedd caniatâd iddo sgrifennu, ac ymhlith pethau eraill gorffennodd yno Gyfansoddiad Plaid y Sosialwyr Democrataidd. Dechreuodd hefyd ar ei lyfr pwysicaf, a orffennwyd yn Siberia: *Datblygiad Cyfalafiaeth yn Rwsia.* Yn Siberia cyfieithodd hefyd o'r Saesneg i'r Rwsieg lyfr y Webbs ar ddamcaniaeth a gweithrediad Undebau Llafur. Yr oedd am ddangos i weithwyr Rwsia fod cymdeithasau'r gweithwyr yn cael eu herlid yn Lloegr hefyd, a'u bod yn y diwedd wedi ennill yr hawl i ymdrefnu'n fudiadau. Wedi dychwelyd o Siberia, ymadawodd â Rwsia eto. Dilynwyd ef gan Krupskaya flwyddyn wedi hynny. Busasai hithau yn Siberia hefyd, ac ymbriododd y ddau yno, ond gorfu i Krupskaya aros yn alltud am flwyddyn yn hwy nag ef.

Yn yr Almaen, yn Lloegr, ac yn y Swistir, cymerodd Lenin ran amlwg yn nhrefniad y Blaid Sosialaidd Ddemocrataidd. Golygodd bapurau newyddion, ysgrifennodd lyfrau ac erthyglau, ac efrydodd lawer yn yr Amgueddfa Brydeinig yn yr un llyfrgell lle yr ysgrifennodd Marx *Das Kapital.* Brwydrodd nid yn unig yn erbyn cyfalafiaeth, ond hefyd yn erbyn y Sosialwyr hynny na fynnai ddilyn ei lwybr ef. Yn 1903, bu rhwyg ym mhlaid y Sosialwyr Democrataidd yn Rwsia. Rhannwyd hwy'n Mensiefiaid

(y lleiafrif) a'r Bolsiefiaid (y mwyafrif). Arweinydd y Bolsiefiaid oedd Lenin.

Prysurwyd tynged y dosbarth llywodraethol gan y rhyfel rhwng Rwsia a Japan, a gorchfygiad y fyddin Rwsiaidd. Ar y 'Saboth Gwaedlyd' yn Ionor 1905, archodd y Tsar i'w filwyr saethu at y gwerinwyr newynog a ddaethai ato i ymbil arno i drefnu heddwch. Lladdwyd cannoedd. Aeth llawer i gredu bod yr amser i ddifodi llywodraeth y Tsar wedi dyfod. Dychwelodd Lenin i Rwsia am amser byr. Ond yn fuan wedyn ataliwyd y gwrthryfel, a gorfu i Lenin ffoi.

### Y rhyfel mawr

Daeth y Rhyfel Mawr. Yr oedd Lenin wedi ei ddisgwyl, ac yr oedd yn falch. Nid oedd yn gallu deall gwladgarwch o gwbl, a chyfrifai fod gwaith Sosialwyr Ffrengig a Seisnig ac Almaenaidd yn ymladd yn erbyn ei gilydd yn fradwriaeth yn erbyn Marcsiaeth. Pe nad ymladdent, byddent yn prysuro diwedd cyfalafiaeth, a gobeithiai Lenin y cyrhaeddid yr amcan hwnnw trwy gyfrwng y Rhyfel ar wahân i hynny. Ei farn ef oedd:

> Pam y dylai pobl sy'n cael digon o fwyd orfodi pobl newynog i ymladd yn erbyn ei gilydd? A allech enwi trosedd hacrach neu ffieiddiach?

Eithr daeth ei amser. Yn gynnar yn 1917 syrthiodd llywodraeth Rwsia. Gofynnodd y llywodraeth newydd i'r alltudion oll ddychwelyd i'w gwlad. Caniatawyd i Lenin gan lywodraeth yr Almaen basio drwy'r Almaen mewn trên gorchuddiedig. Yn Rwsia daeth ar unwaith i reng flaenaf y Chwyldroadwyr. Difodwyd Llywodraeth y Tsar gan Chwyldro Chwefror (1917), ond nid oedd y Chwyldro yn gwbl lwyddiannus, a gorfu i Lenin adael Rwsia unwaith eto. Y pryd hwnnw nid oedd sicrwydd pa un o'r pleidiau Sosialaidd a fyddai'n cael rheoli. Yr oedd posibilrwydd hyd yn oed y byddai'r uchelwyr yn adennill eu

gallu. Ond gwyddai Lenin beth oedd dymuniad gwerin Rwsia. Ef oedd yr unig arweinydd a addawai heddwch i'r werin. Yr oedd yr arweinwyr eraill i gyd am barhau i ymladd, dan argymhelliad y Cynghreiriaid.

Yn hydref 1917, dychwelodd Lenin i Rwsia. Safodd fel siaradwr o flaen y senedd newydd a gynrychiolai werin Rwsia. Y mae John Reed yn ei ddisgrifio yn y foment hon, moment fwyaf cyffrous ei fywyd, ond odid:

> *A short, stocky figure, with a big head, set down in his shoulders bold and bulging. Little eyes, a snubbish nose, wide generous mouth and heavy chin; clean-shaven now but already beginning to bristle with the well-known beard of his past and future; dressed in shabby clothes, the trousers much too long for him.*

**Tasg enfawr**

A dywed y dyn hwn, sydd o hyn ymlaen i ddal tynged miliynau yn ei ddwylo: "Awn rhagom yn awr i adeiladu'r drefn Sosialaidd." Tasg enfawr ydoedd. Mwy anodd oedd ymladd yn erbyn y cyn-chwyldroadwyr na fynnent gymryd cyfrifoldeb llywodraeth ar eu hysgwyddau nac ymladd yn erbyn y Fyddin Wen a gefnogid gan y Cynghreiriaid. Ie, mwy anodd hyn nag ymladd yn erbyn y Pwyliaid. Yn fynych yr oedd y llywodraeth newydd yn un waedlyd. Y mae Lenin yn ei amddiffyn ei hun trwy gymharu'r cannoedd o filoedd a aberthwyd er rhyddhau'r werin a'r miliynau a laddwyd er budd cyfalafiaeth yn y Rhyfel Mawr. Credai y gallai Comiwnyddiaeth lwyddo yn Rwsia yn unig ar yr amod y byddai'r gwledydd eraill yn Ewrop yn mabwysiadu Comiwnyddiaeth.

Yn 1920 ffurfiwyd cynlluniau ar gyfer Chwyldro byd-eang gan gynrychiolwyr 39 o wledydd mewn cyfarfod o'r Ail Internationale ym Moscow. O'r amser hwnnw cyfarwyddwyd Plaid Gomiwnyddol y byd o Moscow – anwiredd eironig o safbwynt Karl Marx, a edrychai ar y Rwsiaid gyda dirmyg.

Am bum mlynedd yn unig y gallodd Lenin reoli Rwsia. Bu farw yn 1924, yn ddim ond pedair ar ddeg a deugain. Ond gadawodd ar ei ôl Rwsia a weddnewidiwyd yn fawr. Hi yw'r unig wlad yn y byd a geisiodd weithredu trefn gymdeithasol gyfiawn. Beth bynnag ein barn am Gomiwnyddiaeth yn gyffredinol ac am Gomiwnyddiaeth Rwsia yn arbennig, dysgodd Lenin i'w gydwladwyr beidio â byw er eu mwyn eu hunain, eithr er mwyn eu brodyr a'u chwiorydd. Cyfyngedig, efallai, oedd ei wybodaeth a'i werthfawrogiad o bethau diwylliant a chelfyddyd. Ond dengys ei fywyd a'i waith fod ysbryd unplyg yn gryfach na byddinoedd cryfion.

*Seren Cymru,* 18 Gorffennaf 1941

# Henri Bergson

Yn nechrau'r flwyddyn hon [1941] y bu farw Henri Bergson, yr athronydd o Ffrancwr, yn ddwy a phedwar ugain mlwydd oed. Nid yn aml y cydnabyddir athronydd yn ystod ei oes. Ond, yr oedd Henri Bergson nid yn unig yn adnabyddus ymhlith arbenigwyr ei bwnc ei hun; yn fwy na hynny, yr oedd yn ŵr o ddylanwad mawr ar fudiadau meddyliol cyfoes. Nid y lleiaf o'r rhesymau am hyn oedd y ffaith iddo ysgrifennu ei weithiau athronyddol, a ddygodd rywbeth sylfaenol o newydd i'r maes, mewn iaith a oedd yn ddealladwy i bawb.

Cymharol ychydig yw'r ffeithiau sy'n haeddu sylw ynglŷn â'i fywyd personol. Ganed ef ym Mharis yn 1859, a'i addysgu yno hefyd! Mewn mathemateg a gwyddoniaeth y rhagorai yn yr ysgol, a'i fwriad cyntaf oedd efrydu mecaneg. Gobeithiai ddatblygu, ar y llinellau hyn, athroniaeth Herbert Spencer. Ond po fwyaf yr astudiai y fformiwlâu mecanyddol a cheisio canfod eu hoblygiadau athronyddol, cryfaf oll oedd ei argyhoeddiad na ellid eu cymhwyso at unrhyw ffurf ar fywyd heb eu trefn. Daeth y darganfyddiad hwn i fod yn elfen sylfaenol yn ei athroniaeth ei hun: un o'i hoff ddywediadau oedd nad cymwys mo'r deall i esbonio dim ar wahân i fater a chyrff materol sy'n fesuriadwy trwy gyfrwng mathemateg. Ond ni ellir datrys unrhyw broblem ynglŷn â bywyd trwy nerth y deall, yn ôl ei farn ef, eithr yn unig trwy yr hyn a eilw yn *sympathie*. Am na fodlonwyd ef gan astudiaeth o fecaneg, penderfynodd efrydu'r ieithoedd clasurol. Yn yr efrydiau hyn hefyd dangosodd gryn ddisgleirdeb. Wedi hyn bu'n athro am ddwy flynedd ar bymtheg mewn gwahanol

ysgolion a cholegau. Yn ystod y blynyddoedd hyn yn y taleithiau y tu allan i Baris, yr oedd ganddo ddigon o hamdden i barhau gydag efrydiau athronyddol. Yn 1889, cyhoeddodd ei draethawd ar gyfer doethuriaeth, o dan y teitl *Les immédiates Données de la Conscience* (Sylfeini Uniongyrchol y Gydwybod), un o'i brif weithiau. Dilynwyd y llyfr hwn gan *Matière et Mémoire* (Mater a Chof), a chan *L'Evolution Créatrice* (Datblygiad Creadigol), i enwi'r llyfrau pwysicaf. Yn 1900 gwnaed ef yn Athro yn y Collège de France ym Mharis. Yma enillodd ei ddarlithiau iddo enwogrwydd byd-eang. Cyn hir nid oedd ystafell fwyaf y Brifysgol yn ddigon mawr ar gyfer tyrfa o fyfyrwyr amlieithog.

**Dyn yn y canol**

Rhydd Bergson ddyn yn ganolbwynt ei ymchwil. Canfu nad oedd neb ymhlith athronwyr modern wedi ceisio ateb y cwestiynau sydd o'r pwys mwyaf ar gyfer dyn fel unigolyn. "Ni roddir y lle cyntaf," ebr ef, "ym myfyrdodau'r metaffisegwyr i'r hyn a rydd drafferth, poen, a chynnwrf teimlad i'r mwyafrif o ddynion; O ba le y daethom? Pwy ydym ni? I ba le yr awn?" Dywed fod athronwyr fel rheol mor eiddgar i berffeithio cyfryngau eu gwaith, fel na chyrhaeddant bwrpas uchel y cwestiynau hyn. Ymgais Bergson oedd ymdrin â'r cwestiynau hyn mewn ffordd arbennig iawn. "Un ffordd a welaf i wybod i ba le y gall dyn fyned: y ffordd honno yw cychwyn a cherdded rhagom." Swnia hyn yn galonogol. Ond gellir deall paham y mae gosodiadau fel hyn wedi peri edrych arno gan rai fel un a geisiodd gyfieithu seicoleg Americanaidd i dermau metaffiseg.

Boed hynny fel y bo, y mae gan Bergson ei ffordd wreiddiol ei hun o drin problemau metaffisegol. Nid yw'n defnyddio haniaethau rhesymegol na'r geiriau Groeg hynny a wnaeth astudio athroniaeth yn fath ar gelf esoterig. Y mae'n defnyddio cymariaethau a darluniau a bair ddeall trwy syth-weledied.

Cymer ei ddarluniau o fyd natur, o fyd mecaneg, ac o fywyd beunyddiol dyn: cyffelybir meddwl dyn i belen eira sydd â'i holl fater wedi dyfod yn rhan ohoni wrth symud o fan i fan, yn wahanol i'r garreg sydd yn aros yr un, pa mor bell bynnag yr ymdreigla. Defnyddia hefyd, i ddisgrifio gwaith y meddwl, gyffelybiaeth ffilm y sinema sydd yn troi ar ei echel ei hun i wneud rhôl, lle y clymir rhes o ddarluniau.

Y mae'r iaith yn gyforiog o ddamhegion a chyffelybiaethau newydd. Yn hyn o beth y mae'n debyg i arddull Crist ei Hun. Amcan Bergson, chwedl yntau, ydyw peri i ddyn '*ddeall fel un sydd yn caru*'. Dywedwyd amdano iddo ddyfod yn nes at yr ymgorfforiad delfrydol o feddwl mewn iaith nag unrhyw athronydd arall. Y mae'n werth sylwi iddo gael Gwobr Nobel am lenyddiaeth.

**Darwin a dyn**

Seilir ei athrawiaeth yn *L'Evolution Créatrice* ar ddamcaniaeth Darwin ynglŷn â datblygiad. I Bergson, dyn ydyw coron y greadigaeth. Yn y pwynt hwn cytuna â chred ddyfnaf pob crefydd. Ond dywed Bergson nad yw datblygiad y byd yn benderfynedig, ac nad yw'n dirwyn yn ôl cynllun arfaethedig. Dywed hefyd nad oes Fod Uchel yn ei reoli. Yn ôl Bergson, y mae gan ddyn holl gwrs ei ddatblygiad yn ei ddwylo ei hun. Gall unrhyw beth ddigwydd ar unrhyw foment. Nid oes dim wedi ei benderfynu. Dyletswydd dyn ydyw datblygu i fod yn greadur aruchelach. Yn ei apêl foesol at gydwybod yr unigolyn, y mae Bergson eto yn agos i athrawiaeth yr Eglwys Gristnogol.

> *Pour un être conscient, exister consiste à changer, changer à se murir, se murir à se créer indefinitement soi-même. Il en est de même de l'existence général.*
>
> (I fod sydd yn ymwybodol, ystyr bodoli ydyw ymnewid, ystyr ymnewid ydyw adeiladu hunan, ystyr adeiladu hunan ydyw creu

> o ddyn ei hunan yn ddiderfyn. Y mae'r un peth yn wir am fodolaeth yn gyffredinol).

Fel hyn y mynega'r gwahaniaeth rhwng mater ac ysbryd:

> Gwelaf yn holl ddatblygiad bywyd ar ein planed fod ymwybyddiaeth greadigol yn cyniwair trwy fater, fod ymdrech hefyd trwy feddylgarwch a dyfeisgarwch i ryddhau rhywbeth a erys yn gaeth yn yr anifail, rhywbeth a ryddheir yn derfynol yn unig mewn dyn.

Gwelir felly mai mewn dyn yn unig y sylwodd fod gallu creadigol yn cyrraedd uchafbwynt cymeradwy. *"La matière,"* ebr ef, *"est nécessité, la conscience est liberté."* (Rheidrwydd ydyw mater, rhyddid ydyw ymwybod).

**Dylanwad**

Cafodd 'Bergsoniaeth' ddylanwad dwfn ar fywyd ysbrydol Ffrainc yn y cyfnod cyn Rhyfel Mawr 1914. Gellid canfod Bergsoniaeth mewn athroniaeth, mewn celfyddyd, mewn llenyddiaeth. Datblygodd Bergsoniaeth hefyd yn y Mudiad Llafur ac yn y Mudiad Neo-Catholig. Prif gynrychiolydd Bergsoniaeth yn y Mudiad Llafur ydoedd Georges Sorel, gŵr a ddylanwadodd yntau ar syniadau Mussolini. Mabwysiadwyd gan y Neo-Catholigion y syniad bod gwirionedd yn dyfiant yn hytrach nag yn wrthrych statig; ac edrychent ar hanes fel datblygiad graddol a oedd yn cyfiawnhau ac yn gwireddu bwriadau Duw. Eithr ni wenodd y Fatican ar yr athrawiaeth hon, a cheisiwyd ei hatal mewn gosodiad a gyhoeddwyd *ex cathedra* yn 1907. Mewn athroniaeth y mae pragmatiaeth, ac y mae William James, yn arbennig, ar ochr Bergson. Mewn cylchoedd a arbenigodd mewn egwyddorion addysg, safodd dilynwyr Bergson dros y gred y dylai plant ddyfod o hyd i'w gwybodaeth trwy wneud arbrofion parhaus drostynt eu hunain. Yn ei lyfr ar arluniaeth fodern, a gyhoeddwyd yn 1936, dywed yr Athro Herbert Read fel a ganlyn:

> Yng ngweithiau Henri Bergson yn unig y cefais innau yn bersonol unrhyw ymdriniaeth o gelfyddyd sydd ar unwaith yn wyddonol yn ei seiliau ac yn athronyddol yn ei hamcan. Ond ysywaeth ni roddodd Bergson i ni estheteg.

Fel y gofidiai Read na ddarfu i Bergson roddi inni estheteg, felly y disgwyliodd eraill y byddai Bergson yn cyhoeddi rhywbeth sylfaenol ynglŷn ag athroniaeth crefydd. Ond ymddengys i Ryfel Mawr 1914 roi terfyn ar y cyfnod cynhyrchiol ym mywyd Bergson.

Efallai i'r dinistr disynnwyr ar uchel gampau diwylliant a gwareiddiad ei amddifadu o'r ffydd honno mewn dynoliaeth sydd yn llifo o'i holl weithiau fel ffrwd ddi-baid. Pan fu farw, ymddangosodd englyn arno, mewn papur Cymraeg wythnosol – prawf nad yw'r athronydd heb anrhydedd ymhlith gwerin Cymru beth bynnag.

*BERGSON*
*Athronydd mawr! Dy fawredd – a welir*
*Yn dy wylaidd symledd,*
*Sêl i dragwyddol sylwedd,*
*'Ynni byw' na roir mewn bedd.*

Mr J.M. Edwards, Llundain, a'i cant. Ceir yn Gymraeg hefyd draethawd gan y diweddar Ddr D. Miall Edwards ar athroniaeth Henri Bergson.

*Seren Cymru*, Mai 1941

# IV. HEDDYCHIAETH

## Rhagair gan y golygydd

Roedd cydymdeimlad â dioddefwyr yn ffawd rhyfel yn rhan amlwg ac ymarferol o fuchedd Kate. Pan oeddem yn byw yn y Bala, roedd nifer o garcharorion rhyfel o'r Almaen yn cael eu cadw mewn gwersyll yn Llandrillo ger y Bala. Bu Kate yn ddyfal ei hawydd yn ceisio eu cysuro a'u cynorthwyo â rhoddion o fwyd a deunydd llenyddol. Cyn eu hymadawiad derbyniodd lythyrau niferus yn mynegi diolchgarwch dwys am ei haelioni. Mae darllen rhai ohonynt yn rhoi tystiolaeth eglur i'w dylanwad; sonnir amdani fel math o angel gwarcheidiol. Un o'r carcharorion hyn oedd Elmar Bötcher, mab i weinidog Lutheraidd yng ngogledd yr Almaen a fu'n swyddog ym maes seicoleg wedi iddo ddychwelyd adref. Daliodd mewn cysylltiad am flynyddoedd lawer. Bu Euros Bowen, Rheithor Llangywair, hefyd yn cynorthwyo'n frwd yn y gwaith yng nghyswllt y gwersyll, fel y dengys yr ysgrif a gyhoeddwyd ganddo ym 1990.

Beth oedd ffynonellau ei chred heddychol? Yn eu mysg yr oedd Lao Tse, y proffwyd Eseia, Iesu o Nasareth, Tolstoi a Gandhi, a Martin Niemöller; ac yng Nghymru Gwynfor Evans a Pennar Davies (gyda'i briod Rosemarie). Wedi'r rhyfel cafodd nifer o'r Iddewon dioddefus ad-daliad sylweddol gan lywodraeth yr Almaen. Gwrthododd Kate wneud cais am ad-daliad o'r fath. Ni choleddodd yr un rhithyn o ysbryd dial. A phan drefnodd Dr Paul Bosse, ei thad, drwy ei ewyllys, ei bod yn derbyn rhan fawr o werth y clinig hardd a gododd yn Wittenberg, mynnodd Kate drosglwyddo'r cyfan, yn rhydd ac yn rhad, i Caritas, yr Urdd Gatholig sy'n dal i gynnal y clinig.

# Cymod a Chasineb

Gofynnwyd i mi a allwn ni, bobl ieuainc cyffredin, ar ôl y rhyfel hwn gyfeillachu eto â'r Almaen? Pa fodd y gallwn feddwl am ein gilydd fel cymdogion ar ôl difrod a phropaganda casineb y blynyddoedd rhyfel?

I ateb y cwestiwn cyntaf rhof ddyfyniad o Kant, *Zum Ewigen Frieden* (Tuag at Heddwch Tragwyddol). Dyma draethawd sy'n cynnwys llawer o bethau amserol ynglŷn â chysylltiadau gwledydd â'i gilydd. Fel hyn y dywed Kant mewn un man ynddo:

> Hyd yn oed yng nghanol rhyfel dylai fod mymryn o hyder ar ôl fod rhyw ddynoliaeth o hyd yn perthyn i'r gelyn, onid e ni bydd modd adfer heddwch, a bydd yr elyniaeth yn cynhyrchu ymdrech i ddifodi'r genedl arall yn llwyr.

Felly, os cynllunir heddwch o gwbl, ni bydd yn bosibl synied am bobl yr Almaen fel y gwnaeth yr A.S. hwnnw a gyffelybodd yr Almaenwyr i 70 miliwn o epaod na ellir mo'u dysgu. Ni ellir wrth gytundebau rhwng dynion ac epaod.

Cyn ateb yr ail gwestiwn rhaid imi rybuddio'r darllenydd: y mae wyth mlynedd er pan euthum o'r Almaen. Nid oedd yr Almaen yr adeg honno yn teimlo'n elyniaethus o gwbl tuag at Loegr. Ni allaf ond dyfalu pa anawsterau ar ffordd cymod a ddaeth oddi wrth y propaganda rhyfel a'r dioddef a'r dinistrio. Heblaw hynny, nid wyf erioed wedi cydbrofi gobeithion a chasinebau y bobl ieuainc Natsïaidd.

Y mae'n amlwg bod llwyddiant unrhyw ymdrechion i ail-sefydlu cyfeillgarwch yn dibynnu ar natur yr heddwch a wneir gan y gwleidyddion. Mae'n debyg bod y rhyfel wedi parhau yn

rhy hir i ganiatáu heddwch trwy gyflafareddiad neu gyd-drafodaeth. Byddai heddwch o'r math hwn yn foddion i gadw hunan-barch y gwledydd ac yn agor y ffordd ar unwaith i gyfeillgarwch. Ond yr hyn a ddisgwylir yw'r heddwch a broffwydodd yr Iarll Winterton pan ddywedodd: *"Germany is going to have the roughest kind of treatment and the most severe punishment any country has had in history."* Y canlyniad i hyn, fel y bydd yn eglur i unrhyw un a oedd yn blentyn yn yr Almaen ar ôl y rhyfel diwethaf, fydd gosod y gosb ar ysgwyddau'r genhedlaeth ieuanc. Bydd yn rhaid iddynt hwy ddioddef am dynged a chyflwr na fyddant yn gyfrifol amdanynt, a bydd yn demtasiwn iddynt feddwl nad oedd brwydr y byd yn erbyn yr Almaen yn deg. Ymgaledant mewn ysbryd o hunangyfiawnder yn erbyn athrawiaeth y gelyn. Posibilrwydd arall fyddai i'r Almaen droi at Gomiwnyddiaeth ac felly ymdaflu i'r frwydr yn erbyn y gwledydd cyfalafol. Byddai'n bosibl, drachefn, i ludded mawr lethu'r bobl fel y digwyddodd ar ôl rhyfeloedd Napoleon, a byddai'r meddwl adweithiol yn tagu syniadau blaengar. Posibilrwydd arall a hapusach – ond nid tebygol – fyddai i wledydd Ewrop ddilyn yr hen freuddwyd am gyfandir ffederalaidd yn caniatáu peth rhyddid gwleidyddol i bob gwlad y tu mewn i gyfundrefn unol. Pe digwyddai hynny, defnyddid nerth pobloedd Ewrop mewn cynlluniau cydweithredol a llesol, a byddai'n haws anghofio a maddau gweithredoedd y rhyfel.

Ar ôl darllen yr uchod, sylwaf fy mod yn siarad am gysylltiad rhwng Lloegr a'r Almaen, er y dylwn drin, hwyrach, y berthynas rhwng Cymru a'r Almaen. Ond nid oes yn yr Almaen fawr o wybodaeth am Gymru. Mae'r Almaen yn rhyfela yn erbyn Lloegr, ac wrth gwrs ceir llawer o bobl Cymru yn cytuno â syniadau Seisnig fel y ceir hwy yn y papurau dyddiol. Felly am Loegr a'r Almaen y parhaf i sôn.

Beth, ynteu, yw sylfaen y gobaith bod posibilrwydd i'r ddwy

wlad nesáu at ei gilydd mewn amser? Medrwn osod y cwestiwn mewn ffordd arall: a yw'r ddwy genedl sy'n rhyfela yn casáu ei gilydd mewn gwirionedd? Clywais ddywedyd yn yr Almaen ac yn Lloegr ac yng Nghymru: "Nid oes gan y bobl gyffredin ddiddordeb mewn rhyfela. Mewn rhyfel gallant golli popeth – arian, bywyd, teulu. Does dim iddynt i'w ennill. Gwneir rhyfel gan bobl sydd yn gyrru'r cenhedloedd yn erbyn ei gilydd er mwyn uchelgais a thrachwant."

Hyd yn oed ar adeg y cyrchoedd o'r awyr, yr oedd y rhai a ddioddefai yn aml yn fwy eang eu hysbryd na phropaganda'r papurau newydd, ac ni chaent bleser o glywed am ddinistrio tai'r gweithwyr yn yr Almaen fel mesur o ddial. "Maen nhw'n dioddef fel ninnau" – clywais amryw o wragedd gweithwyr yn dweud peth felly yng Nghwm Rhondda. Rhai dyddiau yn ôl darllenais mewn cylchgrawn gwrth-Almaenaidd erthygl gan swyddog milwrol yn canmol milwyr yr Almaen am eu dewrder ar faes y gad. Siaradai ef heb gasineb, fel pe bai'n rhoi adroddiad am ornest bêl-droed rhwng y gwledydd.

Bydd yn dda cofio hefyd nad oes i Loegr a'r Almaen ffiniau cyffredin. Felly ni cheir y rheswm arferol dros gasineb – rheswm sy'n chwarae rhan bwysig yn y berthynas rhwng yr Almaen a'i chymdogion agos; maent yn rhy agos i'w gilydd, ac fel pobl yn byw yn yr un tŷ yn cael gormod o gyfle i fod yn elynion.

Ond nid yw dinistr rhyfel yn yr Almaen wedi creu rheswm dros gasineb tragwyddol. Ni chredaf fod y dinistr ei hun yn ddigon o reswm dros agwedd felly. Mae gwledydd y cyfandir yn gynefin â rhyfeloedd yn eu tiroedd, peth na phrofodd Prydain am ganrifoedd. Mae adfeilion prydferth cestyll dyffryn Rhein yn arwyddion o hen frwydrau sydd bellach yn angof. Y pryd hwnnw ymladdai marchog yn erbyn marchog. O'r amser hwnnw y daeth y syniad yn gyffredin fod cyfiawnder ar ochr y gorchfygwr a bod buddugoliaeth yn ddedfryd oddi wrth Dduw. Ymddengys y

syniad hwn yn ddigon rhyfedd yn ymyl y gweiddi am allforion cynyddol, fel y gellir sylwi yn agwedd bresennol y Cynghreiriaid.


Cymerasom lawer o syniadau oddi wrth ein tadau heb eu hamau. Fel ein gorchwyl cyntaf dylem eu chwilio a'u profi. Dylem geisio rhoi'r gorau i linynnau mesur sydd wedi mynd yn hen, a chreu rhai newydd sydd yn addas i oes yr awyrennau bomio.

Dywedir yn yr Almaen fod y Saeson yn dweud "Duw" pan font yn golygu "cotwm". Wrth siarad am linynnau mesur newydd nid wyf yn awgrymu mai am gotwm yn unig y dylem siarad, a dim am Dduw, ond pan soniwn am gotwm dylem olygu cotwm, a phan grybwyllwn Dduw dylem olygu Duw. Y mae'r ffaith fod "troseddwyr rhyfel" yn yr Almaen i gael eu cosbi a bod "troseddwyr rhyfel" gwledydd eraill i gael eu canmol fel arwyr a cheidwaid rhyddid yn perthyn i'r un broblem.

Drwy chwilio ein syniadau cawn ddarganfod hefyd fod gwreiddiau diwylliant Ewrop yn un ym meddwl Groeg a Rhufain ac yn y traddodiad Cristnogol.

Gellir awgrymu ffyrdd ymarferol i hyrwyddo cyfathrach â'r Almaen. Y mae ysgoloriaethau newydd eu sefydlu yn Rhydychen er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr fyw am flwyddyn yng ngwledydd y cyfandir gyda'r brodorion fel y gallont astudio eu dulliau o fyw ac o feddwl. Beth am gyfathrach y prifysgolion yn gyffredinol? Dylai athrawon y colegau a chwmnïoedd drama a chorau a chlybiau athletig a chymdeithasau fynd drosodd yn gyson o'r naill wlad i'r llall. Fel hyn y tyfai cyd-ddeall. Gallai gweithwyr, athrawon o bob math, a phlant ysgol wneud cyfeillion yn hawdd drwy ymweliadau achlysurol, a byddai llythyrau yn cadw'r cyfeillgarwch yn gynnes. Bydd yn rhaid i'r camau cymodol cyntaf ddod trwy bersonau.

*Yr Efrydydd,* Gwanwyn 1945




*Clawr gwreiddiol y pamffled yr oedd Kate yn awdur –nid yn olygydd – iddo*

# Mudiadau Heddwch yn yr Almaen

Nid oes i'r gair *Pazifismus* yn yr Almaeneg yr un ystyr yn hollol ag y sydd i'r gair *pasiffistiaeth* yn Gymraeg neu *pacifism* yn Saesneg. Dywed Pastor F. Siegmund Schultze, cadeirydd bwrdd gweithredol Cymdeithas Gydwladol y Cymod, fel hyn amdano:

> Yn y gwahanol diroedd lle ffynna'r Almaeneg, cyfyngir y gair *pazifist* i adran arbennig o bobl sy'n pleidio heddwch ar sail seciwlaraidd.

Yng Nghymru a Lloegr y mae'r gwrthwynebiad i ryfel, fel y gellir gweled yn eglur oddi wrth Dribiwnlysoedd y Gwrthwynebwyr Cydwybodol, yn seiliedig, gan mwyaf, ar dir crefyddol. Yn yr Almaen, rheswm, ac nid crefydd, oedd prif sail y gwrthwynebwyr. Aeth A.H. Fried, sylfaenydd y Gymdeithas Heddwch Almaenaidd (*Der Deutsche Friedensbund*), mor bell â dweud:

> Nid yw pasiffistiaeth yn pregethu brawdgarwch ac arglwyddiaeth cariad. Y cyfan a bregetha ydyw synnnwyr cyffredin.

Bu'r Dr Helen Stöcker, un o'r cynrychiolwyr Almaenaidd ym Mudiad Cydwladol y Gwrthwynebwyr Cydwybodol, yn honni ar ôl y rhyfel diwethaf, ar ran ei chenhedlaeth hi, ei bod yn iawn iddynt wrthod ymladd am nad oeddynt yn credu mewn bywyd ar ôl marw, a'u bod gan hynny wedi dysgu gwerthfawrogi'r bywyd hwn yn fwy. Awgrymodd cynrychiolydd arall o'r Almaen mai llwyddiant gwyddoniaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a fu'n symbylu pasiffistiaeth yr Almaen, canys daethai pobl i gredu bod modd trefnu perthynas dynion yn rhesymol, trwy eu

hewyllys a'u gallu eu hunain, yn union fel y caed rheolaeth ar fyd natur.

Er hynny, ni theimlai amryw o'r heddychwyr blaenllaw – ac yr oedd llawer ohonynt yn athrawon coleg – fod eu safiad yn un hawdd. Gan na allent ddweud yn syml, "Yr ydym ni yn heddychwyr am ein bod yn dilyn dysgeidiaeth y Crist", ceisient ymchwilio ac yna argyhoeddi eraill paham yr oeddynt yn heddychwyr, ac i ba raddau. Ymchwiliasant i'r rhesymau hanesyddol ac economaidd, moesol a chyfreithiol. Gyda thrylwyredd gwir Almaenaidd aethant ati i adeiladu cynseiliau athronyddol i'r syniad o Gynghrair Cenhedloedd, a mynegi eu casgliadau hefyd mewn ffyrdd gwleidyddol – er y cydnabyddir iddynt fod bob amser yn gryfach mewn damcaniaeth na gweithred.

Ceid hefyd, wrth gwrs, Gymdeithasau Heddwch a oedd yn grefyddol. Trafodir hwy yn nes ymlaen. Ymddengys eu bod mewn lleiafrif. Yn gyffredinol nid oedd crefydd yn ysgogi'r frwydr dros heddwch yn yr Almaen.

## Pasiffistiaeth ddigyfundrefn

Ni bu'r mudiad heddwch fel mudiad erioed yn gryf yn yr Almaen er cystal y gallu i gyfundrefnu a briodolir i'r Almaenwr. Ymddengys bron fel pe bai'r bobl a oedd yn ddigon annibynnol eu meddwl i nofio yn erbyn llif militariaeth wedi eu tueddu'n naturiol yn erbyn sefydliadau trylwyr eu trefn.

Nid yw hynny'n golygu nad oedd galw cyffredinol am heddwch ymhlith y rheini y byddai'n ofynnol iddynt ddwyn beichiau a dioddefiadau rhyfel. Yn 1929 ysgrifennodd Arglwydd d'Abernon, llysgennad Prydain yn Berlin ar ôl y rhyfel diwethaf, a ganlyn:

> Y mae dosbarthiadau helaeth o'r boblogaeth sydd yn edrych gyda chas trwyadl ar y syniad o ryfel arall. Y mae mwyafrif mawr y gweithwyr yn y Blaid Sosialaidd, mwyafrif y Blaid Gatholig yn y

> Canol, a chyfartaledd uchel o blith y Blaid Ddemocrataidd, yn ddiamheuol ddiffuant yn eu casineb tuag at ryfel.

Yn y cyswllt hwn y mae'n ddiddorol sylwi y gallai'r bardd Almaenaidd Novalis, a oedd yn byw tua diwedd y ddeunawfed ganrif, siarad am yr Almaen fel esiampl i genhedloedd Ewrop o gariad at heddwch:

> Y mae'r Almaen yn mynd yn araf ond yn sicr ar y blaen i'r holl genhedloedd Ewropeaidd. Tra bônt hwy'n brysur gyda rhyfel, buddsoddiadau ariannol, a'r ysbryd pleidgar, y mae'r Almaenwr yn ymddisgyblu'n ddiwyd i gyfranogi mewn math uwch o ddiwylliant, a bydd cynnydd hwn yn sicr o roi iddo mewn amser ragoriaeth fawr dros y lleill.

### Pasiffistiaeth gyfundrefnol

Ond datblygodd pethau'n groes i ddisgwyliad Novalis. Newidiodd Rhyfeloedd Napoleon agwedd yr Almaenwr yn llwyr. Ar ôl llwyddiannau Napoleon yn 1805-6 cododd ymdeimlad cryf y dylid amddiffyn ag arfau draddodiad ac annibyniaeth yr Almaen. Bu beirdd – "beirdd rhyddid" (*Freiheitsdichter*) fel y gelwir hwy – megis Schenkendorf, Körner, Arndt, yn gogoneddu'r syniad o ymladd a marw dros wlad, ac ar ôl gorchfygiad Napoleon ni pheidiodd yr agwedd hon â bod yn ddelfryd swyddogol. Ni buasai rhyfeloedd Ffredrig Fawr, ar y cyfan, yn ddim namyn cweryl rhwng tywysogion, ac ynddynt ni dducpwyd ond rhan fach o'r genedl o dan arfau, tra byddai'r gweddill yn dioddef yn unig oherwydd effeithiau'r rhyfel. Eithr yn awr addysgid holl ieuenctid y wlad i edmygu patrwm Rhufain a Sparta.

Trueni mawr oedd hyn, oblegid hon oedd yr union adeg, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan ddechreuodd heddychwyr y byd drefnu eu mudiad ar raddfa eang; ar seiliau crefyddol a secwlaraidd, ond yn bennaf o dan ddylanwad y Crynwyr, ffurfiwyd cymdeithasau pasiffistaidd yn Lloegr, America, Ffrainc,

ac yn y rhan fwyaf o wledydd bychain Ewrop. Nid cyn rhan olaf y ganrif yr ymunodd yr Almaen ac Awstria â hwy.

Ond cyn hynny gwnaed amryw ymdrechion gan unigolion i ymuno â chymdeithasau pasiffistaidd neu i sylfaenu canghennau o gymdeithasau pasiffistaidd cydwladol yn yr Almaen. Bu Hodgson Pratt, sylfaenydd *The Peace and Arbitration Association* yn Llundain, yn teithio ar y cyfandir i ffurfio canghennau, a chododd un gangen yn Stuttgart gydag F. von Hellwald yn llywydd, a phwyllgor dros dro yn Berlin gyda'r Athro Virchow yn ben arno. Perthynai Rudolf Virchow hefyd i'r *Friedens-und Freiheits-Liga* (Cynghrair Heddwch a Rhyddid), mudiad rhyddfeddyliol a sylfaenesid yn y chwedegau gyda chanolfan yn Bern yn y Swistir. Prif gynheiliaid y Cynghrair hwn yn y Swistir oedd democratiaid a ffoesai o'r Almaen ar ôl Chwyldro aflwyddiannus 1848. Gan eu bod yn ymladd yn erbyn militariaeth a llywodraeth frenhinol, cyfarfuasant yno ag arweinwyr Sosialaeth, ac yn 1868-69 ymddangosodd cylchgrawn yn Bern o'r enw *Die vereinigten Staaten Europas* (Unol Daleithiau Ewrop). Cefnogid y Cynghrair hwn hefyd gan y Dr Guido Weiss, golygydd *Die Wage* (Y Glorian), cylchgrawn a gyhoeddid yn Berlin ac a fyddai'n cynnwys yn aml ysgrifau ar broblemau heddwch a rhyfel.

Yr oedd y Dr Carove, Heidelberg, a Friedrich von Bodenstedt, Berlin, yn bresennol yn Awst, 1849, yn y Gynhadledd Heddwch Gydwladol fel cynrychiolwyr yr Almaen, a danfonasai amryw eraill o blith athrawon y prifysgolion yn yr Almaen negeseuau o gydymdeimlad. Yn yr Almaen ei hun, yn Frankfurt am Main, y cyfarfu'r gynhadledd nesaf o'r fath, yn 1850.

Yr oedd hefyd bwyllgor perthynol i'r Undeb Cyd-seneddol (*Interparliamentary Union*) wedi ei sefydlu yn Bonn. Aelodau'r Undeb hwn oedd Aelodau Seneddol gwledydd amrywiol, a'u bwriad oedd cydweithio dros heddwch a thros sefydlu llys barn i

benderfynu achosion o anghydfod rhwng cenhedloedd – achosion a fyddai, o dan yr hen drefn, yn arwain at ryfel.

Yr Almaenwr cyntaf i gysegru ei holl fywyd i achos heddwch y byd a Chynghrair Cenhedloedd oedd y Dr Eduart Loewenthal. Yn 1869 sylfaenodd yn Dresden y *Gymdeithas dros Uniad Ewrop* (*Europäischer Unionsverein*). Dau ddiwrnod cyn i'r rhyfel rhwng Ffrainc a'r Almaen dorri allan yn 1870, cynhaliodd y gymdeithas hon gyfarfod cyhoeddus yn Dresden, a phasio penderfyniad a hawliai nad oedd y gwahaniaethau barn rhwng y teuluoedd brenhinol yn esgus rhesymol dros ryfel rhwng cenhedloedd; maentumiai hefyd nad oedd na Ffrainc na'r Almaen, fel cenhedloedd, yn ymddiddori o gwbl yn y rhyfel, a bod y gymdeithas yn croesawu gwrthdystiad y Ffrancwyr hynny a gefnogai heddwch.

Yn 1874 ailsefydlodd y gymdeithas o dan yr enw: *Y Gymdeithas Almaenaidd dros Bropaganda Cydwladol o blaid Heddwch*, ond yn yr un flwyddyn gorfu iddo adael yr Almaen er mwyn dianc rhag carchar am drosedd yn erbyn y brenin, a chyda hynny, ymddengys, daeth y gymdeithas hon i ben yn yr Almaen. Sgrifennodd Loewenthal hanes y mudiad heddwch yn yr Almaen (1903) a llyfr am ddiwygiadau cymdeithasol ac ysbrydol y ganrif. Wrth sefydlu'r cymdeithasau hyn, ef oedd y cyntaf i gychwyn mudiad heddwch annibynnol yn yr Almaen, er mor fyr oedd parhad y mudiad hwnnw.

### Berta von Suttner

Gwraig o'r enw Berta von Suttner – ei llysenw oedd Friedensfurie – oedd yn brif ysgogydd y cymdeithasau heddwch mwy arhosol yn Awstria ac yn yr Almaen. Dengys stori ei bywyd gymaint y gall brwdfrydedd ac antur un person ei wneud dros heddwch os defnyddir ynni yn y ffordd iawn.

Ganed hi yn Prâg yn 1843 yn ferch i Feld-Marschal Graf Kinsky. Bedyddiwyd hi yn Eglwys Rufain, ond yn ddiweddarach

cymerodd yr agwedd agnostig. Ar ôl marwolaeth ei thad gwastraffodd ei mam eu harian, a rhaid oedd i Berta ennill ei bywoliaeth yn gyntaf fel athrawes breifat ac wedyn fel ysgrifennydd i Alfred Nobel. Byddai hefyd yn cadw tŷ iddo. Gwyddonydd Swedaidd oedd ef, darganfyddwr dynameit a sylfaenydd Gwobr Nobel. O dan ei dylanwad hi y penderfynodd gychwyn Gwobr Heddwch Nobel, yn ychwanegol at y gwobrau am orchestion llenyddol a gwyddonol. Ionawr 7, 1893, sgrifennodd Nobel at Frau von Suttner:

> Hoffwn drefnu rhan o'm cyfoeth i sefydlu gwobr a roddir bob pum neu chwe blynedd. Dyfernir y wobr i'r neb a fydd wedi cynorthwyo Ewrop fwyaf i gerdded ymlaen i gyfeiriad heddwch llwyr.

Ac felly trefnodd Alfred Nobel yn ei ewyllys i sefydlu un o'r pum gwobr, fel y dywedir yno "ar gyfer y personau hynny, neu'r person hwnnw, a fyddo wedi gwneud y gwaith gorau dros frawdoli dynion, dros leihau byddinoedd, a thros gynnydd Cynadleddau Heddwch". Ar ôl iddi briodi'r Baron von Suttner, daeth y frwydr dros heddwch yn brif beth ei bywyd. Yn ystod eu teithiau daethai'r Suttneriaid o hyd i aelodau o'r *Gymdeithas Gydwladol dros Heddwch a Chyflafareddiad*. Er mwyn gwneud rhywbeth o blaid heddwch sgrifennodd Berta von Suttner ei llyfr byd-enwog *Die Waffen Nieder* (I Lawr â'ch Arfau).

Sgrifennwyd y llyfr hwn ar ffurf bywgraffiad dychmygol. Rhydd brofiad merch a feithrinwyd mewn awyrgylch militaraidd i gredu mai gweithredoedd rhyfelgar yw uchelbwyntiau hanes dynoliaeth.

> A ellir marwolaeth ogoneddusach na marw ar faes anrhydedd, ac anfarwoldeb disgleiriach nag anfarwoldeb yr arwr? Daw hyn oll yn glir ac yn ddinacâd yn ein holl lyfrau ysgol.

Ond a hithau'n awyddu am y gwir, fe'i dysgir gan y tri rhyfel a ymladdodd Awstria yn erbyn yr Eidal a Denmarc a Phrwsia,

mor ychydig sydd y tu ô i'r shibolethau oesol y gyrrir dynion i ryfel drwyddynt:

> … yr apêl dragwyddol at rinwedd, anrhydedd, dyletswydd, dewrder, hunan-aberth … Eithr fe geid hefyd yn sicr nodweddion drwg megis trachwant am goncwest, ymladdgarwch, casineb, creulondeb, twyll; a chydnabyddid eu bod yn dod i'r golwg mewn rhyfel, ond bob amser o du'r gelyn.

Pan ystyriai awdur yr atgofion hyn fod yr Eidalwyr yn ymladd dros ryddid yn erbyn ei gwlad ei hun, gwelai

> na allai ein llywodraeth ni, y llywodraeth y digwyddodd inni gael ein geni odani, fyth beri bod iau ar neb, eithr bendith yn unig; ac na allai neb a hoffai dorri'n rhydd oddi wrthym ni fod yn gewri rhyddid, eithr yn wrthryfelwyr yn unig.

Ac felly ymlaen, drwy gydol y llyfr, mae Berta von Suttner, gydag ehofndra ysblennydd, yn tynnu'r llen oddi ar yr eilunod. Dengys y rhesymau egwan, sy'n hollol ffug yn aml, y bydd gwleidyddion yn cyhoeddi rhyfel o'u plegid; dengys sut y mae'r dosbarth milwrol yn mwynhau rhyfeloedd fel cyfle i ddyrchafiad; y cam-ddefnydd a wneir o enw Duw, a'r holl ganlyniadau echrydus sy'n gynnyrch rhyfel mewn gwirionedd: clwyfau, marwolaeth boenus, diweithdra, clefydau … Y mae'r llyfr drwyddo yn un cyhuddiad dwys yn erbyn rhyfel fel cyfrwng i benderfynu cwerylon rhwng cenhedloedd, ac yn y bennod olaf y mae'r atsain â'i hapêl at bawb, "I lawr â'ch arfau!"

Cystal oedd yr ymateb i'r llyfr hwn fel y cysegrodd y Suttneriaid, yn y diwedd, eu bywyd i weithio dros heddwch, ac yn 1891 sylfaenodd Berta von Suttner *Y Gymdeithas Heddwch Awstriaidd (Österreichische Friedensgesellschaft).* Derbyniodd Wobr Heddwch Nobel yn 1905. Seiliwyd ei phasiffistiaeth ar gydymdeimlad a dioddefwyr rhyfel, wrth feddwl am yr holl boen dianghenraid a achosid. Cofiai hefyd yr ystyriaeth resymol mai dosbarth bychan militaraidd sy'n gwneud rhyfeloedd, a'u bod yn

bradu eu hamcanion eu hunain, yn wleidyddol yn ogystal ag yn ysbrydol. Fel rhagfur yn erbyn y rhyfeloedd parhaus apeliai am uniad gwladwriaethau Ewrop mewn *Panewrop* a hefyd am lys barn cydwladol.

**A.H. Fried**

Cyhoeddwr ifanc yn Berlin oedd A.H. Fried. Yr oedd ganddo ddiddordeb tanbaid mewn sefydlu heddwch rhwng y gwledydd, a sgrifennodd at Frau von Suttner gan awgrymu eu bod yn cychwyn cylchgrawn i gefnogi'r mudiad newydd. Cychwynnodd ef y cylchgrawn yn 1892 a'i alw, ar ôl y llyfr, *Die Waffen Nieder* (I Lawr â'ch Arfau). Yna sefydlodd gymdeithas heddwch ei hun yn yr Almaen, *Die Deutsche Friedensgesellschaft* (Y Gymdeithas Heddwch Almaenaidd) yn 1892, ac y mae ar gael lythyr oddi wrth Frau von Suttner yn ei longyfarch ar hyn. Newidiwyd enw'r cylchgrawn yn ddiweddarach i *Friedenswarte* (Tŵr Heddwch), ac y mae o hyd yn fyw yn y Swistir – o leiaf, gwn iddo fod ar gael yn 1936. Papur meddylgar oedd hwn yn hytrach nag organ propaganda, a chyfrannodd amryw awduron iddo.

Gwnaeth Fried wasanaeth mawr i'r mudiad heddwch drwy sgrifennu nifer da o erthyglau a llyfrau: yr un pwysicaf oedd *Llawlyfr y Mudiad Heddwch.* Wele eraill: O *Ryfel Byd i Heddwch Byd; Problemau Techneg Heddwch; Am Natur ac Amcan Pasiffistiaeth; Ailadeiladu Ewrop.* Derbyniodd yntau Wobr Heddwch Nobel yn 1911 am lyfr ar *Ymherodr yr Almaen a Heddwch y Byd.* Yn y llyfr hwn y mae'n casglu, mewn ffordd hytrach yn naïf, bob math o weithredoedd a dywediadau gan y Kaiser, er mwyn dangos mai heddwch a fynnai ef mewn gwirionedd.

Ar reswm, ac nid ar deimladau na moeseg, y seiliodd Fried ei basiffistiaeth. Ei brif ddiddordeb oedd diweddu'r annibendod a ffynnai rhwng cenhedloedd. Credai'n gryf yng ngallu llys

cydwladol. Yn ei lawlyfr y mae'n nodi dwy enghraifft ar bymtheg o anghytundeb rhwng cenhedloedd yn y cyfnod 1904–1910; fe setlwyd hwy trwy gynadleddau yn lle mynd i ryfel. Un ohonynt oedd ymosodiad llynges Rwsia ar hanner cant o longau pysgota Prydeinig, camgymeriad a drafodwyd yn foddhaol gan lys cydwladol yn Hydref 1904. Yn 1913, yn union cyn cychwyn y Rhyfel Mawr Cyntaf, sgrifennodd Fried erthygl ar 'Sut i Derfynu'r Anghydfod yn y Balcanau'. Y mae'n gorffen fel hyn:

> Y mae'r rhyfel y llwyddwyd i'w osgoi yn 1913 wedi cau llif-ddorau rhyfel rhag iddynt fygwth unrhyw frwydr Ewropeaidd yn y dyfodol.

Am iddo ef ei hun ddilyn rheswm gorbrisiodd Fried allu rheswm ym mywyd dynion.

### Datblygiad y cymdeithasau heddwch

Cafodd yr heddychwyr gyfle yn fuan i brofi eu nerth. Bu'r ailarfogi yn y gwledydd mawrion yn mynd rhagddo mor brysur fel y teimlai hyd yn oed y llywodraethau y dylid gwneuthur rhywbeth i'w atal. Ar gynnig y Tsar, cydgyfarfu cynrychiolwyr y galluoedd mawrion yn yr Hâg yn 1899 yn gyntaf, ac eto yn 1907, er mwyn chwilio am ryw fodd i greu a chadw heddwch yn y byd. Cefnogai'r Americanwyr a'r Prydeinwyr lwybr ymarferol, sef llys barn i'r gwledydd. Awgrymid diarfogiad gan y Rwsiaid a'r Almaenwyr. Ymddangosai'r olaf yn gynllun llwyrach ond yn anos ei weithredu. Yn y diwedd aeth y ddwy gynhadledd heibio heb ddod i unrhyw benderfyniad terfynol.

Wedi'r cynadledda, ymrannodd heddychwyr yr Almaen yn ddau wersyll: *Yr Heddychwyr Diwygiol* a ffafrai lys barn cydwladol a gwelliannau seiliedig ar gyfundrefnu da, a'r *Heddychwyr Chwyldroadol* a geisiai ddwyn heddwch trwy weithredu uniongyrchol megis mewn Streic Cyffredinol a gwrthod ymladd, a thrwy ofalu am bropaganda ac addysg.

Un o'r cymeriadau amlycaf gyda'r Heddychwyr Diwygiol oedd Walter Schücking, athro'r gyfraith ym Mhrifysgol Marburg. Yn ei lyfrau *Trefniad y Byd (1909), Undeb dros Heddwch y Byd ac Aileni Cyfraith y Cenhedloedd* ( 1917), a *Heddwch Parhaol* (1917), pwysleisia'r angen am gyfundrefn fyd-eang.

Sefydlodd yn ei brifysgol Seminar i ymchwilio i gyfraith y cenhedloedd, ac o'r Seminar hwn daeth nifer o efrydiau am gyfraith gydwladol. Nid yw'n heddychwr cyflawn. Hawlia y dylai ef ei hun ddwyn yn oddefgar unrhyw ddrwg a wneir i'w erbyn, eithr y dylai amddiffyn ei gydwladwyr. Fel hyn y dadleua ei achos:

> Mewn amgylchiadau arbennig, ymddengys i mi fod moeseg uwch gan y dyn hwnnw sydd yn barod, yn erbyn ei duedd naturiol, i amddiffyn ei gymdogion ag arfau, na'r dyn sy'n ildio'n ddiniwed i anghyfiawnder. Fel hyn yn unig y medraf ddeall mawredd moesol dysgeidiaeth ein Harglwydd pan ddywed nad ydym i wrthwynebu drwg: yr wyf fi'n bersonol i oddef drwg a wneir i mi, ond y mae'n gymaint o ddyletswydd arnaf hefyd i amddiffyn fy nghydwladwyr rhag drwg.

Er hynny, safai Fried ar ochr yr Heddychwyr Chwyldroadol. Mewn gwirionedd, ef a roes yr enw i'r ddwyblaid, yn Ddiwygwyr ac yn Chwyldrowyr. Nid oedd y blaid gyntaf, yn ei farn ef, yn cyffwrdd ond ag ymylon y broblem; yr oeddent am ffurfio peiriant cyfundrefnol, ond nid oeddent am newid cyflwr cymdeithas ar y pryd; trinient yr arwyddion, nid yr achosion. Am y rheswm hwn yr oedd yr Heddychwyr 'Achosol' (fe'u gelwid felly, a thrachefn yn Heddychwyr 'Clasurol') yng Nghynhadledd yr Hâg yn gwrthwynebu diarfogiad fel polisi digonol ynddo'i hun; credent y byddai diarfogiad, heb gyfundrefn gyfreithiol ar gyfer gweinyddu cyfiawnder rhwng y gwledydd, yn demtasiwn i'r gwladwriaethau na fynnent arwyddo'r cytundeb.

Ystyria'r ddau ddosbarth mai *cyfiawnder* oedd iawn sail perthynas y gwledydd, a gwelent mai militariaeth oedd eu gelyn,

ond nid aeth yr un ohonynt mor bell ag i ganfod mai amgylchiadau economaidd ac imperialaeth oedd yn achosi rhyfeloedd.

I bob golwg yr oedd yr heddychwyr yn araf ennill tir. Wedi ymddiswyddiad Bismarck cynyddodd y cyhoeddiadau pasiffistaidd yn sylweddol. Daethai'r mudiad heddwch i fod yn allu gwleidyddol. Yn y Senedd pasiwyd penderfyniadau o blaid ffurfio cynghrair rhwng y cenhedloedd. Yn 1908 bu Tywysog y Goron a'r Canghellor von Bulow yn croesawu pymthegfed cynhadledd yr Undeb Cyd-Seneddol yn y Reichstag (sef Tŷ Cyffredin yr Almaen). Yr oedd y Canghellor Bethmann Hollweg yn pleidio'r mudiad heddwch yn agored.

Yn 1911 ffurfiwyd Undeb dros *Ddealltwriaeth Gydwladol (Verein für Internationale Verständigung).* Cyn 1914 perthynai prif gefnogwyr yr heddychwyr i'r dosbarth canol. Nid ymffurfiodd y bobl hyn yn blaid neilltuedig, ond cefnogid hwy gan y Democratiaid Sosialaidd. Athrawon yn y prifysgolion oedd llawer o'r arweinwyr.

**Yr heddychwyr yn y Rhyfel Mawr Cyntaf**

Daeth awr prawf ar basiffistiaeth gyda'r Rhyfel Mawr Cyntaf. Ar y dechrau, gadael y mudiad a wnaeth nifer o basiffistiaid proffesedig, megis Karl Lampprecht, athro hanes yn Leipzig; yr Athro Karl von Amira ym Munich; ac yn Awstria yr Athro Feilbogen, un o arweinwyr y Mudiad Heddwch Awstriaidd cyn hynny.

Ar y llaw arall, dyblu diwydrwydd a wnâi'r Heddychwyr Chwyldroadol. Ffurfiwyd cymdeithas basiffistaidd newydd, *Undeb yr Almaen Newydd (Bund Neues Vaterland)* yn Berlin, yn Nhachwedd, 1914. Yng ngwanwyn 1916 cymerwyd ei hysgrifennydd, Lily Jannasch, i'r ddalfa, a chwalwyd y gymdeithas yn yr haf canlynol. Ond yn union wedyn sylfaenwyd

cymdeithas newydd, yr Undeb Canolog dros Gyfraith Gydwladol *(Zentralstelle Völkerrecht)* o dan arweiniad yr Athro Quidde. Gwaharddwyd yr Athro Quidde o Berlin yn 1916.

Nid oddi wrth y llywodraeth y daeth y gwrthwynebiad i bropaganda'r heddychwyr, ond oddi wrth yr awdurdodau milwrol, yn arbennig pan wnaed Ludendorff a Hindenburg yn uchel swyddogion y gad ddwyreiniol. Dechreuwyd y pryd hwnnw sensoriaeth ar lythyrau; ciliodd rhyddid y wasg, a gwaharddwyd cyfarfodydd. Yr oedd hyn yn ergyd drom i heddychwyr yr Almaen.

Arhosai un fantais arbennig yn nwylo'r mudiad, sef bod athrawon prifysgolion yn yr Almaen yn dal i fwynhau rhyddid llafar, ac efallai i hynny gyfrif am y ffaith fod ymhlith y prif heddychwyr gynifer o athrawon. Cafodd y mudiad, yng nghanol ei dreialon, fywyd newydd drwy ddylanwad athro coleg o'r enw Wilhelm Foerster, aelod o Eglwys Rufain. Athro addysg ym Munich ydoedd, ac ef oedd y cyntaf i weled paham yr oedd y mudiad heddwch wedi methu mor druenus. Dygodd ef yr elfen 'wrthresymol', neu 'grefyddol' yn hytrach, i drafodaethau gor-academig yr heddychwyr Almaenaidd. Daliai nad oedd yn ddigon anelu at fwynhad heddychlon o dda materol, ac nad oedd trefn a chyfraith yn unig yn abl i reoli'r nwydau dynol a'r greddfau gregaraidd a oedd mor hawdd i'w symud. Angen yr heddychwyr ydoedd moeseg neu grefydd i roddi nerth iddynt mewn profedigaethau. Ef oedd y cyntaf i ofyn am fwy na mater o drefniant rhwng cenhedloedd; gofynnai am ddiwygiad yn ei genedl ei hun. Yr oedd am newid y cyfansoddiad i gyfeiriad democratiaeth, ac yn ei lyfrau *Gwleidyddiaeth i'r Byd* a *Chyd-wybod i'r Byd* a *Fy Mrwydr yn erbyn yr Almaen Filitaraidd a Chenedlaethol* ymosododd yn gryf ar wleidyddiaeth grym fel yr arferid hi gan Bismarck. Dywedodd am Fried nad oedd ganddo "unrhyw olwg ddifrifol ar fywyd nac ymwybod cryf o allu pechod

gwreiddiol na barn gywir am wendid anhygoel y mwyafrif o ddynion”.

Achosodd ei osodiadau don o drafodaethau a dadleuon ar wleidyddiaeth grym a phasiffistiaeth, a chafodd y cyfan effaith ddaionus ar y mudiad heddwch. Enillwyd cefnogwyr newydd o blith y Blaid Ganol Gatholig ac o blith y Blaid Sosialaidd. Ac felly, yng nghanol y Rhyfel Mawr, llanwyd y mudiad heddwch ag ysbryd newydd a dyfnach a oedd yn foesol neu'n grefyddol ei natur.

Gwnaed defnydd helaeth o'r gwledydd niwtral, yn enwedig y Swistir a Holand, er mwyn trefnu'r mudiad. Dihangodd rhai heddychwyr, megis yr Athro Nicolai, i'r Swistir er mwyn osgoi cofrestru yn y fyddin, ac yn y wlad honno cefnogid y mudiad gan “Werinwyr Almaenaidd o Draddodiad 1848”. Wedi i *Friedenswarte*, cylchgrawn y Mudiad Heddwch Almaenaidd, gael ei wahardd yn yr Almaen yn 1915, ymddangosodd eto yn y Swistir yn Zürich, lle y rhoddwyd iddo, am dymor byr, yr enw *Cyfnodolyn dros Gyfundrefn Gydwladol.* Yr oedd hefyd bwyllgor cydwladol yn Bern (*Berner Internationales Büro)* a sylfaenesid yn 1915 ac a oedd yn cyhoeddi pamffledi pasiffistaidd megis *At Arweinwyr Ysbrydol yr Holl Genhedloedd,* pamffled a gondemniai gasineb cenhedloedd y naill at y llall, ac a apeliai hefyd am berthynas amgenach rhyngddynt, *At Fudiadau Heddwch yr Holl Wledydd,* ac eraill. Yn y Gwastatiroedd yr oedd *Pwyllgor Canolog dros Heddwch Parhaol* yn yr Hâg oddi ar 1915, a chyhoeddid ganddo bamffledi yn cefnogi heddwch parhaol heb dirfeddiannau newyddion.

Bu rhai o'r heddychwyr yn ceisio cyfarfod â heddychwyr gwledydd eraill yn y Swistir ac yn Holand. Yn Bern yn 1917 cyfarfu'r Sosialydd Erzberger â phennaeth Pwyllgor y Wasg Ffrengig, Haguenin, a lluniodd y ddau gynllun heddwch a fyddai'n dderbyniol i Ffrainc a'r Almaen. O ganlyniad i'r sgyrsiau

hynny, dadleuodd Erzberger dros gynnig i wneud heddwch yn y Reichstag yn 1917, ac enillodd yno gefnogaeth gynyddol i achos heddwch. Yn yr un flwyddyn cyhoeddodd heddychwyr yr Almaen bamffled yn erbyn uchel swyddogion y Fyddin Almaenaidd o dan y teitl *Pasiffistiaeth a Chyhoeddi Gwarchae.* Arwyddwyd y pamffled gan yr Athro Quidde, fel cynrychiolydd Mudiad Heddwch yr Almaen, gan Trapper-Laski, fel cynrychiolydd Undeb yr Almaen Newydd, a chan arweinwyr cylchoedd eraill.

Yn 1918 bu'r democrat Gotheim yn dadlau yn y Reichstag (ar y pumed o Fehefin) yn erbyn erlid heddychwyr yr Almaen, a ffurfiwyd Cyngor Cyffredinol gan yr heddychwyr cymedrol yn Frankfurt am Main, o dan yr Athro Quidde a'r Athro Schücking. Yn 1918 hefyd y ffurfiwyd y *Cynghrair Almaenaidd dros Undeb y Bobloedd.*

**Gwrthwynebwyr cydwybodol**

Rhan o raglen yr Heddychwyr Chwyldroadol oedd gwrthwynebu gwasanaeth yn y fyddin. Dywed Hans Wehberg, athro mewn cyfraith gydwladol, mewn ysgrif yn *Die Friedenswarte* (1924, t. 290), mai eithriad oedd cael trafodaeth ar wrthwynebiad cydwybodol yn y cynadleddau pasiffistaidd a gynhelid cyn y rhyfel, ac yn ôl Helen Stöcker, ni threfnwyd gwrthwynebiad i wasanaeth milwrol cyn rhyfel 1914–18. Dywed Lilian Stevenson i'r gwrthwynebwyr gael cynnig gwasanaeth anymladdol, ond yn aml iddynt gael eu rhestru fel rhai gwallgof a chael eu hanfon i wallgofdai. Sail eu gwrthwynebiad oedd argyhoeddiadau gwleidyddol neu grefyddol; ar dir rheswm y plediai lleiafrif o ddeallusion. Sgrifennodd Miss Stevenson ataf i ddweud mai dyma'r unig wybodaeth y gallasai hi ddod o hyd iddi.

Yr unig enghraifft y gwn i amdani o anfon gwrthwynebydd i wallgofdy ydyw achos y bardd a'r dramodydd Ernst Toller, a wrthododd fynd yn ôl i'r fyddin am fod erchyllterau rhyfel wedi

agor ei lygaid a'i argyhoeddi o wirionedd pasiffistiaeth. Ond anfonwyd ef i wallgofdy yn unig er mwyn ei archwilio, a'i fam a ofynnodd am hynny. Yn ddiweddarach aeth i garchar milwrol, ond cafodd gyfleustra yno i orffen sgrifennu un o'i ddramâu.

Ar ôl y rhyfel cynrychiolwyd yr Almaen ym Mudiad Cyd-wladol y Gwrthwynebwyr Cydwybodol gan Kurt Hiller, Helen Stocker General von Schoenaich, a Marta Steinitz.

**Ar ôl 1918**

Wedi'r Rhyfel Mawr Cyntaf daeth hiraeth mawr am heddwch, ac yr oedd galw cyffredinol am gymdeithasau pasiffistaidd. Ffurf-iwyd nifer da ohonynt.

Buasai Cymdeithas y Cymod mewn bod yn Lloegr oddi ar 1914, ac yn 1919 gwnaed cangen yn yr Almaen gyda chefnogaeth arbennig y Dr F. Siegmund Schultze, sydd ar hyn o bryd yn gadeirydd Pwyllgor Gweithredol yr F.o.R. Cydwladol. Ffurfiwyd y gangen Almaenaidd ar ôl cynhadledd Bilthoven yn Holand yn 1919; cyfarfu yno hanner cant o bobl o ddeg gwlad, yn cynnwys F. Siegmund Schultze, Otto Roth, a Reinold Schairer o'r Almaen. Yn y dechrau trefnwyd i gwmnïoedd cymysg o wledydd eraill deithio drwy'r Almaen gan roi anerchiadau hwnt ac yma, a cheisio dwyn y cenhedloedd yn nes at ei gilydd. Cawsant groeso brwdfrydig, ac yn y flwyddyn ganlynol, 1922, teithiodd cwmni o newyddiadurwyr Ffrengig drwy'r Almaen, ac annerch, ymhlith eraill, gynulleidfaoedd mawrion a alwyd ynghyd gan Gymdeithas Heddwch yr Almaen, megis yn Essen a Dortmund. Cyhoeddid taflen fisol o newyddion, *Taflen Newyddion Cymdeithas y Cymod*. Ond er hyn oll, dilynwyr unigol yma a thraw a enillai'r mudiad, ac nid poblogrwydd eang. Un o'r canolfannau mwyaf diddorol oedd Cartref y Gweithwyr yn Nwyrain Berlin, lle y gweithiai Siegmund Schultze. Yn 1923 bu cyfarfodydd perthynol i Grwsâd Ieuenctid Ewrop o blaid heddwch ar hyd a lled yr Almaen. Ond

yn 1933 gwelwyd y gymdeithas hon yn dirwyn i ben "yn wirfoddol" fel y dywedwyd, ar orchymyn y Llywodraeth Natsïaidd.

O 1921 i 1929 bodolai undeb cyffredinol o'r cymdeithasau heddwch o dan yr enw *Das Deutsche Friedenskartell.* Yn 1923 ffurfiwyd cangen Almaenaidd o'r mudiad Ffrengig *Chevaliers de la Paix*. *Kreuzritter* (Croesgadwyr) y galwyd hwy yn yr Almaen, a Phrotestaniaid oedd y mwyafrif o'r aelodau. Yn 1923 hefyd, ar awgrym Ffrancwr o'r enw Marc Sangrier, cynhaliwyd Cynhadledd Heddwch, y drydedd o'i math, yn Freiburg, a chafodd gefnogaeth wresog, yn enwedig gan ieuenctid. Bu myfyrwyr o bob rhan o'r Almaen yn gwrthdystio yn erbyn y clodfori sentimentalaidd ac anniffuant ar ryfel. Yn wir, yr oedd y mudiad ieuenctid yr adeg honno yn bur basiffistaidd ei ysbryd.

Yn 1931 ymddangosodd *Undeb Heddwch y Mamau a'r Athrawon* fel cangen o gymdeithas a gychwynnwyd yn Ffrainc. Yr oedd hefyd gangen Almaenaidd o *Gynghrair Gydwladol y Merched o blaid Heddwch a Rhyddid,* a sylfaenesid yn Genefa gan Anita Augspurg a Lida Gustave Heyman. At hyn, ceid amryw gymdeithasau crefyddol.

**Yr eglwys a phasiffistiaeth**

Yn yr Almaen rhan fechan iawn a chwaraeir ym mywyd crefyddol y bobl gan yr enwadau rhyddion. Perthyn mwyafrif mawr y boblogaeth i'r Eglwys Gatholig Rufeinig neu i'r Eglwys Brotestannaidd. Trefnir a chynhelir yr Eglwys Brotestannaidd gan y wladwriaeth ac fel rheol pregethir ufudd-dod i'r awdurdodau. Dysgai Luther yn ogystal â Chalfin fod rhyfel yn rhan o ddioddefiadau anochel y ddynoliaeth. Clymir yr offeiriaid Catholig i safbwynt swyddogol Eglwys Rhufain, sef y gall rhyfel, o dan amgylchiadau arbennig, fod yn gyfiawn.

Oddi ar y ddeunawfed ganrif, er hynny, bu nifer o

weinidogion Protestannaidd yn ceisio datrys y broblem yn annibynnol ar ddysgeidiaeth uniongred yr Eglwys. Ymhlith eraill, sgrifennodd pregethwr a fu yn y fyddin Brwsiaidd yn y Rhyfel Saith Mlynedd ( 1756–63) draethawd ar farn Cristionogion da ynglŷn â'r ffordd i roi terfyn ar y rhyfel. Ystyriodd Schleiermacher – y diwinydd mawr ac enwog, a fu'n athro diwinyddiaeth yn Berlin – a ddylai gallu Cristionogol arwain mewn rhyfel. Efallai iddo gael ei ddylanwadu, yn ei ateb ef, gan awyrgylch y rhyfel yn erbyn Napoleon. Barnodd nad oedd rhyfel yn anghristionogol ond pan oedd yn rhyfel o ymosod. Mewn ffordd nodweddiadol o Almaenwr, edrychai ar y wladwriaeth fel sefydliad dwyfol a oedd i'w osod uwchben y bywyd unigol. Ceisiodd bennu cyfyngiadau rhyfedd. Ni ddylai dyn unigol geisio distrywio bywyd dyn arall yn fwriadol. Ni ddylid caniatáu i saethwyr manwl anelu at unigolion!

Daeth athro diwinyddol arall, yr Athro Fleck o Giessen, i gasgliad mwy pendant: barnodd na allai Crist fod wedi ffafrio unrhyw fath o ryfel, ond yr oedd yn argyhoeddedig na ellid sylweddoli teyrnas heddychol Duw yn y byd hwn.

Cofier ar yr un pryd nad ar basiffistiaeth y seilir gwrthwynebiad y gweinidogion Protestannaidd i Hitleriaeth heddiw. Ni ddengys y Pastor Niemöler unrhyw edifeirwch am iddo ymladd yn y rhyfel diwethaf, ac mewn casgliad o lythyrau gan weinidogion a garcharwyd o dan y drefn Natsïaidd y mae tystiolaeth fynych i agwedd debyg. Un o'r eithriadau yw F. Siegmund Schultze.

### F. Siegmund Schultze

Gweithiodd ef yn egnïol dros achos heddwch hyd yn oed cyn dechreuad y Rhyfel Mawr Cyntaf, ac y mae'n gweithio o hyd heddiw yn y Swistir, ar ôl cael ei yrru allan o'r Almaen. Golygodd gylchgrawn chwarterol *Die Eiche* (Y Dderwen) yn sefyll dros

gydweithrediad cymdeithasol a chydwladol. Yn hwn rhoddodd le i negeseuau a anfonid i'r Almaen gan aelodau o'r F.o.R. yng ngwledydd y gelyn. Am beth amser bu'n gaplan i'r Kaiser yn y *Friedenskirche* yn Potsdam, ond wedi hynny gweithiodd yn Nwyrain Berlin, adran dlotaf y brifddinas. Cawsai ei droi'n gadarn at basiffistiaeth yn derfynol drwy gyfarfod â Chrynwyr Seisnig. Yn union cyn y rhyfel yn 1914 cymerodd ran yng Nghynhadledd Heddwch gyntaf yr Eglwysi Cristionogol yn Constance. Yn ystod y gynhadledd hon lluniwyd "Galwad" gan gyfeillion heddwch o Loegr ac o'r Almaen, ac er i'r rhyfel dorri allan yr oedd gan Siegmund Schultze y dewrder i anfon yr anerchiad at holl weinidogion Cristionogol yr Almaen. Pan ddaeth y cyfle, gwrthododd wasanaeth milwrol er y gallasai hawlio rhyddid ar sail nam corfforol a'i gwnâi'n amhosibl iddo wasanaethu yn y fyddin.

Wedi'r rhyfel gweithiodd dros ddiwygio'r Cytundeb Heddwch, ac fel y dywed ef ei hun, "dros hyrwyddo agwedd garedig yn y gorchfygwyr". Rhoes wasanaeth di-flin i Gymdeithas y Cymod, ac ef yn awr yw llywydd ei Phwyllgor Gweithredol. Ef hefyd yw ysgrifennydd Cydwladol yr Undeb Byd-eang dros Gydweithrediad Cyfeillgar a Chydwladol rhwng yr Eglwysi. Gorfu iddo ef a'i deulu adael yr Almaen yn 1934. Dywed amdano'i hun: "Cymod y tu mewn i bob cenedl a rhwng y cenhedloedd yw amcan a chynnwys fy mywyd i."

### Cymdeithasau heddwch Catholig

Yn 1916, yng nghanol y rhyfel, ffurfiwyd cymdeithas heddwch Gatholig, Cymdeithas y Groes Wen, gan offeiriad Almaenaidd, y Dr Max Joseph Metzger. Yr oedd aelodau'r gymdeithas hon yn awyddus i weithio fel Catholigion dros heddwch y byd. Yn Graz yn Awstria yr oedd y brif swyddfa, ond yr oedd canghennau ledled yr Almaen.

Yr oedd hefyd fudiad heddwch cryf ymhlith y Catholigion

ieuainc. Ei gylchgrawn oedd *Vom frohen Leben* (Y Bywyd Hapus). Cydnabu'r arweinwyr fod hanes y gorffennol yn cynnwys rhai rhyfeloedd cyfiawn, ond yr oeddent yn ddigyfaddawd yn erbyn rhyfel modern ac yn erbyn gorfodaeth am eu bod yn groes i gyfraith Duw. Ymegnïent i'w disgyblu eu hunain, a sail grefyddol oedd i'w pasiffistiaeth.

Yn 1929 sefydlwyd *Undeb Heddwch y Catholigion Almaenaidd* yn Frankfurt, ac enw cylchgrawn y gymdeithas hon oedd *Yr Ymladdwr dros Heddwch.* Ceid hefyd yn yr Almaen y *Cynghrair Cydwladol Catholig*.

## Unigolion a phasiffistiaeth

Yn ei ddarn *I'r Almaenwyr* dywed Hölderlin:

> *Spottet ja nicht des Kindes*
> *Wenn es mit Peitsche und Sporn*
> *Auf dem Rosse von Holz*
> *Mutig und gross sich dünkt;*
> *Denn ihr Deutschen, auch ihr seid*
> *Tatenarm und gedankenvoll.*
>
> (Na chwerddwch am ben y plentyn, os cred ei fod yn ddewr ac yn fawr gyda'i chwip a'i sbardun ar gefn y ceffyl pren. Canys yr ydych chwi Almaenwyr hefyd yn dlawd mewn gweithredoedd ac yn llawn o feddyliau.)

Gellir dweud hyd yn oed am hanes pasiffistiaeth gyfundrefnol nad hanes mudiad yn gymaint mohono, na hanes cynnydd syniad arbennig, eithr hanes y gwŷr a'r merched a ledaenodd y syniad hwn. Ond nid ynddynt hwy ychwaith y mynegir y syniad gryfaf; rhaid troi at y llenorion a'r beirdd a'r athronwyr i gael hynny. Yr oedd llawer o'r *Dichter und Denker,* y beirdd a'r meddylwyr a fu unwaith yn brif falchder yr Almaen, yn eiddgar dros heddwch a chymod rhwng y cenhedloedd. Yn fras, yr oedd dau gyfnod o lenyddiaeth basiffistaidd, un tuag adeg Napoleon a'r llall yn ystod y Rhyfel Mawr Cyntaf ac ar ôl hynny.

Dywed Siegmund Schultze mewn ysgrif ar 'Sut y deuthum i fod yn Heddychwr':

> Yn ddiweddarach, yr oedd ymdreiddio'n ddyfnach i lenyddiaeth glasurol yr Almaen yn gyfrwng, mae'n debyg, i'm dwyn yn nes at feddyliau am heddwch.

**Immanuel Kant**

Un o amddiffynyddion cryfaf y syniad o heddwch byd-eang yw'r athronydd Immanuel Kant. Heb ei gyffwrdd o gwbl gan sloganau a barn y lliaws, ystyriai ef, er ei fod yn Brwsiad, fod rhyfel "yn beth anifeilaidd, yn annheilwng o ddynoliaeth". Mewn llyfr *Tuag At Heddwch Tragwyddol,* sydd ar ffurf cytundeb rhwng cenhedloedd, esbonia ei syniadau am y modd y gellid sicrhau heddwch dros y byd yng nghwrs hanes; yn ei dyb ef nid oedd namyn datblygiad o'r berthynas ddynol yr anelid ati gan natur. Hyd yn oed pe na chyrhaeddid y nod byth, dyletswydd, yn ôl Kant, oedd ceisio dod mor agos ag y bai modd. Un o rinweddau trafodaeth Kant yw nad tywysogion ac arweinwyr y cenhedloedd yn unig a gymhellir ganddo i ymgyrraedd at gydberthynas heddychol, eithr yr holl ddinasyddion. Ymddangosodd y llyfr yn 1795.

Nid yw Kant yn seilio ei gynlluniau dros heddwch ar deimladau neu ddyletswyddau crefyddol – ni ellid disgwyl hynny gan awdur *Y Feirniadaeth ar Reswm Pur* a'r *Feirniadaeth ar Reswm Ymarferol* – ond ar gyfraith. Mae'n dysgu hefyd, gwir yw, fod Cyfraith Foesol annileadwy ynom yn reddfol – ac efallai fod hynny'n debyg i ddywedyd ein bod yn gwneud rhywbeth am mai ewyllys Duw ydyw.

Er hynny nid oes ganddo unrhyw wag-feddyliau rhosynnog am y natur ddynol:

> Nid cyflwr naturiol ydyw cyflwr o heddwch rhwng dynion sy'n byw yn agos at ei gilydd; rhyfel yw'r cyflwr naturiol … Felly y mae'n rhaid sylfaenu heddwch.

Hawlia fod tri amod na ellid wrth heddwch parhaol hebddynt:

Yr amod cyntaf yw bod rhaid i gyfansoddiad pob gwladwriaeth fod yn werinol. Golyga wrth hynny y gall fod nifer bychan o bobl neu hyd yn oed frenin, yn arwain y Llywodraeth, ond eto rhaid i'r holl bobl roi eu barn ar faterion pwysig, megis a fydd rhyfel ai peidio. Mae Kant yn llwyr argyhoeddedig na wnâi'r dinasyddion fyth ddewis yn wirfoddol holl ddioddefiadau rhyfel pe gallent mewn unrhyw fodd eu hosgoi. Felly ni cheid rhyfel byth.

Ail amod Kant yw y dylai'r holl wledydd ymuno'n ewyllysgar mewn math o Gynghrair Cenhedloedd lle y bydd i bob aelod yr un breintiau. Cred fod hynny'n bosibl er gwaethaf drygioni'r natur ddynol, yn gywir fel y cedwir y person unigol mewn trefn gan lysoedd barn pob gwlad.

Y trydydd amod yw bod dinasyddiaeth fyd-eang yn golygu, nid bod yr holl wledydd yn ymdoddi'n un, ond bod cyfle i unrhyw un gael lletygarwch mewn gwlad arall. Llefara Kant yn gryf iawn yn erbyn chwyddo un wladwriaeth drwy iddi feddiannu gwladwriaethau eraill ar sail priodas rhwng teuluoedd brenhinol neu ar sail rhyfel. Ni ddylai'r un wlad feddu trefedigaethau. Dywed yn finiog:

> Nid oes ond un gwahaniaeth mawr rhwng 'brodorion' Ewrop a 'brodorion' America. Bu brodorion yr America yn bwyta rhai o'u gelynion, weithiau yn bwyta llwythau cyfain; gwell gan frodorion Ewrop gynyddu nifer eu deiliaid er mwyn cael defnydd ar gyfer rhyfeloedd mwy eto.

Pwysleisiai fod gwahaniaeth mawr rhwng 'Cytundeb Heddwch' nad yw'n ddim ond cadoediad a'r Cyfamod Heddwch sydd yn dileu pob rhyfel. Mae amryw eraill o'i ddywediadau'n amserol iawn. Dywed, er enghraifft, na ddylai'r naill wlad fenthyca arian oddi wrth wlad arall er mwyn ailarfogi.

Condemnia ryfeloedd o ymyrraeth a rhyfeloedd o gosbi, a rhyfeloedd sy'n arwain at lwyr ddifodiad y gelyn. Condemnia'n arbennig y mathau hyn am yr eddyf y ceir rhyfeloedd eto am beth amser i ddod. Y mae'n werth ystyried dywediad arall ganddo:

> Hyd yn oed yng nghanol rhyfel dylai fod rhyw hyder ar ôl fod rhyw ddynoliaeth o hyd yn perthyn i'r gelyn, onide ni bydd modd adfer Heddwch.

**Llenorion eraill**

Yn ystod cyfnod Napoleon yr oedd y bardd Jean Paul yn arweinydd glew dros heddwch. Credai yntau mai mater o amser yn unig oedd ffederasiwn o wledydd y byd. "Anffawd rhyfel, meddai ef, "yw mai dau berson sy'n penderfynu arno a miliynau yn ei weithredu. Byddai'n well i'r miliynau benderfynu ac i'r ddau ymladd." Mewn llyfr ar addysg sgrifennodd yn erbyn y rhai a alwai'r heddychwyr yn llwfrgwn:

> Y mae dewrder uwch, dewrder heddwch a rhyddid, y dewrder a geir gartref. Y mae diffodd tân rhyfel yn waith teilyngach o frenin, ac yn waith anos na'i gynnau.

Dilynwyd Paul yn ei gariad at heddwch gan ei ddisgybl Börne. Dywed ef:

> Y fath ddioddefaint a achoswyd i'r ddynoliaeth gan gariad at wlad! Gymaint yn fwy yn ei ddicter gwyllt ydyw'r rhinwedd twyllodrus hwn na'r holl bechodau cydnabyddedig!

Yn wahanol i Kant, nid yw'r athronydd J.G. Herder (1744–1803) yn credu mai rhyfel yw cyflwr naturiol dynoliaeth:

> Nid rhyfel eithr heddwch yw cyflwr naturiol dynoliaeth ddi-orthrwm; canys cyflwr o argyfwng yw rhyfel. Nid teimladau dynol, eithr nwyd, a yrrodd genhedloedd y byd fel anifeiliaid gwylltion i yddfau ei gilydd.

Mwy cyfyngedig na chynlluniau Kant yw eiddo'r bardd

Ch.M. Wieland (1733–1813). Wrth ddadlau dros Undeb Ewrop y mae'n cyffwrdd â syniad a oedd yn boblogaidd yn ystod teyrnasiad Napoleon:

> Y fath gyflwr o berffeithrwydd y gallai cenhedloedd Ewrop ei gyrraedd trwy fyw'n unol a chytûn … gallent drefnu eu bywyd heb barchu gwahaniaethau mewn llywodraeth – gwahaniaethau sydd yn ddibwys yn y bôn – er mwyn eu llunio eu hunain ar ddelw Cymdeithas Ewropeaidd barhaol.

Y cyfnod arall o lenyddiaeth ymwybodol basiffistaidd ydyw cyfnod y rhyfel diwethaf a'r blynyddoedd yn ei ddilyn … Gyrrwyd y tyneraf o feirdd, Rainer Maria Rilke, i fudandod gan ofnadwyaeth y rhyfel. Ar y llaw arall sgrifennwyd gan Stefan Zweig, a aeth hefyd gyda chenhadaeth heddwch o Awstria i'r Swistir, un o'r dramâu cyntaf, onid y gyntaf, o'r rhai modern sy'n condemnio rhyfel: *Jeremiah.* Dangosir y Kaiser Wilhelm II ym mherson y Brenin Zedeceia, a gwelir Jeremeia yn ufuddhau i'r 'Delfryd Uwch' yn hytrach nag i allu bydol.

## Ernst Toller

Perthyn y bardd a'r dramodydd Ernst Toller i nifer y rheini a brofodd dröedigaeth at basiffistiaeth trwy gyfrwng rhyfel. Aethai ef i'r rhyfel yn llawn brwdfrydedd, a heb fod rhaid arno i fynd, canys nid oedd ei iechyd yn ddigon da. Pan wrthododd ddychwelyd i'r rhyfel, dodwyd ef mewn carchar, ac yno sgrifennodd ei ddrama gyntaf. Ynddi y mae holl nerth ei bersonoliaeth a'i brofiadau, ac y mae'r un peth yn wir am ddramâu eraill a sgrifennodd. Efallai bod hawl gennym i amau a yw ei agwedd yn basiffistiaeth gyflawn; eithr y mae'n wrthryfel yn erbyn rhyfel ym mhob ffurf arno, ac yn gondemniad dwys ar ffolineb a chreulondeb rhyfel:

> Daeth y rhyfel a'u dwyn ymaith a buont yn casáu eu penaethiaid ac yn ufuddhau i orchmynion ac yn lladd ei gilydd. Ac y mae'r

> cyfan yn ango. Fe'u dygir hwy eto a byddant yn casáu eu meistri eto ac yn ufuddhau i orchmynion eto ac … yn lladd ei gilydd. Drachefn a thrachefn. Dyna ddefnydd pobl. Gallent fod yn wahanol pe mynnent fod. Ond ni fynnant fod. (Hinkemann)

Disgrifir golygfa mewn ysbyty sydd yn llawn o glwyfedigion rhyfel: milwyr dall, milwyr heb freichiau, rhai wedi torri asgwrn eu cefn, rhai wedi eu claddu yn y llinell danddaearol ac mewn llewyg yn aml oherwydd hynny, rhai wedi eu gwenwyno gan nwy: adroddant oll am eu dioddef a gofynnant i'r offeiriad a ddaw i'w cysuro:

> Pam y mae'r hollalluog Dduw yn caniatáu inni ddioddef fel hyn? Fe ddywedwch chwi ei fod yn gwybod am ein poen a'n dioddef; yna y mae'n ddrwg os gall adael i hyn fod." (Gweddnewidiad)

Dilyn ar lwybrau tebyg a wna'r nofelydd Erich Maria Remarque yn ei lyfr enwog *Dim Newydd o'r Gorllewin.* Edrydd ei brofiadau ar ffrynt y Gorllewin, ac wrth sgrifennu'n ddiffuant amdanynt ni all beidio â chondemnio rhyfel. Sonia am garcharorion o Rwsia mewn gwersyll:

> Y mae unrhyw swyddog yn y fyddin yn fwy o elyn i'r milwr ifanc, ac unrhyw sgwlyn yn fwy o elyn i ddisgybl, nag ydynt hwy i ni. Ac eto fe saethem atynt eto, a saethent hwy atom ninnau, pe baem yn rhydd.

Cafodd milwr mewn lloches o bridd y profiad o glwyfo'n enbyd Ffrancwr a oedd wedi neidio i'r un lloches:

> Gymrawd, nid oedd arnaf eisiau dy ladd …Ond dim ond syniad oeddit i mi o'r blaen … yr haniaeth honno a darewais i. Pam na fyddant byth yn dweud wrthym mai dyn ydych chi fel fi? … Pam na fyddant yn dweud wrthym eich bod chwi yn drueiniaid fel ni, fod eich mamau mor bryderus bob dim ag yw'n mamau ni, ein bod yn ofni marw yn union 'run fath … a bod yr un marw i ni a'r un boen? Pe taflem y gynnau yma i ffwrdd, a'r dillad yma, gallech fod yn frawd i mi fel Kat ac Albert.

Dywedodd un "na ellir ystyried tudalennau *Zweig* a

*Remarque*, er eu bod yn greithiedig gan ryfel, yn wrthdystiad effeithiol yn erbyn rhyfel imperialaidd". Sgrifennwyd llyfrau ar y broblem gan bobl fel L. Gross, *Pasiffistiaeth ac Imperialaeth* (1931). Dywed Stratmann yn ei lyfr yntau:

> Cymerodd pasiffistiaeth le yr hen Pax Christiana, a gadawyd y dasg o dangnefeddu, ac o greu brawdoliaeth o'r cenhedloedd, i Iddewon a Seiri Rhyddion a Chydwladwyr.

Ymddengys fod hyn yn fwy gwir am yr Almaen nag am Gymru neu Loegr.

### Gustav Stresemann

Y mae un Almaenwr arall a enillodd Wobr Heddwch Nobel. Nid oedd ef yn heddychwr cyflawn nac yn Gristion gweithgar, ond er hynny gweithiodd mor galed dros ysbryd cymod rhwng cenhedloedd fel y caed ef yn deilwng o'r wobr.

Enillwyd ef o fod yn gredwr mewn grym i fod yn amddiffynnydd ffordd y cymod, ac yn y diwedd aberthodd waith ei fywyd i geisio cymod rhwng y Cynghreiriaid a'r Almaen. Gwnaed ef yn ganghellor y Reich Almaenaidd yn Awst, 1923, ar ôl goresgyniad y Ruhr gan y Ffrancwyr a chwymp llwyr y system ariannol yn yr Almaen, ar adeg pan gefnogid gwrthwynebiad goddefol yn y Ruhr gan lywodraeth yr Almaen, a phan oedd y safiad hwn yn boblogaidd drwy gydol y Reich. Y pryd hwnnw bu gan Stresemann ddigon o ddewrder i adael polisi'r gwrthwynebu a gweithio i gymodi Ffrainc a'r Almaen. Yn Nhachwedd ail-sefydlogwyd y system ariannol, ond gorchfygwyd y llywodraeth. O'r amser hwnnw yr oedd Stresemann yn Weinidog Tramor, ac ym Mai, 1924, cafodd gyfle i amddiffyn o flaen y Reichstag ei gynllun i wneud cymod. Daeth eto rwystrau enfawr o du'r Cynghreiraid, yn enwedig Ffrainc, a oedd am gadw'r Almaen i lawr doed a ddelo, a hefyd o du ei lywodraeth ei hun. Ond llwyddodd i sicrhau derbyniad Cytundeb Locarno, Cytundeb




*Clawr pamffled enwog Erich Maria Remarque ar basiffistiaeth ymosodol.*

Kellog ym Mharis, a Chynllun Young. Wedi i'r Almaen ymuno â phwyllgor Cynghrair y Cenhedloedd ym Medi, 1926, derbyniodd Stresemann Wobr Nobel. Ond dihysbyddwyd ei nerth gan yr ymdrech, a bu farw yn Hydref, 1929.

Sgrifenna Antonia Vallentine amdano:

> Mae agwedd Gustav Stresemann at y rhyfel yn crynhoi hanes gwerin yr Almaen, yn enwedig ar y Ffrynt Cartrefol … Penderfynwyd ei agwedd yn ystod y rhyfel gan ysbryd o ufudd-dod dall … yr oedd amheuaeth iddo ef yn fradwriaeth.

Mewn sgwrs â Helfferich yn 1922 daeth i sylweddoli "nad oedd polisi o rym heb y gallu i'w weithredu ond ffolineb"; ac yna gofynnodd iddo'i hun, "A oedd yn llai o ffolineb pan oedd y gallu wrth law? … Onid oedd byd grym yn perthyn i'r gorffennol?"

Gweithiodd Stresemann dros Ewrop unedig. Ymuniaethodd â'r oes newydd. Ar bwy y mae'r bai am na ddaeth eto mo'r Oes Newydd?

Rhai Llyfrau:

Beatrix Kempf, *Suffragette for Peace: The Life of Bertha von Suttner*. Troswyd o'r Almaeneg gan R.W. Last, Llundain, 1972. Cyhoeddwyd gyntaf yn Awstria gan yr Österreichischer Bundersverlag ym 1964: *Bertha von Suttner – Das Leben einer grossen Frau*.

Caroline E. Playne, *Bertha von Suttner and the Struggle to avert the World War*, Llundain, 1936.

Gustav Stressemann, *Schriften, Mit einem Vorwort von Willy Brandt*, Berlin, 1976.

Berta von Suttner, *Die Waffen Nieder! Eine Lebensgeschichte*, Dresden, 1889; ac yn fuan wedyn, trosiad i'r Saesneg, *Lay down your Arms!*, Llundain, 1894.

Veit Valentin, *Geschichte des völkerbundgedankens in Deutschland*. (Hanes y Syniad am Undeb Cenhedloedd yn yr Almaen), Berlin, 1920.

*Mudiadau Heddwch yn yr Almaen*, Gwasg Gee, Dinbych, 1943.

# George Davies – yr ‘Heddychwr Mawr’

Ni ellir diolch digon i’r Parchedig E.H. Griffiths am ei gyfrolau o gofiant am yr ‘Heddychwr Mawr’ George M.Ll. Davies. Digwyddiad eithriadol oedd ei ymweliad â Chylch Cadwgan, a dim ond unwaith y cawsom y cyfle i wrando arno yn ein mysg.

Y mae’r cyfarfod arbennig hwn yn cael sylw yn ail gyfrol y cofiant sydd newydd ymddangos, *Seraff yr Efengyl Seml*. Dwyf i ddim yn cofio am blismon yn ymyrryd â’r cyfarfod – er y gallai rhywbeth o’r fath fod wedi digwydd yn hawdd.

Gwneuthum nodiadau am rai o’r pwyntiau mwyaf nodweddiadol yn neges George Davies. Fe ddigwyddodd y cyfarfod ar Mehefin 15, 1942, ym Mhentre, Rhondda, yn ein tŷ ni, Cadwgan, a gafodd ei enwi ar ôl mynydd Cadwgan a safai y tu cefn iddo.

Aelodau Cymdeithas y Cymod oedd y gynulleidfa fach, fel y dywedodd y Parchedig E.H. Griffiths yn y llyfr.

### Cyrddau a chwrdd

Dyma rai o’r pwyntiau arbennig a nodais yn fy nyddiadur:

Ar y dechrau soniodd am y llu “cyrddau” sy’n digwydd heb fod pobl yn “cwrdd” â’i gilydd ynddynt. Iddo ef yr oedd cwrdd â phersonau yn hollbwysig.

Er mwyn dangos pwysigrwydd yr unigolyn mewn cymdeithas defnyddiodd gyffelybiaeth y clo caeedig. Nid yw’n addas agor drws caeedig drwy nerth grym … rhaid cael allwedd, rhaid cael “cysylltiad personol”.

Rhaid dod o hyd i bersonoliaeth unigolyn er mwyn cyrraedd cytundeb rhwng personau. Yn gyson â'r gred hon oedd ei ffydd mewn datganoli fel cyfrwng i ennill democratiaeth gywir.

Nid oedd llawer o ffydd gan G. D. mewn syniadau fel y cyfryw, meddai ef. Nid yw'n bosibl caru syniadau yr un fath ag y mae'n bosibl caru cyd-ddyn.

Ni ddylem siarad am broblem diweithdra ond am broblemau dynion di-waith.

**Addoli grym**

Dirmyg diangen oedd un arall o'i bwyntiau ef. Rydym yn tueddu gormod i ddirmygu popeth nad ydym ni yn ei ddeall ac yn ystyried ein hunain yn uwch na'r pethau y byddwn yn eu trin felly.

Rydym yn addoli grym, meddai, fel petai "grym" yn rhywbeth i anelu ato. Yr oedd G.D. yn hollol yn erbyn grym, hyd yn oed pryd yr ymddangosai mewn celfyddyd, fel yn y cerflun 'Adda' gan Epstein.

Wedi'r anerchiad atebodd gwestiynau, gan gyfaddef yn agored pryd nad oedd ateb parod ganddo. Fe ddigwyddodd hynny unwaith pan ofynnodd rhywun:

"Onid yw rhyfela yn rhan o'r natur ddynol? Bydd cymdogion yn cweryla ac yn ymosod ar ei gilydd. Yr un fath y bydd gwledydd yn ymladd â'i gilydd."

Ond y tro hwn daeth ateb oddi wrth un o'r gynulleidfa a ddywedodd: "Bydd cymdogion yn ymladd â phobol y maent yn eu hadnabod. Ond mewn rhyfel gorfodir dyn i ladd dynion nad yw yn eu hadnabod o gwbl."

**Cartrefoli**

Rhaid nodi hefyd yr hyn a ddywedodd G. D. am Gymru a'i hawliau i fod yn wahanol:

"Nid yw Cymru yn rhagori ar wledydd mewn dyfalbarhad," meddai ef.

"Dyw hi ddim yn rhagori hyd yn oed yn ei cherddoriaeth ond y mae yn rhagori yn ei hysbryd agos-atoch, dynol, cartrefol."

*Evening Post*, Abertawe, Chwefror 1969

# V. ACHLYSURON

## Mrs Pandit yng Nghymru

O ran ei chymeriad a'i phrofiadau y mae Mrs Pandit, chwaer Mr Nehru, yn un o'r merched mwyaf diddorol sy'n byw heddiw. Ychydig o amser yn ôl ymwelodd Mrs Pandit â Chymru yn ei swydd fel Uchel Gomisiynydd dros India a chafodd groeso brwd, y tu hwnt i'w disgwyliadau. Bydd yma eto cyn hir yn Eisteddfod Llangollen. Rhaid cyfaddef bod gan y Cymry hefyd frawd a chwaer enwog sydd yn weithgar mewn gwleidyddiaeth. Ond yn wahanol i Gwilym a Megan y mae Mrs Pandit a'i brawd yn tynnu i'r un cyfeiriad.

Cefais fy argraff gyntaf o Mrs Pandit mewn ffordd braidd yn hynod. Sefais wrth ymyl Neuadd y Dref, Abertawe, gyda nifer o bobl eraill a disgwyl i Mrs Pandit ddychwelyd at gar y Maer, a oedd yn aros amdani. Toc daeth gyrrwr y car atom a rhywbeth bach yn ei law: *"Nid chwi biau hwn mae'n debyg?"* meddai ef yn ddireidus. *"Yr oedd y peth bach yn gorwedd ar y llawr wrth ymyl y car."* Agorodd gwd bach gan dynnu allan daniwr-sigarét o aur pur. Mrs Pandit a'i collasai wrth adael y car. Doedd dim amau'r peth. Argraffwyd llythrennau blaen ei henw ar y gwaelod. Gweledigaeth am India gyfoethog, gwlad y gemau a'r perlysiau, a gododd yn sydyn o'm blaen – *"A pherlau'r India bell."*

### Naws grefyddol

Wedi'r hir aros daeth y Maer a Mrs Pandit ei hun. Edrychai hi'n

swynol ac yn rhadlon, yn ei gŵn Indiaidd hir o liw lelog a oedd yn cyd-fynd yn rhyfeddol â'i gwallt byr llwydaidd.

Braidd yn anodd oedd ei chysylltu â charchar a dioddefaint hir. Ond eto … wrth edrych ar ei llygaid dwfn, daeth yn amlwg ei bod yn byw bywyd ymgysegredig, a bod ei sirioldeb yn ffynnu mewn ymroddiad i orchwyl nobl.

Rwy'n credu bod y Cymry'n gyflym i ddeall y naws grefyddol sydd o amgylch pobl a ddioddefodd ac a fentrodd bopeth dros achos teilwng. Yr un peth a ddywedir am India ag am Gymru, sef mai gwlad grefyddol yw hi yn anad dim. Efallai mai hi yw'r wlad fwyaf crefyddol yn y byd.

Er nad yw Mrs Pandit yn Gristion proffesedig, gallai annerch capel llawn o chwiorydd yr Eglwys Annibynnol yn Eglwys Wood Street, Caerdydd, a rhoi neges fawr iddynt, y neges a ddysgodd oddi wrth Mahatma Gandhi am arf anghymarol gwirionedd, a'r ymladd ag arfau di-drais. Daeth pwyslais ei neges o'r ffaith iddi weithredu yn ôl yr hyn a ddywedodd.

Clywais wedyn fod rhai yn anfodlon oherwydd i Mrs Pandit siarad am bethau gwleidyddol o flaen cynulleidfa Eglwysig. Ac yn wir, y mae hi'n ddyrysbwnc i ba raddau y gellir cysylltu crefydd a gwleidyddiaeth. Cyfaddefodd Mr Nehru yn ei hunanfywgraffiad – a sgrifennodd yn ystod yr amser maith a dreuliodd mewn carcharau – iddo gael problem fawr i'w datrys: "*Gofidiwn droeon ynglŷn â thyfiant yr elfen grefyddol yn ein gwleidyddiaeth,*" meddai ef, *"yr un fath ar yr ochr Hindŵaidd ag ar yr ochr Foslem."* Ond er gwaethaf hynny, yr oedd yn edmygu ochr foesol y mudiad o blaid ymladd di-drais, a daliai i ddilyn Gandhi hyd yn oed pan fethai gyd-weld ag ef. Dywedodd Mahatma Gandhi ei hun yn blaen: *"Mae'r rhai a ddywed nad oes a wnelo gwleidyddiaeth â chrefydd yn anwybodus o wir natur crefydd."* Yn ôl pob golwg mae llwyddiant India yn cyfiawnhau arweiniad Gandhi.

**Dwy iaith**

Mae rhywbeth arall sydd yn gyffredin i India ac i Gymru er na ddaeth gymaint i'r amlwg yn y cyfarfod yng Nghapel Wood Street, sef problem yr iaith. Pan gafodd ei llongyfarch ar ei meistrolaeth o'r iaith Saesneg cyfaddefodd Mrs Pandit mai Saesneg oedd ei hiaith gyntaf hi. Cafodd ei phlant hefyd y rhan fwyaf o'u haddysg gan Saeson ac Americanwyr, a threuliodd ei brawd, Mr Nehru, lawer o flynyddoedd mewn ysgol a phrifysgol yn Lloegr.

Cawn ragor o oleuni ar y cyflwr rhyfedd gan Mr Nehru yn ei hunanfywgraffiad. Yma disgrifia Mr Nehru ei swildod, yn gynnar yn y Rhyfel Byd Cyntaf, wrth annerch cyfarfod cyhoeddus o'i gyd-wladwyr yn India. Yr oedd newydd ddychwelyd o Ewrop. Teimlodd ei bod yn ddyletswydd arno i beidio â siarad Saesneg, ond, ar yr un pryd, yr oedd yn amau ei allu i'w fynegi ei hun yn drwyadl yn Hindwstani.

Onid yr un math o wrthdaro rhwng yr iaith swyddogol a iaith y galon a deimlir gan gynifer o Gymry ifainc? A digwyddodd hynny mewn gwlad sydd gymaint yn fwy ei maint na Chymru a mwy hyd yn oed na Phrydain Fawr.

Mae'r broblem o foderneiddio'r iaith wedi achosi cryn dipyn o bryder i Mr Nehru. Ceisiodd unwaith sgrifennu Hindwstani gan ddefnyddio'r wyddor Rufeinig. Ond rhoes y gorau i'r ymdrech yn fuan oherwydd ofn y byddai'r llythrennau newydd yn peri rhwystr i bobl adnabod hen lenyddiaeth gyfoethog ei wlad.

Dywedodd Mrs Pandit wrth ei ffrindiau yng Nghaerdydd na allai amgyffred eto ystyr y croeso cynnes a gafodd yng Nghymru. Ond nid yw'n anodd esbonio.

**Neges Mrs Pandit i ni**

*Tŷ India,*
*Aldwych*
*Llundain, W.C.2*
*Mehefin 8, 1956.*

*Annwyl Syr,*

*Mae'n llawenydd gennyf ddanfon gair o gyfarchiad i'r Ddraig Goch.*

*Er mor fyr oedd fy ymweliad â Chymru, cyfoethogodd fi, oherwydd yr oedd yn llawn cynhesrwydd a chyfeillgarwch, a hynny o'r galon.*

*Disgwyliaf yn hyderus am gyfle i ddyfod eto, a chael adnabyddiaeth lwyrach o'ch pobl a'ch pethau.*

*Vijaya Lakshmi Pandit*
*(Uchel Gomisiynydd India).*

*Y Ddraig Goch*, Gorffennaf 1956

# Arian Cymreig

Pa fath o arian sydd ar gael mewn gwlad lle siaredir mwy nag un iaith? Gwelais yn Rwsia bapur arian a'r gair *rŵbel* wedi ei sgrifennu arno bymtheg gwaith mewn pymtheg o ieithoedd gwahanol gan fod pymtheg o weriniaethau wedi eu huno i ffurfio'r Undeb Sofietaidd. Ond y mae llywodraeth Gwlad Belg yn bathu dau fath o ddarnau arian ar wahân: un gydag arysgrif yn yr iaith Fflemeg ac un arall gyda'r geiriau yn yr iaith Ffrangeg.

Yn ôl pob arwydd ni fydd hi'n hir nawr cyn i'r system ddegol gael ei dderbyn gan y llywodraeth Brydeinig. Os digwydd hyn bydd rhaid newid yr arian cochion i gyd. A dyma gyfle hyfryd i'r Cymry hawlio arian arbennig iddynt eu hunain. A pham lai? Y mae stampiau Cymreig ar gael yn barod, ac fe allai arian Cymreig fod o werth ar gyfer masnach y teithwyr hefyd, trwy ledaenu gwybodaeth arbennig am Gymru.

Fe wnaethpwyd ymdrech eithaf da i'r cyfeiriad yma bron ddwy ganrif yn ôl gyda'r arian mân o Sir Fôn. Nid arian y llywodraeth mohono ond 'arian arwydd' (*token money* yw'r enw Saesneg amdano) a fathwyd gan ddynion busnes yn ystod cyfnod byr pan nad oedd digon o arian y llywodraeth ar gael ar gyfer angen y fasnach ddiwydiannol. Yn ystod oes Siôr III, rheolwyr mwynglawdd Prys yn Sir Fôn oedd ymysg y rhai cyntaf i fathu 'arian arwydd'. Yr oedd digon o gopr ganddynt ar gyfer y gorchwyl yn ddiamau.

**Wyneb derwydd**

Ond yr oedd ganddynt weledigaeth arbennig hefyd. Oherwydd yr oedd yr arian newydd yn uniad rhyfedd a llwyddiannus o hen draddodiad a diwydiant modernaidd. Ar gefn y darn ceiniog fe geir llythrennau cyntaf y Parys Mines Company, sef PMC wedi ymblethu yn gelfydd, ac o'u hamgylch y geiriau: *'1787 WE PROMISE TO PAY THE BEARER ONE PENNY'*. Ond ar y tu blaen fe ddangosir, yn lle pen y brenin Siôr III, wyneb Derwydd parchus â barf hir gyda lliain dros ei ben, a'r cyfan mewn cylch o ddail y dderwen. Ac nid ffansi ddychmygol mohoni (ac eithrio'r wisg, hwyrach!) ond atgof am y ffaith hanesyddol i Fôn fod yn gartref ac yn amddiffynfa'r Derwyddon o amgylch dechreuad yr oes Gristionogol. Rydym yn weddol siŵr o hynny gan fod nifer o dystiolaethau ar gael wedi eu sgrifennu gan Rufeinwyr cyfoes.

Y mae Cesar, er enghraifft, yn nodi'r ffaith yn barod (*De Bello Gallico* VI, 13) gan ddywedyd mai ym Mhrydain y dysgodd Derwyddon Gâl (sef Ffrainc) lawer o'u crefft.

**Noddfa Môn**

Ond y mae Tacitus yn rhoi adroddiad cyffrous o oresgyniad Mona (Sir Fôn) gan y fyddin Rufeinig yn AD 61. Gwnaethpwyd hyn am iddi fod yn amddiffynfa i'r Derwyddon ac yn noddfa i'r ffoaduriaid.

> Ar y lan safai byddin y gelynion, tyrfaoedd o wŷr arfog a merched yn rhuthro'n ôl a blaen drwy'r rhengoedd, wedi ymwisgo mewn du fel ellyllon, eu gwallt yn chwifio yn yr awyr a ffaglau'n fflamio yn eu dwylo. O'u hamgylch safai'r DERWYDDON a'u dwylo'n estynedig tua'r nefoedd yn tywallt eu gweddïau'n erchyll (*Annales* xiv, 30).
>
> *(cyf. Owen Jones y Bala – fel y'i nodir yn y llyfr* Crwydro Môn *gan Bobi Jones)*

Y mae disgrifiad Tacitus yn mynd ymlaen gan nodi sut oedd y milwyr, wedi gorchfygu'r dychryn cyntaf, yn ymosod ar y

brodorion a llosgi llawer ohonynt yn fflamau eu ffaglau eu hunain. Wedi'r fuddugoliaeth aethant ati i dorri'r coedwigoedd i lawr oherwydd yno – yn ôl geiriau Tacitus – byddai'r Derwyddon yn aberthu carcharorion er mwyn cael gwybod ewyllys y Duwiau allan o'u perfeddion! (Byddai'r Rhufeinwyr yn gwerthu eu carcharorion fel caethweision ac yn aml yn eu lladd hwy ar y groes neu yn yr arena.)

**Gorsedd y beirdd**

Rhaid cyfaddef nad Cymro a feddyliodd am fathu arian y Derwyddon ond Sais, sef Charles Roe o Macclesfield, masnachwr a oedd wedi prydlesu mwynglawdd Parys yn Sir Fôn. Eto mae'n bur debyg iddo gael ei wybodaeth am y Derwyddon gan Gymro, sef Henry Rowlands, offeiriad Llanidan ym Môn, a sgrifennodd yn 1723 y llyfr *Mona Antiqua Restaurata*; fe ymdriniai'r llyfr â hen hanes y Sir ac â'r Derwyddon hefyd. Y mae'n wybyddus i'r llyfr hwnnw gael dylanwad dwfn ar Iolo Morganwg hefyd a'i ysbrydoli i greu Gorsedd y Beirdd a'r Eisteddfod yn ei ffurf bresennol.

Felly, gadewch inni fynd ati a gofyn am arian sydd wedi ei ysbrydoli gan hanes Cymru … er enghraifft, ceiniogau a phen Derwydd ar eu hwynebau. Y mae'n bosibl. Fe ddigwyddodd o'r blaen.

Fe ddangosir 'arian arwydd' Cymru (o wahanol fathau) mewn arddangosfa arbennig yn yr Amgueddfa, Abertawe, ar hyn o bryd.

*Y Ddraig Goch*, Mawrth 1962

# Hywel Dda a John Voss

Nid yw 'arian arwydd' (*token coins* y ddeunawfed ganrif – y sgwrsiais amdanynt yn rhifyn mis Mawrth *Y Ddraig Goch* – yn cynrychioli'r unig ymdrech i fathu arian arbennig i Gymru. Hyd yn oed cyn dyfod y Normaniaid gwnaethpwyd o leiaf un cynnig hyf i ateb yr un diben. (Diolch i Pennar a Chris am dynnu fy sylw at yr arian cynnar hwnnw).

**Arian Hywel Dda**

Wedi uno Cymru o dan ei reolaeth ac wedi gofalu am gasgliad ysgrifenedig o'i chyfreithiau, fe drefnodd Hywel Dda hefyd i'r Cymru gael arian gydag enw eu brenin eu hunain arnynt, sef ceiniogau o arian gwyn a *HOPAEL REXT* ar yr wyneb. Ar y cefn gwelir *GILLYS,* sef enw cynhyrchydd yr arian, dinesydd o Gaer a fyddai'n bathu arian tebyg i Edred ac Edgar, brenhinoedd Lloegr.

Yn ôl yr hyn a wyddom, fe gynhyrchwyd ceiniogau Hywel Dda yn y cyfnod rhwng y flwyddyn 942, amser gorchfygu Gogledd Cymru, a'r flwyddyn 949, pan fu farw'r brenin. "This wholly abnormal issue" yw barn Oman arnynt yn ei lyfr *The Coinage of England* (t.59). Diolwg braidd oedd y darnau heb na llun y brenin nac addurniadau gafaelgar. Ni ellir gwadu nad yw 'arian arwydd' yn rhagori llawer, o ran prydferthwch, ar geiniogau Hywel Dda. Digwyddodd hyn er gwaethaf y ffaith mai siopwr unigol, yn aml, a fyddai'n gyfrifol am yr 'arian arwydd'. Byddai'n bathu arian gyda'i enw ei hun er mwyn cael pres parod ar gyfer cylchrediad cyfyngedig.

**Arian John Voss**

Fe geir enghraifft drawiadol o arian masnachwr lleol mewn dimai o Abertawe a llun Castell Abertawe arni, o'r flwyddyn mil saith cant naw deg a chwech. Yr oedd siop ddillad John Voss (fe roir ei enw ar gefn y ddimai) ar y sgwâr yn ymyl y castell. Rwy'n ddyledus i Mr D.W. Dykes, Abertawe, am y ffeithiau am fywyd John Voss (ni ddywedir dim byd amdano yn y *Bywgraffiadur Cymreig*) a hefyd i lyfr W.J. Rhys, *Penodau yn Hanes y Bedyddwyr Cymreig* (1949).

Yng Ngŵyr y trigai teulu John Voss (er gwaethaf ei enw dieithr) er 1700. Fe agorodd ei siop yn Abertawe yn ŵr ifanc yn 1788 a datblygu'n ddinesydd cyfrifol. Gydag amser fe ymunodd â nifer o gymdeithasau pwysig fel y gymdeithas *For the Prosecution of Felons*. Yr oedd hefyd yn Fedyddiwr selog, ac erbyn 1814 cawn fod John Voss nid yn unig yn ddilledydd, yn fancwr ac yn argraffydd, ond yn ychwaneg at hynny yn drysorydd i *Seren Gomer,* yr wythnosolyn cwbl Gymraeg cyntaf yng Nghymru … a cholli arian sylweddol yn yr antur.


Pan ddaeth prinder arian mân, fe ofynnodd John Voss i artist adnabyddus, sef Thomas Wyon, gynllunio 'arian arwydd' drosto a chastell Abertawe arnynt. Ni welir y castell o ochr y sgwâr ond o ochr yr afon, gan ddangos *arcades* enwog yr Esgob Gower fel coron ysgafn ar wyneb cadarn y mur.

**Castell Abertawe**

Y mae hanes y castell hwn ar lan afon Tawe fel drych i hanes Cymru gyfan. Gwelodd dipyn o frwydro rhwng y Cymry a'r Normaniaid. Am amser byr darfu i Llywelyn Fawr ei gadw. Fe'i hadeiladwyd yn ei ffurf bresennol fel 'plasdy i esgob' o amgylch 1330 gan yr Esgob Gower, ac y mae'n debyg i'w blasty enwog yn Nhŷ Ddewi. Fe gafodd yr esgob-bensaer ofal o'r castell yn ystod y cyfnod dyrys pan fu Elenora de Mowbray, merch yr Arglwydd de




*Dimai John Voss gyda Chastell Abertawe; ffotograffydd: Carl Stockton, Abertawe.*



*Ceiniog Mwynglawdd Parys, Mon, 1787, gyda phen derwydd.*

Breos, yng ngharchar y Tŵr yn Llundain. Crogwyd ei gŵr cyntaf am wrthryfela yn erbyn y brenin, ond yr oedd yr esgob yn dal i fod yn gyfaill iddo.

O amgylch 1400, fe losgodd Owain Glyndŵr hen ran y castell gan adael plasty'r esgob yn llonydd. Ni welodd Oliver Cromwell ddim ond adfeilion diwerth yno. Yn ddiweddarach fe ddefnyddiwyd y castell fel Neuadd y Dref ac fel carchar ar gyfer methdalwyr.

Yn yr oes bresennol, dim ond ychydig o flynyddoedd yn ôl, rhaid oedd ffurfio pwyllgor arbennig i amddiffyn y castell rhag gelyn newydd, sef Cyngor Tref Abertawe, a gynlluniodd i dynnu'r adfeilion i lawr a gosod car-parc yn eu lle. Ond fe lwyddodd *arcades* yr Esgob Gower i sicrhau noddfa i'r castell gan y Gymdeithas sy'n diogelu hen adeiladau hanesyddol. Cyn bo hir byddwn yn gallu gweld y castell fel y mae ar arian John Voss – wedi ei ryddhau o'r tai brwnt o'i amgylch: un o'r ychydig adeiladau sy'n cysylltu yr Abertawe newydd sbon wedi'r bomio â'i gwreiddiau hanesyddol.

Oedd, yr oedd John Voss yn Gymro o'r iawn ryw: yn fedrus yn gwneud arian, yn hael yn ei grefydd, ac yn falch o hanes ei genedl: dilynydd teilwng, yn ei gynefin ei hun, i'r Brenin Hywel Dda.

*Y Ddraig Goch*, Mai 1962

# Y Pasg yn Vienna

Mewn ychydig dros saith awr aeth yr Orient Express â ni o Munich i Fienna. I'r rhai sy'n cychwyn ychydig yn hwyrach yn y flwyddyn rhoir cyfle i deithio trwy Awstria mewn llong ar afon Donaw o Passau i Fienna, dros gant a hanner o filltiroedd heb gyfrif y mynych droadau yn yr afon.

Rhyfedd yw cofio bod Bafaria ac Awstria wedi perthyn unwaith i'r deyrnas Geltaidd pan oedd honno fwyaf, sef yn ystod yr hanner mil o flynyddoedd olaf cyn geni Crist. Erys enw Fienna yn dyst o'r peth, oherwydd y mae'n tarddu o air Celtaidd sydd yr un â'r gair Cymraeg Gwyn. *Vin/dobona* oedd yr enw Rhufeinig arni a Ven/ia oedd Fienna yn y nawfed ganrif o oed Crist.

O ran maint nid yw Awstria yn llawer mwy na'r Alban, ac ar hyn o bryd y mae dwy filiwn o bobl, sef y drydedd ran o boblogaeth Awstria, yn byw yn y brifddinas. Ond fe gynlluniwyd Fienna fel canolbwynt ymerodraeth. Cyfrannodd pob rhan o'r ymerodraeth i'r gwaith o adeiladu Eglwys San Carlo *(Die Karls-Kirche),* gan gynnwys Sbaen, Yr Iseldiroedd, Hwngaria a Silesia. Cawsom y fraint o ddathlu Gŵyl y Pasg yn yr eglwys hon. Y mae hi yn un o nifer o adeiladau o gyfnod y Baroc sydd yn achos o falchder i'r ddinas. Ond y mae Eglwys San Carlo yn wahanol i bob eglwys arall oherwydd y ddwy golofn rydd sydd yn sefyll tu allan i'r addoldy. Amcan y pensaer wrth eu gosod oedd efelychu'r ddwy golofn o flaen Teml Solomon a elwid yn Jachin a Boas *(I Bren., 7:21)*.

Adeiladwyd yr eglwys gan yr Ymerawdwr Charles VI yn 1713 fel rhodd o ddiolchgarwch am ddarfyddiad y pla, ac fe'i

cyflwynodd i'w nawddsant San Carlo Borromeo.

Y noson cyn Sul y Pasg aethom am dro, y gŵr a minnau, trwy strydoedd tywyll Fienna. Roedd yr eglwysi i gyd ar agor. Er dydd Gwener y Groglith cuddid pob llun crefyddol ynddynt o dan len. Ond tu allan i Eglwys San Carlo cawsom y profiad rhyfeddaf. Yno, yng nghanol y sgwâr o flaen yr eglwys roedd coelcerth fawr – yn debyg i goelcerth Guy Fawkes. O amgylch y tân casglodd tyrfa o ddynion a merched a chanhwyllau yn eu dwylo. Er gwaethaf y glaw mân cynhaliwyd gwasanaeth awyr-agored gan offeiriaid, un yn siarad yn Lladin a'r llall yn cyfieithu pob brawddeg fesul un i'r Almaeneg.

Yn fuan wedyn daeth gorymdaith i fewn i'r eglwys yn cael ei harwain gan offeiriad gyda channwyll wedi ei chynnau ar y goelcerth. Rhoddodd y gannwyll hon oleuni i'r canhwyllau eraill yn nwylo'r bobl ac yn ddisymwth roedd yr eglwys wedi ei goleuo i gyd; symbol hyfryd o'r goleuni a ddaeth i'r byd i geisio ac i gadw. Symbol hefyd o ddeffroad natur.

Ond ni ddisgwyliasom brofi dathliad y Pasg mor ddwys, mor brydferth, mor debyg i ddathliad yr Eglwys Ddwyreiniol. Fe ddaeth hyn fel syndod i ni sydd yn arfer meddwl am y Pasg yn nhermau "Wyau'r Pasg". Cawsom wy y Pasg hefyd y bore canlynol, a hwnnw mewn math o fynsen a roddwyd i ni i frecwast: "Bara'r Drindod" *(Dreifaltigkeits Brot)*, toes wedi ei blethu â chroes yn ei ganol ac wy o liw llachar ar yr ochr.

*Western Mail*, Ebrill 1961

# Taith i Hwngari, gwlad yn y canol

Aeth y gŵr a minnau i Hwngari ar drywydd Isis, y Dduwies Eifftaidd a gafodd deml yno yn y cyfnod Rhufeinig, a rhoddwyd croeso cynnes i ni gan ffyddloniaid eraill Isis ac Osiris. Fe gawsom weld nid yn unig Bwdapest, prifddinas Hwngari, ond hefyd y wlad i gyd o'r naill gwr i'r llall.

Gwlad yn y canol yw Hwngari. Mae Llundain yr un mor bell o Bwdapest ag yw Moscow. Yn yr amser Rhufeinig yr oedd Alecsandria, prifddinas yr Aifft ar y pryd, yr un mor agos â Rhufain. Fe rennir Bwdapest gan afon Donaw yn ddwy ran gyfartal, sef Bwda fynyddog ar y lan orllewinol a Pest wastad ar lan ddwyreiniol yr afon.

### Gwastatir

Y Magiariaid a roddodd yr iaith Hwngaraidd i'r wlad yn y nawfed ganrif o oed Crist. Nid oeddent, fodd bynnag, ond yn un o lawer o genhedloedd a ddaeth o'r dwyrain ar draws y gwastatir sydd yn ymestyn hyd at Asia, i orchfygu'r wlad. Diflannodd yr Afariaid, y Scuthiaid, y Hwniaid a'r Twrciaid ond fe arhosodd yr Hwngariaid.

Fe ellid adrodd llawer am y bobl radlon agos-atoch sydd yn byw yn Hwngari heddiw ac am y creiriau hanesyddol a welsom. Ond fe gawsom rai profiadau hynod wrth chwilio yno, yn ôl arfer y Cymry, am bobl o dras Geltaidd. Un diwrnod rhoddodd Gwyn dipyn o sioc i Erika, sef y lladmerydd a drefnwyd i ni gan y wladwriaeth Hwngaraidd, pan honnodd o flaen plât llawn o gwlash: "Fe ddylwn egluro i chi nad wyf i ddim yn Sais."

Esboniodd wedyn ei fod yn perthyn o ran hil i'r Celtiaid a gyrhaeddodd Hwngari fil o flynyddoedd cyn yr Hwngariaid, a'i fod yn dal i siarad iaith Geltaidd ar ei aelwyd. O'r amser hynny ymlaen dangoswyd i ni lawer o'r hynafiaethau Celtaidd sydd ar gael o hyd yn Hwngari. Yn yr Amgueddfa Genedlaethol Hwngaraidd cawsom sgwrs gyda Dr Eva B. Bonis a oedd newydd ddarganfod gwersyllfa Geltaidd wrth ymyl Bryn Gellert – a gafodd ei enwi ar ôl rhyw esgob Celtaidd yn Bwda.

Dangoswyd i ni lun o'r dduwies Geltaidd Epona rhwng dau geffyl a dwy dduwies Ffrwythlondeb yn debyg i'r 'Matrones' Celtaidd. Clywsom am enwau lleol Celtaidd ac am enwau personol Celtaidd ar gerrig bedd o'r cyfnod Rhufeinig.

Roedd yno ddigonedd o lestri Celtaidd a hyd yn oed o bengoglau o feddau Celtaidd (neu Gelto-Iberaidd). Ond y peth mwyaf trawiadol i mi oedd ffigur bach pres ar ffurf baedd (neu dwrch) gyda blew hir caled fel adain ar ei gefn.

**Twrch Trwyth**

Ac roedd yn fy atgoffa yn gryf am y Twrch Trwyth yn stori Culhwch ac Olwen, y twrch goruwchnaturiol a dinistriol hwnnw a helwyd gan y Brenin Arthur a'i dywysogion o Iwerddon ar draws Cymru a Chernyw i mewn i'r môr. Y twrch yn fwy na dim yw'r anifail sy'n arbennig i'r Celtiaid ac yn symboleiddio eu hoffter o ryfela, o wledda ac o genhedlu.

Rhaid ychwanegu i ni adael rhodd fach i Dr Bonis a'r adran Geltaidd yn Amgueddfa Bwdapest, sef model ffyddlon o gwrwgl Cymreig o'r math a ddefnyddid cyn amser Crist, ac sy'n cael ei ddefnyddio o hyd ar afon Teifi.

*Western Mail*, Gorffennaf 1969

# Darganfod ‘Beirdd Cymru’ yn Hwngari

Y gwreiddiau sy’n bwysig, onide? Mae gan y Cymry wreiddiau dwfn yn eu gwlad eu hunain. Ond mae ganddynt hefyd wreiddiau ar y Cyfandir. Oherwydd oddi yno y cyrhaeddodd y Celtiaid gyda’u hiaith Gymraeg rai canrifoedd cyn dyfod y Rhufeiniaid i’r wlad a’i gorchfygu. Bob tro yr af i’r cyfandir, byddaf yn chwilio hefyd am wreiddiau Celtaidd yno, ac nid yn ofer. Gwelais hynafiaethau Celtaidd yn Ffrainc, yn y Swistir, yn yr Eidal, yn yr Almaen, yn Awstria, ac yn ddiweddar hefyd yn ystod ein hymweliad â Hwngari ddau fis yn ôl. A dweud y gwir, roedd yr Hwngariaid yn fwy effro yn eu hagwedd at y Celtiaid na’r cenhedloedd eraill. Fe ddaeth hyn yn amlwg i mi yn union ar ôl inni gyrraedd Bwdapest.

Roeddwn yn eistedd yn ein fflat newydd, ac yn ymyl eisteddai Susi, ein lladmerydd Hwngaraidd. Roeddem yn aros, y ddwy ohonom, am Gwyn a Laszlo (ein cyfaill yr Athro Laszlo Kakosy) a oedd wedi mynd yn ôl i’r maes awyr mewn tacsi i chwilio am gwdyn teithio a adewais yn adran y tollau. I ddechrau sgwrs, gofynnais i Susi sut y daeth i fod yn lladmerydd. Fe atebodd hi yn rhadlon. Roedd hi’n ferch i feddyg gwlad a oedd yn byw ar y ffin rhwng Hwngari ac Awstria. Ei phrif hoffter a’i phrif ddawn oedd adrodd: adrodd storïau a ddysgasai air am air, i blant ac adrodd barddoniaeth i bobl mewn oed. “Mae bron pawb yn Hwngari,” meddai hi, “naill ai yn ysgrifennu barddoniaeth neu yn ei hadrodd.” Adrodd cerddi epig Hwngari oedd ei hoff orchwyl a gallai fynd ymlaen am dair awr a mwy wrth adrodd arwrgerddi ar ei chof.

**Epig a baledi**

"Pa fath o epig?" gofynnais yn eiddgar. "Un a ddaeth gyda'r llwythau Magiaraidd gyda'r iaith Hwngaraidd fil o flynyddoedd yn ôl?" Neu tybed a oedd yr epig Hwngaraidd yn hŷn hyd yn oed na hynny? "O na," meddai Susi, "fe sgrifennwyd yr epig enwocaf sy gan Hwngari yng nghanol y ganrif ddiwethaf gan genedlaetholwr a ymladdodd – yn aflwyddiannus – dros ryddid Hwngari ac yn erbyn gorthrwm ymerodraeth Awstria." Arany oedd enw'r bardd. Fe sgrifennodd hefyd gylch o faledi gwlatgar a enwodd "Beirdd Cymru". Prif destun y baledi yma oedd cyflwr Cymru ar ôl iddi gael ei darostwng gan y Brenin Edward I. Y stori yw bod Edward wedi gofyn i feirdd Cymru ganu ei glod, fel yr oeddent wedi canu clod y tywysogion gynt. Ond gwrthod a wnaethant. Roedd Edward yn wyllt. Bu yn eu rhybuddio a'u harteithio a'u lladd yn greulon, y naill ar ôl y llall, ond yn ofer. Gwrthod canu clod y gorchfygwr a wnaeth pob un ohonynt. Fe ddaeth y baledi yma'n boblogaidd iawn gan yr Hwngariaid. Oherwydd dim ond drwy ganu am Gymru yr oeddent yn gallu mynegi eu teimladau am yr hyn a ddigwyddodd yn Hwngari, eu gwlad eu hunain. Wrth glywed am greulondeb y Brenin Edward byddent yn meddwl am yr ymerawdwr yn Fienna. Daeth dewrder honedig beirdd Cymru yn ysgogiad i barhau gyda'u hymdrechion yn erbyn galluoedd y gorthrwm.

Daeth arwyddocâd newydd i'r baledi am 'Feirdd Cymru' o ormes Adolf Hitler, pan laddwyd ym mryniau Bwda ddynion dewr a oedd wedi sefyll yn ei erbyn. Gallwn ninnau fod wedi dal i wrando am dair awr ar storïau Susi, ond y funud yna daeth Gwyn a Laszlo yn ôl yn orfoleddus gyda'r cwdyn a gollwyd.

**Olion y Celtiaid**

Beth bynnag, roedd Susi wedi darganfod fy ngheltoffilia i, ac o'r awr hon ymlaen, nid oedd y Celtiaid byth ymhell i ffwrdd oddi

wrth ein llwybrau tra oeddwn yn aros yn Hwngari. Ymysg pethau eraill derbyniais lyfr newydd Hwngaraidd – wedi ei gyfieithu i'r Almaeneg – am 'Olion y Celtiaid yn Hwngari'. Awdur y llyfr yw Miklos Szabo. Edrydd y llyfr hwn sut y daeth y Celtiaid i Hwngari o amgylch 400 CC. Roeddent yn cyrraedd uchafbwynt eu datblygiad yno o amgylch 200 CC, ac fe ddaeth diwedd ar eu dylanwad pan ddaeth Rhufain i orchfygu'r wlad. Ond hyd yn oed yn ystod y cyfnod Rhufeinig byddai'r merched o dras Celtaidd (ond nid y dynion) yn dangos eu gwisgoedd arbennig ar eu cerrig bedd. Daeth Erno Gaal, darlithydd ifanc yn y Brifysgol a oedd yn dysgu Eiffteg ac Asurioleg, atom hefyd gyda llyfr bach a oedd yn trin gweddillion Celtaidd yng ngogledd Hwngari (sef ei ardal enedigol) wedi ei ysgrifennu yn Hwngareg ond â chrynhoad mewn Saesneg ac Almaeneg ynghyd â lluniau. Ac, wrth reswm, dangosid digon o wrthrychau Celtaidd wedi eu trefnu yn atyniadol mewn llu o amgueddfeydd modern ar draws y wlad. "Mae cloddio yn Hwngaria yn debyg i droi tudalennau llyfr am hanes Ewrop," meddai Dr Edit Thoma, ceidwad yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn Bwdapest, wrthym.

**Hen gleddyf**

Drwy dir gwastad Hwngari daeth y llwythau i gyd, fel masnachwyr ac fel concwerwyr, gan ddyfod o'r dwyrain i'r gorllewin ac o'r gogledd i'r de: yr Iluriaid, y Scuthiaid, y Celtiaid, y Rhufeiniaid, y Gothiaid, yr Hwniaid, y Twrciaid, y Magiariaid, yr Awstriaid a'r Almaenwyr. Ond dim ond y Magiariaid gyda'u hiaith anhydrin Hwngaraidd a ddaeth i aros gan greu cenedl newydd, a hynny ryw fil o flynyddoedd yn ôl.

Fe erys ar gof gennyf un digwyddiad arall yr hoffwn ei adrodd. Yn yr amgueddfa yn Veszprem siaradodd y ceidwad â ni am lawer o ddarganfyddiadau archaeolegol a wnaed yn ddiweddar, heb chwilio amdanynt. Dangosodd i ni hefyd gleddyf

Celtaidd gyda charn ar ffurf tebyg i ddyn, cleddyf a ddefnyddid ar gyfer seremonïau urddasol, siŵr o fod. Rhoddodd y cleddyf yn fy llaw ac ni allwn amau ei darddiad Celtaidd, oherwydd fe ddarganfuwyd cleddyf tebyg a chwpan aur ymysg pethau eraill – mewn bedd yn ymyl Stuttgart flwyddyn yn ôl. Roedd y bedd yma'n eiddo i dywysog Celtaidd … ond stori arall yw honno.

### Ôl-Nodyn

Yn ffodus cafwyd trosiad Cymraeg o faled János Arany am feirdd Cymru gan Dr J. Henry Jones: gweler *Cardi o Fôn: Detholiad o Gerddi a Throsiadau* ganddo; golygwyd gan Gareth Alban Davies (Aberystwyth, 1991), 82–86. O flaen y trosiad gloyw ceir rhagarweiniad gwerthfawr gan Marian Henry Jones yn esbonio grym y faled yng nghyd-destun cenedlaetholdeb yr Hwngariaid yn 1856, pan sgrifennwyd y gerdd. Mae hi'n cyfeirio hefyd at drosiad Saesneg Neville Masterman yn ei ysgrif 'The Massacre of the Bards: the Migration of a Myth' *(The Welsh Review,* Gwanwyn, 1948).

*Western Mail,* Ebrill 1979

# Y Celtiaid yn Stuttgart

Daliwyd fy llygaid gan linell a argraffwyd yn fras ar dudalen yr *Evening Post* (27-3-90): *UNIQUE WELSH GERMAN DEAL.* Dilynwyd y geiriau gan hysbysiad bod Dr Lothar Spath, Prif Weinidog Baden-Württemberg, wedi arwyddo cytundeb yn Neuadd y Ddinas Abertawe am gydweithrediad masnachol rhwng Baden-Württemberg a Chymru. Hwyrach nad yw hi ddim yn ddigon adnabyddus yma bod Baden-Württemberg yn ardal o'r Almaen sy'n llawn o gysylltiadau Celtaidd. Yn Stuttgart, prifddinas yr ardal, dangoswyd yn ddiweddar arddangosfa o drysor a ddarganfuwyd ryw ddeng mlynedd yn ôl ym medd y 'Tywysog o Hohenheim'. Roedd hwnnw yn byw ddwy fil a hanner o flynyddoedd yn ôl ar adeg pan oedd tywysogion Celtaidd yn arglwyddiaethu ar hyd ac ar led afon Donaw o'r Fforest Ddu hyd at y Môr Du. Roedd "cytundebau masnachol" rhyngddynt a'r gwledydd cyfagos ar yr adeg arbennig honno, tua 500 cyn Crist. Roedd y cyfoethogion, sef y tywysogion, yn ymffrostio mewn eiddo a gynhyrchwyd yn Etrwria a Groeg a De yr Eidal. Ac yn rhyfeddach fyth, roeddent yn ceisio parhau gyda'r un dull rhodresgar o fyw yn eu beddau.

**Bedd tywysog**

Mae Hohenheim yn agos i Stuttgart. Ac y mae bedd y 'Tywysog o Hohenheim' braidd yn eithriadol am nad oedd neb wedi ymyrryd â'i gynnwys er yr amser pan godwyd twmpath tua deugain metr o hyd uwch ystafell y bedd. Roedd ystafell y bedd (yn ôl arfer y cyfnod) yn ystafell wirioneddol. Pren derw oedd defnydd ei

muriau, ac fe daenwyd carpedi ar eu traws. Roedd y tywysog ei hun yn gorwedd ar wely pres ar olwynion a ffigurau o ddynion noeth yn sefyll ar ganol yr olwynion gan godi eu dwylo i gadw'r gwely i fyny. Dyn nerthol oedd y tywysog, dros chwe throedfedd o daldra, rhwng tri deg a deugain oed. Aur oedd o amgylch ei wddf a'i sgidiau hefyd wedi eu haddurno ag aur.

Roedd ei gleddyf byr o wneuthuriad Celtaidd, a'r carn ar ffurf dyn. Roedd yna hefyd offer hela, sef bwa a saethau ac offer pysgota. Gyferbyn â'r gwely safai'r cerbyd a aeth gyda'r corff i'r bedd o'r castell *(Hochburg),* ac arno harnes ysblennydd y ddau geffyl a'i tynnodd a llestri hefyd ar gyfer naw o ddynion. Wrth ymyl traed y tywysog safai pair o wneuthuriad Groegaidd, un metr o uchder, a thri llew bach yn sefyll ar ei fin. Ond y peth rhyfeddaf oedd cwpan aur a ddarganfuwyd ar waelod y pair: cwpan plaen ar ffurf hanner pelen gydag addurniad syml. Gwelais unwaith gwpan tebyg mewn amgueddfa yn y Swistir. Nid o bell y daeth yr aur, ond, hyd y gwyddwn, fe'i cafwyd o'r afonydd. Hollol unigryw yw'r llun a wasgwyd yn ffurf pwyntiau ar un ochr y gwely, sef dynion yn dawnsio bob yn ddau, a phob un a chanddo gleddyf.

**Trysor**

Pan ddarganfuwyd y trysor, roedd yr ystafell wedi ei gwasgu i lawr gan bwysau'r cerrig a'r ddaear ar ei phen. Dim ond o'r awyr yr oedd modd gweld y cylch yn eglur, tua deugain metr ar ei draws. Roedd angen blynyddoedd o waith i adnewyddu'r cyfan. Ond pan ddangoswyd 'Trysor y Tywysog o Hohenheim' i'r cyhoedd gyntaf yn yr Amgueddfa yn Stuttgart ym 1985, roedd tyrfa enfawr yn aros i'w weld. Roedd yn debyg i'r dyrfa a arhosodd am oriau yn amyneddgar i weld y trysorau o fedd y Brenin Eifftaidd, Twtanchamwn.

Fe ddaeth llawer o arbenigwyr gyda'r Dr Lothar Spath o



*Sgwâr Schiller, Stuttgart*

Stuttgart i Abertawe. A chyn bo hir, yn ôl pob tebyg, bydd llawer o arbenigwyr masnachol yn mynd o Gymru i Stuttgart. Ac os bydd hyn yn digwydd, gobeithio y bydd y Cymry hyn yn mynd hefyd i Amgueddfa Stuttgart i ymweld â'u perthynas, 'Y Tywysog'.

*Evening Post*, Abertawe, 19 Ebrill 1990

# Dwyrain a Gorllewin yn Sweden

## Peth o hanes Cynhadledd yr Eifftolegwyr yn Uppsala

Mae un peth yn gyffredin i Stockholm, prifddinas Sweden, a Buryholm, yr atodiad bach i Fae Rhosili, Gŵyr, sef ail ran eu henwau – HOLM. O Sgandinafia y daeth y gair hwn, sy'n golygu 'ynys fechan'. Mae'n adlais o'r amser pan fentrodd Ficingiaid Llychllyn, yn eu cyrchoedd tuag allan, mor bell i'r Gorllewin ag America, mor bell i'r De â Sisilia, mor bell i'r Dwyrain â Rwsia a'r Wcraen, ac mor bell i'r Gogledd â Greenland. Ym mis Mehefin eleni bûm mewn cynhadledd o Eifftolegwyr yn Uppsala, Sweden, ac roedd y gynhadledd hon yn golygu symudiad i'r cyfeiriad cyferbyniol. Daethai cynrychiolwyr Amgueddfeydd a Chasgliadau Eifftaidd o lawer gwlad yn y Dwyrain a'r Gorllewin, y De a'r Gogledd i gynhadledd yn Uppsala, hen brifddinas Sweden.

Eto roedd yn gyfarfod eithaf cartrefol ei naws. Rhyw ddeg ar hugain o bobl i gyd. Er hynny roedd yn gyfarfod gwir gydwladol a sbardunai'r dychymyg. Roedd miwsig hyd yn oed yn yr enwau: Svetlana Hodjash o Amgueddfa Pwshcin, Moscow; Marie Carmen Perez o Madrid; Viroslav Verner o Praha; Maarten Raven o'r Rijksmuseum van Oudheeden, Leiden; Joachim Karig o Berlin (Gorllewin Berlin); Jadwiga Lipinska o Warsaw, ac eraill o Oslo (Norwy), Mariemont (Belg), Vienna (Awstria), Hildesheim (yr Almaen), Bwdapest (Hwngari), Helsinki (Finland), ac wrth gwrs o Sweden. Roedd tri o Brydain: dau o Gymru (sef Gwyn a minnau) ac un o'r Amgueddfa Brydeinig, Vivian Davies, sy'n frodor o Lanelli.

Y man cyfarfod oedd y Gustavianum, adeilad a leolir yn hardd rhwng yr Eglwys Gadeiriol, adeilad o friciau cochion ar fangre uchel, a Gardd y Brifysgol, sy'n cynnwys meini ag arnynt arysgrifau rwnig. Roedd tyrau uchelfrig yr Eglwys yn gymorth inni gael hyd i'n ffordd o bob cyfeiriad. Mae'r meini rwnig o'r un cyfnod â'r croesau Celtaidd, ac yn eu troadau cylchog ceir negeseuau o'r gorffennol megis:

> FORKUDR A BRUMI A BARODD LUNIO'R GARREG HON ER COF AM IGULFASTR EU TAD.

**Adeilad Nodedig**

Adeilad nodedig yw'r Gustavianum. Fe'i codwyd ym 1625 gan y Brenin Gustavus Adolphus yn arbennig ar gyfer y Brifysgol, a sefydlwyd ym 1477. Un peth hynod yw i'r adeilad hwn gael ei godi ar olion plasty'r Archesgob Catholig yn yr Oesau Canol. Protestant Lutheraidd oedd Gustavus Adolphus, a chymerodd ran yn y Rhyfel Deng Mlynedd ar Hugain, gan oresgyn rhan o'r Almaen. Balchder neilltuol yr adeilad yw ei chromen, a ychwanegwyd yn ddiweddarach heb ofalu'n llwyr am gydweddiad mewn arddull. Mae'n cynnwys y Theatr Anatomegol enwog ar gyfer darlithiau mewn meddygaeth. Yno, ar y gwaelod yn deg, y mae'r bwrdd datgymalu. Heddiw mae prif adeilad y Brifysgol mewn man arall, ond heb fod ymhell. Mae'r Gustavianum o hyd yn bwysig, er hynny – ynddo cedwir casgliad o hynafiaethau Nordig – a hefyd Amgueddfa o Hynafiaethau Eifftaidd, Amgueddfa Victoria.

Ein gwesteiwr oedd Rostislav Holthoer, Cyfarwyddwr y Sefydliad Eifftolegol, personoliaeth liwgar sy'n rhannu ei amser rhwng Uppsala a Helsinki, gan dreulio dyddiau'r wythnos yn Sweden gyda'i waith a'r Sul yn Ffinland gyda'i deulu. Mae ganddo ddiddordeb dwfn nid yn unig yn yr Hen Aifft ond hefyd yn hanes cynnar Sweden. Bu'n traethu wrthym ar y pwnc olaf

gyda gwir frwdfrydedd. Mae fy llun ohono yn ei ddangos yn Gamla Uppsala, Hen Uppsala, ar lechwedd un o'r twyni lle y claddwyd y tri grymusaf o frenhinoedd Sweden yn y cyfnod paganaidd, tua phymtheg can mlynedd yn ôl. Yma hefyd yr esgorwyd ar 'Weriniaeth Sweden'. Bu teml baganaidd yma, ac yma y cafodd Archoffeiriad y Sveaer (y Swediaid) ei fedyddio ym 1008 o Oed Crist.

Daeth Rostislav Holthoer ar y Sadwrn, yr ail o Fehefin, i'n cyrchu yn ei gar o Faes Awyr Stockholm (Arlanda) hyd at Hostel y Myfyrwyr. Mor falch oedd, meddai, inni ddod â heulwen gyda ni ar ôl cyfnod o law. A thrwy'r amser y buom yno parhaodd heulwen a ffurfafen las, ond nid lawer yn hwy wedyn, yn ôl a glywsom wedyn. Rwy'n cofio'n arbennig arogleuon y lelog ym mhob man. Fy nhasg neilltuol i oedd 'Cyflwyno ein Hamgueddfa' â geiriau a lluniau, fel rhan o gyfres. Ac wedi gorffen y dasg hon roeddwn yn rhydd i gymharu nodiadau ag eraill, yn arbennig adeg coffi yn Ystafell Seminar y Sefydliad Eifftolegol.

**Cyfathrach Lon**

Wrth edrych drwy'r lluniau a dynnais ar y pryd gwelaf fod un yn adlewyrchu'r awyrgylch cydwladol hamddenol ei naws: mae'n dangos Gwyn yn cydchwerthin â chynadleddwyr o'r Dwyrain a'r Gorllewin; ar y naill ochr iddo y mae merch o bryd tywyll, Dr Jadwiga Lipinska, o Amgueddfa Genedlaethol Pwyl yn Warsaw, ac ar yr ochr arall y Swedes oleubryd Barbro Hafström ('Barbro Llif-y-môr'), ymchwilydd yn Sefydliad Eifftolegol Uppsala. Merch o barabl mwyn yw Barbro, a chymerodd arni'r dasg o ofalu amdanom, yn enwedig pan fyddai problem iaith wrth archebu bwyd a diod neu wrth alw am dacsi i fynd i'r orsaf. Yn gyffredinol, y Saesneg a'r Ffrangeg oedd yr ieithoedd a ddefnyddid yn y gynhadledd. Roedd hawl i ddefnyddio'r Almaeneg, ond nid fel iaith swyddogol ar ôl i gyfaill o Holand, Dr

Hans Schneider, wrthwynebu hynny (gan adleisio, hwyrach, y teimladau yn erbyn yr Almaen a ddeilliai o'r Ail Ryfel Byd yn yr Iseldiroedd). Ar y llaw arall, roedd ein hen gyfaill Edith Varga o Bwdapest, ar ganol sgwrs Almaeneg gyda ni, yn barod i droi'n sydyn i Hwngareg er mwyn siarad â'r cyfaill Miron Citó o Rwmania. Yn nes ymlaen esboniodd Edith i ni fod Miron yn dod o ardal yn Rwmania a fu'n perthyn gynt i Hwngari ond a dynnwyd oddi wrthi gan gytundebau heddwch. Roedd ef yn falch iawn o'r cyfle i siarad Hwngareg unwaith eto.

Yn naturiol roedd pob cyfle i drosglwyddo negeseuau rhwng Dwyrain a Gorllewin. Rhoddais innau neges i Svetlana Hodjash (Moscow) am ei chyfaill Bernarda Perc o Iwgoslafia. Ym 1982 buom mewn cyngres debyg yn Toronto, ac yno roedd Svetlana a Bernarda yn rhannu ystafell. Ond ym mis Mai y llynedd bu farw Bernarda o'r cancr. Sylwais fod Alessandra Nibbi, o Rydychen, wedi cyhoeddi teyrnged iddi, ac yno bu'n sôn am yr anawsterau aml a wynebai fel 'yr unig Eifftolegydd proffesiynol yn Iwgoslafia'. Rhoddais gopi o'r deyrnged hon i Svetlana i'w darllen. Gafaelodd yn awchus ynddi – ac fe'i cadwodd.

Er mai yn Uppsala, hen brifddinas Sweden a chartref ei phrifysgol hynaf, y cynhaliwyd y gynhadledd, treuliwyd y diwrnod olaf yn Stockholm, y brifddinas newydd. Bu ymweliad yno â'r *Medelhavsmuseet,* Amgueddfa Hynafiaethau'r Môr Canoldir a'r Dwyrain Agos. Yn ddiweddar cafodd y casgliad hwn adeilad newydd a'i gwnaeth yn bosibl i ddeunydd o'r Aifft a Groeg a Chupro s ac Irân gael eu cynnwys yn yr un amgueddfa. Cawsom groeso gyda ffestys gan Gyfarwyddwr yr Adran Eifftaidd, Bengt Peterson, a chan ei briod Beata George (sy wedi cadw ei henw gwreiddiol yn ôl y ffasiwn Swedaidd). Wrth giniawa bûm yn siarad â Beata am ei hefrydiau yn Tübingen lle buom ninnau hefyd ychydig flynyddoedd yn ôl. Tynnais lun ohoni yn eistedd wrth droed cerflun Groegaidd.



*Prif adeilad yr hen Brifysgol, y Gustavianum, yn Uppsala*



*Dydd Gŵyl y Genedl yn Uppsala: merch mewn gwisg genedlaethol.*

Yn hwyr yn y prynhawn aeth bws â ni'n ôl i orsaf Uppsala. Bûm yn cwyno mymryn am fod rhaid cerdded yn ôl, wedi diwrnod egnïol, i Hostel Racker-backen dros yr afon a thrwy'r dref a heibio i'r Eglwys Gadeiriol. Ond pan ddaethom at yr Eglwys tua chwech o'r gloch, digwyddodd rhywbeth a barodd imi anghofio fy nhraed blinedig yn llwyr. Yno, o flaen yr Eglwys, roedd tyrfa yn cadw gŵyl a llawer o'r merched mewn gwisgoedd cenedlaethol yn perthyn i'r amrywiol ardaloedd. Roedd band pres mawr a baneri lliwgar yn ymyl yr Eglwys. Daeth merch mewn gwisg ysblennydd ataf a rhoi pamffledyn i mi gyda gwên. Yn brydlon am chwech dechreuodd y dathlu – *HOGTID P A SVERIGES NATIONALDAG*, 'Dathliad Dydd Cenedlaethol Sweden'. Bu codi a chwifio baneri, bu'r band yn canu, bu'r Archesgob Bertil Werkström yn traddodi anerchiad byr yn syth o flaen drws yr Eglwys. Ac yna bu canu unsain ar yr Anthem Genedlaethol:

*Du gamla, du fria,*
*Du fjaallöga Nord.*

Ti yr hen, Ti yn rhydd,
Ti yr uchel-fynyddig Nord.

Mae'r gân yn gorffen, *Byddaf fyw, byddaf farw yn y Nord*. Holodd Gwyn pam nad oedd y gair *Sverige,* Sweden, yn y gân, dim ond *Nord,* y Gogledd-dir. Mae'r ateb yn annisgwyl: pan sgrifennwyd y gerdd hon yn y ganrif ddiwethaf, roedd Norwy o hyd yn rhan o Sweden. Cafodd Norwy ymreolaeth lawn ym 1905. Ie, gwlad rydd yw Sweden, ac un sy'n barod i hyrwyddo rhyddid i eraill. Dim ond am bum diwrnod heulog y buom yn Sweden y tro hwn. Roedd y dyddiau er hynny yn gynnes hefyd gan heulwen y wir gyfathrach gyfeillgar rhwng pobl o genhedloedd y Dwyrain a'r Gorllewin.

*Barn* 1984, 396–9

# Pryd Gwerinol ym Moscow

Ym Moscow y mae'n rhaid i bob ymwelydd gymryd ei fwyd i gyd mewn gwesty 'Intourist' sgrifennodd cynrychiolydd 'Intourist' ataf o Lundain. "Cewch ddigonedd o fwyd am y pris." A phris hallt yw hwn mewn gwesty a gedwir yn arbennig ar gyfer estroniaid.

Nawr 'te, fy nghas beth i yw 'gorfod bwyta'. Ond gorfod bwyta prydau moethus ar amserau anghyfleus mewn gwlad gomiwnyddol, dyna beth gwrthun! Sgrifennais yn ôl a gofyn tybed a oedd modd o gwbl i gael ambell bryd mewn caffe bach gyda'r brodorion.

Toc derbyniais ateb llym a phendant: "Rhoddwyd y cyfarwyddyd i ni," meddai, "nad yw'r tai bwyta bychain yn gyfartal â safon uchel gwestai 'Intourist'. Ni ellir eu cymeradwyo i ymwelwyr estron."

### Hoffter

Felly yn wir! A'm hoff beth i, wrth deithio, yw bwyta gyda'r brodorion ac fel y brodorion: bwyta *macaroni al pomodoro* mewn *trattoria* wrth ymyl y Fatican yn Rhufain neu archebu *Apfel-strudel* mewn caffe yn Fienna … gan fwynhau'r awyrgylch a'r bobl yn fwy hyd yn oed na'r bwyd.

Pan gyraeddasom ym Moscow roeddwn yn benderfynol na chawn fy moddhau â'r bacwn-ac-wy-a-chig-a-thatws ystrydebol cydwladol. Mewn ffordd, roeddwn yn lwcus o'r dechrau. Nid oedd ein prydau yng ngwesty'r Brifysgol – cawsom aros mewn llety efrydwyr – heb naws Rwsiaidd, e.e. unwaith fe ddechreuodd

ein brecwast gyda Yogurth a siwgwr, ac i swper, yr un dydd, cawsom hufen sur *(smetana)* a siwgwr.

Roeddem yn rhydd hefyd, y gŵr a minnau, i fynd am dro wrthym ein hunain fel y mynnem. Daeth ein cyfle i fwyta gyda'r werin wedi i ni ymweld ag eglwysi hynafiaethol y Cremlin yng nghanol y dref. Yr oedd arnom angen garw am gwpaned o de neu goffi ac yn fwy na dim am seibiant a lle i eistedd. Wrth edrych o'n hamgylch ar y 'Sgwâr Goch' nid oedd dim byd tebyg i gaffe i'w weld, dim ond stondinau yn gwerthu sudd coch. I ble tybed y byddai'r llu o wragedd a dynion mewn dillad plaen yn mynd am damed o fwyd? A'r gweithwyr yn y Metro ac ar y bws? A'r ymwelwyr o'r wlad a fu gyda ni yn edmygu gwyrthiau'r brifddinas?

Wedi crwydro a blino mwy fyth gwelsom, o'r diwedd, mewn stryd gefn, ddrws tŷ bwyta yn agor at yr heol. Aethom i mewn i ystafell hir lwydaidd a thipyn o stwco ar y nenbren. Roedd yno giw o bobl yn helpu eu hunain mewn caffeteria, a cherdded ymlaen wedyn hyd at ran bellaf yr ystafell.

Dewisodd y dyn o'n blaen dri wy a bara i swper. Fe gawsom ni de lemon a rhyw fynsen arbennig iawn wedi ei stwffio â hadau pabi. Dau rwbl yr un oedd y pris … tua dau swllt.

Brodorion oedd y bobl o'n hamgylch, yn ddiamau … ond – ond – nid oedd yno yr un lle i eistedd! Roedd pawb yn sefyll wrth fyrddau uchel ac yn bwyta ar eu traed. Ac wedi bwyta aethpwyd yn ddi-oed at y drws a thalu cyn gadael.

**Dan y coed**

Cawsom brofiad llawer mwy boddhaol ryw dro arall ym 'Mharc Gorci ar gyfer Diwylliant a Gorffwys' sydd hanner ffordd rhwng y Brifysgol a'r Cremlin.

Lle difyr iawn yw'r parc hwnnw, yn dwyn ar gof i ni weithiau 'Barc Tivoli' yng Nghopenhagen. Gwelsom ynddo arddangosfa o

ddarluniau gan artistiaid o dan un ar hugain ac arddangosfa wyddonol am y Spwtnic. Fe geir yno lyfrgell i'r ifainc a lle i hen ddynion chwarae domino a gwyddbwyll; y mae yno Sioe Ffasiwn i'r merched a theledu awyr-agored gyda'r gair 'Amynedd' wedi'i sgrifennu uwchben y sgrin. Ac fe geir hefyd nifer o dai bwyta.

Er gwaethaf y glaw mân cawsom le i eistedd yn yr awyr agored yng nghanol coed, o dan ymbarél mawr a digon o hamdden i yfed cwpaned o goco (gan nad oedd coffi ar werth). Wrth ein hymyl eisteddai teulu bach a rannai fasned lawn o gawl trwchus – o'r math sydd yn boblogaidd iawn yn Rwsia – a digon o fara.

Safai potel o win Georgia ar fwrdd arall lle'r oedd nifer o ddynion yn cyfathrachu. Wedi gorffen y gwin a'r bwyd cafodd dyn ifanc anhawster gyda thalu. Gwylltiodd y weinyddes a galw am y rheolwr. Siaradodd y rheolwr yn bendant iawn a gyrru'r gogyddes i fynegi ei barn. Daeth y gogyddes, menyw fawr flonegog, at y bwrdd a sgrechian a symud ei breichiau'n wyllt: gwenodd y bachgen yn ostyngedig amyneddgar. Roedd y bwyd ynddo, ac nid oedd digon o arian ganddo.

Aeth i ffwrdd yn dawel iawn. Dychwelodd y menywod at eu gwaith. Oeddem, roeddem wedi bwyta gyda'r brodorion, gyda chyd-wladwyr Gogol, a Dostoeffsci … a Chrwstsieff.

*Y Cymro*, Ionawr 1961

# Gomer Jones mewn Ffilm Rwsiaidd

Wrth weld cwmni ar ôl cwmni o dwristiaid yn mynd i Rwsia i gael cipolwg ar bobl Rwsia yn eu gweithdy, rwyf wedi bod yn synfyfyrio, tybed sut mae'r ymwelwyr yn ymddangos i lygaid y brodorion? A ydynt yn codi cenfigen, oherwydd eu rhyddid i deithio? A ydynt yn derbyn dirmyg fel cyfalafwyr hunanol? Neu tybed a ydynt yn wrthrych chwerthin yn unig? Mae'n siŵr nad oes neb mor chwerthinllyd â dieithryn sy'n methu ei fynegi ei hun yn iaith y wlad (pa un bynnag y bo).

Fe ddaeth y syniad o ddangos 'Twristiaid yn y SSSR' hefyd i'r cynhyrchydd ffilmiau, Grigori Alecsandroff, tra oedd yn chwilio am destun cyfoes i'w ffilm nesaf. Ac wedi ystyried, defnyddiodd y syniad yn ei ffilm ffarsaidd – 'Souvenir o Rwsia!' Roedd hyn, gyda llaw, yn y cyfnod Sofietaidd.

## Llunio ffars

Yn wreiddiol, yn ôl pob tebyg, ei fwriad oedd dangos yr ymwelwyr ar eu taith trwy Rwsia benbaladr a dangos y wlad fel y mae yn wirioneddol. Ond cyn bo hir iawn gadawodd lwybr cul y gwirionedd ac yn lle hynny lluniodd ffars yn null Norman Wisdom. Yn y ffilm, mintai od iawn yw'r estroniaid. Yn eu mysg y mae'r Contessa Pandora Montesi o'r Eidal; ysgolhaig diwinyddol o Gaergrawnt; y masnachwr cyfoethog Edlai Scott; y meddyg Dr Adams; y cerddor o Ffrainc, Girard; a hefyd y newyddiadurwr Gomer Jones. Eu harweinydd a'u lladmerydd yw'r ferch Rwsiaidd Barbara Komarofa.

O'r cychwyn cyntaf y mae popeth yn mynd yn draed moch.

Mae'r awyren yn troi bol-i-fyny mewn storm a'r ymwelwyr gydag ef; daw anturiaethau wedyn ar ben mynyddoedd, mewn afonydd dwfn, ac mewn gwledydd pell. Mae heliwr yn eu saethu i lawr o'r nefoedd ac excavator yn eu symud nhw yn anfodlon. Un uchafbwynt yw'r noson helbulus pan oedd arth yn codi o dan wely ac yn llyfu wyneb y cysgwr.

Mae'r twristiaid yma yn curo ei gilydd ac yn caru ei gilydd. Mae popeth, fodd bynnag, yn diweddu'n hapus; mae'r arwyr yn dychwelyd yn flinedig ond yn fodlon. Roedd eu taith wedi gweithio fel cyfrwng i buro eu moesau: fe wrthyd y Contessa serch y Dr Adams creulon a dewis fel darpar-briod y cerddor o Ffrainc. Mae'r ysgolhaig o Gaergrawnt yn dod i ddeall y daioni sydd yn y gomiwnyddiaeth ddi-Dduw. Ni all y masnachwr ddweud yr un gair drwg am yr Undeb Sofietaidd er gwaethaf ei brofiadau sioclyd. A Gomer Jones? Mae ef, druan, dros ei ben a'i glustiau mewn cariad â Barbara, ac yn benderfynol o sgrifennu llyfr ffeithiol am yr Undeb Sofietaidd.

**Cwyno am ffwlbri**

Beth tybed yw agwedd yr awdurdodau Sofietaidd tuag at ffilm ffansi o'r fath? Nid ydynt yn rhy hapus … yn ôl y feirniadaeth a roddir am y ffilm yn *Crocodil*, wythnosolyn tebyg i *Punch* neu *Private Eye* neu *Lol*. Maen nhw'n cwyno am y cynhyrchydd oherwydd iddo roi melodrama a ffwlbri yn lle cadw sylfaen o wirionedd ffeithiol. Roedd Gogol, wrth gwrs, yn feistr ar y grefft o uno ffaith a gwatwareg yn ei gomedi *Yr Inspector*, a chwaraewyd yn ystod yr wythnos ddrama yn Abertawe.

Mae beirniad *Crocodil* yn gofyn yn llym, 'Sut yn y byd yr oedd y twristiaid hyn yn llwyddo i gael amser a chyfle i ddod i gyswllt â sosialaeth wirioneddol?' Eto, mi dybiaf i, nid dangos y realaeth sosialaidd oedd gwir amcan y cynhyrchydd, ond dianc oddi wrthi: dianc drwy chwerthin am ben yr estroniaid yn

gwneud cant a mil o bethau ffôl, hyfryd o ffôl.

Dyw'r cynhyrchydd ddim yn gofidio yr un daten am sosialaeth ddiriaethol. Gadewir y dasg hon, ar ddiwedd y ffilm, i Mr Gomer Jones.

### Ôl-Nodiad

Sgrifennais ragor am y cylchgrawn *Crocodil* yn fy llyfr *Trem ar Rwsia a Berlin* (Gwasg Gomer, 1962), Pennod XVI.

# Bonn ar y Groesffordd

*Bu'r awdur yn bwrw tymor gyda'i phriod ym Mhrifysgol Bonn. Cynhwysir yn yr erthygl hon ychydig o sylwadau ar y bywyd gwleidyddol ym mhrifddinas yr Almaen Orllewinol.*

Bonn, dydd Llun, 20 Hydref 1969. Bore delfrydol, y ffurfafen yn las, yr haul yn pefrio drwy ddail amryliw y mynych goed ac ar y blodau melyn yn ymyl y ffynnon lle bydd bechgyn hirwallt mewn gwisgoedd ffansi yn ysmygu ac yn gwerthu hashish. Ar y borfa codwyd nifer o bosteri etholiadol mawr a ychwanegai at liwiau'r hydref.

Ychydig cyn deg o o'r gloch roedd y gŵr a minnau'n cerdded yn hamddenol o'r *Baumschul-Allee* i gyfeiriad y Brifysgol agos pan glywsom yn sydyn sŵn clychau'r Eglwys Lutheraidd yn canu ac yn galw at y gwasanaeth. Wrth agosáu at y 'Kreuzkirche' (Eglwys y Groes) gwelsom ddynion y polîs gyda chapiau gwynion yn cyfeirio nifer o gerbydau mawr du – *Mercedes* bob un – ar eu ffordd i'r Eglwys drwy'r glwyd hyd at ddrws yr Eglwys, y naill ar ôl y llall, a nifer o ddynion mewn siwtiau du yn esgyn ac yn aros ychydig ar y borfa cyn cerdded i mewn.

"Beth sy'n mynd ymlaen yno?" gofynnodd Almaenes imi. "A oes angladd tybed?"

Wedi bod yn yr un Eglwys y diwrnod blaenorol, cofiais yn sydyn hysbysiad perthnasol gan y pregethwr. "Na, does dim angladd," meddwn wrthi, "maen nhw'n cynnal gwasanaeth ar gyfer cyfarfod cyntaf y Senedd newydd."

Ond, o ailfeddwl, i rai o'r Almaenwyr, yn ddiamau, roedd hi'n angladd y wladwriaeth dadol ddiogel a ddarparwyd iddynt

ers ugain mlynedd bellach gan arweinwyr y C.D.U. (yr Undeb Cristnogol Democrataidd).

**Dyn unig**

Tua phum munud cyn deg, arhosodd car Mercedes arall o flaen y glwyd, ac allan ohono daeth dyn canol oed o daldra gweddol gyda gwallt tywyll cwta, a cherdded wrtho'i hun ar draws y borfa a'i ddwylo wedi eu plethu ar ei gefn. Ger drws yr eglwys roedd ffotograffwyr yn barod i dynnu llun Willy Brandt a oedd, y funud honno, yn ddiamau, yn un o'r dynion mwyaf unig yn yr Almaen. Dyn yw ef a brofodd ei hun yn barod fel Maer Berlin Gorllewinol ac fel Gweinidog Tramor o dan Kiesinger. Fe wyddai mai o'r diwrnod hwn ymlaen byddai gallu ganddo, yn ôl pob tebyg, i ddylanwadu ar ffawd ei genedl a thrwy hynny ar ffawd y byd.

Nid yw'n sicr eto a fydd yn llwyddo i dynnu at ei gilydd y ddwy Almaen a rennir ar hyn o bryd gan y Llen Haearn; y mae gobaith, beth bynnag, y bydd y genhedlaeth newydd o bobl ifainc yn teimlo'n llai gwrthryfelgar tuag ato na thuag at Kiesinger, ac mae'n sicr mai drwy ei lwyddiant y daeth trobwynt yng ngyrfa'r Almaen. Er enghraifft, ni bydd modd bellach i aelodau seneddol fynd ar wyliau hir, fel o'r blaen; dim ond mwyafrif bach sy gan Brandt, ac o hyn ymlaen bydd cyfrifoldeb llesol gan bob aelod seneddol fel unigolyn oherwydd bydd ei bresenoldeb neu ei absenoldeb yn gallu troi penderfyniadau o bob math.

Dilynais Brandt i mewn i'r Eglwys a synnais wrth glywed pregeth hollol berthnasol i'r achlysur a'r pregethwr yn cymharu 'bara'r bywyd' â'r bara materol diogel a addawyd i'r wlad gan y C.D.U. (y Toriaid Almaenaidd) yn eu harwyddair etholiadol '*Sicher in die Siebziger Jahre*' (Yn saff yn y saithdegau!). Cynghorai'r blaid lywodraethol a'r wrthblaid i gofio mai gwasanaeth ac nid ennill goruchafiaeth yw eu prif waith.

Y diwrnod canlynol llwyddais hefyd i gael sedd gyda'r

ymwelwyr yn y Bundeshaus a bod yn bresennol yn ystod seremoni fer pan oedd gweinidogion y wladwriaeth newydd yn tyngu llw o ffyddlondeb.

**Berlin a Bonn**

Ers ugain mlynedd bellach y mae Bonn wedi cymryd lle Berlin fel prifddinas yr Almaen Orllewinol. Ac ar draul Berlin y mae'n dal i gynyddu ond heb ddod eto i'w llawn dwf. Fe godwyd adeiladau tra modernaidd yn ymyl 'Pont Kennedy' (y bont newydd ar draws afon Rhein) megis Neuadd Beethoven a Theatr y Ddinas. Ar lan yr afon hefyd y mae nengrafwr newydd ei godi yn uchelgul yn ymyl y Senedd-dy. Fe'i gelwir *'Der lange Eugen'* (Eugen Dal) gan y werin: ynddo bydd holl swyddfeydd y wladwriaeth yn dwt gyda'i gilydd. Mae ei faint yn cystadlu â'r bryniau tu cefn iddo: symbol gwrywaidd haerllug.

Ond fe gadwyd hefyd nifer o'r hen adeiladau hardd o'r ddeunawfed ganrif fel y Brifysgol a Neuadd y Ddinas gyda'u ffurfiau cain a'u lliwiau siriol. Ac mae naws yr hen fyd yn parhau yn y farchnad ffrwythau awyr-agored ac ym marchnad y blodau. Wrth syllu yn fwy craff gwelir hefyd olion eraill yn deillio o'r rhyfel: Carreg Goffa ar gyfer chwe chant o drigolion y ddinas a erlidiwyd ac a laddwyd gan y Natsïaid; arysgrifau yn y Münster (y brif Eglwys Gatholig) ac mewn mannau eraill sy'n dwyn ar gof y dinistr a weithredwyd gan ymgyrchoedd awyr ym mis Rhagfyr 1945; a chlwyfedigion yn disgwyl am elusen tu allan i'r siopau mwyaf moethus.

Ni allaf anghofio chwaith hysbysiad yn y Suchsdienst (y Gwasanaeth Ymchwil) yn y Brifysgol sy'n cynnwys llu o ymholiadau gan bobol ifainc dros ugain oed, yn debyg i hyn:

> '05372 (llun dyn ifanc): Yr enw yn anhysbys. Rhagenw o bosib Helmut. Ganwyd o amgylch 1941. Llygaid brown, gwallt tywyll. Bu'n byw yn gyntaf gyda'i fam ar fferm, wedyn mewn gwersyll i

ffoaduriaid yn Petulice. Dywedir i'w dad gael ei saethu gan filwyr.'

Bydd hysbyseb o'r fath yn tynnu llen ar y trasiedïau personol a ddigwyddodd ar y pryd pan symudodd byddin Hitler i gyfeiriad Pwyl a Rwsia.

**Yr ochr draw**

A siarad am arwyddion â naws wleidyddol. Gwelais mewn sinema yng nghanol hysbysebion siopau lleol symbol rhyfedd: dau gylch yn cydio yn ei gilydd ac anogaeth odanynt: "peidiwch â llacio! Mynnwch gadw'r cysylltiad â'r ochr draw." Wedi hynny sylwais ar lawer o arwyddion o'r un fath yma ac acw. Gwyddwn wedyn fod neges gan y symbol i fi hefyd. Oherwydd yr ochr draw *(drüben)* yw'r Almaen tu hwnt i'r Llen Haearn, ac fe ddylwn innau fod yn parhau'r cysylltiad â'm cydnabod yno.

Eto mae'n rhyfedd sut mae Berlin hefyd yn dymuno cadw cysylltiad â Bonn, a hynny mewn dull diwylliannol. Fe welsom berfformiad o ddrama gan Brecht (*Baal*) wedi ei hactio yn Bonn (Bad Godesberg) gan gwmni drama o Berlin. Mewn gwirionedd dyma'r seithfed flwyddyn yn ddilynol i'r hen brifddinas gynnal wythnos o ddramâu yn y brifddinas newydd.

Darllenais fod 20% o leiaf o boblogaeth Bonn wedi dod yma o'r Dwyrain ar ôl y rhyfel – dywedodd gwraig ein llety wrthyf: "Rwy'n adnabod eich acen. Rydych yn dod o'r un ardal â minnau, sef Sachsen-Anhalt." A hynny heb sôn am y myfyrwyr sy'n amlwg ym mhob man drwy eu taldra corfforol.

Ond y mae yma ran o'r boblogaeth sydd yn byw eu bywyd traddodiadol er gwaethaf yr holl gyffro. Ni chymerais sylw ohonynt hyd nes i mi weld gorymdaith er cof am Sant Martin, tuag amser calan gaeaf: miloedd o blant yn cerdded fin nos drwy strydoedd y brifddinas gyda sain cerddoriaeth gain, a lampau o'u gwneuthuriad eu hunain yn eu dwylo, a phob traffig yn aros er

eu mwyn. Pawb yn cydweithio yn werinol a democrataidd; popeth wedi ei drefnu'n ofalus; pawb yn hapus. Ond stori arall yw honno.

*Barn*, Ionawr 1970

# Sgwrs gyda gwleidydd yn Nulyn

Wrth fynd i Iwerddon eleni (1957) fy mhrif amcan oedd gweld New Grange, un o gromlechi enwocaf y byd a godwyd dros dair mil o flynyddoedd yn ôl. Llwyddais yn yr ymdrech gyda chymorth caredig cyfeilles o Ddulyn gan weld llawer o leoedd hanesyddol eraill ar y ffordd i'r man anghysbell lle saif y bedd-adeilad, a thybiais imi dderbyn mwy na'r hyn a ddisgwyliais.

Ond digwyddodd un peth wedyn a achosodd imi anghofio Tara a Monasterboyce a Mellifont a gwyrthiau yr hen hanes i gyd, canys mi gefais air â dyn a wnaeth fwy na neb i adeiladu yr Eire sydd heddiw ac a fydd yfory. Cymerodd fy nghyfeilles fi i weld De Valera neu Dev fel y gelwir ef mewn ffurf agos-atoch gan y genhedlaeth ifanc. Yr oedd y Pasg yn agos ond yr oedd y *Dáil Eireann* (y senedd) yn brysur o hyd. Felly yr unig obaith o weld De Valera – os ei weld o gwbwl – oedd trwy fynd i Leinster House lle bydd y *Dáil* yn eistedd.

Gwaetha'r modd nid oedd amser i wneud trefniadau ymlaen llaw. Mae Leinster House yng nghanol y ddinas rhwng yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae'r sgwâr o flaen yr adeilad a grisiau yn arwain i fyny at lwyfan gwag a blodau wrth ei ymylon lle buasai yn yr hen amser gerflun o'r frenhines Victoria. Ein bwriad oedd mynd i mewn i Leinster House yn syth ond galwodd porthor ni yn ôl at ei fwthyn gerbron y glwyd. Nid oedd hawl i fynd i mewn ond i'r rhai a chaniatâd ganddynt. Wrth lwc yr oedd fy nghyfeilles yn un na fedrwch ei gwrthod yn hawdd. Siaradodd o'r bwthyn dros y teleffôn. Gofynnodd a oedd Donn Sigerson Piatt yn bresennol, a oedd

ysgrifennydd De Valera yn bresennol, a oedd De Valera ei hun yn bresennol. Oedd, yr oedd De Valera yn bresennol ac yn fodlon i'n gweld.

Cyn bo hir cawsom gerdded ar draws carped a phatrymau Celtaidd arno. Daeth cyn-weinidog Materion Tramor heibio. Onid hwn oedd y dyn yr ysgrifennodd Yeats lythyrau caru at ei fam? Ie. Wrth eistedd mewn ystafell aros clywais stori am Cathleen O'Connell, hen ysgrifenyddes De Valera a oedd yn sâl ar y pryd. Buasai yn gweithio'n ymroddgar dros De Valera er 1916.

Toc, agorwyd ystafell breifat arweinydd yr wrthblaid i ni. Ar ochr draw y bwrdd hir eisteddai dyn tal a'i wallt tywyll heb fritho llawer. Gwisgai siwt ddu a thei llwyd. Gofynnodd i ni eistedd wrth y bwrdd yn ei ymyl. Tra siaradai fy nghyfeilles mewn Gwyddeleg i'm cyflwyno syllais mewn syndod: felly, y dyn tawel hwn oedd un o wleidyddion mwyaf y byd, un o'r gwrthryfelwyr mwyaf llwyddiannus. Dyn y bu dedfryd marwolaeth arno, dyn a garcharwyd nid yn unig gan ei elynion ond gan ei bobol ei hun, dyn a gafodd ganmoliaeth eithaf a gwawd eithaf am yr un rheswm: yr athro mathemateg a'r athronydd a droes i fod yn arweinydd ei genedl.

Nid oedd neb arall yn yr ystafell. A dyna De Valera ei hun yn siarad a'i destun oedd cyflwr yr ieithoedd Celtaidd. Siaradodd â llais mwyn cartrefol am yn agos i chwarter awr heb i ninnau daflu i mewn ond ambell frawddeg yma ac acw.

Siaradodd am ofid a oedd yn dal i bwyso ar ei feddwl, sut y gallai berswadio'r Gwyddelod i ailennill eu hiaith? Gall awdurdodau ddangos y ffordd ond brwdfrydedd dynion eu hunain yn unig a all achub yr iaith. Nid oedd, meddai ef, ddigon o gydweithrediad eto rhwng y gwledydd Celtaidd. Siaradodd am ei ymweliad â Chymru pan ddaeth i weld Caerdydd a Chaernarfon. "Yr ydych yn gwneud yn dda yng Nghymru," meddai fel athro sydd yn canmol disgybl addawol. "Peth

ofnadwy yw gweld iaith yn marw. Pan glywais fod y dyn olaf i siarad Cernyweg wedi marw bûm bron â thorri fy nghalon."

Aeth ymlaen wedyn i nodi'r angen am gymharu'r iaith Sanscrit â'r ieithoedd Celtaidd. Rhoddodd fy nghyfeilles lyfr iddo i'w arwyddo. Cytunodd yn fodlon a gofyn iddi osod y llyfr yn y lle iawn. "Byddaf yn sgrifennu weithiau dros ymyl y papur oherwydd cyflwr fy llygaid," ymddiheurodd. Wedyn ysgydwodd law â ni a'n harwain at y drws a'i ben wedi ei grymu ychydig.

Ar y ffordd yn ôl i Gymru siaradais â merch ifanc o Eire a oedd yn ymweld â'i brawd yn Ne Cymru. "Mae Dev yn ddyn mawr," meddai hi. "Pam rych chi'n meddwl felly?" "Fy rhieni sy'n dweud hynny. Bydd fy nhad yn darllen llawer amdano a rhaid i fi gytuno ag ef. Ond y llynedd bu pobol Iwerddon yn cwyno'n arw amdano," aeth ymlaen, "o achos iddo fynd i Loegr ar ddiwrnod Gŵyl Sant Padrig!"

Yr oedd yn amlwg bod Iwerddon, Sant Padrig a Dev i gyd yn dermau cyfystyr bron iddi hi.

*Barn,* Mai 1957

# Ar lwybrau'r Dr William Price, Llantrisant

Wrth losgi corff marw ei fab Iesu Grist, ym 1884, cafodd y Doctor William Price, Llantrisant, gryn dipyn o drafferth gyda'r polîs: fe'i carcharwyd dros dro, ond gorfododd yr awdurdodau i gydnabod mai gweithred gyfreithlon oedd corff-losgiad. I ddathlu ei fuddugoliaeth, bathodd fedal bras ar ffurf hirgrwn ac arno yr arysgrif ganlynol:

> GWEL JESSU GRIST O YR TAN YN LLYSGO
> YN LLAW VICTORIA. YN ANWYL CYMMRU
> YNG GWYDD Y VARN VE BIA CLEDDU
> TYWYSSOG CARRIAD CORON CYMMRU.
>
> Ionawr yr 13eg 1884

Fe ddosbarthodd y medalau ymysg ei ffrindiau, tua tair mil ohonynt, meddai rhywun. Ar hyn o bryd rwyf wrthi'n ceisio cael un neu ddau neu dri o'r rhain ar gyfer Amgueddfa yn Abertawe – gwaith fel hela twrch trwyth.

Clywais gyntaf am gasgliad o greiriau'r Dr William Price mewn tafarndy yn y Wig ger Pen-y-bont. Cyrhaeddais yno cyn amser agor, a chan nad oedd neb i'w weld, eisteddais am dipyn yn y lolfa wag (yn tresbasu, rwy'n ofni) heb fedru darganfod unrhyw arwydd o'r Doctor. Pan ddaeth y perchennog, dywedodd mai ei ragflaenwr oedd â diddordeb tanbaid yn y Doctor Price. Ond hwyrach bod rhywbeth ar ôl, meddai, gyda'i ferch a'i fab-yng-nghyfraith sy'n byw nawr yn Llanilltud Fawr.

Ymlaen â fi felly i Lanilltud Fawr. Achubais ar y cyfle i ymweld yno ag eglwys Sant Illtud a gweld trysorau prin hen hanes Cymru, yn eu mysg y Groes Geltaidd enwog a godwyd gan Houelt (Hywel) ar gyfer enaid ei dad Res (Rhys) a ffresco canol-

oesol o Sant Gristofforws ar y mur, gyferbyn â'r mynediad, a cherflun bach o 'Gyff Iesse' (Eseia, 11:1).

Gelwais wedyn yn y cyfeiriad a roddwyd i mi.

"Gallai fy nhad fod wedi adrodd wrthych lawer o straeon am William Price," meddai gwraig y tŷ, "pe baech wedi galw flwyddyn yn gynt! Bu farw fy nhad flwyddyn yn ôl." A dangosodd i mi lun ar y mur gyda rhai o drigfannau'r Doctor hereticaidd. Rhoddodd hefyd i mi gyfeiriad hen Sarjant-polîs yn yr un dre a oedd yn enedigol o Lantrisant.

Cefais groeso caredig gan hwn. Dywedodd iddo arfer chwarae gyda 'Iesu-Grist yr ail' a enwyd Nicolas gan ei ffrindiau. Bu farw hwnnw hefyd, ond bod Penelope Price, sef chwaer 'Iesu-Grist', yn byw o hyd yn Llantrisant. Gallwn gael ei chyfeiriad wrth alw yn swyddfa'r post, Llantrisant.

Llantrisant oedd fy nod nesaf, felly, y diwrnod wedyn. Y mae yno hefyd, ar uchelfan, eglwys hynafiaethol a sefydlwyd gan fynachod o Lanilltud a'i chysegru i Illtud, Gwynno a Dyfodwg, y tri hyn. Wedi prynu dau stamp yn Swyddfa'r Post gofynnais, yn swil braidd, am gyfeiriad Miss Penelope Price. Ond fe ddaeth yr ateb yn ddiymdroi: "Y mae'n byw mewn ffermdy unig, ar ben bryn cyfagos, ac y mae ei chwaer, Miss Parry, yn byw gyda hi."

Ar y bryn hwn, fel y clywais wedyn, y llosgwyd corff marw 'Iesu Grist' y cyntaf, y mae'r medal yn sôn amdano.

Codwyd y ffermdy wedyn gan fam Miss Parry a oedd hefyd, mi gredaf, yn fam i Penelope. Miss Parry a agorodd y drws a dweud bod Penelope yn eithaf sâl, newydd ddod allan o'r ysbyty. Oddi wrth Miss Parry y clywais hefyd fod eiddo'r Doctor Price i gyd yn yr Amgueddfa yn Sain Ffagan, ers tua deng mlynedd. Penelope a'i brawd Iesu Grist a enwir yn unig yn y *Bywgraffiadur Cymreig* fel plant i William Price. A Penelope a gafodd ddadorchuddio'r gofeb a osodwyd ar fur Capel Soar, Llantrisant, er cof am y corfflosgiad cyntaf yng Nghymru ers cyfnod y




*Y fedal a luniodd Dr William Price ar achlysur amlosgi ei fab yn 1884.*

Rhufeiniaid, meddai Miss Parry. Addawodd chwilio am fedal ar gyfer yr Amgueddfa, ond nid ar unwaith.

Euthum adre'n llawn o'r hwyl sy'n dod wrth chwilio a chael, hyd yn oed os na chefais – fel Saul gynt – yr hyn yr oeddwn yn chwilio amdano, ond tamaid gwefreiddiol o hanes Cymru.

*Ôl-Nodyn:* Tybed a oes rhywun ymysg y darllenwyr sy'n gallu gwerthu medal y Doctor Price i'r Amgueddfa yn Abertawe am ychydig o bunnoedd?

*Ail Ôl-Nodyn:* Diolch i Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, drwy law'r Bonwr A. Lloyd Hughes, Archifydd yr Amgueddfa, am drefnu llun o fedal 1884 a'r hawl i'w ddefnyddio.
Cyhoeddwyd llyfryn am Dr Price (1800–93) gan T. Islwyn

Nicholas: *A Welsh Heretic: Dr William Price, Llantrisant* (Foyle's Welsh Co, Lt., London. Heb ddyddiad). Gan yr un awdur y mae'r cyfraniad yn *Y Bywgraffiadur Cymreig 1940* (Llundain, 1953, ail argr. 1954), 747. Dywed y Bonwr Lloyd Hughes fod copi yn Sain Ffagan o draethawd MD (Caer-grawnt, 1960) gan John Hedley Cule, *Dr William Price (1800–93) of Llantrisant: a study of an eccentric*. Hyd yn hyn nid wyf wedi gweld y traethawd hwn.

Derbyniwyd un o'r medalau gan Amgueddfa Abertawe ym mis Awst 1967 oddi wrth Mr Tony Davies, Tre-gŵyr. Roedd ef wedi derbyn y medal gan ei fam, Mrs Mary Davies, organydd yn Eglwys Sant Ioan, Alltwen, Pontardawe. Gweler ysgrif Kate yn yr *Evening Post*, Abertawe, 10 Awst 1967, 'Threepenny medal of the heretical doctor', lle mae'n trosi'r geiriau fel hyn:

> *See Jesus Christ, dragged from the fire, in the hand of Victoria in dear Wales. The law demands that one should bury the prince of Love, the crown of the Welsh.*

### Ôl-Nodiad

Yn ystod 2001 cafwyd sylwadau ar y cyfryngau gan Dr Tom Davies, Aberdulais, ar gyflwr seiciatraidd Dr William Price; barnai fod elfennau annormal yn ei nodweddu. JGG

# VI. LLYFRAU A LLEOEDD

## Mi a fûm gyda Kazantzakis yn chwilio am ryddid

'Mi a fûm gydag Ulysses' yw enw'r gân olaf yn *Y Tlws yn y Lotws* gan Pennar Davies. Yno darllenais gyda phleser a syndod y llinellau canlynol:

*Mi a fûm gydag ambell Ulysses arall*
*hyd at ein dyddiau ni...*
*hwnnw gan Kazantzakis, yr Odysseus*
*a welai gwymp dinasoedd eraill*
*ac a chwiliai fydoedd eraill nes cwrdd*
*â Negro bach o bysgotwr*
*a'i adnabod yn ddrych*
*o'r Brwydrwr a adawodd olion gwaedlyd ei draed*
*ar lwybr hir dyrchafael y ddynol ryw ...*

Nid yw o bwys yma i Pennar gael ei gamarwain wrth uniaethu fel un person 'A slender virgin-lad with flaming fawnlike eyes' a bregethodd wrth y pysgotwr am gariad Duw a'r bachgen negroaidd cyfrwys gyda gwallt modrwyol, y Temtiwr

*who held in his palms seeds of all kinds:*
*birds, beasts, trees, sorrows, joys and men ...*

Ond y mae hi o bwys mai yma am y tro cyntaf yn llenyddiaeth Cymru y gwelir cyfeiriad ysgafn at waith y llenor ymroddedig Nikos Kazantzakis, 'rhodd Creta i lên fodern'.

Yr arwrgerdd am Odussews, parhad dychmygol o'r hen epig Groegaidd gan Homer, oedd ei greadigaeth fwyaf uchelgeisiol. Yn ei hanfod y mae'n debyg i *Ulysses* James Joyce, er i Joyce

sgrifennu mewn rhyddiaith a Kazantzakis mewn mydr.

Fe newidiodd y cynllun saith o weithiau ac fe gymerodd dair blynedd ar ddeg cyn gorffen – ym 1938 – gyfrol o bedwar llyfr ar hugain a 33,333 o linellau. Fe hawliodd yr Athro W.B. Stanford o Ddulyn am yr arwrgerdd hon ei bod mewn ffordd seicolegol yn ymchwil i arwyddocâd rhyddid fel rhyddhad, prynedigaeth, gwaredigaeth, iachawdwriaeth. Yn ôl bwriad Kazantzakis, Odussews yw'r dyn sy wedi ymryddhau oddi wrth bopeth: teulu, crefydd, athroniaeth, systemau gwleidyddol.

Mae nifer o resymau pam na chafodd yr epig y llwyddiant disgwyliedig: yr oedd ei gyd-lenorion yn Athen yn teimlo'n elyniaethus oherwydd y math o iaith a ddefnyddiwyd gan Kazantzakis, sef y *dimotiki*, iaith amhur ond cyfoethog y werin, yn lle'r *katharefwsa*, iaith bur ond hesb yr ysgol lenyddol yn y brifddinas. A hwyrach fod yr iaith yn fwy o rwystr byth i'r estroniaid na allent ddarllen ond y trosiad yn unig.

Mewn gwirionedd, fe enillodd Kazantzakis enwogrwydd cydwladol wedyn, oherwydd nifer o nofelau mewn dull traddodiadol a sgrifennodd bron i gyd wedi'r Ail Ryfel Byd yn ystod deuddeng mlynedd olaf ei fywyd. Y pwysicaf o'r rhain yw'r nofelau sy'n ymdrin â brwydr y Groegiaid i ennill rhyddid. Ymdriniodd â gwrthryfel Creta yn erbyn y Twrciaid, cyn 1898 (*Freedom and Death*); â gwrthryfel Groegiaid Asia Leiaf yn erbyn y Twrciaid ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf (*Christ Recrucified*); ac â brwydr y gwrthryfelwyr Comiwnyddol yng Ngogledd Groeg ar ôl 1945 yn erbyn pentrefwyr ceidwadol, ymgyrch Groegiaid yn erbyn Groegiaid (*Fratricides*).

Er mwyn deall sut y daeth meddwl am ryddid i achosi cymaint o flinder i Kazantzakis rhaid cofio dylanwad dwfn profiadau ei ieuenctid. Fe gafodd ei eni pan oedd Creta o hyd o dan orthrwm y Twrciaid Mwslemaidd. Pan oedd yn llanc bu'n rhaid iddo ffoi i Ynys Naxos rhag y frwydr waedlyd rhwng y

Cretiaid a'r Twrciaid. Wrth ddychwelyd o Naxos fe gafodd y profiad hyfrytaf yn ei fywyd wrth weld Creta yn cael rhyddhad oddi wrth y Twrciaid a chaniatâd i ymuno â Groeg. Ar y 9fed o Ragfyr 1898 gosododd mab Brenin Groeg ei droed ar dir Creta.

'Fe atgyfododd Crist,' meddai cyfaill wrth dad Kazantzakis.

'Fe atgyfododd Creta,' oedd yr ateb.

'Pryd bynnag y cofiaf y diwrnod hwnnw,' sgrifennodd Kazantzakis, 'byddaf yn diolch i Dduw am ganiatáu imi gael fy ngeni; byddaf yn diolch iddo am gael fy ngeni yn Creta mewn pryd i weld â'm llygaid fy hun Ryddid yn camu ar ddail llawryf ac yn marchogaeth o'r porthladd i fyny at loches Sant Minas.' (*Report to Greco*, 99–100). Rhyddid gwleidyddol felly oedd yr ysgogiad cyntaf. Ond fe ddaeth cwestiynau eraill yn ei sgil.

Yn ei nofel *Zorba the Greek* (gwnaethpwyd ffilm ohoni hefyd) y mae Zorba, gwerinwr yn llawn afiaith naturiol am fywyd, yn adrodd o'i brofiad ei hun am y diwrnod pryd y gwelodd Creta Ryddid ac yntau'n gosod ei droed ar ei thraeth. Ond yr un pryd y mae'n ceisio esboniad gan ei gyfaill dysgedig, sef Kazantzakis, am un peth sy wedi bod yn ei boeni'n fawr:

> 'Peth cyfrin yw,' meddai ef, 'peth cyfrin iawn. Os ŷm ni eisiau cael rhyddid yn y byd drwg hwn, tybed a oes rhaid i ni ladd cynifer o bobl a chwarae'r triciau brwnt yma i gyd? Pe baech chi'n clywed am y pethau erchyll i gyd a faint o bobl yr ydym ni wedi eu lladd … ond eto, beth oedd y wobr am hyn i gyd, beth? Rhyddid! Yn lle ein taro ni â mellten a'n dileu ni i gyd mae Duw yn rhoddi i ni ryddid. Rwy'n methu'n lân â deall.'

Ac yn lle ateb mae'r awdur athronyddol yn ymresymu yn ei feddwl:

> Deall beth? A ddylwn i ddweud wrtho nad oes Dduw ar gael yn y ffurf yr ydym ni yn hoffi meddwl amdano … neu ynteu bod angen lladd a chyflawni pethau brwnt wrth frwydro ac er mwyn cael rhyddid i'r byd?

A Zorba eto: 'Pam nad ydyw rhyddid yn dod drwy inni fod yn

garedig ac yn ddiffuant? Pam bod rhaid cael gwaed a llaid?' (*Zorba the Greek*, 25). I Kazantzakis fe ddaeth sgrifennu yn rhan o'i ymdrech i brofi'r oes bwysig yr oedd yn digwydd byw yn ei chanol. (*Report to Greco*, 434).

Y mae *Freedom and Death* yn ddisgrifiad o gyfnod y gwrthryfel yn Creta rhwng 1866 a 1878. Ym 1866, fe ddigwyddodd y brif frwydr yn y mynyddoedd o amgylch Mynachlog Arkadhi, lle roedd llawer o deuluoedd Cristnogol wedi cael nodded. Fe ddaeth yr amser pan nad oedd modd gwrthsefyll y milwyr o Dwrci ddim pellach. Ond yn hytrach nag ildio fe daniodd un o'r Cretiaid ystordy yn llawn o adnoddau saethu. Yn y ffrwydriad a ddilynodd fe laddwyd mil o bobl Creta – yn fynachod, milwyr, gwragedd, plant – a bron ddwy fil o Dwrciaid. Yn ôl y traddodiad dyn o'r enw Kostis Giampoudakis a wnaeth y weithred. Gwelir cerflun er cof amdano yn y dref agosaf, Rethumnon. Roedd y digwyddiad yn ddigon erchyll o'r diwedd i ddeffro sylw a chydwybod y byd. Yn *Freedom and Death* y Kostis hwnnw yw brawd y prif gymeriad, y Capten Michailis; ac y mae ysbryd caled Kostis yn dal i ormesu, ugain mlynedd ar ôl iddo farw, ar ei wraig a'i ferch.

Mae hanes y nofel ei hun yn digwydd yn ystod gwrthryfel aflwyddiannus arall ym 1889 ac yn gorffen drwy sôn am frawd a mab Kostis yn cael eu lladd yn y mynyddoedd. Roeddent yn dewis marw er mwyn i Creta gael byw.

> Nid oedd un genedl Gristnogol arall yn profi dioddefaint Crist mor ddwfn, mor waedlyd ac mor arbennig â Cretiaid. Unwyd Crist a Chreta yn eu calonnau nhw. Yr oedd dioddefaint y ddau yn un. (t.176)

Rhyddid, Marw a Sant Minas yw enwau'r tair cloch sy'n eiddo i eglwys y dref Megalokastro, sef Iraclion. Maent yn canu yn ystod gŵyl y Pasg: 'Nid yw Creta wedi marw. Y mae Creta yn fyw.' (t. 180)

Y mae'r un frwydr, ond mewn ffordd fwy cartrefol, yn dod yn

amlwg mewn digwyddiad arall, tua diwedd y nofel: tra oedd Capten Michailis yn amddiffyn ei le ar ben y mynydd gyda'r gwrthryfelwyr, aeth ei dad, yn gan mlwydd oed, ati i gyflawni ei weithred olaf dros Creta. Ar ôl cawod o eira y mae'r hen dad-cu a'i ŵyr ifanc yn mynd allan gyda'i gilydd gan gymryd brws a phaent. Mae'r ŵyr yn cludo llestr gyda phaent coch ac mae'r tad-cu yn sgrifennu ar bob mur gwag ac ar bob drws llydan a welir ar y ffordd, ac yn olaf ar ddrws y mosg ei hun, y tri gair hyn mewn llythrennau breision: *Rhyddid neu Farwolaeth* (sef *Elevtheria i Thanatos,* t. 377).

Mae diwedd y nofel yn farbaraidd: y Twrciaid yn taflu pen y nai (sef mab Kostis) at Capten Michailis a hwnnw yn ei chwifio fel baner mewn gorfoledd annynol cyn iddo gael ei ladd ei hun. Eto – nid y tro hwn ond ar ôl y gwrthryfel canlynol ym 1898 – gadawodd y Twrciaid ac fe gafodd Creta … ryddid.

Ond hyd yn oed wedyn yr oedd yno ddigon o Roegiaid ar ôl o dan sawdl y Twrciaid. Er enghraifft y Groegiaid yn Asia Leiaf. Y mae'r nofel *Christ Recrucified* yn trin ffawd y Groegiaid yn Asia Leiaf mewn pentrefi yn agos i Smyrna o amgylch 1922, pan orchfygwyd byddin o Roeg a ddaethai i'w rhyddhau.

Wrth eistedd mewn caffe ar sgwâr y pentref Lucovrissi (Ffynnon y Blaidd), wyneb yn wyneb â balcon yr *Agha* (y llywodraethwr Mwslimaidd), rhydd ysgolfeistr y pentref arolwg ar hanes y Groegiaid yn Asia Leiaf:

> Bu unwaith adeg pan oedd ein pobl ni, yr Hellenes, yn feistri yn y wlad hon. Fe drodd yr olwyn ac fe ddaeth pobl Buzantion – Hellenes eu hunain a Christnogion. Fe drodd yr olwyn unwaith eto, gyfeillion, ac fe ddaeth plant Hagar yma. Ond fe atgyfododd Crist, gyfeillion, ac fe fydd ein gwlad ni yn atgyfodi hefyd. (t. 10)

Yn y nofel hon tynnir y prif sylw nid at yr ymladd rhwng y Groegiaid a'r Twrciaid, ond at y gwrthdaro rhwng trigolion dau bentref Groegaidd, un yn gyfoethog a'r llall wedi colli popeth

mewn ymdrech seithug i ennill rhyddid. Y mae'r awdur yn cymryd diddordeb arbennig yn y ffordd y mae cymeriad dyn yn gallu dirywio drwy fod yn hir o dan ormes. Dyna'r Capten Fortounas, un o henuriaid y pentref. Y mae'n brysio i gael gwledd gyda'r *Agha* dan chwyrnu:

> 'Mae bywyd yn dda. Cystal i ni gymryd beth sydd ar gael!' Ond wrth gyrraedd trothwy tŷ'r Agha, arhosodd o flaen y drws coch a phoerodd arno. Teimlodd ollyngdod wrth wneud hyn, fel pe bai wedi poeri ar Dwrci yn gyfan, fel pe bai wedi codi baner fach iawn dros ryddid ac am Eiliad wedi ennill ei ryddid ei hun. (t. 29)

Mae heddwch anesmwyth y pentre Lucovrissi yn dod i ben gyda dyfodiad ffoaduriaid o dan arweiniad eu hoffeiriad, y Tad Fotis, a hynny er diflastod i offeiriad Lucovrissi, y Tad Grigoris.

Tra mae'r Tad Fotis yn siarad am ryddid ac anfarwoldeb hil yr *Hellenes*, y mae'r Tad Grigoris yn gwneud ymgais wyllt i gael gwared o'r tlodion a'u harweinydd heb golli wyneb a heb ofyn am gymorth yr *Agha* meddw sy'n cael hwyl wrth wylio'r ddrama o'i falcon.

'Dywedwch y gwir, Dad,' meddai'r Tad Grigoris yn haerllug, 'beth a wnaethoch i haeddu cosb Duw?'

Gydag urddas y mae'r Tad Fotis yn rhoi adroddiad o flaen pobl Lucovrissi sydd eu hunain yn Gristnogion ac yn *Hellenes*, am y diwrnod pryd y gwelwyd milwyr y fyddin Roegaidd o bellter. Y Tad Fotis ei hun a roddodd y gorchymyn i'w braidd yn yr eglwys:

> Mae'r Groegiaid yn dod. Mae'r nefoedd a'r ddaear yn dod yn un. Ddynion a merched, codwch yr arfau a gyrrwch y Twrciaid i borth Uffern … Fy mhlant, cyn i ni gychwyn gadewch i ni ganu gyda'n gilydd yr emyn Cenedlaethol.

Ac wrth gofio am y profiad, fe ganodd y Tad Fotis yn uchel unwaith eto a hynny yng nghlyw'r *Agha*:

> *Ap ta Kokala vgalmeni*

> *tôn Hellinôn ta hira.*
>
> 'O esgyrn sanctaidd yr Hellenes cododd Rhyddid …'
>
> Ac yn sydyn daeth o falcon yr *Agha* lais cras y Capten Fortounas:
>
> '… mor wrol ag erioed
> Croeso, croeso, O Ryddid!'

Fe symudodd yr *Agha* am eiliad, fel pe bai wedi cael ei bigo gan chwannen, ond fe aeth yn ôl i hepian. 'Mae'r Capten yn feddw,' meddai un yn y dyrfa. 'Gobeithio er mwyn Duw na wnaiff e ddim cymryd pistol yr *Agha* a chwythu allan ei ymennydd. Fe fyddai hynny'n ddiwedd arnom ni i gyd!' (t. 45-6)

Wrth gwrs, fe gollodd byddin Groeg y frwydr, a chyn bo hir bu'n rhaid i'r Groegiaid i gyd adael Asia Leiaf ac ymfudo i Roeg yn gyfnewid am y Twrciaid a oedd wedi bod yn byw o hyd yng Ngroeg ac a oedd nawr yn dychwelyd i'w gwlad eu hunain. Roedd ffawd Groegiaid Asia Leiaf yn greulon, ond nid yn anobeithiol, oherwydd wrth fynd i Roeg yr oeddent yn ennill rhyddid oddi wrth ormes y Twrciaid.

Mae'r nofel *Fratricides* yn datgelu sefyllfa fwy anobeithiol yn hanes Groeg fodern. Yn union ar ôl yr Ail Ryfel Byd dechreuodd Groegiaid ymladd yn erbyn Groegiaid yn enw rhyddid: Comiwnyddion yn erbyn Cenedlaetholwyr, yn arbennig yn y mynyddoedd ar ffin ogleddol Groeg.

Mae'r offeiriad, y Tad Yanaros, prif gymeriad y nofel, yn cloffi rhwng dau feddwl yr un fath â Groeg. Ar ei ysgwyddau ef y mae gofal ysbrydol y pentref Castello, yn Epirws, sydd yn dioddef gan ymosodiadau'r gwrthryfelwyr o dan arweiniad Capten Drakos – mab y Tad Yanaros. Mae'r gwrthryfelwyr sy'n pabellu ar ben y mynydd uwchben y pentref yn gwisgo capiau cochion, a dynion y pentref yn gwisgo capiau duon. Dyna'r ffordd y gellir gwahaniaethu pwy sydd yn ffyddlon i bwy.

> Dau gythraul sy'n rhannu Groeg … y naill yn goch, y llall yn ddu … pryd y byddwn ni'n rhydd o'r ddau ac yn feistri ar ein tŷ ein hunain?'

mae athronydd y pentre yn haeru. Honiad gwahanol a ddaeth o'r mynydd:

> Chi yn y pentre yw'r Twrciaid nawr a ninnau'r gwrthryfelwyr sy'n ymladd dros ryddid. (t. 107)

Rhyddid i ferched hefyd:

> Rwy'n ymladd dros ryddid, ac rwy'n rhydd i wneud beth a fynnaf!

heriodd un ohonynt; ond fe gafodd ateb cwta oddi wrth y Capten Drakos:

> Ystyr rhyddid yw gwneud y peth y mae'r achos yn ei ofyn gennyt, nid y peth a fynni di …(t. 201)

Rhaid i ferched eraill farw dros ryddid. Fe ddaliwyd saith ohonynt ryw noson – tair yn hen a phedair yn ifainc – gan filwyr y wladwriaeth wrth gludo bwyd a dillad i fyny'r mynydd at y gwrthryfelwyr. Fe'u saethwyd nhw mewn hen eglwys ar y ffordd tra oeddent yn canu emyn cenedlaethol Groeg: 'O esgyrn fy nghyndadau cododd rhyddid' (t. 172).

Fe geisiodd y Tad Yanaros warchod y pentre rhag dinistr drwy wahodd y gwrthryfelwyr i ddod atynt mewn ffordd heddychlon. Ond pa fath ryddid yr oedd y Capten Drakos yn ei gynnig?

> Croeso i'r rhai sy'n fodlon gwisgo capiau'r gwrthryfelwyr ac ymladd dros ryddid i ymuno â ni. Ond marwolaeth i'r rhai sy'n gwrthod.

… marwolaeth i bawb sy'n sefyll yn ffordd rhyddid.
Mae'r Tad Yanaros yn anghytuno:

> Os nad wyt yn caniatáu i bobl eu barn eu hunain yr wyt ti hefyd yn sefyll yn ffordd rhyddid. (t. 245 a t. 248)

Mae'r llyfr yn gorffen gyda marwolaeth y Tad Yanaros a heb

arwydd o atal y rhyfel cartref. Yn hanesyddol, fe ddaeth diwedd ar y frwydr ym 1946 yn sgil y gwrthdaro rhwng Iwgoslafia a Moscow, gan nad oedd Tito bellach yn caniatáu i Gomiwnyddion groesi'r ffin rhwng ei wlad ef a Groeg. Roedd hyn yn wahanol iawn i'r hyn a allasai fod, sef:

> bod y capteniaid yn dod i lawr o'r mynyddoedd a chyfarfod â'r brenin a'i swyddogion a'i gadfridogion yn Athen mewn cyfeillgarwch, gan gytuno mai brodyr yw'r capiau cochion a'r capiau duon, sef Groegiaid, ac nad oedd ganddynt reswm i ladd ei gilydd. (t.117)

Nid yw'n rhyfedd bod llenor sy'n datgelu cynifer o wendidau ei genedl ei hun wedi cwrdd â gelyniaeth yn ei wlad ei hun, yn arbennig gan gynrychiolwyr yr Eglwys. Ond y mae hi'n rhyfedd mai mewn cyfieithiad y cyhoeddwyd llawer o'i nofelau gyntaf cyn iddynt gael eu hargraffu yn Athen yn iaith Roegaidd yr awdur.

Er gwaethaf hyn oll, fe arhosodd Creta yn ffyddlon i'w mab mawr. Pan fu farw Kazantzakis mewn ysbyty yn yr Almaen ym 1957, cludwyd ei gorff i Eraclion, man ei eni, tref sydd yn agos iawn i Cnossos lle mae plasty'r Brenin Minos a safle ei labrinth.

Bydd llawer o ymwelwyr yn dod yma i weld gweddillion yr hen fyd. Flwyddyn yn ôl, adeg fy ymweliad â Creta, roeddwn yn falch i allu dilyn yno hefyd olion Nikos Kazantzakis. Wrth edrych ar y dref o dan ei arweiniad ef, fe welais nid yn unig y ffynnon a godwyd gan y Fenetiaid – sydd yno o hyd – ond hefyd y blanwydden wrth ei hymyl sydd wedi diflannu. Yng nghof Kazantzakis yr oedd y goeden honno yn gysylltiedig â noson o gyflafan. Fe grogodd y Twrciaid nifer o ymladdwyr dros ryddid oddi ar ganghennau cryf y goeden. Ac fe orfododd tad Kazantzakis ei fab i gusanu traed y meirw (*Report to Greco*, 83). Gwelais gerflun o ben Kazantzakis mewn parc, a'i lyfrau i gyd mewn ystafell arbennig yn yr amgueddfa. Mi welais y stryd, yn agos i'r porthladd, lle ganwyd Kazantzakis – fe'i henwir nawr ar

ei ôl ef.

Ond fe gefais y profiad rhyfeddaf wrth ymweld â bedd y llenor mewn gardd er cof amdano ar ben y mur llydan sy'n amgylchu'r dref o hyd. Ni ellir dymuno golygfa well na'r un sydd ar gael yno i gyfeiriad y môr a'r dref hyd at y mynyddoedd. Y mae'r bedd ei hun yn syml iawn. Dim ond croes o bren a charreg. A dyma'r arysgrif ar y garreg:

> Dden elpizo tipota
> Dden phobomai tipota.
> Eimai lephteros.
>
> (Nid wyf yn gobeithio dim.
> Nid wyf yn ofni dim.
> Rwyf yn rhydd.)

Wrth sefyll yno a synfyfyrio ar y geiriau, clywais lais y temtiwr, y bachgen bach negroaidd hwnnw, yn fy nghlust:

> Yr wyt ti yn gobeithio.
> Yr wyt ti yn ofni.
> Yr wyt ti yn gaeth –
> Yr wyt ti yn byw.

### Y llyfrau y dyfynnais ohonynt:

Pennar Davies, *Y Tlws yn y Lotws*, Llyfrau'r Dryw, 1971.

Nikos Kazantzakis, *The Odyssey*, a modern sequel. Cyfieithiad gan Kimon Friar, Efrog Newydd, 1958.

W.B.Stanford, *The Ulysses Theme*, Dulyn, 1956.

Nikos Kazantzakis, *Freedom and Death*, Faber & Faber, Llundain, ailargraffiad, 1969.

Nikos Kazantzakis, *Christ Recrucified*, Faber & Faber, argraffiad 1966.

Nikos Kazantzakis, *The Fratricides*, Simon & Schuster, Efrog Newydd, 1963.

Nikos Kazantzakis, *Zorba the Greek*, Faber & Faber, argraffiad 1962.

Nikos Kazantzakis, *Bios kai Politeia tou Alexi Zormpa*, Athina, 1959.

Nikos Kazantzakis, *Report to Greco*, Bantam Books, argraffiad 1970.

Fe argraffwyd llyfrau Nikos Kazantzakis gan nifer o gyhoeddwyr gwahanol, ond nodir yma yn unig yr argraffiadau a ddefnyddiwyd gennyf fi er mwyn cadw cysondeb wrth gyfeirio at dudalennau.

*Taliesin*, 24, 1972

# Euros Bowen a'r Gaeaf Caled

> 'Euros y bardd arbrofol bwriadol'; 'Euros y bardd hoff o delynegu am fyd natur, y mae syniadaeth yn bwysicach iddo nag atgynhyrchiad ffotograffaidd'; 'dyn unig yn dweud ei wirionedd ei hun heb ofidio a ydyw pob eraill yn ei ddeall'.

Dyna sut y disgrifir Euros Bowen mewn llyfrau a chylchgronau Cymraeg. Derbynnir hefyd fel ffaith mai natur galed gaeaf 1947 a wnaeth fardd o'r offeiriad hwn. Fe'i caewyd i mewn yn y rheithordy yn Llangywair ac yntau dros ddeugain mlwydd oed, a chanlyniad hynny, meddir, oedd ei aileni'n fardd.

Mae gen i gof byw am aeaf 1947 ac am y flwyddyn cynt. Ym 1946 roeddem ni'n byw yn y Bala: Gwyn a minnau a'r ddau fab bychan. Yr oedd Gwyn ac Euros yn brysur yn cynhyrchu rhifyn cyntaf *Y Fflam* a ddaeth allan Nadolig 1946. Mae gennyf hefyd dystiolaeth ysgrifenedig o 1946 am Euros, nid fel bardd ond fel offeiriad. Gan fod y dystiolaeth honno wedi ei chofnodi mewn Almaeneg mae'n rhaid i mi ei chyfieithu:

> *'Mr Bowen erfreute mich mit sehr klaren Antworten …'*
>
> Rhoddodd Mr Bowen bleser i mi gyda'i atebion plaen iawn a oedd yn wahanol i arfer y rhan fwyaf o weinidogion a llenorion Cristnogol. Oherwydd yr oedd yn ymdrechu i arwain at y ffydd honedig, yn hytrach na rhoi prawf ac esboniadau sy'n cymryd bodolaeth y ffydd yn ganiataol.

Dyna sut yr oedd Euros yn ymddangos trwy lygaid Elmar, carcharor rhyfel o'r Almaen a oedd newydd ddod i Gymru. Er bod y rhyfel wedi gorffen ym mis Mai 1945, fe ddaeth llawer o garcharorion rhyfel o Ganada i Gymru yn ystod haf 1946. Ar ôl

bod yn Canada am bedair blynedd, roeddent nawr ar eu ffordd adref, ond heb wybod pryd y byddai hynny'n digwydd. Fe'u cadwyd mewn gwersyll yn Llandrillo ac fe'u huriwyd allan i helpu gyda gwaith ar y ffermydd. Roedd y rhan fwyaf ohonynt mewn tymer o anobaith a digalondid. Fe ddinistriwyd yr Almaen yr oeddent hwy yn ei hadnabod yn eu hieuenctid. Wrth reswm, yr oeddent yn byw o dan straen poenus heb wybod beth yn union oedd cyflwr y wlad a oedd yn disgwyl amdanynt, dim ond ei bod wedi ei rhannu ac o dan reolaeth filwrol Ffrainc a Lloegr a'r Unol Daleithiau a Rwsia. Nid oedd ganddynt grefydd na balchder gwleidyddol na hyd yn oed ffydd yn onestrwydd eu cyfeillion.

Ond yr oedd Elmar yn eithriad. Yr oedd yn fab i weinidog Lutheraidd yng ngogledd yr Almaen. Yr oedd pregethu yn ei waed, fel petai, ac yr oedd ef yn ymdrechu'n ddiffuant i helpu ei gyfeillion yn eu hargyfwng ysbrydol. Mewn llythyr answyddogol (peidiwch â gofyn sut y deuthum i wybod amdano) fe sgrifennodd at ei fam ar 28 Awst 1946:

> *Ich nahm hier auch Verbindung auf mit einem Geistlichen …*

Rwyf wedi dod yma mewn cysylltiad â gweinidog sy'n adnabyddus fel Cenedlaetholwr Cymreig a siaradwr crefyddol. Fe ddaeth i'r gwersyll drwy fy nghydweithrediad er mwyn cynnal sgwrs am y Beibl ar sail nifer o gwestiynau a roddwyd iddo o flaen llaw. Doedd o ddim yn gadael Cristnogion argyhoeddiedig ar ei ôl, ond fe wnaeth *argraff* ac fe ddeffrodd ddiddordeb. Roeddwn i'n gweithredu fel cyfieithydd.

Roedd adwaith ei fam yn syfrdanol braidd (llythyr dyddiedig 9.9.46). Roedd hi'n falch clywed fod ei mab, ac yntau'n garcharor rhyfel, wedi treulio diwrnod cyfan yn nhŷ gweinidog cyfeillgar wrth ymyl llyn (sef Llyn Tegid). Ond roedd hi'n gwybod nad oedd hawl gan y carcharorion, yn ôl cyfraith gwlad, i siarad â'r boblogaeth o gwbwl ac felly roedd hi'n ofni y byddai ei mab yn

cael ei gosbi'n llym am ei drosedd. Ond dyma beth a ddigwyddodd: 'Roeddwn yn ystyried,' sgrifennodd Elmar ataf, 'y posibilrwydd o adael y ffermwr yr oeddwn yn gweithio iddo, un diwrnod glawog, i lanhau ei ystabal ei hun ac yn lle hynny mynd gyda fy nghyfaill a oedd yn peintio'r eglwys yn Llangywair.' Fe fentrodd wneud hynny ac fe gafodd sgwrs fuddiol iawn gydag Euros yn ei dŷ wrth ymyl Llyn Tegid. Os nad oedd yr ymweliad yn hollol gyfreithlon, ni wnaeth Elmar ymdrech i guddio'r ffaith. Yn union ar ôl dychwelyd i'r gwersyll aeth Elmar at y Parch. Mr Williams, Llandrillo, a thrwy garedigrwydd Mr Williams fe roddwyd gwahoddiad i Euros i ddod i annerch y carcharorion yn y gwersyll ar y dydd Sadwrn canlynol.

Mewn llythyr dyddiedig 28.7.46 sgrifennodd Elmar ataf:

> Prynhawn dydd Sadwrn nesaf rwy'n disgwyl ymweliad Herr Pastor Bowen o Langywair. Ynddo rwyf wedi dod i adnabod cyfaill da i chi a'ch gŵr. Mae ganddo wybodaeth dda o lenyddiaeth yr Almaen a diddordeb bywiog mewn gwleidyddiaeth. Fe ddangosodd hefyd ddealltwriaeth deg ohonom (*ein faires Verstehen für uns*).

Mae gennyf hefyd restr o'r cwestiynau a roddwyd i Euros o flaen llaw er mwyn iddo gael cyfle i feddwl amdanynt. Maent yn dangos gymaint o ddifri yr oedd Elmar a pha mor eglur yr oedd yn gallu gweld argyfwng ysbrydol ei gyfeillion. Rhestrodd ddau ar bymtheg o gwestiynau. Dyma rai ohonynt:

> 1. Y mae rhai o'r gwrandawyr heb unrhyw wybodaeth o'r Beibl, ac nid ydynt yn teimlo bod hyn yn wendid o gwbwl yn eu haddysg. Felly rhaid dechrau gyda'r cwestiwn, Beth yw arwyddocâd y Beibl? A oes gofyn i ni wybod am y Beibl ai peidio?
>
> 2. Hanes yr Ysgrythur Sanctaidd. Ai gair Duw yw? Pwy oedd yr awduron?
>
> 5. Beth sy'n hanesyddol wir am Grist?
>
> 6. Beth yw pechod gwreiddiol?

11. Pam y mae'r eglwysi Cristnogol yn methu uno?

13. A oes modd i'r paganiaid gael eu hachub?

17. Beth oedd ystyr 'Mab Duw' yn y grefydd Iddewig? Sut yr oedd Crist ei hun yn deall y term?

Yr oedd pump a deugain yn bresennol yn gwrando ar Euros, mwy na hanner y carcharorion a oedd yn y gwersyll yn Llandrillo, ac fe adawodd ei ymweliad *'einen überraschend günstigen Eindruck',* hynny yw, argraff syfrdanol o dda. Mynegwyd dymuniad iddo ddod yn ei ôl. Hyd yn oed os na chafodd dröedigaethau, roedd wedi mynd ymhell ar y ffordd i 'achub eneidiau'.

Roedd Euros yn gallu argyhoeddi'r carcharorion digalon am ei fod yn hollol ddiffuant yn ei atebion. Daw'r un nodwedd i'r amlwg wrth ddarllen adolygiad o lyfr crefyddol a sgrifennwyd ganddo ar gyfer rhifyn cyntaf *Y Fflam*. Datblygiad a Datguddiad gan C. Wynne Griffith oedd y llyfr. Roedd Elmar wedi gofyn beth sy'n hanesyddol wir am Grist. Yn ei adolygiad beirniadodd Euros G. Wynne Griffith am y ffordd yr oedd ef yn delio â'r un cwestiwn:

> Dichon y dylasai'r awdur fod wedi ymhelaethu ar natur personoliaeth Crist … Ai dynol ai clwyfol oedd craidd ei bersonoliaeth? … Od oedd ef, fel y dywedir, yn 'ddyn perffaith' a oes modd synio am y nodweddion hyn fel mynegiant o'i berffeithrwydd fel dyn yn unig?

Roedd Elmar yn ei chweched cwestiwn yn gofyn, 'Beth yw pechod gwreiddiol?' Yn ei adolygiad dadleuodd Euros gyda Wynne Griffith am natur drygioni yn y Greadigaeth:

> Cred yr awdur fod drygioni ym mhob graddfa o'r greadigaeth. 'Elfen groes' yn y greadigaeth yw … Oherwydd od yw ar ryw olwg yn elfen newydd, oni ellir dadlau mai gallu creadigol Duw sy'n gyfrifol amdano, megis y dywedir yn Eseia 45: 6–7: 'Myfi yw'r Arglwydd … yn gwneuthur llwyddiant ac yn creu drygfyd.'

Unwaith eto y mae meddwl miniog, eofn Euros yn dadansoddi problemau ond heb roi ateb terfynol.

Nid oedd parhad hir i fod i'r cysylltiad rhwng Euros ac Elmar. Aeth Elmar adref cyn diwedd y flwyddyn. Yr oedd Euros yn gyfrifol am anfon rhai o'r parseli 'Save Europe Now' a oedd yn cyrraedd Ohlendorf, sef cartref rhieni Elmar. Fe roddwyd y rhan fwyaf o'r cynnwys i'r ffoaduriaid a oedd wedi dod i'r ardal, ond yn un o'r parseli darganfuwyd câs sbectol Elmar a adawsid ar ôl yn Llangywair. Fe ymdrechodd mam Elmar i sgrifennu llythyr Saesneg at Euros i ddiolch iddo … ond fe ddaeth gaeaf caled 1947 ac ar ôl y gaeaf aeth Elmar i'r brifysgol i astudio Seicoleg ac fe drodd Euros at ei yrfa newydd fel 'bardd Cymraeg blaenllaw'. Ac fe symudodd ein teulu bach ni o'r Bala i Abertawe.

Tybed ai ei brofiad o aeaf caled 1947 a barodd i Euros Bowen droi o fod yn offeiriad anuniongred i fod yn fardd anuniongred?

*Taliesin 63,* 1988

# *Y Foel Fawr* gan R.Gerallt Jones

Gwasg Gee, 1960

Hon yw'r nofel gyntaf gan awdur sydd wedi dangos yn barod ysbryd o fenter fel cyd-olygydd *Yr Arloeswr* ac fel awdur cyfrol o farddoniaeth. Bwriadwyd y nofel i fod yn un o dair am fywyd Rhys Davies, darlithydd Coleg ym Mangor a chanddo awydd am greu chwyldroadau (19), awydd i fod yn ferthyr (12), dyn mawr nad oes gan Gymru ar hyn o bryd ddefnydd i'w wneud ohono (104). Dechreua'r nofel yn bryfoclyd:

"Cerddodd Rhys allan o'r carchar, ac arhosodd i danio sigarét …Yr oedd am gael amser i feddwl cyn dychwelyd i'w fyd."

Tua diwedd y nofel, a llai na blwyddyn wedi mynd heibio, cawn Rhys yn diarddel disgybl a dilynydd iddo a dducpwyd i'r carchar am geisio ffrwydro'r orsaf niwclear yn Nhrawsfynydd (174).

Testun y nofel hon yw cyflwr y "byd" – y byd yng Nghymru – y mae Rhys Davies yn dychwelyd iddo o'i garchar. O'i frawddeg gyntaf ymlaen mae'r awdur yn herio'r beirniad llenyddol sydd yn honni nad yw hi ddim yn weddus i drafod problemau cymdeithasol a gwleidyddol Cymru gyfoes yn uniongyrchol mewn ffuglen. Yn lle sgrifennu stori ysgafn "i gadw'r iaith yn fyw" neu nofel hiraethus am yr hen ffordd Gymreig o fyw, y mae'n ceisio codi'r drych i fyny at Gymru fel y mae hi heddiw. Ac yn debyg i Gatwlws gynt ("*odi et amo*") y mae'r awdur yn caru ac yn casáu ar yr un pryd ac yn dioddef oherwydd hynny.

Dyfais ffodus oedd iddo gyferbynnu brwydr y bobl dduon yn Ne Affrig â'r frwydr am annibyniaeth yng Nghymru. Caiff gyfle felly i edrych ar Gymru o'r tu allan. Mewn ffaith, gorchwyl pwysig unrhyw lenyddiaeth fyw, ddifrifol yw'r ymdrech i ddadansoddi cyflwr y gymdeithas gyfoes. Fe enillodd Boris

Pasternak erledigaeth a'r wobr Nobel ar yr un pryd trwy wneud hynny'n ddiffuant yn ei nofel *Dr Zhivago*. A beth yw *Llyfr y Tri Aderyn* ond trafod problemau cyfoes trwy gyfrwng llenyddiaeth?

Y broblem, yn hytrach, yw i ba raddau y mae'r awdur yn llwyddo i greu undod artistig o ffaith a ffug. Mae awduron eraill, fel Orwell yn ei *Animal Farm* ac Ernst Juenger yn *Auf den Marmorklippen* ('Ar y Clogwyni Marmor') wedi mordwyo o amgylch yr anhawster trwy ysgrifennu mewn ffurf alegorïaidd, gan adael i'r darllenwyr ddyfalu'r foeswers. Bai *Y Foel Fawr* hwyrach yw bod y ffeithiau weithiau yn rhy noeth heb adael digon i'r dychymyg i gnoi cil arno. Er enghraifft:

> "Cydiodd yn y papur, a gwelodd hanes cynnwrf Eisteddfod Caerdydd, stŵr yr ymddiswyddo ac yn y blaen." (126)

neu

> "ni allai'r prifathro lai na meddwl am ei gyfeillion ef, Saunders Lewis, Lewis Valentine, a'r gŵr addfwynaf yng Nghymru, D. J. Williams, yn sefyll yn yr un llys barn ugain mlynedd ynghynt." (186)

Tardd y teimlad anghysurus yn yr ail enghraifft o'r ffaith mai cymeriad dychmygol yw'r prifathro (neu tybed yn wir?) a dynion byw cyfoes yw'r tri arall.

Y mae'r stori ei hun yn datblygu'n ddilys o amgylch y Foel Fawr lle mae Rhys yn adennill iechyd wedi cael "damwain" yn y mynyddoedd. Fe geir ambell ddywediad cryno fel y disgrifiad o Rhys: "yn enwog, yn alluog, ac yn gwbl aneffeithiol" (20); ambell drosiad trwsgl, e.e. wrth wylio machlud yr haul "fel rhosyn yn bwrw'i betalau yn yr Hydref" (145), gan nad yn yr Hydref ond yn hwyr yn y gwanwyn y bydd y rhosyn, fel arfer, yn bwrw'i betalau, ac nid symbol o farw yw hyn ond symbol o feichiogi. Gellid osgoi, hefyd, weithiau, wallau fel, "Pan na wyddai beth *yw* ddweud" (99), cam-brint yn ddiau.

Ond yn y daliadau a'r syniadau am Gymru heddiw y gorwedd

diddordeb arbennig y nofel. Dyna lle mae'r awdur yn chwythu allan y tân sydd yn ei fol a throi yn broffwyd. Am y frwydr ofer:

> Gwelodd … mor gwbl aneffeithiol a fu popeth a wnaethpwyd ganddo ef a'i debyg … yn enw rhyddid a hunanbarch yng Nghymru er dechrau'r ganrif. Sawl gŵr o benderfyniad ac egwyddor o O. M. Edwards i Gwynfor Evans, a oedd wedi ceisio ac wedi methu? …
>
> A sylweddolodd eisoes fod llawer o bobl yn fodlon ei edmygu a'i addoli am wrhydri ym mhellter cyfforddus a chyffrous De Affrig na chredent o gwbl y byddai'r fath wrhydri'n fuddiol ac yn ddymunol gartref yng Nghymru. (19)

Am gael swydd:

> does neb yng Nghymru'n cael swydd am ei fod yn haeddu ei chael; 'stwyrian mewn corneli yw popeth, siarad hefo hwn a'r llall, tipyn o lyfu a chrafu … a brolio'ch hun; dyna sydd yn cael swyddi … rhaid i chi fod yn aelod o'r Blaid Lafur yn y De, ac yn aelod o ryw gapel neu ryw eglwys yn y Gogledd. (112/113)

Am draddodiad:

> Perthynai i Siams beth o egwyddor Biwritanaidd ei dadau, ond bellach egwyddor hollol ddireswm oedd, rhywbeth a ddaeth i lawr iddo o gylchoedd cysegredig y gorffennol, dyna i gyd. Ffordd ei dad o fyw oedd yr unig ffordd o fyw; dyna'r cyfan a wyddai am foesoldeb … (81).

A dyna sut mae'r dyn ifanc gwyllt yn siarad am ei athrawon:

> Blydi potsiwrs diawl, yn gwneud dim o fore tan nos ond eistedd ar eu tinau yn yfed coffi a siarad ar y teliffon. Blydi Cymru fu, bois, dyna pwy ydi'r rhain; a blydi Cymru Fydd hefyd, os na fyddwn ni'n ofalus. (106)

Does dim gweledigaeth arbennig o wreiddiol mewn gosodiadau o'r fath. Gellir clywed pethau tebyg ar lafar ym mhob man lle bydd Cymry'n cyfarfod. Ond fe ddywedir y pethau yma mewn ysbryd o hunan feirniadaeth a gostyngeiddrwydd ac oherwydd hynny mae'r effaith fel ymdeimlad o ryw gyffes ddiffuant, nid chwerwder ond glendid newydd a gobaith am fywyd newydd.

Rwy'n edrych ymlaen yn hyderus at ail nofel y gyfres pan fydd Rhys Davies wedi gadael heddwch segur y Foel Fawr ac yn dychwelyd at ei wraig wamal ac at y bywyd difater yng Nghymru. Gobeithiaf y cawn wedyn hefyd drydedd nofel sydd … fel trydedd nofel Rhys Davies ei hun (13) … yn waith campus ac "ymhell ar y blaen i'r ddwy gyntaf".

*Y Faner*, 1960

# *Brad* (Saunders Lewis)

Cefais gyfle yn ddiweddar i sgwrsio gyda nifer o'm ffrindiau am ddrama newydd Saunders Lewis, *Brad*. Amrywiol iawn oedd eu sylwadau ynglŷn â'i harwyddocâd. Fe godwyd hefyd nifer o fân feirniadaethau … arwydd iachus o'r diddordeb yn y gwaith pwysig hwn. Dysgais bob yn dipyn fod llawer ffordd o fwynhau'r ddrama a'i deall a'i gwerthfawrogi.

**Chwilio am feiau**

Y pleser symlaf, wrth gwrs, a gawn wrth ystyried gwaith creadigol, yw trwy feirniadu. A dyma, i ddechrau, rai pwyntiau a nodwyd.

Mae'r enwau annealladwy yn tueddu i ddrysu'r meddwl. Oni fuasai'n well dilyn arfer *Gymerwch chi Sigarét?* a defnyddio'r enwau cyntaf yn unig?

Er ei bod yn gymwys i gael merch a stori garu yn y ddrama, nid yw'n ffodus bod y ddrama'n gorffen yn y cywair hwn. Y mae uchafbwynt dychmygol i ddrama hanesyddol yn gwanhau'r effaith.

Os bwriadwyd i von Kluge fod yn gynrychiolydd ffyddlondeb ac ufudd-dod difeddwl y milwr, onid yw'n gamgymeriad i ganiatáu iddo gyfaddef mai'r ddyled ariannol mewn ffaith oedd y cwlwm a'i clymodd wrth Hitler?

"A beth yw neges y ddrama?" gofynnwyd. "Ai anogaeth i'r genedl Gymreig i barhau yn ei brwydr – hyd at angau? Neu ynteu gyngor i adael i filwyr arbed diwylliant y gorllewin?"

**Teipiau**

Rhaid cyfaddef mai braidd yn ddieithr yr ymddangosodd y cymeriadau i mi ar y darlleniad cyntaf. Methais gredu y gallai swyddogion byddin Prwsia athronyddu gyda'i gilydd am ragluniaeth a chythraul. Dywedwyd wrthyf na ellir deall y ddrama yn iawn ond trwy ei gweled ar y llwyfan. A chan na chefais y cyfle yng Nglynebwy edrychais ymlaen at berfformiad yn Abertawe. Ond ni ddaeth hyd yn hyn.

Euthum ati wedyn i ailddarllen *Brad* yn fwy gofalus. Sylwais y tro hwn fod bron pob un o'r cymeriadau'n sefyll dros ryw agwedd arbennig tuag at fywyd ac yn ei mynegi'n bendant.

Mae von Stuelpnagel yn sgeptig. Iddo ef, "does dim yn sicr am fywyd dyn ond bod y sêr uwchben a'r ddaear dan ein traed yn ddychrynllyd ddihitio be' wnawn ni". (t. 17)

Rhamantydd yw von Hofacker sydd ar staff von Stuelpnagel ac yn enaid i'r gwrthryfel. "Rwy'n credu," meddai ef, "fod Rhagluniaeth yn bod a bod ystyr i bethau. Ond rwy'n credu fod Rhagluniaeth y Cythraul yn bodoli hefyd." (t. 18)

Caiff materoliaeth ei chynrychiolydd yn Albrecht, pennaeth y Gestapo. "Does dim ond y trecha, treisied a'r gwanna' gwichied. Rhamant a rhagrith yw pob moesoldeb arall." (t. 25)

Mae'r Iarlles yn geidwadol ac yn sefyll dros y gwerthoedd dynol yn gyffredinol: "Merch ydw'i, ac i mi byd dynol, nid byd gwyddonol, yw angen heddiw. Efallai mai dyma'n siawns olaf ni i geisio adfer safonau dynol yn Ewrop." (t. 28/9)

Y traddodiad milwrol yw byd y Cyd-farshial von Kluge: "Mi dyngais i lw o ufudd-dod i Adolf Hitler … 'Dyw e ddim yn gall. Ond fe piau'r cyfrifoldeb. Nid fi." (td 42): ac eto: "Nid cenhadwr wyf i, ond soldiwr, hen soldiwr." (t. 45)

Mae'r ddyfais hon yn codi'r cymeriadau allan o fyd y *reportage* ac yn gyfrwng addas i fynegi gwirioneddau o bwys. Tuedda sgrifenwyr dirfodol Ffrainc hefyd at y ddyfais o

ddefnyddio teipiau i fynegi syniadau.

Eto amhosibl anghofio mai ar ddigwyddiadau hanesyddol y seiliwyd y ddrama. Er gwaethaf y rhybudd yn y rhagair: "Peidied neb â chwilio am gywirdeb ffeithiol yn y ddrama hon", cefais fy synnu pa mor agos y dilyn rhediad allanol y ddrama i'r digwyddiadau hanesyddol fel yr adroddir hwy yn y llyfr *The Conspiracy of the Generals* gan Wilhelm von Schramm; ei enw Almaeneg yw *Der 20 Juli in Paris* (yr 20ed Gorffennaf ym Mharis). Mae'r ffeithiau i gyd yma: yr hir aros am newyddion o Berlin am lwyddiant y plot; yr adroddiad anghywir am farwolaeth Hitler; arestio'r Gestapo yn ddi-ymladd; y cyfarfod yn La Roche-Guyon yn Normandi. Eto fe ddefnyddiwyd y ffeithiau mewn ffurf rydd: detholwyd nifer o bersonau a gadael allan eraill; newidiwyd yr amseriad ac yn y blaen.

Dyma enghraifft o'r peth: Yn y ddrama daw Linstow at von Hofacker gan chwerthin yn ddiatal am ddyn a ddywedodd wrtho ar yr heol: "Heil Hitler" … a Hitler wedi marw yn ôl ei dyb ef.

Disgrifir digwyddiad o'r un fath yn llyfr von Schramm fel a ganlyn, ar ôl clywed bod Hitler wedi marw:

> *Teuchert caught Hofacker's hands and shook them then he ran to tell Bargatsky the great news. As he went, he met a civilian who raised his right arm in the usual way, and said 'Heil Hitler'; the inner tension which had held Teuchert fast was relieved in a burst of wild laughter …* (t. 38).

Y chwerthin gwyllt oedd y peth pwysig i'r dramodwr, nid y personau.

### Ias oer

Wedi gweld darluniau prif gymeriadau'r ddrama yn llyfr von Schramm teimlais ias oer wrth ddarllen y nodyn byr amdanynt yn rhagair *Brad*:

> Crogwyd dau o'r cymeriadau, Cadfridog Stuelpnagel a'r Cyrnol

> Hofacker, Rhagfyr 20. Llyncodd y Cadfarsial Kluge wenwyn a marw ar unwaith drwy hynny ar y ffordd yn ôl i'r Almaen ar ôl ei ddiswyddo yn niwedd Awst.

Erbyn hyn nid ffuglen oedd y ddrama i mi ond pont i'm cludo at dir yn hanes yr Almaen yr oeddwn i wedi ei osgoi'n rhy hir. Gwyddwn fod oedolion fy nheulu bron i gyd wedi eu cipio i garchar ar Orffennaf 21. Gwyddwn am fab i un o'n cyfeillion yn Wittenberg a gafodd ei grogi fel un o'r cynllwynwyr. Ond yn awr euthum ymlaen i ddarllen y llyfrau eraill a nodwyd gan S. L. fel ffynonellau i'r ddrama. Dysgais lawer mwy am nifer o geisiadau ofer a wnaethpwyd cyn hynny i ddymchwelyd Hitler er mwyn sefydlu trefn newydd.

Fe laddwyd miloedd o ddynion tebyg o ganlyniad i'r *putsch* a ddisgrifir yn *Brad* a chyda hwy gylch o bobl a geisiai gyrraedd y nod trwy gyfryngau ysbrydol yn unig, gan iddynt edrych ar Hitler fel anghrist.

Ni allaf ddisgwyl i bawb yng Nghymru deimlo diddordeb o'r un fath yn y ddrama, ond clywais gan Glanffrwd James mai trwy ddarllen yr un llyfrau y daeth actorion Gŵyl Glynebwy yn gyfarwydd â chefndir *Brad* ac â'r cymeriadau a gynrychiolid ganddynt.

**Brad?**

Nid yw'r wybodaeth yn angenrheidiol i deimlo'r hyn a ddisgrifia S. L. mewn un lle fel y "diddordeb cyffrous a gawn i fy hunan yn y clwm bychan o gymeriadau a ddaliesid yn argyfwng y digwyddiad". (*Gymerwch chi Sigarét?* Rhagair, t. 5): a'u hargyfwng arbennig hwy yw bod rhaid iddynt ddewis rhwng brad a brad. Y mae miloedd o Almaenwyr yn yr un argyfwng o hyd.

Darllenais wedyn mewn cylchgrawn crefyddol y feirniadaeth a ganlyn ar ddrama S. L.: "Dylem wynebu'r ffaith fod neges y

ddrama hon yn frad yn wyneb sefyllfa teulu dyn heddiw."

Gan synfyfyrio beth, yn hollol, oedd arwyddocâd y cyhuddiad, sylwais ar farn a fynegwyd gan lenorion Rwsia mewn cysylltiad â *Dr Zhivago*, nofel Boris Pasternak: "Nid yw bradwr yn destun dilys i waith llenyddol," meddent hwy, gan ychwanegu yn gyfiawnhad i'r gosodiad: "Nid yw storïau gwerin byth yn anfarwoli bradwr."

Iddynt hwy y mae Dr Zhivago yn fradwr a Boris Pasternak yn fwy na bradwr: y mae'n chwyn llenyddol, yn ddyn ofer, y mae'n *bourgeois* i'r eithaf, mae'n Narcisos sy'n ymserchu ynddo'i hun yn unig; y mae'n Philistiad chwerw ac yn elyn i realaeth Sofietaidd.

Dyma, debyg iawn, yw'r hyn sy'n arfer digwydd. Y mae dweud y gair "brad" neu "bradwr" yn ddigon i godi llif o eiriau hyll a theimladau atgas. Y mae'r teimladau mor eithafol am fod brad yn ysgwyd seiliau cymdeithas: seiliau y gymdeithas Sofietaidd yn y dwyrain, seiliau'r gymdeithas Ewropeaidd yn y Gorllewin.

"Nid yw bradwr yn destun dilys i waith llenyddol," medd y Rwsiad, ac eto fe feiddiodd S. L. sgrifennu drama a phob un o'i gymeriadau yn fradwr. Beth yw arwyddocâd y ddrama hon? Gellir disgwyl ateb wrth ofyn: "Beth a achosodd i'r cymeriadau droi'n fradwyr?"

**Yr achos**

Nid deg darn ar hugain o arian. Os bradychodd Pasternak yr hollorchfygol Wrthryfel, fe wnaeth hyn er mwyn rhyw achos a oedd yn bwysicach iddo, sef hawl yr unigolyn i deimlo ac i feirniadu drosto'i hun ac, os yn angenrheidiol, yn groes i'r awdurdod y sydd. Gellir dychmygu am Mr Pasternak mewn gwlad arall, ac mewn oes a fu, fel Crynwr sydd yn hawlio mai "nid llais yr Eglwys na'r Beibl na dim arall allanol a ddylai bennu

ymarweddiad dyn, ond llais cydwybod".

Yn y ddrama fe ddefnyddir y Cyrnol Caisar von Hofacker gan S. L. fel dehonglwr y sefyllfa ysbrydol, sef "Heno does dim ond dewis rhwng brad a brad." (t. 58) Cytunodd hwn i fwrdro Hitler, nid oherwydd rhesymau crefyddol, er iddo ystyried Hitler fel arch-elyn dyn a Duw; mae'n mentro er mwyn achub yr Almaen ac Ewrop rhag Asia, ac y mae'n hawlio mai hyn yw dyletswydd "Corps" y swyddogion yn ôl eu traddodiad.

Byddai ei ddadl yn fwy argyhoeddedig fyth ond am un ffaith. Yr oedd rhai o'r gwrthryfelwyr – a Stauffenberg a osododd y bom yn eu harwain – yn dal mai at Stalin y dylid troi i gael cadoediad. Fe nodir hyn gan Hofacker un waith yn ystod yr act gyntaf; a dyna'r ffaith hanesyddol, ond y mae, yn amlwg, yn groes i argyhoeddiad yr awdur. Yn y cysylltiad hwn mae'n ddiddorol nodi rhai rhesymau eraill a roddwyd gan ddynion a oedd yn brwydro yn yr Almaen yn erbyn Hitler. Rwy'n dyfynnu o'r llyfr Saesneg *The Nemesis of Power*, gan John W. Wheeler-Bennett. Meddai von Lendroff:

> *We must prove to the world and to future generations that the men of the German resistance movement dared to take the decisive step and to hazard their lives upon it. Compared with this object nothing else matters*. (t. 626)

Dietrich Bonhoeffer, gweinidog a gafodd ei grogi ym 1945, a ddywedodd:

> *If we claim to be Christian, there is no room for expediency. Hitler is Anti-Christ. Therefore we must go on with our work and eliminate him, whether he be successful or not.* (p. 368)

## Dramâu am hanes cyfoes

Mae ein hoes ni yn gyfoethog mewn dramâu sy'n cymryd eu testun o hanes cyfoes. Y byrdwn, fel arfer, yw brwydr yr unigolyn yn erbyn pwerau gormesol totalitariaeth o ryw fath. Amrywiol

iawn yw'r ffordd y trinnir y testun.

Yn *Shadow of Heroes*, er enghraifft, rhydd Robert Andrew ddrama yn ffurf adroddiad newyddiadurwr am ddigwyddiadau gwrthryfel Hwngari yn erbyn Rwsia. Parodi politicaidd yw *Romanoff and Juliet* gan Peter Ustinov sy'n trin dylanwad bywyd hamddenol gwlad fechan iawn ar lysgenhadon Rwsia ac America.

*Des Teufels General* (Cadfridog y Cythraul) yw enw drama Almaeneg gan Carl Zuckmayer sy'n cynnwys astudiaeth realistaidd o fywyd o dan Hitler adeg y rhyfel.

Alegori o ryw fath yw *Les Mouches* (Y Clêr) gan Jean-Paul Sartre, alegori a roes neges wladgarol i'r Ffrancwyr adeg yr '*occupation*' heb godi drwgdybiaeth y Gestapo.

Mae *The Queen and the Rebels* (drama Eidalaidd gan Ugo Betti a gyfieithwyd i'r Saesneg) yn trafod testun tebyg mewn ffordd braidd yn haniaethol gan ddefnyddio'n rhydd iawn y stori am ferch y Tsar a ddihangodd.

A "Trasiedi hanes" yw *Brad* fel y dywed S. L. ei hun.

Rhywbeth hen iawn, wedi'r cyfan, yw'r ysfa i ddramateiddio hanes cyfoes, mor hen bron â'r arfer o sgrifennu dramâu. Yn y flwyddyn 472 CC chwaraewyd o flaen trigolion Athen *Y Persiaid*, gan Aischulos, drama a oedd yn trin buddugoliaeth y Groegiaid (neu wareiddiad y Gorllewin) yn erbyn y Persiaid (neu bobl Asia) gan ddangos effaith y gorchfygiad ar y Persiaid.

Ond ni roddwyd yr un croeso i fardd arall, Phrunichos, a ddangosodd mewn drama ddioddefaint y Groegiaid yn ninas Miletos a orchfygwyd gan y Persiaid. Fe gynhyrfwyd yr Atheniaid i'r fath raddau nes gosod dirwy fawr arno.

Nid yw'r Almaenwyr, fel rheol, yn fwy goddefgar na'r Groegiaid gynt. Mae'n anodd gwybod pa fath o dderbyniad gaiff *Brad* wedi ei chyfieithu i'r Almaeneg – derbyniad tebyg i'r un a gafodd drama Aischulos, neu i'r un a gafodd gwaith Phrunichos?

**Anogaeth i'r Cymry**

Mae *Brad* yn sefyll ar ddiwedd traddodiad hir sy'n dechrau gyda'r dramâu gwleidyddol Groeg. Mae'n rhan hefyd o'r frwydr ysbrydol sy'n mynd ymlaen yn ein hoes ni rhwng y traddodiad Ewropeaidd (hwmanistaidd-Gristnogol) sy'n dyrchafu gwerth yr unigolyn a'r systemau totalitaraidd.

Ond wrth wrando'n ofalus gallwn glywed hefyd anogaeth arbennig i'r Cymry, e.e. pan yw'r Iarlles yn hawlio:

> "Nid pwy biau'r dyfodol sy'n bwysig ond pwy biau'r gorffennol"; gan ychwanegu "byd dynol, nid byd gwyddonol yw angen heddiw. Efallai mai dyma'r siawns olaf i ni i geisio adfer safonau dynol yn Ewrop." (t. 28/9)

Yma mae S. L., fel petai, yn dangos y ffordd i'r Cymry sut y gallant gyflawni gorchwyl arbennig er mwyn Cymru, er mwyn Ewrop ac er mwyn dynoliaeth.

Yng ngeiriau Hofacker: "Ein gwlad ni yw hi … rhaid mentro er nad oes odid dim gobaith" (t. 29), cawn yr ateb i bob 'Rhagluniaeth'.

*Y Faner,* Rhagfyr 1958

# Ysgrifennu Llenyddiaeth

***Nofelau Dr Islwyn Ffowc Elis***

Heb godi gwrychyn Mr Roy Lewis gallaf hawlio, rwy'n credu, fod llenorion Cymru yn sgrifennu "rhyddiaith" gyda phob gair sydd yn dod allan o'u teipiaduron. Ond a ydynt yn ysgrifennu llenyddiaeth? Ta beth, yn ei adolygiad o *Blas y Cynfyd* (*Y Faner*, 19.11.59), gwnaeth Mr Roy Lewis nifer o honiadau sydd fel cosiadau o dan y croen yn gofyn am gael eu crafu.

**Nofelau ysgeifn**

Yn gyntaf, mae'n cyffelybu nofelau I.Ff.E. i'r nofelau ysgeifn Saesneg "a fenthycir wrth eu miloedd yn y llyfrgelloedd cylchredeg". Rwy'n credu bod yr honiad hwn yn hollol annheg. Nid yw Mr Lewis, am wn i, yn arfer darllen nofelau ond i'w hadolygu neu fel rhan o'i waith proffesiynol fel darlithydd. Trwy brinder amser, os nad am resymau eraill, fyddaf i fy hun chwaith ddim yn diwallu fy syched am nofelau o'r ffynnon lygredig honno.

Er hynny, ar adeg ffair sborion byddaf yn cael digon o gyfle i gasglu a gwerthu llyfrau o'r math yma, i allu siarad amdanynt. Mae cof gennyf, er enghraifft, am ryw fam fach dlodaidd gyda baban ar ei braich a baban arall yn tynnu wrth ei sgert, a ddaeth i stondin lyfrau a gofyn am *"mystery nofel"* (am dair ceiniog os gwelwch chi fod yn dda!). Neu ynteu, dro arall, pan werthodd cyfaill lu o lyfrau drwy hawlio: "Prynwch nofelau serch! Ar dudalen 15 mae'n closio ati ac ar dudalen 36 maent yn mynd i'r gwely gyda'i gilydd." Mae nofelau ditectif gyda chorff gwaedlyd ar eu cloriau yn gwerthu'n well hyd yn oed na nofelau serch.

**Fformiwla**

Gwnaeth rhyw smaliwr y fformiwla a ganlyn ar nofel lwyddiannus o'r math (maddeuer y Saesneg gan mai am nofelau Saesneg y siaradai): "The duchess has got a baby. Who's done it?" A dyna'r elfennau pwysig sydd ynddi, sef: serch, dirgelwch a snobyddiaeth. Beth bynnag fo ein barn am werth nofelau Islwyn Ffowc Elis wyneb-yn-wyneb â thragwyddoldeb ni ellir hawlio mai tair elfen bwysig y nofel boblogaidd Saesneg sydd yn achosi llwyddiant ei nofelau ef. Mae'r ddau'n cymharu fel y mae gwisg rad ffatri yn wahanol i ddillad a wnaed yn arbennig ar gyfer merch. Ar y sail yma byddwn yn barod i ddadlau â Mr Lewis i ba raddau y mae gwaith llaw yn rhagori ar waith ffatri.

**Yr arddull**

A gaf i awgrymu llinyn mesur arall i'w daflu dros waith I.Ff.E.? Mae (fel y darllenais yn ddiweddar) dri neu bedwar math gwahanol o fwynhad a gaiff dyn wrth ddarllen nofel. Yr un symlaf (sy'n gyffredin i blant) yw'r pleser a geir wrth ddilyn y digwyddiadau: "Beth sydd nesaf?" Neu ynteu gellir mwynhau'r gymeriadaeth, neu'r syniadau, neu'r arddull.

A gaf i awgrymu i Mr Lewis ymserchu yn yr arddull gan mwyaf wrth adolygu nofelau a phigo dywediadau tlysion fel y mae plentyn yn pigo rhesinau allan o deisennau.

Nid fy amcan i yw manylu yma pa un ai'r arddull neu'r gymeriadaeth sydd yn tynnu'r Cymry at nofelau I.Ff.E. Ond hoffwn gyfeirio at un pwynt arall a allai fod o help i rai sy'n astudio *Blas y Cynfyd.* A hynny yw'r ffaith mai fel drama gyfres y gwelodd hi olau dydd yn gyntaf. Byddai'n destun ynddo ei hun i ymchwilwyr i weld sut mae'r BBC wedi effeithio ar lenyddiaeth Cymru. Mae *Y Byw sy'n Cysgu* er enghraifft yn perthyn i'r llyfrau a gafodd eu tadogi gan y gwasanaeth hwn, a *Buchedd Garmon* gan Saunders Lewis.

**Techneg radio**

Gall amodau'r radio gyfyngu'n rhyfedd ar arddull: yn gyntaf, rhaid i bawb ddeall popeth ar y darllediad cyntaf (sydd yn debyg o fod yr unig un a geir) a chaniatáu nad ydynt yn gwrando'n astud trwy'r amser. Rhaid i'r digwyddiadau symud ymlaen yn ddigon hoyw i gadw sylw'r gwrandawyr. Yn arbennig, rhaid gwneud defnydd helaeth o ddeialog ddramatig. Ymddiheura I.Ff.E. ei hun yn ei ragair am "wendidau'r cyfaddasiad". Rwy'n credu y dylai Mr Roy Lewis fod wedi sylwi ar y ffaith hon.

Pwynt llosg hefyd yw'r agwedd a gymerir gan Mr Lewis tuag at bropaganda mewn llenyddiaeth. Mae'n hawlio bod "meistriaid rhyddiaith fel Saunders Lewis a Kate Roberts yn osgoi trafod problemau cymdeithasol a gwleidyddol Cymru yn uniongyrchol mewn fficsiwn". Onid yw *Traed mewn Cyffion* yn trafod problemau cymdeithasol Cymru o'r dechrau i'r diwedd? A beth am y geiriau yn *Buchedd Garmon*: "Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad ..."?

Rwy'n cytuno'n llwyr â Sodlau Segur a Mignedd pan hawliant mai "tân ym moliau'r llenorion", sef credu rhai pethau yn angerddol, a ddylai fod yn sail llenyddiaeth. Mae'r tân hwn gan Islwyn Ffowc Elis.

*Baner ac Amserau Cymru*, Rhagfyr 1959

# Nodiadau Golygyddol

Er bod y gyfrol hon yn un eithaf cymysgryw o ran ei chynnwys, dylwn esbonio bod y rhan fwyaf yn deillio o weithgarwch fy niweddar briod yn y swyddi archaeolegol a lanwodd mewn dwy amgueddfa yn Abertawe. Amgueddfa'r dref oedd yr un gyntaf, rhan o'r Sefydliad Brenhinol. Yma roedd y Doctoriaid Gwent a Iorwerth Jones, ynghyd â Gladwen Gwent Jones, yn aelodau amlwg, a bu eu cymorth hael yn werthfawr iawn. Parhaodd Kate yn y swydd hon o 1946 hyd 1995. Tua'r un adeg, yn 1946, cefais innau fy mhenodi yn Ysgrifennydd Cangen Gorllewin Abertawe o Blaid Cymru, gan ddilyn Dr Gwent Jones yn y swydd hon. Newydd gyrraedd Abertawe yr oeddwn o'r Bala, lle'r oeddwn yn dal yr un swydd gyda Phlaid Cymru. Cafodd Kate a minnau gyfoeth o brofiadau wrth gydweithio gyda llu o gyfeillion yn y maes gwleidyddol, ac erbyn heddiw mae'n eglur bod ein gobeithion am ddyfodol Cymru yn cael eu gwireddu.

Pan benodwyd Kate yn 1971 i ofalu am y casgliad helaeth o hynafiaethau a ddaeth i'r Coleg drwy'r dosbarthiad a drefnodd Dr David Dixon ar ran Ymddiriedolwyr Wellcome yn Llundain, dangosodd hi ymroddiad nodedig i hyrwyddo safle'r Gymraeg. Penderfynodd y byddai'r amgueddfa newydd yn y Coleg yn defnyddio'r Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg yn ei brif drefniadau. Yr oedd hyn yn sicr dan fendith Dr Dixon ei hun, Cymro selog â'i wreiddiau yng Ngwynedd. Nid bach o waith oedd paratoi labeli dwyieithog ar gyfer rhyw dair mil o wrthrychau, er mai cyfran yn unig a arddangosir yn yr amgueddfa. Byddai Kate ei hun yn awgrymu'r ffurfiau Cymraeg, a minnau'n

edrych drostynt. Wrth reswm, roedd hi'n gyfarwydd â'r termau technegol yn y maes Eifftegol, a hynny mewn sawl iaith. Ym 1970 y cyhoeddwyd ei llyfr *Tywysennau o'r Aifft* gan Lyfrau'r Dryw sy'n cynnig darlun o'r Hen Aifft a'r cyfnod modern yno. Gyda gwaith y labeli cawsom gymorth caredig y Dr Ceri Davies (erbyn hyn, yr Athro), yr ysgolhaig clasurol sy'n aelod o'r Adran. Mae yn y casgliad lawer o bethau sy'n perthyn i fyd Groeg a Rhufain, er eu bod fel arfer yn deillio o'r Aifft.

Yn gyfochrog â hyn roedd Kate wedi llunio nifer o lawlyfrau dwyieithog, e.e. *Twenty Thousand Years of Local History/Ugain Mil o Flynyddoedd o Hanes Lleol* (Abertawe, 1967). Ceir llyfryddiaeth lawn o'i gweithiau yn ei llyfr *Amarna Studies* (Gwasg Prifysgol Freiburg, Y Swistir, 2001, 222–36); gweler hefyd y llyfr presennol, tt.244–54.

Celfyddyd oedd prif ddiddordeb ei gwaith archaeolegol, a golygai hyn ymwneud yn aml â symbolau, yn enwedig symbolau crefyddol neu swyngyfareddol. Yn ei llyfr *Byd y Dyn Hysbys* (1977) ceisiodd fanylu ar beth deunydd o Gymru, yn enwedig y llyfr o nodiadau cyfrin gan Ddyn Hysbys o Sir Ddinbych. Roedd Llinos Davies wedi rhoi'r llyfr hwn ar fenthyg iddi fel Ceidwad y Llyfrau Prin yn Llyfrgell Coleg y Brifysgol, Abertawe. Wrth ddadansoddi deunydd y llyfr hwn a hefyd hanesion am John Harris, y Dyn Hysbys o Gwrtycadno, daeth yn glir iddi fod nifer o'r elfennau yn hen iawn. A dyna yn wir y prif ysgogiad yn y llyfr, sef olrhain elfennau i'w gwreiddiol yn yr hen fyd.

O'r safbwynt llenyddol bu dylanwad Ysgol Melanchthon yn drwm arni, yn enwedig o gyfeiriad Dr Kaulbach, yr athro Groeg. Sgrifennodd lawer traethawd, mae'n sicr, nid yn unig ar lenyddiaeth y Groegiaid ond hefyd ar lên nifer o ieithoedd modern. A beth am ddylanwad ei theulu? Ar yr aelwyd yn aml y ceir yr ysgogiad cychwynnol. Roedd ei thad, Dr Paul Bosse, yn gynhyrchiol dros ben fel awdur ar faterion meddygol. Er mor




*Kate wrth ei gwaith yn yr Amgueddfa'r Sefydliad Brenhinol, Abertawe.*

brysur y bu gyda'i waith ymarferol obstetrig mewn ysbytai (yn enwedig ei glinig ei hun), llwyddodd i gynnal nifer o gynlluniau ymchwil gyda chymorth rhai o feddygon eraill, gan gynnwys ei fab Günther. Gwnaeth astudiaeth arbennig o'r amffetaminau. Rhoddodd un cyngor gwerthfawr yn gynnar i'w ail ferch: gan fod tuedd ynddi i gyfeiriad gwasgedd uchel yn y gwaed, awgrymodd y byddai'n ddoeth iddi beidio â chymryd alcohol mewn unrhyw ffurf. A dilynodd Kate y cyngor hwn yn gyson. Roedd ei mam, ar y llaw arall, yn ymddiddori mewn llenyddiaeth heblaw'r maes meddygol. Bu'n dysgu Saesneg, ac un o'i hoff weithiau oedd llyfr cellweirus y Sais Jerome K. Jerome, *Three Men in a Boat* (1889). Byddai hi'n dal i gysylltu ag aelodau o'r teulu a oedd wedi ymfudo i'r Unol Daleithiau. Ar un adeg bu'n awyddus i'w merch chwilio am swydd yno. Ni chefais y fraint o gyfarfod ag un o'r rhieni. Tua diwedd 1939 llwyddodd Kate i gysylltu â'i thad yn Ostende. Soniodd hi am ei bwriad priodasol; dywedodd Dr Bosse ei fod yn falch o ddeall fy mod yn fab i weinidog – roedd gobaith, felly, y byddai'r briodas yn un weddol sefydlog!

Cwmpasfyd eang, dyna un o nodweddion amlwg gwaith Kate wrth lenydda. Roedd hyn yn codi'n anorfod o'i chefndir mewn addysg a phrofiad. Gallai Saunders Lewis ei disgrifio fel 'an Egyptologist and classical scholar, possessing also the German literary tradition from the eighteenth century to Thomas Mann, who [she] has written novels and short stories and essays in Welsh and has in journalism published her own first-hand impressions in Eastern Germany and in Russia.' (Gweler *Presenting Saunders Lewis,* gol. Alun R. Jones a Gwyn Thomas, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, 1973, t.166). Roedd croeso S.L. iddi yn taflu peth goleuni ar yr ensyniadau ei fod yn wrth-Semitig. Enillodd glod yn gynnar hefyd gan Syr Idris Bell a'r beirniaid a fu'n tafoli ei nofel a'i storïau byrion. Aneirin Talfan Davies a drefnodd y cyhoeddi gyda Llyfrau'r Dryw, ac roedd yn

edmygydd brwd o'i nofel *Anesmwyth Hoen*. Roedd Kate wedi dewis y teitl hwn oherwydd ei hoffter o soned enwog Prosser Rhys, 'Un ar Hugain', a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Gwaed Ifanc* (1923), gan E. Prosser Rhys a John Tudur Jones (John Eilian). Mae'r soned yn dechrau fel hyn:

> *Gwae bod ieuenctid yn fy nghalon fach,*
> *A'i hoen yn anesmwythyd yn fy ngwaed …*

a dyfynnodd Kate y cwpled yma yn ei theipysgrif, gan nodi'r awdur. Er ei syndod, pan welodd y llyfr, roedd y dyfyniad yn absennol. Cafodd ddeall mai'r rheswm am hyn oedd bod rhyw anghydfod wedi codi rhwng Aneirin a Prosser Rhys. Ni wn a barhaodd yr anghydfod hwnnw'n hir. Yn 1947, cyhoeddodd Gwasg Aberystwyth, a sefydlwyd gan Prosser Rhys, drosiad disglair Aneirin o gerdd Christina Rosetti, 'Goblin Market', ond erbyn hynny roedd Prosser Rhys yn ei fedd (bu farw yn 1945). Dylwn ychwanegu nad oedd y diffyg hwn yn nodweddiadol o gymeriad Aneirin Talfan. Roeddwn i a Kate yn ddyledus iddo am lawer cymwynas.

Yn 1955 y cyhoeddwyd trosiad Syr Idris Bell o astudiaeth sylweddol Dr Thomas Parry o hanes llenyddiaeth Gymraeg, *A History of Welsh Literature* (Clarendon Press, Oxford). Mae gwaith Dr Parry yn gorffen gydag Emrys ap Iwan, ond cyfrannodd Syr Idris 'Appendix' tra gwerthfawr am yr ugeinfed ganrif. Yma, gyda llaw (t. 425), cynhwysir cyfieithiad ei dad, C.C. Bell, o soned Prosser Rhys ('One-and-Twenty'). Mae'n rhoi sylw arbennig i Gylch Cadwgan (t. 432) ac yn neilltuol i nofel gyntaf Kate a'i storïau byrion, yn enwedig i'r 'Bennod Olaf'. Sonnir am y stori hon fel 'a moving diary of a dying girl'. Roedd Kate wedi clywed am y farwolaeth a'r dyddiadur yma, ond ni wyddai ddim yn fanwl am hanes y ferch. Mae cymeriadau'r stori'n tarddu mewn gwirionedd ym mhrofiad ei theulu ei hun.

Mewn cyfnod llawer mwy diweddar rhoddodd Nia Mai Williams sylw manwl i weithiau Cylch Cadwgan. Yr Athro J.E. Caerwyn Williams a drefnodd hyn drwy wahodd y disgybl dawnus yma i gynnig traethawd M.A. ym Mhrifysgol Cymru ar Gylch Cadwgan. Yn *Ysgrifau Beirniadol XXV* (1999), a olygwyd (fel y gyfres i gyd) gan Caerwyn Williams, cyfrol a gyflwynwyd fel teyrnged i'r Athro Ceri W. Lewis, mae dau gyfraniad gan Nia Mai Williams:

> Nofelau am Gylch Cadwgan gan Ddau Aelod (Ibid, 86–104)
>
> Cynnyrch Aelodau Cylch Cadwgan a ymddangosodd mewn Detholiad o Gylchgronau rhwng 1935 a 1945 (Ibid, 105–111).

Yn yr un gyfrol mae ysgrif gan Kate ei hun:

> Gwaith gan Rilke a fu'n sail i opera fodern yn Dresden (Ibid, 126–129).

Wedi ei marw y cyhoeddwyd yr ysgrif hon. Ceir ychydig o wallau argraffu yn ail ysgrif Nia Mai Williams, ond mae'n cynnwys gweithiau gan nifer o lenorion a fu mewn cysylltiad llai amlwg â Chylch Cadwgan; yn eu mysg y mae'r cerddor John Hughes, Rosmarie Wolff, Elizabeth Jones, T. Vaughan Lewis, Augusta Davies, a D.R. Griffiths. Teflir goleuni hefyd ar nifer o'r ffugenwau a ddefnyddiwyd: Lawnslod, Nefydd Owen, T. Griffiths-Davies, a Wil y Wern. Mae'r cyfnodolyn *Heddiw* yn amlwg yn y rhestr, ac roedd Aneirin Talfan Davies a Dafydd Jenkins, fel Golygyddion, yn wahoddwyr brwd.

Yn ddiweddarach cafodd Kate y pleser arbennig o gymryd rhan flaenllaw yn addysg un o ddisgyblion disgleiriaf Adran y Clasuron a Hen Hanes ym Mhrifysgol Cymru yn Abertawe, sef Hilma Lloyd Edwards, merch o'r Bontnewydd, ger Caernarfon. Yn 1980 graddiodd hi gydag anrhydedd yn y dosbarth cyntaf mewn Hen Hanes a Gwareiddiad, cwrs yn cynnwys hanes Groeg a Rhufain ynghyd â'r Dwyrain Canol a'r byd Celtaidd. Cyn dod i

Abertawe, addysgwyd hi yn Ysgol Gynradd y Bontnewydd ac Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. O'r gwreiddiau hyn, mae'n amlwg, y daeth ei safonau uchel fel llenor Cymraeg. Yn ôl *Y Cydymaith* (ail argr., 1997, t.215), y mae'n 'awdur plant' [*sic*]. Cafwyd ganddi nifer o lyfrau ar gyfer plant; ond 'cyfnod cyffrous y Rhufeiniaid, y Celtiaid a'r hen Eifftiaid yw cefndir nifer o'i nofelau'. Cyhoeddwyd nifer o'r nofelau hyn dan nawdd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, gan anelu, mae'n amlwg, at ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd. Yn *Y Llwybr Disglair* (Gwasg Gomer, 1982), mae'r prif gymeriad, Lludd, yn perthyn i lwyth Brythonig, yr Ordoficiaid, ac mae'n ymuno â'r derwyddon ym Môn, a'i fryd ar fod yn feddyg. Gafaelgar a chyffrous yw'r hanes, a daw Caradog, arwr y Brythoniaid, i goroni'r diwedd. Ar ôl ei gradd gychwynnol nodedig dychwelodd Hilma i Goleg Abertawe i ddilyn cwrs M.A. mewn Eifftoleg. Roedd y cwrs hwn yn rhoi sylw arbennig i drysorau archaeolegol Casgliad Wellcome yn y Coleg ac yn cynnwys hefyd astudiaeth o destunau detholedig yn iaith yr Hen Aifft. Yr Athro Alan Lloyd a gyflwynai'r maes ieithyddol, a byddai Kate, fel Curadur y Casgliad, yn trafod yr archaeoleg, er ei bod hefyd yn gyfarwydd â'r heniaith, gan gynnwys Copteg. Un o ffrwythau'r maes llafur hwn oedd y nofel a gyhoeddodd Hilma ym 1990 gyda Gwasg Gomer dan nawdd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru: *Mab yr Haul.* Nofel yw hon am y Brenin enwog Achenaten, a phleser amheuthun i Kate oedd derbyn y llyfr yn rhodd gan yr awdur: 'I Kate, gyda llawer o ddiolch am eich hyfforddiant! Oddi wrth Hilma.' Erbyn hyn mae Kate ei hun wedi trafod agweddau ar y cyfnod yn ei llyfr *Amarna Studies* (Freiburg, Y Swistir, 2001, yn y gyfres *Orbis Biblicus et Orientalis,* 82, llyfr a gyhoeddwyd ar ôl ei marw). Nid traethawd ymchwil a roddodd Hilma i ni, ond nofel ryfeddol o gelfydd. Mae'n osgoi pob dull traethodol ac yn cyflwyno'r hanes drwy gyfrwng profiad dychmygol yr offeiriad Hetep-Re. Un yw ef a ddechreuodd ei yrfa

mewn edmygedd o'r heretig frenin, ond a droes yn ei erbyn. Mae gallu creadigol amlwg yn holl gynllun y nofel; ac eto rheolir y cefndir gan wybodaeth fanwl a ffeithiol. Gellid traethu'n frwd am alluoedd amrywiol y ferch hon. Blodeuodd hefyd fel bardd, a daeth yn agos at gipio'r gadair yn Eisteddfod Casnewydd ym 1988. Cyhoeddwyd ei hawdl yn *Barddas;* dengys ei meistrolaeth ar y gynghanedd.

Daeth y profiad i Kate, wedi dod i Gymru i fyw, bod apêl y genedl yn ymylu ar fod yn ail-eni crefyddol. Mae'n wir nad oedd Cwm Rhondda, ar y pryd, yn cynnig cymdeithas Gymraeg flodeuog. Lleiafrif oedd y siaradwyr Cymraeg ac roedd hynny'n wir hefyd yn Abertawe. Roedd Cymreictod yn llawer mwy amlwg yn y Bala, ac yn neilltuol felly ym mywyd Penllyn. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd roeddem yn ymdeimlo'n ddwfn ag ymdrech cenedl fach i ddal gafael ar ei hunaniaeth, ac yn yr ymdrech hon bu nifer o eneidiau atyniadol yn gymorth disglair i ni yn y cyfnod hwn ac ar ôl hynny. Roedd Cylch Cadwgan, a sefydlwyd yn raddol gan Kate ei hun drwy wahoddiadau personol, yn enghraifft wych o hyn. Mewn ystyr yr oedd wedi parhau yn y Bala, yn arbennig drwy'r cysylltiad ag Euros a Geraint Bowen ac R.S. Thomas.

Bu Plaid Cymru yn rhan bwysig o'r bywyd hwn, a bu Kate yn eiddgar yn cefnogi'r achosion i fynnu lle i'r iaith Gymraeg, gan ddilyn esiampl Eileen Beasley ac eraill. Yn Abertawe ym 1966 cafodd ddirwy am wrthod tocyn parcio Saesneg. Yn y llys bu'n amddiffyn ei safiad yn Gymraeg, a gofynnodd am Feibl Cymraeg – doedd dim un yno! Bu'n gweithio'n galed dros Blaid Cymru mewn etholiadau yn Abertawe. Yn Eglwys y Bedyddwyr, Moreia, Pentre, lle cafodd ei bedyddio gan fy nhad, y Parch. Robert Griffiths, bu'n cynorthwyo gyda gweithgareddau ar gyfer ieuenctid ac yn profi'r mynych gystadlu mewn adrodd a chanu a llenydda. Weithiau byddai'r capel yn cynnal eisteddfod ar adeg y

Pasg, a byddai'n perfformio dramâu a gweithiau cerddorol ar lun oratorio neu opera. Byddai'r dramâu yn rhai Cymraeg, ond Saesneg oedd y gweithiau cerddorol oherwydd eu dibyniaeth ar gyfresi Curwen ar gyfer ieuenctid. Ceir darlun bywiog o ddiwylliant Moreia yn llyfr hunangofiannol Rhydwen Williams, *Gorwelion* (1984). Ar yr ochr gerddorol y ffigwr canolog oedd Bryniog Jones a gyflogid fel codwr canu; cyn hynny bu'n amlwg fel tenor gyda chwmni opera yn Llundain. Un o ardal Ponthenry oedd yn wreiddiol, a byddai'n cael hwyl ysgubol wrth gyflwyno gweithiau fel *Il Trovatore* Verdi a *The Bohemian Girl* Balfe yn eu ffurfiau cwtogedig. Rhaid cofio, wrth gwrs, nad breintiau cyfyngedig i gapel Moreia oedd y rhain. Roedd diddordebau diwylliannol tra amrywiol yn nodweddu llawer capel. Ceir enghraifft dda ym mhennod gyntaf hunangofiant Syr Glanmor Williams, *A Life* (Caerdydd, 2002, 'Bachgen bach o Ddowlais'.) Yr Eisteddfod, yn ddiamau, oedd cyfrwng amlycaf y gornestau mewn dawn. Roedd ennill y gamp yn nod mor boblogaidd. Byddai Cylch Cadwgan yn trefnu cystadlaethau, ond heb wobrwyon. Diddorol yw sylwi bod Kate, yn gynnar iawn yn ei hanes fel llenor yng Nghymru, wedi mentro i gystadlu mewn maes agored a drefnwyd gan gyhoeddwyr (Llyfrau'r Dryw), ac wedyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Yn ddiweddar cafwyd nifer o efrydiau perthnasol gan Dr Marion Löffler, Cymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Cyfrannodd hi nifer o lyfrau ac ysgrifau sylweddol i'r gyfres uchelgeisiol a drefnodd y Ganolfan o dan arweiniad yr Athro Geraint Jenkins, Cyfarwyddwr y Ganolfan. O Ddwyrain yr Almaen y daeth Dr Löffler i Gymru a dangosodd ddiddordeb naturiol yng ngyrfa Kate. Mae ei sylwadau yn neilltuol o werthfawr gan ei bod hefyd wedi meistroli'r iaith Gymraeg ei hun, heb sôn am fod yn ysgolhaig deallus a phrofiadol.

Ond af yn ôl yn awr at drafodion perthnasol Dr Marion Löffler, gan eu rhestru i ddechrau:

> 'A Tribute to Dr Kate', *Minerva, The Journal of Swansea History,* 7 (1999), tud. 4–7, gyda llun o'r gwrthrych yng nghanol ymwelwyr yn Amgueddfa Abertawe;
>
> 'Kate Bosse-Griffiths (1910–1998). A lecture given to the Conference *150 Jahre Mabinogion Deutsch-Walisische Kulturbeziehungen* at Bonn on 29 May 1999.'
>
> 'Almaenes ynteu Gymraes? Kate Bosse-Griffiths a Chymru.'

Teipysgrifau dwy ddarlith yw (2) a (3); cefais gopïau gan yr awdur. Nid oes dyddiad ar (3). Diolchaf yn gynnes am y copïau o (2) a (3). Hwyrach bod copïau eraill ar gael yn y Ganolfan Uwchefrydiau a grybwyllwyd uchod.

Mae'r ail a'r drydedd o'r ysgrifau yn codi rhai cwestiynau dyrys, ac mae symlrwydd 'Almaenes ynteu Gymraes?' yn synnu dyn braidd. Roedd y sefyllfa'n fwy cymhleth, gan mai merch i Iddewes oedd Kate ac yn ddwfn ymwybodol o hynny. Doeth yw'r ateb terfynol: 'Nid yw hi'n bosibl rhoi ateb syml i'r cwestiwn: mae'n bosibl byw â gwahanol haenau o hunaniaeth.' Mae Dr Löffler yn cydnabod bod y storïau byrion a'r ddwy nofel a greodd Kate yn ei degawd cyntaf yng Nghymru yn 'taro'r darllenydd gyda grym rhyfedd: mae'r i'r storïau byrion cynnar, yn enwedig, uniongyrchedd, ffresni a grym seicolegol hyd heddiw.' Yn ei dadansoddiad o'r gweithiau hyn mae Dr Löffler yn dadlennu ei medrau meddyliol amheuthun ei hun. Mae'n trafod dylanwad posibl Cylch Cadwgan ar ei gilydd; weithiau, wrth gwrs, byddai hyn yn digwydd drwy'r cystadlaethau y byddent yn eu trefnu gyda'i gilydd. Ac nid yw'n ofni trafod y syniadaeth grefyddol ac ysbrydol a gyflwynir. Er enghraifft, yn y stori 'Y Crwban' mae cyfaill o'r India yn fflangellu diwylliant y Gorllewin:

> Beth yw cnewyllyn diwylliant Groegaidd y Gorllewin? Diwylliant rhyfelwyr ydy e, a diwylliant y meistri a'r arglwyddi. Eich awydd

> cyson ydy concro. Rydych yn edrych ar Natur fel gelyn … Rydych yn adeiladu muriau o gylch eich dinasoedd, a muriau o gylch eich eneidiau. Rydych yn codi rhagfuriau rhwng cenedl a chenedl, rhwng gwyddor a gwyddor, rhwng dyn a Natur. Rydych yn amharod i adael i unrhyw beth ddod i mewn o'r tu allan os nad ymladd ei ffordd drwodd y bydd.

Yn yr ysgrif hon mae Dr Löffler yn galw sylw hefyd at y pwyslais ar y ffydd ffeminyddol sy'n gweld bod hanner poblogaeth y byd, sef y merched, yn dioddef cyflwr o gaethiwed ar hyn o bryd oherwydd grym Patriarchaeth; ond bod dydd i ddod pan newidir y drefn gymdeithasol a gwrthod ei seiliau crefyddol. Yn 'Y Bennod Olaf' a 'Fy Chwaer Efa' mae Kate yn honni: Ni ddylai Duw fod yn Dad yn unig, ond yn Fam hefyd. Ar ddiwedd 'Y Bennod Olaf' cofnodir gweddi at 'Dduw-Tad-a-Mam'. Ni ddylid dehongli Duw fel tad yn unig, medd Hans Küng yn ei lyfr *Does God Exist?* (cyf. E. Quinn, Munich, 1980, t. 673): rhaid adnabod ynddo hefyd yr elfen fenywaidd a mamol. Tua'r adeg yma (1980) yr oedd nifer o ferched diwinyddol yn amau'r pwyslais ar natur wrywaidd Duw. Yn ei mysg yr oedd Rosemary Ruether (1981), Elizabeth Moltmann-Wendel (1982), Elizabeth Schlüssler Fiorenza (1983), a Susanne Heine (1987). Mae'r awduron hyn yn dadlau, yr un pryd, fod natur wrywaidd Duw yn ddylanwad amlwg ar y darlun o'i fab, Iesu, a bod y canlyniad yn hynod anffodus i statws y ferch. Stori fer a gyhoeddwyd yn gyntaf ym 1941 oedd 'Y Bennod Olaf'. Tybed a oedd Kate wedi taro ar draws y syniad cyffrous yma o natur Duw yn llenyddiaeth yr Almaen? Mae'r awduron mwy diweddar a enwais uchod yn cael eu trafod, gyda dyfyniadau helaeth, yn llyfr John Bowden, *Jesus: the Unanswered Questions* (SCM, 1988, tt.91–105); mae amryw o'r awduron yn dangos mor bwysig oedd nifer o ferched ym mywyd Iesu, hyd yn oed os gwrthodir syniad Kazantzakis yn ei nofel *Y Demtasiwn Olaf*, fod y Gwaredwr wedi priodi Mair Magdalen.

Nid yw'n syn bod Kate wedi mynegi ei hagwedd at Gymru mewn ambell gerdd. Mae casgliad o gerddi ganddi sydd heb eu cyhoeddi (*Gedichte,* 55 o gerddi mewn Almaeneg yn bennaf), yn cynnwys y gerdd Gymraeg hon:

**Hedyn**

(I ateb y cwestiwn, sut y gallwn fod yn berchen gwreiddiau mewn dwy wlad.)

*Hedyn wyf o wlad bell*
*wedi ei lyncu gan aderyn treigl*
*wedi ei gludo dros y môr gan wennol;*
*disgynnodd ar dir newydd ei aredig*
*a thaflu gwreiddiau.*

*Glaswelltyn wyf ar borfa las*
*wedi fy mhlygu gan garn defaid*
*wedi fy nghnoi gan ddant bustach.*
*Tyfais yn gnawd byw*
*Tyfais yn rhan o Gymru.*

**Un Duw Sydd**

Yr oedd Kate wedi ymserchu'n ddwfn mewn Lutheriaeth a bu ei haddysg yn Ysgol Melanchthon yn gyfrwng i selio'r cwlwm rhwng addysg a chrefydd. Gwnaeth defodau'r Conffirmasiwn argraff neilltuol arni, yn enwedig gan fod yr Ysgol yn cyfrannu'n helaeth at y profiad, gan ategu apêl yr Eglwys. Yn Ysbyty Treforys, rai oriau cyn ei marw, cofrestrwyd hi fel Lutheriad, a chyfeiriodd hi at Nadolig y Lutheriaid fel atyniad arbennig yn y grefydd honno. Pan ddaeth i Gymru, derbyniodd fedydd y Bedyddwyr ym Moreia, Pentre, Rhondda, a hynny yn ysbryd Ruth y Moäbes pan ddywedodd hi, *Dy bobl di fydd fy mhobl i a'th Dduw di fydd fy Nuw innau.*

Iddewes oedd mam Kate, a phan ddaeth y Natsïaid i rym bu erlid chwyrn ar yr Iddewon. Yn y cyfwng hwn cyhoeddodd

Dr Paul Bosse mai'r grefydd Lutheraidd oedd crefydd ei deulu ef. Roedd wedi gwrthod ysgaru ei wraig, ac nid oedd hi wedi mynegi diddordeb arbennig yn y grefydd Iddewig. Yn ddiweddarach, yn Abertawe, dangosodd ei merch Kate ddiddordeb amlwg o'r fath pan gyflwynodd i'r Synagog yn Abertawe gopi o lawysgrif hynod gain o Lyfr Esther a ganfuwyd yng Nghasgliad Wellcome yn y Coleg. A gwnaeth hyn, sylwer, er cof am ei mam. Mae llythrennau Hebraeg y llawysgrif yn hardd dros ben a derbyniwyd y rhodd, ar ran y Synagog, gan Dr Leonard Mars, a fu hefyd yn ddarlithydd mewn Anthropoleg yn y Coleg (gweler y cyfeiriad isod, t.253, 1992). Er iddi drafod tipyn ar grefyddau, nid yw Kate wedi manylu ar ei safbwynt personol. Yn ei dyddiaduron ceir ambell ddatguddiad dadlennol. Pan gafodd ein plentyn cyntaf, merch fach, ei geni yn farw, wylodd yn hidl. Roedd y baban hefyd yn ddiffygiol; roedd dŵr ar yr ymennydd, ac nid oedd meddygon yn barod i esbonio'r achosion posibl, dim ond ein hannog i gynnig eto. Yn wyneb y methiant trist hwn sgrifennodd Kate yn ei dyddiadur *Nid yw pob bywyd yn gysegredig* – ateb i honiad enwog Dr Albert Schweitzer. Wrth gwrs, daeth profiad mwy cyfartal iddi ar ôl hyn, ond wrth ystyried byd Natur nid oedd yn fodlon i anwybyddu'r elfen dreisgar yn ei threfn. Un o'i hoff lyfrau oedd *The Sex Life of the Animals* gan Herbert Wendt (cyf. o'r Almaeneg, R. a C. Winston, Llundain, 1965). Yma mae'r elfen dreisgar dan ei choron, a mater dyrys yw esbonio pam y mae mwyafrif beirdd yr oesau yn mynnu clodfori Natur yn ei gwedd dawel a heddychlon. Mentrodd Tennyson sôn am Natur fel *red in tooth and claw*; a llwyddodd Schopenhauer i ddangos bod dioddefaint yn rhan amlycach o'r bywyd dynol ac anifeilaidd na phrofiadau mwy pleserus.

Mae amrywiaeth fawr, wrth reswm, mewn amgylchiadau personol, a gwna hynny unrhyw ymdrech i fesur dylanwad y syniad o Dduw yn anodd. O'r safbwynt dynol roedd bywyd Kate

am ryw ddeng mlynedd ar hugain yn freintiedig dros ben. Roedd yn mwynhau bywyd mewn dinas – München – lle'r oedd cyfleusterau a mwyniannau materol ac artistig yn dod iddi yn ddilyffethair, ac o'i blaen yr oedd addewid am fywyd parhaol tebyg yn ymagor heb unrhyw rwystrau amlwg. Pan ddaeth yr erlid a'r diswyddo sydyn, bu'r newid byd yn her anodd iddi. Roedd ffoi i wledydd Prydain yn agor rhai drysau academaidd diddorol iddi, ond swyddi simsan, dros-dro oedd y rhain. Mwy addawol oedd y swyddi mewn prifysgolion yn Llundain a Rhydychen, ond y briodas yng Nghymru a roddodd iddi y llawnder cynhyrchiol yr hiraethai amdano. 'Cael bod yn fam': dyna un o'r pethau a ddeisyfai, a phan ddaeth hefyd i fod yn fam-gu, gyda saith o wyrion neu wyresau (yn Nhreforys a Thal-y-bont), roedd rhan o'i llonder yn awgrymu sêl Iddewig.

Mae un peth yn sicr: nid oedd am wadu y rhan hon o'i phersonoliaeth. Yn genedlaethol roedd hi wedi ymdaflu yn llawen i hanes a diwylliant Cymru, ond roedd gwedd driphlyg (bûm bron â dweud 'trindodol') i'w hymwybyddiaeth ysbrydol. Roedd hi'n Almaenes ac yn Iddewes o gyfansoddiad bywydol; roedd hi'n Gymraes o ymlyniad dewisol, a throsglwyddodd yr un ymlyniad i'w meibion, gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Erbyn hyn mae'r iaith yn feddiant hefyd i dair gorwyres ac un gorwyr.

**'Arglwydd Iesu': y safbwynt Iddewig**

Mewn dyddiadur o'r flwyddyn 1998 mae Kate yn cynnig nodion byrion ar grefydd yng Nghymru. Rhai beirniadol ydynt. Cwynir am dri pheth:

(1) gordeimladrwydd;

(2) Arglwydd Iesu?;

(3) siomedigaethau personol; colli cefnogaeth rhai cyfeillion.

Cyfeirio at Pennar Davies a wneir yn (3); anodd esbonio hyn gan fod Pennar erbyn hyn yn dioddef o salwch meddyliol a'r

cysylltiad wedi gwanhau yn fawr – yn anochel felly.

Mae'r gofid am 'Arglwydd Iesu' yn crynhoi safbwynt diwinyddol o gryn bwys, ac yn mynegi'r gwrthwynebiad Iddewig i unrhyw ymdrech i osod Iesu o Nazareth mewn fframwaith dwyfol. Roedd edmygedd mawr tuag ato fel proffwyd a dysgawdwr, ond gwrthodwyd ei ddyrchafu uwchlaw y llinell ddynol. Nid oedd Iesu ei hun yn hawlio'r fath statws. Mae'n wir ei fod yn y Bedwaredd Efengyl yn honni pethau mawr yn ei berthynas â Duw, ond yn yr Efengylau Cyfolwg mae'n gwadu hyn yn llwyr. Yn ei lyfr *Y Brenin Alltud* (1974, tt.11-14), ceir ysgrif sylfaenol gan Dr Pennar Davies ar 'Y Brenin Diarwybod' yn trafod 'Ymwybyddiaeth Iesu'. Mae'n ceisio olrhain 'geiriau dilys y Nasaread' ac yn trin 'y prif enwau a theitlau a geir yn nywediadau Iesu yn yr Efengylau Cyfolwg' gan ddechrau gyda 'Mab Duw, y Mab'. Daw i'r casgliad (t. 29) na honnai Iesu ei fod yn 'Arglwydd'; cf. 'Wele'r Brenin na hawlia ddim: y Brenin Diarwybod' (t. 38). Gostyngeiddrwydd rhyfeddol a welir yn ymateb Iesu i'r dyn ieuanc a redodd ato a phenlinio o'i flaen a gofyn iddo, " 'Athro da, beth a wnaf i etifeddu bywyd tragwyddol?' A dywedodd Iesu wrtho, 'Pam yr wyt yn fy ngalw i yn dda? Nid oes neb da ond un, sef Duw.' " (Marc 10:17-18,). Mae'n eglur iawn, yn y geiriau hyn, nad oedd yn hawlio statws dwyfol iddo'i hun. Ar safbwynt Pennar Davies gweler D. Densil Morgan, *The Span of the Cross* (Caerdydd, 1999, t.76), ac yn ei gyfrol drylwyr a manwl *Pennar Davies,* Gwasg y Brifysgol, 2003. (Mae angen cywiro rhai manylion am Kate yn y llyfr hwn: t. 54: ni bu'n fyfyrwraig yng Ngholeg Somerville – roedd yn gweithio yn yr Ashmolean; t. 69: ni chollodd Kate ei mam mewn cyrch awyr – bu farw yng ngwersyll Ravensbrück; t.69: ni laddwyd ei brawd pan oedd yn filwr gyda'r *Wehrmacht* – cawsai eu dau brawd eu carcharu, a goroesasant y rhyfel.) Gwerthfawr, yn ogystal, yw cyflwyniad R. Tudur Jones i *Cudd Fy Meiau* Pennar

Davies (Tŷ John Penri, Abertawe, 1998). Ymhellach, ceir pennod fanwl a golau am yrfa Pennar a'i syniadau yng nghyfrol bwysig Dr Densil Morgan, *Cedyrn Canrif: Crefydd a Chymdeithas yng Nghymru'r Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd, 2001).

O'r safbwynt Iddewig, mae holl hanes y Croeshoeliad yn peri anawsterau, yn enwedig y syniad mai'r Iddewon oedd yn bennaf cyfrifol am groeshoelio Iesu o Nazareth. Mae llenyddiaeth enfawr wedi ymgasglu uwch y pwynt pwysig hwn, ac anodd yw osgoi'r farn arall, mai y Rhufeiniaid a barodd y weithred. Yn ei lyfr *The New Testament and the Roman State* (Abertawe, 1970, tt.63–71), mae D.R. Griffiths yn amau a oedd y Sanhedrin Iddewig yn meddu'r hawl yr adeg yma i ddedfrydu i farwolaeth; mae hefyd yn gweld awydd yn yr Efengylau i wyngalchu agwedd gondemniol y rhaglaw (Peilat) ac i feio'r Iddewon.

Er nad yw Kate yn ymdrin â'r pethau hyn yn ei gweithiau, mae'n sicr ei bod yn ymdeimlo'n ddwys ynglŷn â hwy. Roedd ei haddysg Lutheraidd yn cynnwys astudiaeth o'r Hen Destament; cyn dyfodiad y Natsïaid roedd yr ymagwedd, yn ôl pob tebyg, yn rhesymol a sobraidd, er i Luther ei hun fod yn ffyrnig o wrth-Iddewig. Roedd gan Kate Ramadeg Hebraeg at ei gwasanaeth. Hyd y gwn, ni chafodd hyfforddiant trefnedig yn yr iaith, ond dysgodd ei hun: awtodidact oedd, gan na fyddai'n mynychu Synagog.

Mae'n werth cymharu, neu gyferbynnu'n hytrach, agwedd Kate yn y mater hwn ag agwedd Simone Weil, yr athronydd o Ffrainc. Ganed hi, fel mae'n digwydd, flwyddyn cyn Kate, yn 1909, ond bu farw'n gynt o lawer (1943). Cafodd Simone sylw mawr yng Nghymru, yn enwedig gan yr Athro J.R. Jones wrth drafod cenedlaetholdeb. Iddewon oedd ei thad a'i mam, aelodau o'r dosbarth canol, ond heb rithyn o ddiddordeb mewn diwylliant na chrefydd Iddewig. Addysg agnosticaidd a gafodd Simone, felly. Disgleiriodd mewn athroniaeth, gan ennill

anrhydeddau academaidd o fri. Roedd hi hefyd yn Sosialydd eiddgar a ddangosodd ddewrder clodwiw wrth fentro cymryd gwaith dros dro mewn ffatri ceir modur er mwyn asesu gwir natur amodau byw y gweithiwr cyffredin. Dirmygus ac anwybodus oedd ei hagwedd at y grefydd Iddewig, ond ymddiddorodd yn Eglwys Rufain a chyhoeddodd nifer o efrydiau a greodd ddisgwyliad y byddai'n ymuno â'r Eglwys honno. Ni ddigwyddodd hynny. Wedi ei marw y cyhoeddwyd rhai o'i gweithiau mwyaf sylweddol. Y mwyaf adnabyddus yw *Attente de Dieu* (Aros am Dduw); cyhoeddwyd yn Ffrangeg gyntaf yn 1950; ceir trosiad Saesneg gan Emma Crawford yn *Fontana Books,* (Collins), 1959.

Anodd deall sut y bu i'r ferch dduwiolfrydig hon fod yn euog o wrth-Semitiaeth agored. Soniai gyda dirmyg am draddodiadau yr Hen Destament. Cefnogai'r mesurau i wrthod hawliau dinesig i'r Iddewon yn Ffrainc. Mewn ysgrif ddadlennol yn *Taliesin 100* (Gaeaf, 1997), 61–77, 'Rhagfur a Rhagfarn', dangosodd Dr Grahame Davies mor warthus oedd honiadau'r ferch hon. Er enghraifft (t.73) 'dadleuai'n gryf dros hunaniaeth ac annibyniaeth trefedigaethau Ffrainc, ond gwrthwynebodd greu cartref i'r Iddewon ym Mhalesteina. Awgrymir gan Dr Davies fod ei gelyniaeth at Iddewiaeth yn rhyw fath o 'hunan-gasineb'; mae'n cymharu'r ffaith ei bod yn gwadu ei benyweidd-dra; 'yr oedd hi'n ymwrthod â serch ac yn gwisgo fel bachgen yn aml'.

Carlamus ac anffodus oedd ymdrechion Simone i honni bod amryw o elfennau yng nghrefydd Israel yn deillio o'r Aifft. Ond cafodd ei llyfr *Yr Angen am Wreiddiau* lawer mwy o sylw. Rhoddodd yr Athro J.R. Jones deyrnged nodedig iddi yn ei gyfrol *Ac Onide* (Llandybïe, 1970, tt.151–65); mae'n dilyn ysgrif ar 'Y Syniad o Genedl'. Rhoir paragraff byw i gofnodi sefyllfa'r awdur ar y pryd:

> Ffoadur ym Mhrydain oedd hi pan ysgrifennodd y llyfr, a daear

> Ffrainc dan sodlau'r gelyn. Gofynasid iddi gan y Ffrancod Rhydd yn Llundain drafod cynseiliau polisi i'r ddau amcan o gyfarwyddo'r Gwrthsafiad o Lundain tra parhâi'r rhyfel, ac o gymryd yr awenau drosodd yn Ffrainc pan orchfygid Hitler. Y llyfr hwn oedd ei hymateb i'w cais.

Testun syndod, wrth feddwl am ei gyrfa ansicr, yw sylwi ar y ffaith fod yr athronydd ifanc yn awr yn derbyn gwahoddiad mor heriol o bwysig. Roedd ei hymateb yn uniongyrchol, a'r teitl ei hun yn nodi'r angen cyntaf mewn galwad i barchu'r cymunedau bychain sydd eisoes yn corffori'r gwreiddiau hynafol. Nid dinasoedd mawrion sy'n gwarchod y rhain.

Rhoir blaenoriaeth i'r syniad o *ddyletswydd.* Erbyn hyn nid yw Simone yn gofyn am chwyldro Sosialaidd, ond am ufudd-dod i'r ymchwil i adnabod bodau dynol (*'a passionate interest in human beings').* Nid oedd J.R. yn gwbl fodlon ar y llyfr, ond gweler ymdriniaeth yr Athro Jane Aaron yn *Efrydiau Athronyddol 61* (1998), 86–101. Y peth trist yw cofio bod Simone wedi gorffen ei gyrfa dan fendith frwd De Gaulle a'i gyd-ryfelwyr. Yn ei llyfr roedd hi wedi datgan bod gwareiddiad gwledydd y Gorllewin yn wrthwynebus i ddysgeidiaeth y Testament Newydd; credai fod rhai o grefyddau'r Dwyrain yn nes at wir ysbryd Cristnogaeth (Aaron, t.95).

**Addendum**

Mae *Teithiau'r Meddwl* yn y llyfr hwn yn ymadrodd eang iawn ei ystyr. Mae'n cynnwys ysgrifau sy'n disgrifio teithiau i wledydd ac ardaloedd arbennig, ond mae'r mwyafrif mawr yn trafod profiadau o grwydro ysbrydol a meddyliol, gan gynnwys efrydiau ar grefyddau ac arferion amrywiol, ac yn arbennig ar weithiau llenyddol a darddodd mewn llawer gwlad. Cafwyd tuedd, yn enwedig yn Saesneg, i wneud categori neilltuedig o'r gweithiau sy'n ymroi yn bennaf i ddisgrifio teithio daearyddol. Soniwyd yn

aml am y 'travelogue' fel dosbarth arbennig nad yw'n cyfrif o reidrwydd fel llenyddiaeth. Gall y canlyniadau fod yn anffodus. Yng Nghymru yr awdur sy'n feistr disglair ar y math yma o lyfr yw'r Dr Jan Morris; daeth hi yn enwog am ei llyfrau ar destunau fel Trieste a Fenis a Chymru. Yn y llyfrau hyn ceir elfen hanesyddol sylweddol a gallu llenyddol eithriadol. Testun syndod yw sylwi nad yw ei henw'n ymddangos yn *The Oxford Companion to English Literature* (gol. Margaret Drabble, 1985), nac ychwaith yn *The Cambridge Guide to Literature in English* (gol. Ian Ousby, 1988). Yn y llyfr presennol mae'r daith weithiau'n cynnwys ymchwil wreiddiol; mae hynny'n wir am yr ysgrif gyntaf ar betrogluffau Ynysoedd Hawai.

Ionawr 2004, yn Abertawe



*Llun o Kate a Gwyn a ymddangosodd ar glawr* Y Traethodydd *yn 1980.*

# LLYFRYDDIAETH

*Kate Bosse-Griffiths (1910–1998)*

**Byrfoddau**

| | |
|---|---|
| *BSFE* | *Bulletin de la société française d'Égyptologie*, Paris |
| *DE* | *Discussions in Egyptology*, Rhydychen |
| *JEA* | *Journal of Egyptian Archaeology*, Llundain |
| *SWEP* | *South Wales Evening Post*, Abertawe. |
| *ZÄS* | *Zeitschrift für Ägyptische Sprache und Altertumskunde*, Leipzig a Berlin. |

**1936**

*Die menschliche Figur in der Rundplastik der ägyptischen Spätzeit von der XXII. bis zur XXX. Dynastie.* Traethawd Agoriadol (D. Phil.), München. 104pp. 9Pls. Ägyptologische Forschungen Heft 1. Verlag Augustin. Hamburg–New York–Glückstadt, 1935, repr. 1978.

'Zwei Kunstwerke aus der Ägyptischen Sammlung der Eremitage', *ZÄS*, 72 (1936), 131–5. Mit 5 Abbildungen.

**1940**

'Cyn y Storm', cerdd, *Heddiw,* 07.1940, 33.

'I Hathor: Gweddi Merch', cerdd, *Heddiw*, 08.1940.

'Moel Cadwgan', cerdd, *Heddiw,* 11-12.1940, 125.

'Rhosynnau', stori fer, *Heddiw,* 09-10.1940, 100–104.

'Ernst Toller: Bardd a gwleidydd', *Seren Cymru* 11.10.1940, y cyntaf yn y gyfres 'Proffwydi'r Ganrif Hon'.

'Nietzsche a'r Natsïaid', *Heddiw*, 11-12.1940, 139–41.

**1941**

'Yn yr Ardd', cerdd, *Heddiw,* 01.1941,154–5.

'Madame Curie', *Seren Cymru*, 31.1.1941.

'Henri Bergson', *Seren Cymru*, 16.5.1941.

'Y Crwban', stori fer, *Heddiw,* 05.1941, 263–7.

*Anesmwyth Hoen*, nofel, Llyfrau'r Dryw, Llandybïe, 1941.

Bu'r nofel yn fuddugol yng nghystadleuaeth y nofel, Llyfrau'r Dryw, o dan feirniadaeth Dr E Tegla Davies. (Gweler *Heddiw*, Mai 1942, 55–9)

'Lenin', *Seren Cymru*, 18.7.1941.

**1942**

'Doethion o'r Dwyrain, II: Lao-Tse', *Seren Gomer,* 05.1942, 74–7.

'Y Bennod Olaf', stori fer fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi, gyda Dr Kate Roberts yn feirniad. Cyfansoddiadau yr Eisteddfod.

**1943**

'Was Rilke a Czech poet?' *The Listener,* 7 January 1943.

(Ymateb i honiad a wnaed gan Ben J. Morse yn yr un cylchgrawn ar 31 Rhagfyr 1942.)

*Mudiadau Heddwch yn yr Almaen*, Pamffledi Heddychwyr Cymru, Ail Gyfres, 7, tt.31, Gwasg Gee, Dinbych, 1943.

**1944**

*Fy Chwaer Efa a Storïau Eraill*, Llyfrau Pawb, Gwasg Gee, Dinbych, 1944.

**1947**

Adolygiad o *Merch y Capten*, nofel gan A. Pwshcin, tr. o'r Rwsieg gan Dr T. Hudson-Williams, *Y Fflam,* 4, 1947, 61–62.

**1948**

Adolygiad o *Diliau Dyli* gan Jennie Jones ac Elvin Wade, *Y Fflam,* 6, 1948, 49–50.

**1949**

'Trwy Bedair Sbectol: Cyfnodolion o'r Almaen', *Y Fflam* 7, 01.1949, 23–26.

Adolygiad o *Y Dillad sy'n Gwneud y Dyn*, Gottfried Keller, tr. T.P. Williams, *Y Fflam* 7, 1949, 49.

**1950**

'Medeka: Sut y cafodd Indonesia ei rhyddid', *Y Ddraig Goch*, 01.1950, 4–5.

**1951**

*Bwlch yn y Llen Haearn*, Gwasg Cadwgan, Abertawe, 1951. (Ar yr Almaen, Dwyrain a Gorllewin a Berlin; Stefan George; Helynt y Rhingyll Grisha (Arnold Zweig).)

**1953**

'Thirteenth Century Village near Pennard Castle', *SWEP,* 30.09.1953.

**1954**

'The Gnoll-Stone, part of a Celtic Cross (9th century)' *SWEP*, 01.09.1954.

'An Unknown God: No Happy Ending to the Search' (on an altar found near the Roman fort of Leucarum), *SWEP*, 12.01.1954.

'Abbey became the "Neath university" ', *SWEP*, 01.07.1954.

'Excavating at Caerleon', *Time and Tide*, 31.07.1954.

'New Saxon Find in Bacon Hole', *SWEP,* 19.08.1954.

**1955**

'Roman Glass Museum: Hope that Loughor Diggings will add to Collection', *SWEP*, 27.05.1955.

'No Road to North Wales: the Romans did not plan it', *SWEP,* 24.06.1955.

'Arthur's Stone (Maen Cetti), the dolmen on Cefn Bryn, Gower, as a megalithic chamber tomb, originally covered by a mound of earth and stones', *SWEP*, 25.07.1955.

'Nordic Gold', *Time and Tide*, 17.09.1955.

'Minchin Hole: Nun lived as hermit in Solitude of Gower Cave', *SWEP*, 22.09.1955.

'The Bronze Axe found at Crumlyn Burrows', *SWEP*, 19.12.1955.

**1956**

'An Easter Visit to Rome', *SWEP*, 20.04.1956.

'The Catacombs of Rome', *SWEP*, 11.05.1956.

'Rome Terminal Station', *SWEP,* 11.06.1956.

'Vesuvius seen from Pompeii', *SWEP*, 21.06.1956.

'Mrs Pandit yng Nghymru', *Y Ddraig Goch*, 07.1956, 1.

'That soft-nosed rhino's bones (from Minchin Hole)', *SWEP*, 11.08.1956.

'The Iron Age Fort on the Yellow Top at Rhossili', *SWEP*, 30.08.1956.

'Knives and tools of flint: the oldest mining industry', *SWEP*, 06.09.1956.

'The Museum, Temple of the Muses, began in Ancient Greece and Egypt', *SWEP*, 04.10.1956.

'Roman Warders converted in Prison', *SWEP*, 17.10.1956.

'Poland and Germany: the sad Parting of the Ways', *SWEP*, 24.10.1956.

'John Vivian, founder of the Hafod Copper Works in 1810, and his close German links', *SWEP*, 19.12.1956.

**1957**

Adolygiad o *Brycheiniog*, I, 1955. *Y Traethodydd*, 482, 01.1957, 46–48.

'Twelfth Night in Rome', *SWEP*, 04.01.1957.

'De Valera, a living Myth', *SWEP*, 11.03.1957.

'Metal Industries in Swansea and the Roman lead mine at Brandy Cove', *SWEP*, 31.03.1957.

'Putting together the pieces of the past: the restoration of ancient pottery from Minchin Hole by M. Clague Taylor', *SWEP*, 01.04.1957.

'St Peter's Well in Caswell Valley', *SWEP*, 18.04.1957.

'The Irish Theatre', *SWEP*, 25.04.1957.

'Dame Alina de Mowbray: is this her fine but battered fourteenth-century stone head?', *SWEP*, 25.04.1957.

'The Bishop Gower Arcades, part of Swansea Castle', *SWEP*, 12.06.1957.

'Lizzie, the big African elephant, is missed from Museum entrance hall', *SWEP*, 19.07.1957.

'The facts about the castle', *SWEP*, 22.07.1957.

'Henry de Gower, Bishop of St David's: his arcaded parapets and his Hospital of the Blessed David, founded in Swansea about AD 1332', *SWEP*, 05.09.1957.

*Mae'r Galon wrth y Llyw*, nofel, Gwasg Gomer, Llandysul, 1957.

'School Foundations [of Neath Boys' Grammar School] reach back to Roman days', *SWEP*, n.d. 1957.

'Industrial Museum: Professor's Fight' (Professor Hugh O'Neill), *SWEP*, 22.07.1957.

'Sgwrs gyda gwleidydd yn Nulyn', *Barn*, Gorffennaf, 1957.

'Brecon Gaer, Roman Fort', *SWEP*, 20.09.1957.

'Parts of a Mosaic Pavement at All Saints' Church, Oystermouth', *SWEP*, n.d. 1957.

'Yes, they just made money in Swansea: an exhibition of token currency', *SWEP*, 10.10.1957.

'Visit to a temporary capital [Bonn]', *SWEP*, 20.10.1957.

'The Germans at Landore: Mannesmann and Siemens with their stainless steel tubes', *SWEP*, 08.11.1957.

**1958**

'The Bones of the Wise men', *SWEP*, 06.01.1958.

'The leaf-shaped sword, nearly 3000 years old, of the Late Bronze Age', *SWEP*, 28.01.1958.

'Silver coins from the grounds of Neath Abbey', *SWEP*, 10.03.1958 (?).

'Seals from Owain Glyndŵr to the present day', *SWEP*, n.d. 1958 (?).

'Red Lady [of Paviland]', *SWEP*, 01.05.1958.

'Greatest of the Gower Caves [Minchin Hole]', *SWEP*, 30.06.1958.

'The Window that looked on Mediaeval Swansea', *SWEP*, 01.09.1958.

'Let's do as the Romans do: a plea for a fountain', *SWEP,* 11.09.1958.

'Rhai Sylwadau ar *Brad*, gan Saunders Lewis', *Y Faner,* 04.12.1958; 11.12.1958; 18.12.1958. (Drama am y cynllwyn yn erbyn bywyd Hitler ym 1944.)

'Some Remarks on *Treason* by Saunders Lewis' (a play about the plot against Hitler's life in 1944).

'The Holy Water stoups they found at Ffynone – relic from a lost church?', *SWEP*, 11.11.1958.

**1959**

'Excavations at Minchin Hole, Gower' (reviewing finds by J.G. Rutter), *SWEP*, 23.10.1959.

'Ysgrifennu llenyddiaeth', *Baner ac Amserau Cymru,* 12.12.1959.

**1960**

'The Roman hammer of Killay', *SWEP*, 10.04.1960.

'A Mesolithic Site – Burry Holmes', *SWEP,* 16.04.1960.

'Leningrad, a two-sided city', *SWEP,* 05.09.1960.

'Adolygiad o *Y Foel Fawr* gan R. Gerallt Jones', *Y Faner,* 1960.

'Moscow State University on Lenin Hill hosts an International Congress of Orientalists, but China is missing', *SWEP*, 05.09.1960.

**1961**

'The Early Kelts wore Kilts', *SWEP*, 01.02.1961.

'Oldest Homestead in Wales' (Paviland Cave, Gower), *SWEP*, 16.03.1961.

'Y Roced a aeth i Chwilio am Dduw', *Y Cymro*, 13.07.1961.

'Y Pasg yn Fiena', *Western Mail,* 7.04.1961.

'Pryd gwerinol ym Moscow', *Y Cymro,* 12.01.1961.

'Swansea through the Eyes of 1883: the metallurgical metropolis of Great Britain', *SWEP,* 19.10.1961.

'Y Ddwy Iaith yn Belgium: Gorymdaith Fawr Brwsel', *Y Ddraig Goch*, 12.1961.

'Finds from "The Tomb of Queen Tiye" in the Swansea Museum', *JEA*, 47 (1961), 66–70, with 1 Pl.

**1962**

'Welsh money for St David's Day: an Anglesey Penny', *SWEP*, 01.03.1962.

'The Royal Seal of Glyndŵr: OWYNUS DEI GRATIA PRINCEPS WALIAE', *SWEP*, 27.05.1962.

'Finds of Roman Remains at the Barlands Quarry, Kittle, Gower', *SWEP*, 16.10.1962.

'Swansea Museum Treasures on TV', *SWEP*, 17.12.1962.

'Hywel Dda a John Voss', *Y Ddraig Goch*, Mai, 1962.

'Swansea-made Imitations of Greek Vases', *SWEP*, 17.12.1962.

'A'r Holl Ddaear ydoedd o Un Iaith' (Gen.11:1), *Barn*, 11/12.1962.

*Trem ar Rwsia a Berlin*, Llyfr Taith, Gwasg Gomer, Llandysul, 1962.

**1963**

'Did a Roman drop part of his pay at Loughor?', *SWEP*, 28.01.1963.

'Swansea's Cultural Window', *SWEP*, 07.02.1963.

'The Pitcher that fell in Sweynese', *SWEP*, 28.03.1963.

'When they made a mug out of Oystermouth', *SWEP*, 21.05.1963.

'Politics is a Greek word; an on-the-spot-view of the electoral fall of Prime Minister Karamanlis', *SWEP*, 07.11.1963.

**1964**

'Flora Macdonald', *Welsh Nation*, 11.1964.

**1965**

'How did the coin from Carthage get to Glynneath?', *SWEP*, 21.01.1965.

**1966**

'A visit to Thebes in January 1966', (Karnak a Luxor yn Nwyrain Thebes, a Beddau'r Brenhinoedd a'r Breninesau yng Ngorllewin Thebes), *SWEP*, n.d. 1966.

**1967**

*Twenty Thousand Years of Local History / Ugain Mil o Flynyddoedd o hanes Lleol*, 20pp, Abertawe, 1967

'Coracles on the River Teifi and their ancient prototypes', *SWEP*, 20.06.1967.

'The ram they kept on the balcony' (Y mae gwraig o Abertawe a fu'n byw yn yr Aifft yn trafod y gred Foslemaidd ynglŷn â mab arall Abraham, Ishmael), *SWEP*, 05.07.1967.

'Must monuments fall into ruin before they are honoured?' (yn bennaf ynglŷn â Charreg Gelli-Onnen yng Nghapel Undodaidd Gelli-Onnen ger Trebanos), *SWEP*, 13.07.1967.

'Threepenny medal of the heretic doctor' (Fe wnaeth y Derwydd a'r Dewin, Dr William Price o Lantrisant, amlosgi ei fab, Iesu Grist, ac mewn llys barn yng Nghaerdydd fe sefydlodd yr hawl i amlosgi. Fe ddathlodd yr achlysur trwy gyhoeddi 3,000 copi o fedal erwydd, a werthid am 3c yr un.), *SWEP*, 10.08.1967.

'Model shows Neath as the Romans knew it', *SWEP*, 23.10.1967.

'Wonderful Copenhagen and Hans Andersen's Little Mermaid: How the Danish State, amid a mass of imported books, protects Danish authors', *SWEP*, n.d. 1967.

**1968**

'Museum link with the Lamb and Flag and with a mediaeval tile from the site of Whitland Abbey', *SWEP*, 03.02.1968.

'The History of the Cross Keys Inn: A New Exhibit in the Swansea Museum', heb ei gyhoeddi, cf. 'Museum link with the Lamb and Flag', *SWEP*, 03.02.1968.

Cyfieithiad o Eberhard Otto, *Osiris und Amun, Kult und heilige Stätten* (Munich, 1966), gyda'r teitl *Egyptian Art and the Cults of Osiris and Amon*, a ffotograffau gan Max Hitmer, Thames and Hudson, Llundain, 1968.

'The Leper-stone of Llanrhidian: now in the porch of the 12$^{th}$ century church of Llanrhidian, with carvings of Celtic origin similar to figures in ninth and tenth century Irish manuscripts', *Western Mail*, 04.04.1968.

'Once More: The Leper-Stone of Llanrhidian', *The Gower Journal*, 1968.

**1969**

'Festivals of Light: the St Martin's procession at Bonn', *SWEP*, n.d. 1969.

'Sir Hugh Johnys, Knight of Landimor Manor, Gower', *SWEP*, 01.02.1969.

'Sir Hugh, Warrior Knight of Landimor' (Knighted in Jerusalem, 1441), *SWEP*, 01.02.1969.

'The Healing Well beneath the Oil Pipes at St Margaret's Chapel, Coedffranc', *SWEP*, 01.03.1969.

'Swansea's 500-year-old Resurrection Window' (now at St David's Church, Swansea), *SWEP*, 02.04.1969.

'There is only one Abertawe', (Y mae gan nifer o ddinasoedd yr enw Swansea, ond y mae'r enw Cymraeg yn hynafol ac unigryw.), *SWEP*, 01.05.1969.

'Taith i Hyngari, gwlad yn y canol', *Western Mail,* 10.07.1969.

'A Skull in the Ribbons of a Bride in Wales and in Hungary', *The Gower Journal*, 1969, 35–38, gyda 2 blât.

**1970**

'Bonn ar y Groesffordd', *Barn* 87, 01.1970, 70 (gwasanaeth crefyddol adeg sefydlu Willy Brandt yn Ganghellor).

*Tywysennau o'r Aifft*, Llyfrau'r Dryw, Llandybïe, 1970 (hanes blwyddyn yn yr Aifft, gyda darlun o'r Hen Aifft a'r cyfnod modern yno).

**1971**

Adolygiad o Jack Lindsay, *The Origins of Alchemy in Graeco-Roman Egypt* (Llundain, 1970), *JEA* 57, 1971, 231.

**1972**

'Mi a Fûm gyda Kazantzakis', *Taliesin* 24, 1972, 31–37.

**1973**

'Yn Wyneb Haul', *Barn* 127, 05.1973, 292–5, gyda 4 o luniau.

'Y Fam-gu Santaidd yn Llydaw', *Barn*, 11.1973, 27–29, gyda 3 ffigur.

'A Baker's Posture', *JEA* 59, 1973, 219–20.

Adolygiad o J. Brockhuis, *De god in Renenwetet* (Assen, 1971), *JEA* 59, 1973, 253–4.

**1974**

'John Penry a Bendith y Mamau', *Barn*, 05.1974, 486-8, gyda 2 lun (y Tylwyth Teg yw'r Mamau).

**1975**

Adolygiad o Howard Carter, *Das Grab des Tut-Ench-Amun* (Wiesbaden, 1973), *Bibliotheca Orientalis* 32, 1975, 31–2.

Adolygiad o J. Spiegel, *Die Götter von Abydos* (Wiesbaden, 1973), *JEA* 61, 1975, 290–91.

Adolygiad o D.B. Thomson, *Ptolemaic Oinochoai in Faience; Aspects of the Ruler-Cult* (Oxford, 1973), *JEA* 61, 1975, 291–2.

**1977**

*Byd y Dyn Hysbys.* Swyngyfaredd yng Nghymru, tt.144, 28 o luniau. Y Lolfa, Tal-y-bont, 1977.

**1978**

Ailargraffiad o *Die menschliche Figur in der Rundplastik der Ägyptischen Spätzeit*, usw. (1936).

*Gwaith Gleiniau. Lluniau o Gasgliad Wellcome,* Rhif 1, tt.15.

**1979**

'Darganfod "Beirdd Cymru" yn Hwngari', *Western Mail,* 28.04.1979

**1981**

'Dwy Santes: Dau draddodiad, *Barn,* 11.1981, 397–400, gyda 3 llun (trafodir Teresa o Avila a Sarada Devi o'r India).

**1983**

'The Fruit of the Mandragora in Egypt and Israel', *Fontes atque Pontes*, Festgabe H. Brunner, ed. M. Görg, Wiesbaden, 1983, 62–74. *Ägypten und Altes Testament*, 2 pls. (yn cynnwys 4 ffigwr), Bd. 5.

**1984**

Adolygiad o Pennar Davies, *Yr Awen Almaeneg* (1983), *Y Darian*, Coleg Abertawe, 3, 5, 05.1984, 7.

'Dwyrain a Gorllewin yn Sweden', *Barn*, 12.1984, 396–9, gyda 5 llun.

*Cerddores yn Cwrdd â'i Duwiau / A Musician Meets Her Gods*, Lluniau o Amgueddfa Wellcome, Coleg Prifysgol Cymru Abertawe, Rhif 2. Ffotograffau gan Roger P. Davies, lluniau gan Emyr Davies, 32tt, Coleg Prifysgol Abertawe, 1984.

'Baboon and Maid', *Studien zu Sprache und Religion Ägyptens* (Fs. Wolfhart Westendorf, Göttingen, 1984, ed. F Junge), 743–8, gyda 3 phlât.

**1985**

'Dirgelion Ynysoedd Hawaii', *Barn* 269, 06.1985, 208–211, gyda 6 llun.

'Problems with Pta-Sokar-Osiris Figures' (Abstract), ed. Sylvia Schoscke, Munich, 1985, 26.

'Problems with Pta-Sokar-Osiris Figures', presented to the 4th International Congress

of Egyptology, Sept. 1st, 1985. Cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn llawn, uchod, Rhan II, 6, gyda 2 blât.

**1986**

'Gold Leaf from the Shrine of Queen Tiye', *DE* 6, 1986, 7–10, with 1 fig.

'Some Facts about Maya's Tomb', *DE* 4, 1986, 17–25.

**1988**

'Euros Bowen a'r Gaeaf Caled', *Taliesin*, 63, 1988, 71–74. (Sonnir am ymweliadau a wnaeth y Parch. Euros Bowen, offeiriad a bardd, â gwersyll carcharorion rhyfel o'r Almaen ger y Bala, cyn y flwyddyn 1947).

**1989**

Review of M. Eaton-Krauss and E. Graefe, *The Small Golden Shrine from the Tomb of Tutankhamun* (Oxford, 1985), *JEA* 75, 1989, 271–3.

**1990**

'Y Stori Gyfriniol', *Taliesin* 69, 03.1990, 106–111 (stori sy'n ymwneud, i raddau, â'r Villa dei Misteri yn Pompeii).

'Y Celtiaid yn Stuttgart', *SWEP*, 19.04.1990.

**1991**

'Remarks concerning a coffin of the XXIst Dynasty', *DE* 19, 1991, 5–12, gydg 1 llun. Gw. Rhan Part II, 1985 uchod. Papur a gyflwynwyd, i ddechrau, i Drydedd Gyngres Gydwladol yr Eifftolegwyr yn Nhoronto.

**1992**

'Sgrôl o Lyfr Esther', *Y Faner*, 20.03.1992, 6–7, gyda lluniau.

(Mae'r sgrôl mewn ysgrifen gain Hebraeg yn Amgueddfa Wellcome yn Abertawe, a rhoddodd Kate gopi i Synagog Abertawe er cof am ei mam, Käthe Bosse, a fu farw yn Ravensbrück yn 1944. Derbyniwyd y rhodd ar ran y Synagog gan Dr Leonard Mars, darlithydd mewn anthropoleg ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe.)

'Anrheg i Synagog', *Y Cymro*, 16.09.1992, 5, gyda llun.

'Incense for the Aten', gyda 2 blât, *The Intellectual Heritage of Egypt*, astudiaethau a gyflwynwyd i L. Kákosy, gol. Ulrich Luft, *Studia Aegyptiaca*, 14, Budapest, 1992, 77–79. Traddodwyd y papur i'r 16eg Gynhadledd Gydwladol Eifftolegol yn Nhurin ar Fedi 6ed, 1991.

**1994**

Adolygiad o Véronique Dasen, *Dwarfs in Ancient Egypt and Greece* (Oxford, 1993), *Classical Review* 44, 1994, 116–17.

'The Qur'an in Salman Rushdie's Novel *The Satanic Verses*', *New Welsh Review* 7, 1994, 57–64. (= Part II, 11) (Nid yr un un ag erthygl Gymraeg ar yr un testun, a ymddangosodd yn ddiweddarach.)

'Salman Rushdie a'r Qurân', *Taliesin* 84, 1994, 59–69.

'Croesawu Waldo o'r Carchar: Trem ar hen Lun', *Barn*, 375, 04.1994, 15. (Cafodd y bardd a'r heddychwr Waldo Williams ei garcharu yn Abertawe am iddo wrthod talu treth incwm fel protest yn erbyn gorfodaeth filwrol. Yma croesewir ef gan Dr Pennar Davies ac eraill.)

*Five Ways of Writing between 2000 BC and AD 200*, pp. 24, with 15 photographs by Roger P. Davies. Pictures from the Swansea Wellcome Museum, No.3, 1994.

**1995**

*Cariadau*, Y Lolfa, Tal-y-bont, 1995, pp. 151. Naw stori fer.

**1996**

Adolygiad o P.G.P. Meyboom, *The Nile Mosaic of Palestrina: Early Evidence of Egyptian Religion in Italy* (Leiden, 1995), *Classical Review* 46, 1996, 282–4.

**1999**

(Wedi ei marw) 'Gwaith gan Rilke a fu'n Sail i Opera fodern yn Dresden, *Ysgrifau Beirniadol XXV*, gol. J.E. Caerwyn Williams, Dinbych, 1999, 126–9.

## ARCHAEOLEG LEOL

Mae'r mynych gyfeiriadau sy'n ymwneud ag archaeoleg leol (rhai cynhanesyddol, Rhufeinig, canol oesol a modern) yn deillio o waith yr awdur fel Curadur Anrhydeddus mewn Archaeoleg i Sefydliad Brenhinol De Cymru; yn aml cysylltwyd hwy ag arddangosfeydd a drefnwyd ganddi yn Amgueddfa Abertawe. Mae'r dehongli yn aml yn cyfeirio at gefndir lletach; ac olrheinir themâu Celtaidd weithiau i dystiolaeth archaeolegol Ewropeaidd, fel yn 'Y Celtiaid yn Stuttgart'; mae hi hefyd yn rhoi sylw, ar adegau, i'r dystiolaeth lenyddol Gymraeg. Yn y ddau faes yma cafodd gymorth gwerthfawr gan yr Athro D. Ellis Evans, a fu'n gyfaill cymwynasgar iddi yn Abertawe ac yn Rhydychen.

## CERDDI

Ceir mwy na hanner cant o'i cherddi, gan gynnwys rhai a ddyfynnir yma, yn ei chasgliad *Gedichte.* Mae'r rhan fwyaf yn Almaeneg, ond rhai yn Gymraeg. Cafodd y mwyafrif eu sgrifennu rhwng 1940 ac 1955.

Hefyd gan Kate Bosse-Griffiths
ac ar gael o'r Lolfa:

**CARIADAU**
Casgliad o storïau gonest am wahanol fathau o gariad, rhai yn gnawdol, rhai yn gymdeithasol, rhai yn gyfriniol.
0 86243 346 0
*£5.95*

**BYD Y DYN HYSBYS**
Cyfrinachau'r Dyn Hysbys, y dewin dysgedig a'r meddyg dawnus a fu'n gymaint ei ddylanwad yng Nghymru ar un adeg.
0 904864 24 3
*£5.95*

Am restr gyflawn o holl gyhoeddiadau'r Lolfa, mynnwch gopi o'n Catalog newydd — neu hwyliwch i mewn i'n gwefan:
**www.ylolfa.com.**